

# Pecyn Dogfennau



Mark James LLM, DPA, DCA  
Prif Weithredwr,  
Chief Executive,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD LLUN, 10 HYDREF 2016

**AT: HOLL AELODAU'R Y BWRDD GWEITHREDOL**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R Y  
**BWRDD GWEITHREDOL A GYNHELIR YN SIAMBR, NEUADD Y SIR AM  
10.00 AM, DYDD LLUN, 17EG HYDREF, 2016 ER MWYN CYFLAWNI'R  
MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM**

*Mark James*

**PRIF WEITHREDWR**



**AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA**

<b>Swyddog Democraidd:</b>	<b>Martin S. Davies</b>
<b>Ffôn (llinell uniongyrchol):</b>	<b>01267 224059</b>
<b>Ffacs:</b>	<b>(01267) 224911</b>
<b>E-bost:</b>	<b>MSDavies@sirgar.gov.uk</b>
<b>Cyf:</b>	<b>AD016-001</b>



**EICH CYNGOR arleinamdani**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)  
**YOUR COUNCIL doitonline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

# Y BWRDD GWEITHREDOL

## AELODAETH: 10 AELOD

Y Cynghorydd	Portffolio:
Y Cynghorydd Emlyn Dole	<b>Yr Arweinydd (Plaid Cymru)</b> Arweinyddiaeth a Strategaeth Gorfforaethol; Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol; Cynrychioli'r Cyngor - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Eiriolwr Gwleidyddol y Cyngor; Penodi'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Penderfynu ar Bortffolios yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Cyswllt â'r Prif Weithredwr
Y Cynghorydd David Jenkins	<b>Dirprwy Arweinydd - Adnoddau (Plaid Cymru)</b> Cyllid a'r Gyllideb; TGCh; Rheoli Eiddo / Asedau; Caffael; Budd-daliadau Tai; Refeniw; Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog a Chadeirio'r Bwrdd Gweithredol yn absenoldeb yr Arweinydd.
Y Cynghorydd Pam Palmer	<b>Dirprwy Arweinydd (Annibynnol)</b> Rheolwr Busnes y Cyngor; Hyrwyddwr Cymunedol; Ffocws Cwsmeriaid a Pholisi; Cyswllt â'r Heddlu; Diogelwch Cymunedol; Cynllunio Cymunedol Cyfiawnder Cymdeithasol/Trosedd ac Anhrefn; Hyrwyddwr Gwrth-dlodi; Cynaliadwyedd; Bioamrywiaeth; Llysgennad Ieuenctid; Materion Gwledig a Chadeirio'r Bwrdd Gweithredol yn absenoldeb yr Arweinydd.
Y Cynghorydd Hazel Evans	<b>Gwasanaethau Technegol (Plaid Cymru)</b> Sbwriel; Glanhau Strydoedd; Gwasanaethau Cludiant; Cynnal a Chadw Tiroedd; Gwasanaethau Adeiladau; Gwasanaethau Arlwygo; Gwasanaethau Gofalwyr Adeiladau; Glanhau Adeiladau; Cynlluniau Argyfwng; Llifogydd.
Y Cynghorydd Meryl Gravell	<b>Adfywio a Hamdden (Annibynnol)</b> Datblygu Economaidd; Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru; Datblygu Cymunedol; Chwaraeon; Canolfannau Hamdden; Amgueddfeydd; Llyfrgelloedd; Parc Gwledig
Y Cynghorydd Gareth Jones	<b>Addysg a Phlant (Plaid Cymru)</b> Ysgolion; Gwasanaethau Plant; Anghenion Addysgol Arbennig; Diogelu; Cartrefi Seibiant; Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol; Addysg i Oedolion a Dysgu Cymunedol; Gwasanaethau Ieuenctid; yr Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc; Llysgennad yr Eisteddfod
Y Cynghorydd Linda Evans	<b>Tai (Plaid Cymru)</b> Tai (Cyhoeddus a Phreifat); Cydraddoldeb; Materion Pobol Hŷn
Y Cynghorydd Jim Jones	<b>Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd (Annibynnol)</b> Gorfodi Materion Amgylcheddol; Sbwriel; Gwastraff Di-drwydded; Baw Cŵn; Gwasanaethau Parcio; Safonau Masnach; Iechyd yr Amgylchedd.
Y Cynghorydd Mair Stephens	<b>Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio (Annibynnol)</b> Adnoddau Dynol; Hyfforddiant; Compact Simpson; Cyllidebu ar Sail Blaenoriaeth; Y Tîm Effeithlonrwydd Corfforaethol; Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg; Llysgennad Cynghorau Tref a Chymuned.
Y Cynghorydd Jane Tremlett	<b>Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Annibynnol)</b> Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion; Gofal Preswyl; Gofal Cartref; Anableddau Dysgu; Iechyd Meddwl; Cysylltu/ Cydweithredu/Integreiddio â'r GIG; Hyrwyddwr Gofalwyr; Llysgennad Anabledd; Hyrwyddwr Gofal Dementia; Hyrwyddwr 50+ a Chynrychiolydd Grwp Llywio

# AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.
3. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFODYDD Y BWRDD  
GWEITHREDOL A OEDD WEDI'U CYNNAL AR Y DYDDIADAU  
CANLYNOL YN GWIR:-
  - 3.1 26AIN GORFFENNAF 2016; 5 - 62
  - 3.2 16EG MEDI 2016. 63 - 66
4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU
5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD
6. GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF GWYRDD O D? I D? 67 - 84
7. CAM 1 RHAGLEN ADEILADU TAI FFORDDIADWY NEWYDD  
2016-2017. 85 - 108
8. ADOLYGIAD CWRICWLWM 11-19 SIR GAERFYRDDIN. 109 - 178
9. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG. 179 - 214
10. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS  
A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2016 I MEHEFIN  
30AIN 2016. 215 - 230
11. ADOLYGU NIFER Y CYNGHORWYR CYMUNED SY'N  
CYNRYCHIOLI WARD PONT-IETS A WARD LLANGYNDEYRN AR  
GYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN. 231 - 240
12. ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU  
2018 - CYNIGION CYCHWYNNOL. 241 - 336
13. DATBLYGU MODELAU ERAILL AR GYFER DARPARU  
GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION - Y  
WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y PROSIECT. 337 - 342
14. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD  
AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN  
FATER BRYN YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF  
LLYWODRAETH LEOL, 1972.



**EICH CYNGOR arleinamdani**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

**YOUR COUNCIL doitonline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)



**DYDD MAWRTH, 26AIN GORFFENNAF 2016**

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd E. Dole [Cadeirydd]

**Y Cyngorwyr:**

H.A.L. Evans, L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens a J. Tremlett

**Yn bresennol mewn perthynas â Chofnod 8:**

Y Cyngorydd A.P. Cooper, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd

**Yn bresennol fel sylwedyddion:**

Y Cyngorwyr S.M. Caiach, D.M. Cundy, T. Devichand, J.S. Edmunds, W.G. Hopkins, P. Hughes Griffiths, B.A.L. Roberts, G. Thomas a J. Williams.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

Mr M. James	-	Y Prif Weithredwr
Mr C. Moore	-	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Mr J. Morgan	-	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
Ms R. Mullen	-	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
Mr R. Sully	-	Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Mr P. Thomas	-	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol
Ms W. Walters	-	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol
Mr I. Jones	-	Y Pennaeth Hamdden
Mr S. Pilliner	-	Y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianeg
Ms L. Rees Jones	-	Y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
Mr G. Morgans	-	Y Prif Swyddog Addysg
Mr S. Davies	-	Y Rheolwr Moderneiddio Ysgolion
Mrs D. Hockenull	-	Y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
Mr I. Llewellyn	-	Y Rheolwr Blaen-gynllunio
Mr G. Williams	-	Cyfreithiwr Cynorthwyol
Mrs M. Evans Thomas	-	Pen-swyddog Gwasanaethau Democraataidd
Mr M. Hughes	-	Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 a.m. - 12.50 p.m. a 1.50 p.m. - 3.30 p.m.**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cyngorydd L.D. Evans	19 - Polisi Amser o'r Gwaith (Enghreifftiol) ar gyfer Ysgolion	Ei merch yn athrawes yn y sir.

Y Cynghorydd G.O. Jones	19 - Polisi Amser o'r Gwaith (Enghreifftiol) ar gyfer Ysgolion	Ei wraig yn dysgu yn y sir.
Y Cynghorydd J. Tremlett	23 - Maes Parcio Cyhoeddus Newydd Arfaethedig, Stryd y Brenin, Talacharn	Perchen eiddo yn Stryd y Brenin, Talacharn.

### 3. COFNODION

#### 3.1. 20FED MEHEFIN, 2016

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol oedd wedi ei gynnal ar 20<sup>fed</sup> Mehefin, 2016, gan eu bod yn gywir.

#### 3.2. 4YDD GORFFENNAF, 2016

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol oedd wedi ei gynnal ar 4<sup>ydd</sup> Gorffennaf, 2016, gan eu bod yn gywir.

### 4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau. Fodd bynnag, yr oedd wedi cael gwybod gan y Cynghorwyr D.M. Cundy, T. Devichand a J.S. Edmunds eu bod yn dymuno gofyn cwestiynau ynghylch eitem 7 ar yr agenda, felly byddid yn rhoi sylw i'r rhain o dan yr eitem briodol yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

### 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

#### 5.1. CWESTIWN GAN MRS KAREN HUGHES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWETHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

*"Bu nifer o fethiannau yn y broses ymgynghori, gyda'r pennaeth yn cyfaddef ar 26<sup>ain</sup> Ebrill iddynt fod yn naif ynglŷn â'r broses ymgynghori. Derbyniom ohebiaeth yn cadarnhau bod yr ysgol yn ymwybodol o gynnig gan yr Awdurdod Addysg Lleol ym mis Medi 2014, a llythyr dilynol o gynnig ym mis Ionawr 2015 i'r ysgol sy'n cyfeirio at 5 mater a gytunwyd fel pecyn yr oedd yn rhaid eu cymryd fel cyfanwaith. Gan fynnu bod yn rhaid i'r pecyn gael ei dderbyn gan y llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Lleol fel cyfanwaith ac eisoes wedi'i dderbyn ym mis Chwefror 2015, y mae'n gwneud inni feddwl a oedd y fargen hon eisoes wedi'i tharo. Pam na wnaed hyn yn hysbys i'r holl randdeiliaid ym mis Medi 2014 gan ddangos didwylledd a thryloywder?"*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â'r Côt Trefniadaeth Ysgolion statudol. Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant wedi bod yn trafod â chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol ers rhai blynnyddoedd ynghylch potensial y cynnig presennol, ac mae'r partiön wedi bod yn cyfnewid gohebiaeth. Mae'r*

*Adran wedi dangos gohebiaeth ynghylch y mater hwn i'r gwrthwynebwyr, gan amlygu ei bod yn agored ac yn dryloyw. Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion gyfrifoldeb statudol dros eu hysgolion, ac mae trafodaethau rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgolion ynghylch cynigion i newid pethau yn cychwyn bob amser â thrafodaeth gyda'r gyrff llywodraethu. Cynhelir trafodaethau ac ymgynghoriadau gyda phobl eraill a grwpiau eraill ar yr adegau priodol yn y broses yn unol â'r disgwyliadau statudol.*

*Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i ei wneud hyd yn hyn ynghylch y cynnig hwn. Os bydd y Bwrdd Gweithredol yn penderfynu camu ymlaen i'r cam nesaf yn y broses, drwy gyhoeddi hysbysiad statudol, bydd cyfle arall i'r partion sydd â buddiant gyflwyno eu sylwadau, a gaiff eu hystyried yn llawn cyn penderfynu'n derfynol ar y mater.*

*Bwriad yr ohebiaeth rhwng y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant a'r gyrff llywodraethu oedd bod y partion hyn yn cytuno ar egwyddorion y cynnig ac ar y modd y gellid ei weithredu, gan roi sylw hefyd i ffactorau eraill, megis sut y gellid rhoi sylw i'r diffyg lle yn yr ysgol fabanod a sut y gallai'r cyllid lles cynllunio oedd ar gael ar gyfer yr ardal gael ei ddefnyddio mewn modd defnyddiol.*

*Yn ei llythyr ar 29<sup>ain</sup> Ionawr 2015 at Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Fabanod Llangennech, yr anfonwyd copi ohono at Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Iau Llangennech, roedd y Cyfarwyddwr wedi datgan yn glir y bydd yn rhaid i'r Cyngor Sir gynnal proses statudol i ffurfio ysgol gynradd newydd yn lle'r ddwy ysgol bresennol, i ymestyn ystod oedran yr ysgol ac i sefydlu'r ysgol newydd fel ysgol Gymraeg ei chyfrwng, gan danlinellu'r heriau amseryddol o ran cwblhau'r broses statudol.*

*Hefyd roedd y llythyr yn cyfeirio at ymrwymiad i ddarparu ystafell ddosbarth ddwbl symudol ychwanegol er mwyn darparu rhagor o le yn yr ysgol fabanod (mae hyn wedi'i wneud bellach) ac yn cytuno i ryddhau arian lles cynllunio i'w fuddsoddi yn yr ysgolion, drwy gytundeb gyda'r Adran. Mae'r ffaith fod yr adeilad modwlar newydd wedi ei godi yn yr ysgol yn amlygu nad yw'r elfen hon yn gysylltiedig â'r cynnig statudol.*

*Felly mae'r cyfeiriad yn llythyr y Cyfarwyddwr at "becyn ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth sector cynradd" yn dangos yn eglur fod ymgais i gael cytundeb o ran egwyddor.*

*Mabwysiadwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ffurfiol yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 28<sup>ain</sup> Gorffennaf 2014, a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod hwnnw gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 10<sup>fed</sup> Medi 2014. Mae'n amlwg felly taw Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw polisi'r Cyngor. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn amlinellu'r strategaeth eang ar gyfer datblygu'r iaith yn y gwasanaeth addysg. Pan fo cynnydd yn golygu bod angen newidiadau mewn ysgolion unigol o ran cyfran y cwricwlwm a addysgir drwy'r naill iaith neu'r llall, bydd proses statudol yn ofynnol, gan gynnwys ymgynghori ynghylch pob cynnig penodol. Dyna beth sy'n digwydd yn Llangennech ar hyn o bryd."*

**Gofynnodd Mrs Hughes y cwestiwn atodol canlynol:-**

*“A ydych chi'n cytuno faw dim ond esgus rhoi sylw i bobl a wnaeth y broses ymgynghori, ac nad oes gwir bryder am y gymuned yn gyffredinol nac am ddiwallu ei hanghenion?”*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Rwyf yn meddwl y byddaf yn cyfeirio at rai o'r pwyntiau y bu ichi eu codi wrth imi ymdrin â'r cwestiynau eraill dilynol, felly os nad ydych chi'n fodlon ar yr atebion a ddaw, dewch yn ôl ataf a rhoddaf ateb ichi."*

**5.2. CWESTIWN GAN MR STEVE HATTO I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*“Rydym wedi cyfnewid gohebiaeth helaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin gydag un pwnc yn ymwneud â'r risgiau diogelwch sydd ynghlwm wrth gludo disgyblion i Ysgolion Cyfrwng Saesneg eraill. Un o'r prif bryderon yw y byddai teuluoedd nad ydynt yn gallu gyrru yn gorfod cerdded gyda'u plant bach am dros 2 filltir ym mhob tywydd, yn dibynnu ar ble yn Llangennech y maent yn byw. Byddai'n rhaid iddynt groesi heol brysur 40 milltir yr awr a thair ffordd ymuno/ymadael â'r draffordd i gyrraedd eu hysgol benodedig. Ond safbwynt yr Awdurdod Addysg Lleol ar y mater hwn yw mai dewis y rhieni yw peidio â chofrestru ein plant yn Llangennech ac felly cyfrifoldeb y rhieni yw cludo eu plant i ysgolion eraill. Ond mae'r Cyfrwng Saesneg yn cael ei dynnu'n ôl gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Nid dewis rhieni yw tynnu'r plant o Langennech, ond gweithred a orfodir aniom i fynd â'n plant i Ysgol Cyfrwng Saesneg addas. Ni all pob plentyn ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg am amryw resymau. Ond mae 170 o leoedd gwag cyfrwng Cymraeg ar gael yn yr ardal leol ym Mrynsierfel a Ffwrnnes. Ond mae'r tair ysgol cyfrwng Saesneg arall, y Bryn, y Bynea a'r Hendy, eisoes y tu hwnt i'w capasiti. Nid oes ystyriaeth wedi'i rhoi i'r 91 o dai sy'n cael eu codi yn yr Hendy, na'r 700 a mwy o dai sydd yn yr arfaeth ym Mhontarddulais a hefyd y Bynea. Mae'n siŵr y byddai hyn yn cael effaith fawr ar yr ysgolion cyfagos. Ar hyn o bryd gall unrhyw deulu yn Llangennech sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg ddewis bod eu plentyn yn cael ei addysgu yn y naill neu'r llall o ieithoedd swyddogol Cymru. Onid yw'r dewis addysgol hwn yn yr ysgol leol yn cael ei waredu, ac oni wahaniaethir yn erbyn pobl sydd am i'w plentyn gael ei addysgu yn un o'r ieithoedd swyddogol? Os yw'r Cyfrwng Saesneg i'w dynnu'n ôl, a allwch esbonio sut mai dewis rhieni yw hyn? A ble y byddwch yn darparu Addysg Cyfrwng Saesneg amgen i'n plant?”*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Cynnig yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yw y dylai'r ddarpariaeth i'r holl ddisgyblion yn y dyfodol yn Ysgol Gynradd newydd Llangennech fod trwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy'n digwydd yn llwyddiannus eisoes mewn llawer o ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin, ac y dylai'r plant lleol fynychu ysgol Llangennech.*

*Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol, mae'r cynnig yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er*

*mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol, a gynhwyswyd hefyd yn yr adroddiad.*

*Dymuniad y Cyngor Sir yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol, a chred yr Adran y bydd ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng yn Llangennech yn dal i gynnig addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion.*

*Bwriad yr Adran yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn ysgol Llangennech ac yn dal i gael eu haddysg drwy gyfrwng y trefniadau iaith presennol tan iddyn nhw adael i fynd i'r ysgol uwchradd. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maen nhw'n cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol.*

*Yr unig rwymedigaeth sydd ar y Cyngor Sir o ran hwyluso dewis y rhieni yw pan fo'r dewis hwnnw'n gyson â darparu addysg mewn modd effeithiol a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Nid oes gan yr un rhiant hawl i fynnu lle mewn ysgol benodol i'w blentyn neu i'w blant. Caiff y lleoedd yn yr ysgolion eu dyrannu ar sail polisi derbyn disgyblion cyhoeddedig y Cyngor, sy'n ffafrio bod plant yn mynychu eu hysgol leol neu ysgol "ddynodedig". Ar gais y rhieni caiff plant eu derbyn mewn ysgol heblaw eu hysgol ddynodedig a hynny pan fo lleoedd ar gael ac yn unol â'r meini prawf o ran gor-alw yn y polisi derbyn disgyblion cyhoeddedig.*

*Nid yw'r Cyngor Sir yn cynnig dewisiadau eraill heblaw ysgol Llangennech ar gyfer y plant lleol. Dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol, bod y plant lleol yn y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref gan dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bod Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng dysgu ar gyfer rhai gwersi eraill yn ystod y blynyddoedd olaf yn yr ysgol.*

*Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddan nhw'n gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys safonau'r ysgolion eraill, y goblygiadau o ran cludiant, ac ati. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill nad ydyn nhw'n ysgol ddynodedig nac yn ysgol agosaf, cyfrifoldeb llawn y rhieni yw cludo eu plant i'r ysgol.*

*Barn yr Adran, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod pob plentyn yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.*

*Mae'n wir bod rhai lleoedd gwag yn Ysgol y Ffwrnes ac Ysgol Brynsierfel ar hyn o bryd. Codwyd adeilad newydd Ysgol y Ffwrnes i sicrhau bod digon o le yno er mwyn diwallu'r rhagamcanion yn ardal Llanelli, lle mae'r galw am addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn cynyddu dros y*



*blynyddoedd diwethaf. Roeddid yn llwyr gydnabod y byddai lleoedd gwag yn Ysgol y Ffwrnnes adeg ei hagog, ond y byddai'r rhain yn cael eu llenwi dros ychydig flynyddoedd.*

*Ar sail y ceisiadau am leoedd ym mis Medi 2016, mae'r Adran yn disgwyl y bydd 400 o blant yn mynychu Ysgol Gymraeg y Ffwrnnes y flwyddyn nesaf, sydd â lle i 480 o ddisgyblion; a bydd dosbarthiadau'r blynyddoedd cynnar yn llawn neu bron â bod yn llawn, gan amlygu y bydd yr ysgol yn llawn ymhen ychydig flynyddoedd. Y disgwyl yw y bydd cyfanswm o 209 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Brynsierfel ym mis Medi, sydd â lle i 243 o ddisgyblion.*

*Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ymdrechu i reoli'r lleoedd gwag yn eu hysgolion, a hynny o fewn goddefiant o 10% ar draws yr holl ysgolion, gan dderbyn bod y niferoedd mewn ysgolion unigol yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau. Yn ôl y Côt Trefniadaeth Ysgolion "mae rhai lleoedd dros ben yn angenrheidiol er mwyn galluogi ysgolion i ymdopi â'r amrywiadau o ran niferoedd disgyblion". Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gormod o leoedd gwag mewn ysgol unigol os oes ganddi fwy na 25% o leoedd gwag. Nid yw Ysgol y Ffwrnnes nac Ysgol Brynsierfel yn perthyn i'r categori hwn.*

*Mae'r cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion gan y Cyngor hwn yn rhoi ystyriaeth yn rheolaidd i ddatblygiadau tai yn y dyfodol ac i'r galw am leoedd mewn ysgolion y gall y datblygiadau hyn ei greu. Nod cynigion y Cyngor ar gyfer ysgolion Llangennech yw bod y plant lleol yn mynychu ysgol Llangennech yn y dyfodol. Nid yw'n fwriad gan y Cyngor fod unrhyw blentyn lleol yn ceisio am le mewn ysgol y tu hwnt i Langennech, ac eithrio o ran yr achosion prin mewn perthynas ag angen dysgu ychwanegol penodol pryd y bydd y Cyngor yn cydweithio â'r rhieni i glustnodi'r trefniant mwyaf priodol. Am y rheswm hwnnw, nid oes cyfeiriad yn y ddogfen ymgynghori at ddatblygiadau tai posibl yn yr Hendy nac mewn unrhyw ardal ysgol arall.*

*Bydd y Cyngor Sir yn dal i fonitro'r galw am leoedd yn Ysgol yr Hendy, yn enwedig mewn perthynas â'r datblygiadau tai newydd sy'n cael eu codi yn y cyffiniau, a bydd yn ymateb mewn modd priodol. Mae darpariaeth yn Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ar gyfer buddsoddi yn Ysgol yr Hendy yn y tymor canolig er mwyn helaethu a moderneiddio adeiladau a chyfleusterau'r ysgol, a dylai fod modd cysoni'r buddsoddiad hwn â'r angen am gynyddu'r lleoedd petai galw am hynny.*

*Mae disgwyl y caiff y fersiwn adneuol drafft o Gynllun Datblygu Lleol Dinas a Sir Abertawe ei gyhoeddi yn ystod haf 2016 er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Mae'r cynllun drafft hwn yn cynnwys dyraniad sylweddol o fwy na 700 o unedau preswyl ym Mhontarddulais. Mae'r trafodaethau gyda swyddogion Dinas a Sir Abertawe yn cadarnhau eu bod yn bwriadu datblygu ysgolion yng nghymuned Pontarddulais er mwyn diwallu'r holl alw fydd yn deillio o Gynllun Datblygu Lleol yr awdurdod maes o law, fel sy'n ofynnol gan yr amserlen ddatblygu. Mater i awdurdod lleol Abertawe ei ddatrys yw hwn."*

### **Gofynnodd Mr Hatto y cwestiwn atodol canlynol:-**

*"Petai rhieni plant sy'n cael eu haddysgu yn ffrwd Saesneg yr ysgol ar hyn o*

*bryd yn penderfynu bod angen i frodyr neu chwiorydd y plant hynny gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg, byddai angen eu cymryd i ysgol arall, a hynny efallai y tu hwnt i'r sir. Ni fyddai'r cyfryw rieni'n gallu bod mewn dau fan ar yr un pryd. Byddai'n rhaid iddyn nhw dynnu'r plentyn neu'r plant hynaf o Ysgol Gymunedol Llangennech er mwyn sicrhau bod modd cwblhau'r daith i'r ysgol. A fyddai rhwymedigaeth wedyn ar y sir am y trefniadau teithio i'r ysgol newydd?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Dewis y rhieni fyddai hynny felly ni fyddem yn atebol am gludiant i'r ysgol newydd."*

### **5.3. CWESTIWN GAN MS JULIA REES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"O'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Addysg Leol, mae'n amlwg bod y ffigurau wedi cael eu trin gan unigolion i gryfhau sefyllfa benodol. Mae 121 o ddisgyblion yn yr ysgol nad ydynt yn byw yn Llangennech. Ond mae yna 96 o blant o'r pentref sy'n teithio i ysgolion eraill y tu allan i'r ardal. Mae 81 ohonynt yn mynychu ysgol cyfrwng Saesneg. Os bydd yr 81 o blant yn gallu mynychu eu hysgol gymunedol, yna byddai'r ffigurau yn adlewyrchu mwy o angen 50/50 ar gyfer Saesneg a Cymraeg yng nghymuned Llangennech. Mae rhieni a oedd yn dymuno ceisio cyfrwng Saesneg yn y gorffennol yn Llangennech wedi cael eu troi i ffwrdd oherwydd yr oedd yr ysgol yn llawn. Ond nid oedd hyn yn wir a brofodd rhai rhieni hyn mewn tribiwnlys ac yna cafwyd eu dderbyn yn ysgol Llangennech. Pam gwrthodir lle yn y cyfrwng Saesneg pan oedd y cynhwysedd y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yn hanner y cynhwysedd y dosbarthiadau Cymraeg? A sut y gall yr ysgol rhoi cyhoedduswydd i'w nodweddion gwyrdd pan fydd yn mynd ati i cefnogi cludo nifer fawr o ddisgyblion i mewn ac allan o'r pentref?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*Y ffigurau a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, o ran niferoedd y disgyblion, yw'r rheiny a oedd yn bodoli ar adeg y cyfrifiad statudol blynyddol o ddisgyblion ym mis Ionawr 2015.*

*Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer mis Ionawr 2016 fel a ganlyn:*

#### **Ysgol Fabanod Llangennech**

*Cyfanswm nifer y disgyblion yw 210, gyda 161 o blant yn byw yn y dalgylch a 49 o ddisgyblion yn byw y tu allan i'r dalgylch.*

#### **Ysgol Iau Llangennech**

*Cyfanswm nifer y disgyblion yw 236, gyda 175 o blant yn byw yn y dalgylch a 61 o ddisgyblion yn byw y tu allan i'r dalgylch.*

**Y Ddwy Ysgol Gyda'i Gilydd**

Gyda'i gilydd y cyfanswm ar gyfer y ddwy ysgol yw 446, gyda 336, neu 75% yn byw yn y dalgylch a 110 o blant, neu 25% yn byw y tu allan i'r dalgylch.

Ym mis Ionawr 2016, roedd 96 o blant sy'n byw o fewn dalgylch ysgolion Llangennech yn mynychu ysgolion eraill. O blith y rhain, roedd 16 o blant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, 7 yn mynychu ysgolion dwy ffrwd a 73 yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda nifer sylweddol o blant, 39 ohonyn nhw, sef dros hanner y rheiny a oedd yn gadael y dalgylch, yn mynychu ysgol y Bryn. Roedd 3 o'r plant yn mynychu ysgolion ffydd.

Mae'n berthnasol nodi oherwydd cyfluniad dalgylch ysgolion Llangennech, fod nifer sylweddol o blant sy'n byw yn ne'r dalgylch yn byw yn agosach at ysgolion eraill nag ydyn nhw i ysgolion Llangennech. Yn amlwg ymhlith y rhain mae Ysgol y Bryn sy'n derbyn 39 o blant o ddalgylch Llangennech sy'n byw naill ai ar Heol Penllwyngwyn, Parc Hendre, Harddfau, Bryn Uchaf a Heol Pendderi neu'n agos atyn nhw ac o ganlyniad yn byw yn llawer agosach i'r ysgol hon.

Mae ysgolion Llangennech yn gallu darparu lle i'r holl blant sy'n byw o fewn y dalgylch. Mae'r plant hyn yn cael blaenoriaeth dros blant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch dan y polisiau derbyn sefydledig.

Nid oes yr un plentyn o ddalgylch ysgolion Llangennech wedi cael gwrthod lle yn ysgolion Llangennech gan y Cyngor Sir fel yr Awdurdod Derby statudol.

Mae'r Nifer Derbyn a gyhoeddwyd ar gyfer ysgolion Llangennech yn berthnasol i'r ysgol gyfan ac nid yw'n ystyried dewis iaith. Yr awdurdod lleol yn unig fel y corff derbyn statudol sy'n gallu derbyn plant i'r ysgolion. Nid oes hawl gan ysgolion i dderbyn disgyblion eu hunain nac i wrthod lle. Nid yw'r Cyngor Sir wedi gwrthod lle i unrhyw blentyn sy'n byw o fewn y dalgylch, beth bynnag yw'r dewis iaith.

Mae'n gyffredin i ddisgyblion symud rhwng dalgylchoedd ysgolion a hynny ledled y sir yn yr ardaloedd gwledig a threfol.

Mae ysgolion yn cael eu categoreiddio yn ôl asesiad sy'n rhan o'r fframwaith cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn ystyried y safonau a gyflawnwyd gan y disgyblion, presenoldeb y disgyblion, ansawdd yr arweinyddiaeth yn yr ysgol a gallu'r ysgol i wella. Nid yw'r fframwaith categoreiddio yn ystyried materion megis iaith neu drefniadau derbyn."

### **Gofynnodd Ms Rees y cwestiwn atodol canlynol:-**

"Rydych yn dweud na wrthodwyd lle i blant yn Ysgol Llangennech ar sail dewis iaith, felly a fyddwch cystal ag esbonio pam y gwrthodwyd rhoi lle i'm dau fab yn Ysgol Fabanod Llangennech er bod 29 o leoedd gwag yn y ffrwd Saesneg yn eu blwyddyn ac er bod 11 yn fwy na nifer y lleoedd yn y ffrwd Gymraeg. Eto roedd y llythyr gwrthod yn dweud bod y ffrwd Saesneg "yn llawn ac y byddai derbyn disgybl arall yn ychwanegol at y niferoedd presennol yn peri anawsterau dybryd i'r ysgol". Sut y gellir dehongli hyn ond fel ymgais fwriadol i addasu'r ffigurau er mwyn ffafrio addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar draul addysg drwy gyfrwng y Saesneg?"

**Ymateb y Cyngorydd G.O Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**



"Nid wyf yn ymwybodol o hynny, a bydd yn rhaid imi gael rhagor o wybodaeth; yn bendant byddaf yn ymchwilio i'r mater i gael gweld beth sy'n digwydd."

#### **5.4. CWESTIWN GAN MRS MICHAELA BEDDOWS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Anghenion Addysgol Arbennig: Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig sydd fel arfer yn cael eu cynghori i fynd i ffrwd cyfrwng Saesneg neu iaith y cartref yn unig. Mae plant sydd ag oedi cyffredinol yn cael trafferth gydag un iaith heb sôn am ddwy, felly drwy waredu'r ffrwd ddeuol byddai hyn yn eithrio'r plant hyn rhag mynychu'r ysgol. Ni all plant sydd ag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig ymdopi â newid mewn trefn, felly petaent yn cychwyn ac wedyn yn cael trafferth mewn ysgol Cyfrwng Cymraeg ac wedyn yn gorfod symud i ysgol Cyfrwng Saesneg, byddai'r newid hwnnw yn cael effaith enfawr amynt. Mae llawer o blant sydd ag anawsterau dysgu, yn arbennig Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig, yn teimlo'n ynysig iawn hyd yn oed mewn amgylchedd â chymorth. Pe cânt eu gwneud i fynychu ysgol y tu allan i'r ardal byddai hyn yn eu hynysu hyd yn oed yn bellach o'r gymuned yn ei chyfanrwydd. Sut yr esgeuluswyd hyn a pham na aethpwyd i'r afael â hyn?"*

#### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Mae modd gwneud hyn yn y rhan fwyaf o ddigon o'r achosion, sydd o fudd i'r holl blant.*

*Er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol.*

*Er mwyn gallu sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu, mae'r gyfundrefn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Cynigir addysg mewn ysgol neu uned arbenigol i'r plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth pan na fo lleoliad prif ffrwd yn addas i'w hanghenion neu pan fo'n well gan y rhieni leoliad arall. Mae gan rai ysgolion uwchradd a chynradd ledled y sir unedau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion penodol, megis awtistiaeth, namau synhwyraidd, neu oedi o ran lleferydd ac iaith. Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol. Er ei bod yn well gan y Cyngor ddiwallu anghenion yr holl blant mewn ysgol brif ffrwd pryd bynnag y bo modd, nid yw hyn yn ymarferol bob amser.*

*Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan*

gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi'i datblygu gryfaf i gefnogi a hybu dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf. Mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol ac er mwyn sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i'r staff dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni. Trefnir bod y plentyn yn mynychu ysgol briodol lle gellir diwallu ei anghenion. Mae'n bosibl ar adegau prin na ellir diwallu anghenion plentyn yn yr ysgol leol, er gwaethaf ymrwymiad y Cyngor i addysg gynhwysol, gan ei bod yn syml ddigon yn anymarferol inni ddarparu ar gyfer pob angen ym mhob ysgol. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant wedi ymwneud â dim ond un neu ddau achos yn flynyddol pryd y cyngorwyd bod y plentyn yn symud i ysgol arall. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae cyfundrefn ysgolion Sir Gaerfyrddin yn gwasanaethu cyfanswm o ryw 27,000 o ddisgyblion, felly prin iawn yw'r troeon y mae disgyblion yn symud oherwydd anghenion dysgu ychwanegol.

Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n amrywio o ran eu gallu, yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol.

O ran y cynnig ar gyfer Llangennech, bydd y ddarpariaeth a roddir yn yr ysgolion i'r plant presennol sydd ag anghenion ychwanegol yn parhau drwy gyfrwng yr iaith y maen nhw'n cael eu haddysg ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig, bydd yr holl ddisgyblion yn y dyfodol yn cael y cymorth hwn drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, gan wneud addasiadau priodol er mwyn diwallu anghenion ychwanegol unigol y disgyblion."

#### **Gofynnodd Mrs Beddows y cwestiwn atodol canlynol:-**

"Gan ei bod yn ymddangos bellach fod gan y Cyngor bolisi gorfodi'r Gymraeg, a yw hi hefyd yn bolisi erbyn hyn gan y Cyngor - o ran cynhwysiad y plant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn Llangennech - fod hyn ond yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant sy'n siarad Cymraeg. Felly bydd plant sydd angen addysg Saesneg yn cael eu hanfon yn ddiangen o'u hysgol gymunedol i unedau arbennig neu ysgolion arbennig, a hynny'n syml ddigon oherwydd rhwystr ieithyddol."

#### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

"Carwn gyfeirio'n ôl at ran o'm hateb. Efallai ei bod yn briodol ar adegau inni dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Rwyf am roi pwyslais ar y gair 'prin'."

## 5.5. CWESTIWN GAN MR KARL HARRIES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd Mr Harries yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a'i fod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei ran.

*"Rwyf yn rhiant i 3 o gyn-ddisgyblion Ysgol Llangennech ac yn dad-cu i ddau o'r disgyblion presennol. Mae gan un o'm hwyrion anableddau dysgu ac roedd yn ddeiriau yn 4 oed. Bu i bob un o'm plant fynychu Ysgol Llangennech drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan nad yw fy ngwraig na finnau'n siarad Cymraeg, fe'u gwelsom yn straffaglu ac nid oeddem yn gallu eu helpu. Roeddem yn teimlo'n ddiymadferth, ac ni fyddem yn dymuno hynny ar unrhyw riant, heb sôn am riant plentyn ag anableddau dysgu. Mae hon yn dasg ddirdynnol ac anodd iawn, heb ychwanegu rhwystr ieithyddol ati. Hoffwn ofyn a ellir cyflwyno tystiolaeth wirioneddol, ac nid tybiaethau a'r defnydd cyson o'r gair 'credu', er mwyn profi honiadau bod addysg cyfrwng Cymraeg mor llwyddiannus, os nad yn fwy llwyddiannus, nag addysg cyfrwng Saesneg i blant sydd ag anabledd dysgu? Gan ganolbwyntio ar blant sydd ag anableddau dysgu sylweddol, plant dieiriau, a hefyd plant ag anableddau o gartrefi di-Gymraeg."*

### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*Mae'n flin gennyf glywed am brofiadau Mr Harries gyda'i blant a'i wyrion yn yr ysgol yn Llangennech ac rwyf yn mawr obeithio bod eu hamgylchiadau'n llawer gwell erbyn hyn. Fodd bynnag cefais wybod gan swyddogion proffesiynol y Cyngor nad yw profiad teulu Mr Harries yn nodweddiadol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin. Mae cyffredinol'n anodd bob amser wrth ystyried amgylchiadau plant sydd ag anabledd corfforol neu anabledd dysgu gan fod anghenion plentyn unigol yn gallu bod yn benodol iawn.*

*Hefyd mae'n anodd cyflwyno tystiolaeth absoliwt, fel y gofynna Mr Harries, oherwydd nad ydym yn rhydd i gyhoeddi gwybodaeth am amgylchiadau plant unigol. Felly mae'n rhaid inni ddibynnu ar gyffredinol mewn trafodaeth megis hon, gan dderbyn ei bod yn debygol bob amser fod eithriad y gellid cyfeirio ato.*

*Gallaf ddweud wrth Mr Harries ac eraill fod y sylwadau cyffredinol y gallaf eu cynnig yn seiliedig ar gyngor swyddogion proffesiynol profiadol. Hefyd gallaf ddweud yn gwbl hyderus fy mod yn dyst uniongyrchol i ymroddiad ein swyddogion wrth iddyn nhw gynorthwyo plant sydd ag anghenion ychwanegol, ac i ofal y swyddogion wrth ymwneud â phlant.*

*Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi ei datblygu gryfaf i gefnogi a hybu dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf.*

*Mae'n ofynnol i'r staff yn yr ysgolion a'r staff peripatetig wahaniaethu'r cwricwlwm a*

gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol ac er mwyn sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i'r staff dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd.

Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni. Trefnir bod y plentyn yn mynychu ysgol briodol lle gellir diwallu ei anghenion. Mae'n bosibl ar adegau prin na ellir diwallu anghenion plentyn yn yr ysgol leol, er gwaethaf ymrwymiad y Cyngor i addysg gynhwysol, gan ei bod yn syml ddigon yn anymarferol inni ddarparu ar gyfer pob angen ym mhob ysgol.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant wedi ymwneud â dim ond un neu ddau achos yn flynyddol pryd y cynghorwyd bod y plentyn yn symud i ysgol arall. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae cyfundrefn ysgolion Sir Gaerfyrddin yn gwasanaethu cyfanswm o ryw 27,000 o ddisgyblion, felly prin iawn yw'r troeon y mae disgyblion yn symud oherwydd anghenion dysgu ychwanegol.

*I gloi ni allaf ond dweud unwaith eto fy mod yn flin fod Mr Harries yn teimlo nad yw'r ymagwedd hon wedi llwyddo'n ddigon da yn achos ei deulu."*

#### **5.6. CWESTIWN GAN MR DARREN SEWARD I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDSG A PHLANT**

*"Rydych wedi datgan eich bod, fel Awdurdod, yn ceisio cynyddu nifer y disgyblion dwyieithog yn Sir Gaerfyrddin a'ch bod wedi llunio polisi er mwyn gweithredu'r strategaeth hon. Gwnaethom gysylltu â Mr Sully ar 29ain Mehefin i ofyn am wybodaeth ynghylch pa ysgolion oedd wedi bod yn destun y broses hon eisoes, cyn Llangennech, a pha ysgolion fyddai'n destun yr un broses ar ôl Llangennech. Yn ei ymateb dywedodd Mr Sully, ac rwyf yn dyfynnu, 'Nid oes gan y sefyllfa mewn ysgolion eraill unrhyw berthynas â'r cynnig ar gyfer Llangennech'. A fydddech cystal ag amlinellu bod gorfodi addysg cyfrwng Cymraeg yn Llangennech yn rhan o strategaeth bolisi ehangach a ddilynir gan yr Awdurdod?"*

#### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*Mae'r cynnig ar gyfer yr ysgolion yn Llangennech yn gyson â rhaglen strategol y Cyngor Sir i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu pobl ifanc ddwyieithog ledled Sir Gaerfyrddin, fel yr amlinellwyd hynny yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin.*

*Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.*

*Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr*



ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Mae'r strategaeth yn mynnu bod gweithredu'n digwydd o ran 73 o bwytiau, y mae 21 ohonyn nhw'n ymwneud â'r gwasanaeth addysg. Mae'r holl argymhellion a champau gweithredu perthnasol yn y strategaeth wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Cynllun yn ceisio cael y canlyniadau canlynol penodol o ran y cynnig ar gyfer ysgol Llangynnech:

- Cynyddu nifer y dysgwyr 7 oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cael rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Cael rhagor o fyfyrwyr sydd â sgiliau iaith da yn Gymraeg.

Hefyd mae'r Cynllun yn ceisio cyrraedd y nodau a chael y canlyniadau penodedig drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Bod y Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda staff a Chyrff Llywodraethu ysgolion ffrydiau deuol Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt ddod yn ysgolion Cymraeg.
- Targedu tair o ysgolion dwy ffrwd gyda golwg ar iddynt fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn 2017.

Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwmm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol gynradd.

Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyl am gynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgolion yn Llangynnech wedi'u nodi fel rhai sydd â'r potensial i symud yn gyflym i fod yn gyfrwng Cymraeg oherwydd y cynnydd yn niferoedd y ffrwd Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, fel y tystia'r data. Yn ogystal, mae safonau'r ddwy ysgol wedi bod yn gyson dda, gan amlygu bod y plant yn llwyddo'n dda yn yr holl bynciau ac yn gallu ffynnu drwy gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **Gofynnodd Mr Seward y cwestiwn atodol canlynol:-**

"A fedrwn chi roi gwybod inni pa ysgolion sydd wedi bod yn destun y rhaglen drochi, pa rai sydd ar fin dilyn yr un broses a phryd yn union y bwriedir i hynny ddigwydd?"

#### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

"Gwaetha'r modd, ni allaf drafod beth mae ysgolion unigol eraill yn ei wneud; mater i'w cyrff llywodraethu yw hynny ac nid wyf mewn cysylltiad â'r cyrff llywodraethu hynny ar hyn o bryd."

## **5.7. CWESTIWN GAN MS NIKKI LLOYD I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd Ms Lloyd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a'i bod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei rhan.

*"Yn gyffredinol, ystyrir bod newid yn beth da i gymuned neu sefydliad. Ystyrir bod newid er mwyn newid yn unig yn wrthgynhyrchiol. Dylid osgoi newid os nad oes galw am hynny ar bob cyfrif. Yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth diweddar ynghylch y cyflenwad a'r galw o ran llyfrau Cymraeg yn llyfrgell Llangennech, rhoddwyd y wybodaeth ganlynol inni.*

*Llyfrau Saesneg mewn stoc 5,186 - 13,909 o fenthyciadau yn ystod y flwyddyn = mae'r galw dros ddwywaith y stoc.*

*Llyfrau Cymraeg mewn stoc 531, sef 10% y stoc Saesneg - 414 o fenthyciadau yn ystod y flwyddyn = mae'r galw'n llai na'r stoc.*

*Nifer y benthyciadau = 14,440. Nifer y benthyciadau Cymraeg = 2.8% o'r holl lyfrau*

*Yn ôl y darn ymchwil cymharol syml hwn, yn ogystal â cheisio cynllunio'n gymdeithasol newid o fewn yr ysgol, rydych hefyd drwy eich gweithredoedd yn ceisio cynllunio'n gymdeithasol gymuned nad yw'n galw am ymagwedd gwbl Gymraeg ac nad yw'n gwyro at ymagwedd o'r fath ychwaith. A ydych chi'n cytuno?"*

### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Er taw nod pennaf y cynigion er newid yn ysgolion Llangennech yw gwella canlyniadau addysgol y disgyblion, gallai yn sgil hynny fod o fudd o ran bod mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ymhen amser. Byddai hyn yn ganlyniad i'w groesawu ym mam y Cyngor Sir.*

## **5.8. CWESTIWN GAN MR NIGEL HUGHES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWETHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Mae rhieni wedi clywed llawer o wrth-ddweud o ran yr ieithoedd addysgu yn y dosbarthiadau derbyn, gan beri dryswch a gofid iddynt ynghylch yr effaith bosibl y mae'r sefyllfa hon yn ei chael ar eu plant. Yn ddiweddar gwnaed datganiad gan Gareth Jones a oedd yn gwrthbrofi'r honiadau fod 'Ysgol Babanod Llangennech wedi gweithredu'n anghyfreithlon o ran darpariaeth iaith yn y Cyfnod Sylfaen.' Dywed 'Mae'r Cyngor Sir am sicrhau'r holl rieni fod yr honiad hwn yn gwbl anwir. Mae'r ddarpariaeth yn yr ysgol yn gwbl briodol, mae'r ysgol yn parhau i berfformio i safonau uchel ac mae'r disgyblion yn cael deilliannau da.' Diddorol yw nodi nad yw'r datganiad hwn yn taflu goleuni ar ddim mewn gwirionedd...yn hytrach mae'n ychwanegu at y dryswch.*

*Yn y cyfarfod Craffu ar 23ain Mai 2015, dywedodd Mr Rob Sully fod y*

*Dosbarthiadau Derbyn yn Gymraeg, ond yn y cyfarfod i rieni newydd rai wythnosau'n ôl dywedwyd wrth yr athrawon eu bod yn cael eu haddysgu yn Saesneg a Chymraeg.*

*Hefyd mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dweud wrth rai rhieni sydd wedi cysylltu ag ef fod y dosbarthiadau derbyn yn rhai lle addysgir yn Gymraeg. Cymraeg yn unig yw gwaith cartref a llyfrau darllen y plant.*

*Mae gennym bryderon fod ffigurau wedi'u gweithio ac nad oedd y Ffrwd Saesneg yn gostwng yn naturiol a bod, yn hytrach, rwystrau wedi'u rhoi yn ffordd y rhieni i gyflawni'r nod Cyfrwng Cymraeg. A oedd yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r wybodaeth anghywir a ddarparwyd i rieni ynglŷn â'r dosbarthiadau derbyn a'r farn wahanol? Hefyd a yw'r Awdurdod yn gallu cadarnhau'r dyddiad y bu i hyn newid i Gymraeg, pwy wnaeth gynnig hyn, a sut y rhoddwyd gwybod am hyn i'r sawl yr oedd yn effeithio arnynt, megis y rhieni?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Rwyf yn glynu wrth y datganiad a roddais i'r wasg ychydig wythnosau'n ôl, y mae Mr Hughes yn cyfeirio ato, ynghylch y trefniadau yn yr ysgol fabanod. Hefyd rwyf o'r farn fod cynnwys fy natganiad yn glir iawn. Roedd fy natganiad yn datgan "**nad** oedd Ysgol Fabanod Llangennech wedi gweithredu'n anghyfreithlon", ac nid yr hyn a ddywedir yn y cwestiwn ysgrifenedig. Y trefniant presennol yn yr ysgol yw y dysgir holl ddisgyblion y dosbarthiadau derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, ac y defnyddir Saesneg fel cyfrwng hwyluso yn ôl anghenion y plant unigol. Ar hyn o bryd mae gan rieni disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ddewis o ran gosod eu plant naill ai yn y ffrwd Gymraeg neu yn y ffrwd Saesneg.*

*Cyflwynwyd y trefniadau hynny yn sgil cynnal trafodaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni. Roedd un o swyddogion y Cyngor yn rhan o'r trafodaethau ar gais yr ysgol. Gan fod y fenter hon wedi'i hyrwyddo gan yr ysgol, nid wyf yn gallu cadarnhau pryd y cyflwynwyd y trefniadau. Mae'r holl wybodaeth a ffigurau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r cynnig yn gywir.*

*Nid wyf i na'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn ymwybodol fod y rhieni wedi cael unrhyw wybodaeth ffug honedig."*

**Gofynnodd Mr Hughes y cwestiwn atodol canlynol:-**

*"Pwy fydd yn atebol am y cam hysbysebu hwn sy'n peri bod plant yn gadael yr ysgol, a bod y gwir yn dod i'r golwg a bod y gwir wedi'i gollu?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Deallaf eich pryderon a'ch sylwadau. Ni wn am y neges e-bost, a byddaf yn ymdrin â'r mater hwnnw ar ôl darllen y neges e-bost."*

**5.9. CWESTIWN GAN MS KAZ DEACON I'R CYNGHORYDD GARETH JONES AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd Ms Deacon yn gallu bod yn bresennol yn y

cyfarfod heddiw a'i bod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei rhan.

*"Mae tudalen 28 o'r ddogfen Ymgynghori yn nodi bod yr holl blant yn nosbarthiadau Derbyn 1 a Derbyn 2 Ysgol Fabanod Llangennech yn y cyfrwng Cymraeg. A fydddech cystal â chadarnhau'r union ddyddiad y bu i'r categori iaith newid o fod yn ddwyieithog i fod yn gyfrwng Cymraeg ar gyfer y dosbarthiadau hyn?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Cyflwynwyd y trefniadau i drochi plant yn yr iaith Gymraeg yn y dosbarthiadau derbyn yn sgil trafodaethau rhwng yr ysgol a'r rhieni, ynghyd â rhywfaint o gyngor gan un o swyddogion y Cyngor. Gan fod y fenter hon wedi'i hyrwyddo gan yr ysgol, nid wyf yn gallu cadarnhau pryd y cyflwynwyd y trefniadau.*

**5.10. CWESTIWN GAN MR ROBERT WILLOCK I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Ar y rhaglen 'Week in Week Out', dywedodd y Cyngorydd Campbell, ac rwyf yn dyfynnu "Dengys ymchwil dros flynyddoedd lawer fod y niferoedd cyfrwng Cymraeg yn gostwng pan fyddwch yn rhoi dewis. Felly mae gennych ddilema, os ydych yn rhoi dewis mae llai o bobl yn dewis cyfrwng Cymraeg am wahanol resymau, ond trwy fod elfen o orfodaeth rydych yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc fod yn ddwyieithog." A hynny er bod gorfodaeth ar y lefel hon o ran diffyg dewis yn mynd yn groes i erthygl 2 o brotocol cyntaf y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. A ydych yn cytuno â sylwadau'r Cyngorydd Campbell?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*Wrth wneud ei sylwadau yn ystod y rhaglen deledu y cyfeiriodd Mr Willock ati, roedd y Cyngorydd Cefin Campbell yn mynegi ei farn bersonol am y mater hwn, ac wrth wneud hynny rwyf yn disgwyl ei fod yn seilio ei farn ar ei brofiad fel ymgynghorydd iaith ac addysg proffesiynol, a oedd yn meddu ar wybodaeth am y sefyllfa ledled Cymru.*

*Yn ein profiad ni yn Sir Gaerfyrddin mae cynnydd wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran nifer y rhieni, ac o ran y ganran ohonyn nhw, sy'n well ganddyn nhw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data'n tystio i hyn ac, yn wir, yn adlewyrchu'r sefyllfa yn ysgolion Llangennech, lle mae nifer a chanran y disgyblion sydd yn y ffrwd Gymraeg wedi bod yn cynyddu tra bo nifer a chanran y disgyblion yn y ffrwd Saesneg wedi bod yn lleihau.*

*Rwyf wedi cael gwybod nad yw cynigion y Cyngor o ran y mater hwn yn mynd yn groes mewn unrhyw fodd i gyfreithiau Ewrop na'r gyfraith ddomestig.*

*Yn fy marn i mae dewis yn fater pwysig wrth ystyried y cynnig hwn, a'r agwedd bwysicaf oll o ran dewis yw'r dewis sydd ar gael i blant wrth iddyn gamu ymlaen drwy eu haddysg a'u bywydau cynnar. Mae cynnig y Cyngor i ddatblygu plant fel eu bod yn ddwyieithog erbyn iddyn nhw adael yr ysgol gynradd yn rhoi dewis i*



*blant wrth iddyn nhw gamu ymlaen i'r ysgol uwchradd. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu plant dwyieithog yn y sector cynradd yw eu trochi mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabyddir yn gyffredinol yn y proffesiwn addysg nad yw astudio Cymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog."*

**Gofynnodd Mr Willock y cwestiwn atodol canlynol:-**

*"A yw'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn dod i'r cyfarfod hwn â'i lygaid ynghau a'i feddwl yn gaeedig?"*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Yn bendant nac ydwyf; rwyf yma fore heddiw i ateb eich cwestiynau ac i fod mor onest ag y gallaf i fod yn eu cylch."*

**5.11. CWESTIWN GAN MR DEAN BOLGIANI I'R CYNGHORYDD  
GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS  
ADDYSG A PHLANT**

*"Er amlygu manteision posibl dwyieithrwydd ym meysydd iechyd a chyflawniadau addysgol, mae Llangennech yn ysgol ddwyieithog sydd wedi ennill baner werdd. Yn sicr, dylai'r awdurdod lleol fod yn canolbwyntio ar gynyddu Cymraeg o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg a'u gwneud yn rhai Dwy Ffrwd o bosibl. Byddai hyn yn cynyddu ac yn hyrwyddo dwyieithrwydd yng ngwir ystyr y gair, gan roi mwy o ddewisiadau i rieni ar yr un pryd. Byddai'r math hwn o strategaeth yn cwmpasu canran uwch o boblogaeth ysgolion Sir Gaerfyrddin, ac mae'n ymagwedd sy'n uno yn hytrach na rhannu. A allwch esbonio pam y mae Llangennech yn cael ei thargedu o dan y polisi newydd?"*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae gan Gyngor Sir Gaerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu targedau ar gyfer ei amcanion.*

*Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-2017 Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf. Mae'r Cynllun yn ceisio cael y canlyniadau canlynol penodol o ran y cynnig ar gyfer ysgol Llangynnech:*

- Cynyddu nifer y dysgwyr 7 oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cael rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Cael rhagor o fyfyrwyr sydd â sgiliau iaith da yn Gymraeg.

*Hefyd mae'r Cynllun yn cynnwys y nod canlynol:*

- Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau

parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r Cynllun yn ceisio cyrraedd y nodau a chael y canlyniadau penodedig drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Bod y Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda staff a chyrff llywodraethu ysgolion ffrydiau deul Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Targedu tair o ysgolion dwy ffrwd gyda golwg ar iddynt fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn 2017.

Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwmm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol gynradd.

Clustnodwyd bod potensial yn ysgolion Llangennech i gamu'n gyflym ar hyd y continwmm iaith. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y plant yn y ffrwd Gymraeg wedi cynyddu'n gyson ac mae nifer y plant yn y ffrwd Saesneg wedi bod yn lleihau, felly mae'r symudiad tuag at ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ysgol yn gam naturiol ymlaen. Mae safonau'r ddwy ysgol wedi bod yn gyson dda, gan amlygu bod y plant yn llwyddo'n dda yn yr holl bynciau ac yn gallu ffynnu drwy gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg."

#### **Gofynnodd Mr Bolgiani y cwestiwn atodol canlynol:-**

"Onid yw'r darpar ddysgwyr a'r dysgwyr Cymraeg ail iaith hyn o werth o ran hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, ac a roddwyd ystyriaeth iddyn nhw yn yr asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg?"

#### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant**

"Nid yw Saesneg yn cael ei thynnu o Ysgol Llangennech, caiff Saesneg ei dysgu fel pwnc hyd at safon uchel iawn, iawn, a dyna sy'n digwydd yn yr ysgolion hyn. Yn bendant bydd Saesneg yn brif elfen yn yr ysgol, ac fe'i defnyddir hefyd i addysgu a chefnogi pynciau eraill.

#### **5.12. CWESTIWN GAN MS ORLA WILLIAMS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWETHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

"Mae astudiaethau rhyngwladol wedi dangos mai dim ond statws cyfartal cynhwysol o ieithoedd deul sydd wir yn cynyddu'r defnydd o'r ddwy iaith ymysg oedolion ifanc. Nid yw polisi presennol Cyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru o eithrio teuluoedd di-Gymraeg yn gost-effeithiol, ac nid yw'n hyrwyddo'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol. A yw'r Cyngor yn ymwybodol fod canran uchel o'r rheiny sy'n gadael y ffrwd Saesneg a Chymraeg ddeuol yn Llangennech yn mynd ymlaen i wneud yn dda mewn TGAU Cymraeg ac yn dal ati i astudio

*Cymraeg neu bynciau dewisol drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Bryngwyn a Choleg Sir Gâr?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel y'i dyfynnir gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau a gyhoeddwyd ganddi, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra datblygir hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.*

*Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod rhai plant o Ysgol Iau Llangennech wedi dewis mynychu ysgolion uwchradd megis Bryngwyn, ac er nad yw'r ysgol hon yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng yn ôl ei chategori mae wedi bod yn helaethu ei darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynnig dewis helaethach i ddysgwyr. Mae'r Cyngor Sir yn canmol Ysgol Bryngwyn am ei hagwedd flaengar at ddarparu dewis iaith, ac mae'n cymhell ysgolion uwchradd eraill i gyflwyno rhaglenni tebyg.*

*Y pwynt pwysig o ran hyn o beth yw bod gan y plant yn ysgolion Llangennech sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, wrth iddyn nhw gamu ymlaen i'r ysgol uwchradd, ddewis o ran cyfran yr addysg uwchradd a astudir ganddyn nhw drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fyddai ganddyn nhw'r dewis hwn pe bydden nhw heb gael eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf.*

*Bydd y disgyblion yn y ffrwd Saesneg wedi dilyn rhaglen astudio Cymraeg ail iaith hyd at TGAU a bydd y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi ennill cymhwyster yn y pwnc hwn. Cydnabyddir yn gyffredinol bellach nad yw astudio Cymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog. Yn wir mae'r diwygiadau o ran y cwricwlwm sydd ar waith ledled Cymru yn cydnabod hyn, a bydd safonau newydd o ran medrusrwydd yn y Gymraeg yn cael eu pennu yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.*

**Gofynnodd Ms Williams y cwestiwn atodol canlynol:-**

*"Petai gan Gyngor Sir Caerfyrddin wir ddiddordeb mewn cynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn modd cynhwysol, gan gwmpasu teuluoedd di-Gymraeg, oni fyddech chi wedi datblygu strategaethau clir a fyddai'n datblygu dysgwyr y tu hwnt i 11 oed, ac a fyddai'n peri bod cynnydd o ran niferoedd y siaradwyr Cymraeg, fel fi?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae polisi ar gyfer ysgolion uwchradd hefyd. Mae'r polisi hwnnw'n cael ei ddatblygu - mae Bryngwyn yn esiampl benigamp, ac mae ysgolion eraill yn Llanelli yn dilyn yn yr un modd hefyd."*

**5.13. CWESTIWN GAN MS SARAH MARTIN I'R CYNGHORYDD  
GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWETHREDOL DROS  
ADDYSG A PHLANT**

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd Ms Martin yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a'i bod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei rhan.

*"Ar dudalen 138 o'r adroddiad ymgynghori, mae'r crynodeb/casgliad gan Estyn yn nodi "Ym marn Estyn, mae'r cynnig i uno'r ddwy ysgol yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn rhoi digon o fanylder am yr opsiynau a'r trefniadau amgen ar gyfer disgyblion sy'n dymuno dilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg pe bai'r ffrwd Saesneg yn cau yn Ysgol Llangennech." Mae'r adroddiad yn nodi dro ar ôl tro mai dewis rhieni fydd anfon eu plentyn i rywle arall, ond eto ni thelir costau a chredir bod y ddarpariaeth Saesneg amgen yn llawn. Hefyd mae ymateb llywodraeth leol i Estyn ar dudalen 140 yn cydsynio â hyn gan nodi "...nid yw'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith diweddu'r ffrwd Saesneg ar y disgyblion sy'n dymuno dilyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith honno". Er bod y disgyblion presennol yn cael eu hystyried, pa ddewisiadau ymarferol sydd gan fyfyrwyr y dyfodol nad ydynt am ddilyn addysg Gymraeg a sut gall y Cyngor gyfiawnhau cynnig nad yw'n cael ei gefnogi gan Estyn a llywodraeth leol?"*

### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae'r Cyngor Sir wedi cydnabod sylwadau Estyn ac wedi ymateb yn yr Adroddiad Ymgynghori drwy gyfeirio at ddyhead y Cyngor ynghylch bod yr holl blant lleol yn mynychu'r ysgol leol yn Llangennech. Fodd bynnag, petai rhai rhieni yn dewis anfon eu plant i ysgolion eraill, mae'r Cyngor wedi clustnodi dewisiadau posibl o ran ysgolion eraill y gallai rhieni gyflwyno cais iddyn nhw. Mae esiamplau o ysgolion eraill cyfagos ond mae rhai eraill ar gael. Pan fo Estyn yn ymateb i gynnig ynghylch trefniadaeth ysgolion, nid yw'n cefnogi nac yn gwrthwynebu cynnig. Bydd Estyn yn mynegi barn am ei ddehongliad o effaith cynnig ar y ddarpariaeth i blant. Yn gwbl allweddol o ran hyn o beth mae Estyn wedi datgan barn sef bod "y cynnig i uno'r ddwy ysgol yn debygol o gynnal y safonau addysgol presennol". Gan gofio bod safonau'r ddwy ysgol bresennol yn dda, dylai'r farn hon gan Estyn roi tawelwch meddwl i'r rhieni. Mewn gwirionedd y testun ar dudalen 140 o'r Ddogfen Ymgynghori, sy'n cyfeirio at "yr ymateb gan Lywodraeth Leol", yw ymateb yr awdurdod lleol hwn, Cyngor Sir Caerfyrddin, i'r sylwadau gan Estyn yr oedd angen rhagor o eglurhad amyn nhw. Ymddiheuraf os nad oedd hynny'n gwbl glir."*

### **5.14. CWESTIWN GAN MRS LAURA PEARCE I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd Mrs Pearce yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a'i bod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei rhan.

*"Yn ystod y cyfarfod diwethaf roedd yn glir fod y pwyllgor / cadeirydd yn deall y manteision lu sy'n perthyn i ddwyieithrwydd o oedran cynnar, a sut y mae ysgol ddwy ffrwd yn cynnig hyn, a chyfeiriwyd at hynny dro ar ôl tro. I fod yn glir, ysgol ddwy ffrwd yw Ysgol Llangennech ar hyn o bryd, sy'n cynnig dwyieithrwydd yn lleol i blant o deuluoedd Saesneg a Chymraeg mewn cymuned glos. Mae tri o'm plant yn y ffrwd Saesneg neu wedi bod drwy'r ffrwd honno ac mae 2 yn y ffrwd Gymraeg. Mae'r dewis hwn wedi bod yn elfennol bwysig, yn dibynnu amyn nhw fel*

*unigolion (nid oes gan yr un anghenion arbennig). Yn syml, fy nghwestiwn yw hwn – sut yn y byd y gall gwaredu un iaith (Saesneg) o ysgol ddwy ffrwd (dwyieithog) fod yn fuddiol? Sut mae un iaith (Cymraeg) yn well na dwy (Cymraeg a Saesneg) gan mai 2 iaith yw hanfod dwyieithrwydd?”*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*“Mae strategaeth y Cyngor Sir yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel y'i dyfynnir gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau a gyhoeddwyd ganddi, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra datblygir hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.*

*Yn ogystal, mae'n bwysig nodi y datblygir hefyd sgiliau iaith Saesneg plant sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.*

*Ar ben hynny, mae'r dystiolaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ysgolion Llangennech yn dangos bod y plant yn y ffrwd Gymraeg yn cyrraedd safonau da o ran y Saesneg a'r Gymraeg. Fodd bynnag nid yw'r plant yn y ffrwd Saesneg yn cyrraedd yr un lefel o ran sgiliau Cymraeg wrth iddyn nhw ddilyn rhaglen astudio Cymraeg ail iaith.*

*Yn ogystal mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod plant o gartrefi di-Gymraeg sydd yn y ffrwd Gymraeg yn cael canlyniadau cyson dda yn yr holl bynciau, gan gynnwys Saesneg.”*

.....

**5.15. CWESTIWN GAN MRS MAUREEN JONES I'R CYNGHORYDD  
GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWETIHREDOL DROS  
ADDYSG A PHLANT**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd Mrs Jones yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a'i bod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei rhan.

*“Rwy'n gyn-ddisgybl o ysgol Llangennech, fy chwiorydd, fy merch, fy wyrion a gorwyrion wedi neu ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion Llangennech.*

*Os gwelwch yn dda y gallaf ofyn pam, ar ôl dros 60 mlynedd o addysg ddwyieithog lwyddiannus a addysgir drwy Saesneg a chyfrwng Cymraeg, flynyddoedd lawer o adroddiadau ardderchog, ac enw da, y mae cyngor Sir Caerfyrddin yn teimlo'r angen i rhannu gymuned agos, gyda'r ysgol yn ei galon a dieithrio y rhai sy'n dewis, yn aml am resymau cymdeithasol, personol neu oherwydd anabledd, addysg cyfrwng Saesneg ar gyfer eu phlant, gan hyrwyddo addusg ungnwyd.”*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**



*“Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor Sir yn ceisio sicrhau manteision dwyieithrwydd ar gyfer holl blant Sir Gaerfyrddin. Sefydlwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar sail y fframwaith polisi gan Lywodraeth Cymru, sy'n defnyddio tystiolaeth o ymchwil ryngwladol ynghylch manteision addysgol dwyieithrwydd, sy'n gallu cynnwys cryfhau sgiliau gwybyddol, gwell chwimder meddyliol, gwell canolbwyntio a'r gallu i ganolbwyntio ar amrywiaeth o dasgau, gan anwybyddu pethau a all ddenu'r sylw. Y tu hwnt i addysg, mae ymchwil yng Nghanaada yn awgrymu y gall dwyieithrwydd helpu i oedi symptomau dementia. Rwy'n disgwyl, a hynny mwyfwy yn y dyfodol, y bydd gan bobl ifanc yng Nghymru sy'n ddwyieithog ragolygon gyrfa ehangach na'u cyfoedion uniaith. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa.”*

*Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel y'i dyfynnir gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau a gyhoeddwyd ganddi, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra datblygir hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith. Yn fy marn i, dylai bob plentyn gael y cyfle i ddatblygu yn unigolyn ifanc dwyieithog o fewn y system addysg leol er mwyn rhoi'r cyfleoedd bywyd gorau posibl iddo a'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw drwy gyfrwng addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd.”*

**5.16. CWESTIWN GAN MS SALLY ANN THOMAS I'R CYNGHORYDD  
GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWETHREDOL DROS  
ADDYSG A PHLANT**

*“Yn yr hinsawdd hwn o gyni cyllidol, toriadau ac ansicrwydd, pam y mae CSC yn treulio cymaint o amser ac yn gwario cymaint o arian ac adnoddau gwerthfawr ar DDATRYYS ysgol LLE NAD OES PROBLEM? Mae Llangennech yn ysgol werdd, ddwyieithog, ddwy ffrwd llwyddiannus iawn a'i harwyddair yw "Addysg i BAWB". Oni fyddai'n well gwario'r arian a'r adnoddau hyn ar ysgolion cyfrwng Saesneg melyn ac ambr er mwyn sicrhau eu bod yn darparu addysg ddwy ffrwd ddwyieithog o safon uchel, fel y mae Llangennech yn ei wneud?”*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros  
Addysg a Phlant:-**

*"Mae'r Cyngor Sir yn hyrwyddo'r cynnig presennol ar gyfer addysg gynradd yn Llangennech gan ei fod yn barnu'n bendant taw hyn sydd orau o ran addysg y plant. Yn wir mae ysgolion Llangennech yn llwyddiannus iawn, ac amcan y cynnig yw gwella ymhellach y cyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgolion er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n dal i wella. Yn gyffredinol mae gweithredu ysgol ddwy ffrwd yn ddrutach na gweithredu ysgol uniaith, felly os bydd y cynnig yn llwyddiannus dylai roi bod i fwy o effeithlonrwydd ariannol ymhen amser."*

**5.17. CWESTIWN GAN MRS EMMA LOMAS I'R CYNGHORYDD  
GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS  
ADDYSG A PHLANT**

*“Yn dilyn yr adroddiad a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn ag ymatebion o'r broses ymgynghori cysylltodd nifer o rieni â ni i ddweud nad oedd*

eu profformâu wedi'u cynnwys yn y ddogfen er iddynt gael eu cyflwyno ac iddynt gael derbynebaw. O'r ymatebion a gafwyd, byddai'n ymddangos bod cefnogaeth gref dros gadw'r ddwy ffrwd gyda 154 o ymatebion wedi'u nodi a deiseb a lofnodwyd gan 505 o bobl (sydd eisoes wedi'i chyflwyno). Bu'r grŵp yn erbyn yn agored wrth rannu eu henwau a'u perthynas â'r ysgol, tra bod y grŵp sy'n ymgyrchu o blaid wedi parhau i weithredu'n ddirgel gan ddymuno peidio â chael eu henwi, gyda mwy na 30 o gyflwyniadau di-enw. Roedd llawer o'r ymgyngoreion a oedd o blaid newid yn gyn-athrawon, cynghorwyr a phenaethiaid, a staff presennol. Awgrymwyd mai cymharol gyfartal o blaid ac yn erbyn oedd yr ymatebion. Cymhareb cyfanswm y nifer yn erbyn o gymharu ag o blaid yw 5:1. Sut gall hyn gael ei ystyried yn gyfartal pan fo'r ymgyngoreion sy'n cefnogi'r newid yn ymddangos nad ydynt yn cynnwys llawer o farn rhieni, a'i bod yn ymddangos nad yw llawer o'r rhai yn erbyn y newid wedi'u cynnwys?"

### **Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

"Mae'r Adroddiad Ymgyngori oedd yn y papurau a roddwyd gerbron y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys yr holl sylwadau a ddaethai i law'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant erbyn dyddiad cau estynedig y cyfnod ymgyngori ar 18<sup>fed</sup> Mawrth 2016. Mae'r Adran wedi archwilio'r holl gyflwyniadau a ddaeth i law ac mae'n gallu cadarnhau'r sefyllfa honno, gan nodi bod tri ymatebydd wedi mynegi awydd i'w sylwadau beidio â bod ar gael i'r cyhoedd. Felly mae'r tri ymateb hyn wedi'u diystyru at ddibenion yr Adroddiad Ymgyngori.

Y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer cyflwyno ymatebion, a oedd wedi'i bennu yn unol â'r Côt Trefniadaeth Ysgolion, oedd 11<sup>eg</sup> Mawrth, 2016 ond, ar gais rhai pobl, cytunodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant i ymestyn y cyfnod ymgyngori am wythnos hyd at 18<sup>fed</sup> Mawrth er mwyn rhoi digon o amser i'r holl rai oedd a wnelon nhw â'r mater gyflwyno eu sylwadau. Mae tipyn o ohebu wedi parhau â gwahanol bobl oedd a wnelon nhw â'r mater a hynny ar ôl i'r cyfnod ymgyngori orffen, ond er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Côt Trefniadaeth Ysgolion ac er mwyn sicrhau bob pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn gyson, dim ond cyflwyniadau oedd wedi dod i law erbyn 18<sup>fed</sup> Mawrth a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Ymgyngori.

Mae'n rhaid, yn statudol, i'r penderfyniad ynghylch camu ymlaen neu beidio â'r cynnig gael ei wneud er lles pennaf y dysgwyr. Felly mae'n rhaid penderfynu ar sail y rhinweddau addysgol yn hytrach nag ar sail nifer yr ymatebion a ddaeth i law, boed o blaid neu yn erbyn y cynnig. Mae hawl i fynegi barn gan bob unigolyn a phob mudiad ni waeth beth fo'r statws unigol. Os teimla unrhyw unigolion neu fudiad eu bod wedi darparu cyflwyniad erbyn 18<sup>fed</sup> Mawrth 2016 ac nad yw'r cyflwyniad hwnnw wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Ymgyngori, mae gwahoddiad iddyn nhw ysgrifennu at yr Adran yn ffurfiol gan roi'r manylion ynghyd â darparu tystiolaeth o'r cyflwyniad.

Os bydd y cynnig yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses statudol bydd cyfle arall, ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol, gan yr holl rai sydd a wnelon nhw â'r mater i gyflwyno sylwadau i'r Cyngor Sir cyn y gwneir y penderfyniad terfynol."

### **Gofynnodd y Mrs Lomas y cwestiwn atodol canlynol:-**

"Mewn cymdeithas gyfiawn a theg, mae bod yn dryloyw ac yn agored yn hybu

*ymddiriedaeth. Sut y gellir ystyried bod y broses hon yn dryloyw ac yn deg pan fo cymaint o'r dystiolaeth yn amlygu cambwysleisio ystadegau a chamarwain rhieni gan y sawl yr ymddiriedir iddyn nhw ofal am eu plant."*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant**

*"Deallaf eich sylwadau ond mae popeth mor agored a thryloyw â phosibl."*

**5.18. CWESTIWN GAN MRS JACQUELINE SEWARD I'R  
CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD  
GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Cydnabyddir bod Cynulliad Cymru a arweinir gan y Llywodraeth Lafur wedi pennu gweledigaeth i gynyddu'r iaith Gymraeg yng Nghymru ar draws amryw agweddau ar fywyd. Mae'r Cynulliad wedi cadarnhau yn ysgrifenedig nad oes unrhyw dargedau wedi cael eu gosod o ran yr iaith Gymraeg, felly mater i bob Awdurdod Lleol yw sut y rhoddir hyn ar waith. Er enghraifft, mae gan siroedd De Cymru megis Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, a Chaerdydd bob o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n anelu at gynyddu Cymraeg heb ddefnyddio dulliau awdurdodus. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw elfennau cyflawnadwy o fewn unrhyw fanffesto gwleidyddol i newid drwy rym y dewisiadau iaith presennol mewn ysgolion cynradd yn y sir, heb ystyried y dewisiadau a ffefrir gan rieni a'r gymuned. A fydddech cystal â rhoi gwybod o dan ba fandad ac yn unol â pha addewidion a wnaed i'r etholwyr gan aelodau yr ymgwymerir â'r fenter hon?"*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fel sy'n wir am yr holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu targedau ar gyfer ei amcanion.*

*Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Mae'r strategaeth yn mynnu bod gweithredu'n digwydd o ran 73 o bwyntiau, y mae 21 ohonyn nhw'n ymwneud â'r gwasanaeth addysg. Mae'r holl argymhellion a champau gweithredu perthnasol yn y strategaeth wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin. Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir.*

*Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol, mae'r cynnig yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol, a gynhwyswyd hefyd yn yr adroddiad.*



*Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae ei gynnwys wedi bod yn destun craffu gan y cyhoedd yn unol â'r gofynion statudol.*

**Gofynnodd Mrs Seward y cwestiwn atodol canlynol:-**

*"A yw Plaid Cymru yn argymhell defnyddio polisiâu dwrn dur yn hytrach na pholisiâu democrataidd, ac ai'r nod yw cael gwared ag ysgolion cyfrwng Saesneg o'r sir?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Fe'ch clywais yn crybwyll Plaid Cymru ond roedd yn gytundeb trawsbleidiol a gytunwyd hefyd yng nghyfarfod y Cyngor Sir gan bawb."*

**5.19. CWESTIWN GAN MRS KATE WARNER I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, rhoddwyd cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i bob Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru lunio 'Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg' er mwyn gweithredu ei bolisi o ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Bu i Gyngor Sir Caerfyrddin gydymffurfio â chyfarwydddeb y Llywodraeth a llunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.*

*Os na weithredir y cynnig ar gyfer Ysgol Llangennech, does bosibl na fyddai'r Cyngor wedyn yn cydymffurfio â 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' ar gyfer Sir Gaerfyrddin, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. A yw'r dehongliad hwn yn gywir?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Yn fy mam i mae'r dehongliad a gynigiwyd gan Mrs Warner yn deg ac yn rhesymol. Mae'r Cyngor Sir hwn wedi datgan yn glir ei fwriad strategol i ddatblygu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gyhoeddwyd gan y Cyngor ac sydd wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn bolisi ffurfiol gan y Cyngor, ac mae'r cynnig ar gyfer yr ysgolion yn Llangennech yn seiliedig ar y polisi hwn."*

**5.20. CWESTIWN GAN MRS ELIN GRIFFITHS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Mae dwyieithrwydd yn cynnig nifer o fanteision ac mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant sy'n deall fwy nag un iaith gyda'r gallu i feddwl yn fwy hyblyg a chreadigol. Mae dwy iaith yn cynnig manteision economaidd wrth chwilio am swyddi yn y dyfodol, mae'n rhoi'r gallu i gyfathrebu gydag ystod ehangach o bobl,*

*y gallu i brofi dau ddiwylliant gwahanol ac yn rhoi i bobl y cyfle i fod yn rhan o bob agwedd o fywyd cymdeithasol. A ydy'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno na ddylai unrhyw blentyn fod dan anfantais yn addysgol, cymdeithasol ac yn economaidd, felly drwy gytuno i ysgolion Babanod ac Iau Llangennech i barhau ar hyd y continwmm iaith, y bydd sicrhad bod bob plentyn yn cael yr un manteision â'i gilydd?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Rwy'n cytuno â'r manteision o ran dwyieithrwydd a nodwyd gan Mrs Griffiths ac rwy'n cytuno i'r carn y dylai pob plentyn gael y cyfle i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Rwyf hefyd yn credu taw'r modd mwyaf effeithiol o sicrhau'r manteision hyn ar gyfer ein plant yw drwy addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd."*

**5.21. CWESTIWN GAN MR OWAIN GLENISTER I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Wrth ystyried y pwysau sydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ymateb i Fesur y Gymraeg 2011, hynny yw i ddarparu gwasanaethau craidd trwy gyfrwng y ddwy iaith, ydy'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried bod datblygu unigolion sydd gyda'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol mewn dwy iaith yn hanfodol fel strategaeth hir dymor wrth geisio datblygu gweithlu sydd yn medru darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Os felly, ydych chi'n teimlo bod y newid yma i Ysgol Llangennech yn mynd i roi gwell cyfle i blant ddatblygu i fod yn oedolion dwyieithog ac felly yn fwy tebygol o ddal swydd yn y sector gyhoeddus?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Rwy'n cytuno â Mr Glenister fod y cynigion ar gyfer ysgolion Llangennech, a sefydlwyd ar yr amcanion a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor Sir, yn cefnogi dysgwyr nid yn unig wrth ddatblygu eu sgiliau iaith yn Saesneg ac yn Gymraeg, ond hefyd o ran eu haddysg ehangach a'u datblygiad personol hefyd."*

*Mae'r safonau iaith newydd sy'n gymwys i'r holl gynghorau yng Nghymru ar hyn o bryd, a fydd yn eu tro yn gymwys ledled y sector cyhoeddus, yn cyflwyno galw ychwanegol o ran darparu gwasanaethau a fydd yn gofyn am niferoedd uwch o bobl â lefel uchel o sgiliau Cymraeg. Mae'n anochel felly, y bydd pobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog mewn gwell sefyllfa yn y farchnad swyddi na'u cyfoedion uniaith, ac o gymharu bydd eu rhagolygon gyrfya yn well."*

**Gofynnodd Mr Glenister y cwestiwn atodol canlynol:-**

*"O ystyried yr adroddiad diweddar gan Donaldson ynghyd â'r ffaith fod nifer o ystadegau cenedlaethol yn profi'n ddigamsyniol fod dwyieithrwydd yn fanteisiol, onid yw'n amserol felly ystyried bod addysg Gymraeg nid yn unig yn ffordd tuag at ddwyieithrwydd ond hefyd yn ffordd effeithiol o gryfhau'r ddealltwriaeth o'n diwylliant a'n treftadaeth."*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros**

## **Addysg a Phlant:-**

*"Bydd Adroddiad Donaldson yn hanfodol o ran datblygu addysg dros y degawd nesaf. Rwyf yn gobeithio bod gennym yr arweinwyr iawn yma yn Sir Gaerfyrddin i roi arweiniad o ran hyn o beth. Mae gennym ysgolion blaengar yn barod. Ac rwyf yn meddwl y bydd Sir Gaerfyrddin yn rhoi arweiniad o ran Adroddiad Donaldson yng Nghymru. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r adroddiad."*

### **5.22. CWESTIWN GAN MRS HELEN MAINWARING I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Gan mai Llafur oedd yn arwain y Cyngor pan gyhoeddwyd eich 'Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg 2014-2017' yn 2013 a nododd y bwriad i droi ysgolion dwy ffrwd yn ysgolion Cymraeg, a ydy ymrwymiad y Plaid Lafur i'r polisi hwn yn dal i fod yr un peth ac a allwn ni gael yr un sicrwydd nawr fod arweinyddiaeth y Cyngor wedi newid y bydd y Cynllun Strategol hwn yn dal i gael cefnogaeth y Cyngorwyr a'i weithredu yn yr un modd?"*

## **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Cafodd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor Sir ei fabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 10<sup>fed</sup> Medi gan ennyn cefnogaeth drawsbleidiol.*

*Mae gan weinyddiaeth bresennol y Cyngor Sir, sef clymblaid Plaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol, ymrwymiad o hyd i gynnwys y Cynllun a'i weithrediad. Nid yw'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys unrhyw gynghorwyr Llafur ar hyn o bryd.*

*Fel yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant, ac aelod o Grŵp Plaid Cymru, nid wyf yn gallu siarad ar ran aelodau Grŵp Llafur y Cyngor."*

## **Gofynnodd Mrs Mainwaring y cwestiwn atodol canlynol:-**

*"A allwch chi roi sicrwydd inni na chaiff y drafodaeth hon ei defnyddio at ddibenion gwleidyddol ac y bydd y cynghorwyr yn rhoi sylw iddi ar sail y gwaith ymchwil a'r dystiolaeth gadarn sydd o blaid manteision dwyieithrwydd, gan osgoi'r demtasiwn i ddefnyddio'r mater er budd gwleidyddol?"*

## **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:**

*"Ni allaf warantu hynny, ond gallaf roi sicrwydd o ran Plaid Cymru, a gwn y bydd ein plaid ni'n cefnogi hyn."*

### **5.23. CWESTIWN GAN MR HYWEL DAVIES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd Mr Davies yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a'i fod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei ran.

*“Ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol o'r ffaith fod ymrwymiad trawsbleidiol gan y Cynulliad i greu Cymru ddwyieithog a bod mwy a mwy o gyflogwyr yn chwilio am sgiliau dwyieithog wrth i ddeddfwriaeth ddiweddar fynnu bod cyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau yn newis iaith y cwsmer?”*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*“Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o fframwaith polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a safle'r Gymraeg o fewn addysg.*

*Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod dyletswyddau statudol ar yr holl gynghorau yng Nghymru o ran y Gymraeg a'i safle o fewn addysg. Mewn ymateb i hyn mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi paratoi ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac mae wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol fel polisi. Wrth wraidd y Cynllun mae rhaglen i ddatblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a gallu dwyieithog disgyblion ysgol.*

*Bydd dyfodiad Safonau'r Gymraeg ar gyfer holl gynghorau Cymru, ac ymhen amser ar gyfer y sector cyhoeddus, yn cynyddu pwysigrwydd sgiliau dwyieithog ar gyfer pobl ifanc yn y dyfodol ac yn fy marn i, bydd gan y rheiny sy'n meddu ar y sgiliau hynny well rhagolygon gyrfa.”*

**5.24. CWESTIWN GAN MRS CATHRIN JONES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*“Ydy aelodau'r Bwrdd Gweithredol wedi darllen am ymchwil ddiweddar yng Nghanada sy'n profi fod dwyieithrwydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymennydd yn hwyrach mewn bywyd drwy ei gadw'n effro a helpu lleihau'r tebygolrwydd o gael dementia?”*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*“Rwy'n ymwybodol o'r ymchwil yng Nghanada y cyfeirir ati oherwydd mae'n cael ei dyfynnu yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (2010) a chyfeirir ati yn aml mewn ymchwil ryngwladol arall wrth drafod dwyieithrwydd.*

*Ceir consensws ymhlith amrywiaeth o waith ymchwil a thystiolaeth ryngwladol bod dwyieithrwydd yn cynnig llawer o fanteision addysgol ar gyfer unigolion, yn cynnwys cryfhau sgiliau gwybyddol, gwell chwimder meddyliol, gwell canolbwyntio a'r gallu i roi ffocws ar amrywiaeth o dasgau, gan anwybyddu pethau all ddenu'r sylw. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa.”*

**5.25. CWESTIWN GAN MR MARTYN WILLIAMS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*“Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwy ffrwd mae pwyslais penodol ar ddatblygu Cymraeg trwy ddulliau trochi ar draws pob un o feysydd dysgu y Cyfnod Sylfaen, pa iaith bynnag y mae'r plentyn yn ei siarad gartref. Mae'r adroddiad*

*'Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen' gan Estyn, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013, yn nodi "bod y safonau o ran sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu y disgyblion yn debyg i'r rheiny mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg, ac yn unol â'r lefelau a ddisgwylir ar gyfer yr oedran hwnnw". Felly a yw'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno bod Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus o ran rhoi'r addysg gychwynnol orau posibl i blant o gartrefi Cymraeg a chartrefi Saesneg?"*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Rwyf yn cytuno, yn rhinwedd fy swyddogaeth fel yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant, fod trochi plant yn y Gymraeg yn ystod y Cyfnod Sylfaen yn cynnig y cychwyn gorau posibl i'w haddysg drwy roi cyfle iddyn nhw ddatblygu sgiliau cwbl ddwyieithog a'u galluogi i elwa ar y manteision addysgol eraill y mae gwaith ymchwil rhyngwladol wedi dangos sy'n dod i ran plant dwyieithog.*

*Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel y'i dyfynnir gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau a gyhoeddwyd ganddi, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra datblygir hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith."*

**5.26. CWESTIWN GAN MR MICHAEL REES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWETHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*Roeddwn i'n athro cynradd yn Sir Gaerfyrddin. Rwyf wedi ymddeol bellach a'm swydd olaf oedd Dirprwy Bennaeth mewn ysgol yn Llanelli. Hoffwn ofyn cwestiwn am gryfder addysg cyfrwng Cymraeg. Cafodd fy ngwraig a minnau ein magu mewn cartrefi uniaith Saesneg, fodd bynnag penderfynom y byddai ein plant yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel siaradwyr Saesneg, ni chawsom fel rhieni unrhyw broblemau o ran gwaith cartref ein plant. I'r gwrthwyneb, gan fod hynny wedi gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth. Yn ystod fy ngyrfa, fe wnes addysgu mewn ysgolion dwy ffrwd. Rwyf wedi gweld dros fy hun fod addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwy ffrwd yn fethiant llwyr, a bod ffrydiau deuol yn gwanhau'r Gymraeg, fel sydd mor amlwg ar y maes chwarae. A yw'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno â'm sylwadau mai'r addysg fwyaf effeithiol i greu plant dwyieithog cwbl rugl - o ran siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg a Chymraeg - yw addysg cyfrwng Cymraeg?*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Rwyf yn cytuno, yn rhinwedd fy swyddogaeth fel yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant, fod trochi plant yn y Gymraeg yn ystod y Cyfnod Sylfaen yn cynnig y cychwyn gorau posibl i'w haddysg drwy roi cyfle iddyn nhw ddatblygu sgiliau cwbl ddwyieithog a'u galluogi i elwa ar y manteision addysgol eraill y mae gwaith ymchwil rhyngwladol wedi dangos sy'n dod i ran plant dwyieithog.*

*Cydnabyddir yn gyffredinol bellach nad yw astudio Cymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog. Yn wir mae'r diwygiadau o ran y cwricwlwm sydd ar waith ledled Cymru yn cydnabod hyn, a bydd safonau newydd*



*o ran medruswydd yn y Gymraeg yn cael eu pennu yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.*

*Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel y'i dyfynnir gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau a gyhoeddwyd ganddi, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra datblygir hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith."*

**5.27. CWESTIWN GAN MRS RHIANEDD RHYS I'R CYNGHORYDD  
GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS  
ADDYSG A PHLANT**

*"Rhwyng 2000 a 2006, yr oedd y nifer o blant yn Ysgol y Ffwrnes wedi dyblu ac o ganlyniad i hyn ynghyd â rhesymau eraill, adeiladwyd ysgol newydd i sicrhau bod yna lefydd ysgol digonol ar gyfer y rhagamcaniadau yn y galw cynyddol naturiol gan rieni dros addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Llanelli. Gan fod y dosbarthiadau blynyddoedd cynnar estynedig hyn yn Ysgol Ffwrnes yn llawn neu'n agos at fod yn llawn ar gyfer Medi 2016, ydy'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno bod hwn yn dystiolaeth gadarn taw'r unig ffordd i sicrhau bod y galw cynyddol yma am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Llanelli, sy'n sicrhau bod plant yn gadael yr ysgol gynradd yn ddwyieithog, yw sicrhau bod Ysgol Babanod ac Iau Llangennech yn parhau ar hyd y continwwm iaith a newid i ysgol cyfrwng Cymraeg? "*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros  
Addysg a Phlant:-**

*"Yn 2008, cynhaliodd y Cyngor Sir ddarn o waith i asesu'r galw yn y dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg yn nhref Llanelli ac o'i chwmpas. Canfyddiad y gwaith hwn oedd bod y galw yn cynyddu a bod angen rhagor o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.*

*O ganlyniad, penderfynwyd buddsoddi mewn lleoedd cyfrwng Cymraeg newydd ac estynedig ledled y dref.*

*Manteisiodd y Cyngor ar y cyfle i ddarparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg y Ffwrnes er mwyn ehangu nifer y lleoedd yn yr ysgol honno, gan fwy na threblu maint yr ysgol. Ers agor yn 2014, mae'r ysgol wedi bod yn boblogaidd iawn, ac mae'r dosbarthiadau blynyddoedd cynnar yn yr ysgol naill ai'n llawn neu'n llawn iawn. Ym mis Medi 2016, disgwylir y bydd 400 o blant wedi'u cofrestru yn yr ysgol, o gymharu â chapasiti'r ysgol o 480. Ar sail y tueddiadau diweddaraf, disgwylir y bydd yr ysgol yn llawn yn y flwyddyn neu ddwy nesaf.*

*Hefyd mae'r Cyngor wedi darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Brynsierfel, lle mae niferoedd y disgyblion yn gadarn.*

*Credaf fod newid y categori iaith yn Llangennech yn gam naturiol ar gyfer yr ysgolion, a gwelir hyn yn y nifer cynyddol sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a fydd yn darparu cyfle cyson i blant ledled yr ysgol i ddatblygu yn ddysgwyr cwbl ddwyieithog erbyn iddyn nhw adael i fynd i'r ysgol uwchradd."*

**5.28. CWESTIWN GAN MRS MANON WILLIAMS I'R CYNGHORYDD  
GARETH JONES, AELDO O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS  
ADDYSG A PHLANT**

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd Mrs Williams yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a'i bod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei rhan.

*“Agorwyd Ysgol Dewi Sant, yr ysgol gynradd gyfrwng Gymraeg gyntaf yng Nghymru i gael ei chynnal gan awdurdod lleol, yn 1947. Ers hynny, mae addysg gyfrwng Gymraeg wedi ehangu'n sylweddol yng Nghymru, yn gyffredinol, nid o ganlyniad i'w hyrwyddiad gan awdurdodau lleol ond yn bennaf o ganlyniad i alw cynyddol gan rieni, fel sy'n dyst yn ysgolion Llangennech. Erbyn heddiw mae 387 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghymru ac mae hyn yn parhau i gynyddu'n raddol, ar yr un pryd bu cynnydd yng nghanran y plant oedran cynradd a fu'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg o 18.8% yn 2000/01 i 24% yn 2014/15. Wrth ystyried llwyddiant a manteision y fath hon o addysgu a dwyieithrwydd yn gyffredinol, sydd wedi cael eu cydnabod yn fyd-eang, a wnaiff y Cyngor yn awr ategu at ddoethineb a phell-welediad rhieni drwy hyrwyddo a marchnata addysg gyfrwng Gymraeg yn ddiwyd?”*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*“Rwyf yn cyd-ymfalchïo â Mrs Williams fod yr ysgol Gymraeg gyntaf yn yr oes fodern wedi'i sefydlu yma yn Sir Gaerfyrddin, sef Ysgol Gymraeg Dewi Sant, ac rwyf innau hefyd yn dathlu'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd ers hynny. Yma yn Sir Gaerfyrddin rydym wedi bod yn gweithio'n galed drwy gyfrwng ein Rhaglen Moderneiddio Addysg ers nifer o flynyddoedd i fodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ein canolfannau trefol, yn enwedig yn Llanelli, lle mae Ysgol newydd y Ffwrnes wedi cael ei hehangu a'i chreu yn benodol ar gyfer y diben hwn, yn ogystal ag er mwyn mynd i'r afael ag ansawdd gwael safle blaenorol yr ysgol.*

*Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin strategaeth flaengar sydd wedi'i mynegi'n glir ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy gyfrwng ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sydd wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Sir fel polisi. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn rhaglen gynhwysfawr o ddatblygiad iaith i ysgolion a phlant ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'n sefydlu strategaeth eang y Cyngor i ddatblygu dwyieithrwydd drwy'r gwasanaeth addysg, yn bennaf drwy ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Bwriad yr awdurdod lleol yw “cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.” Fel rhan benodol o'r strategaeth, ymrwymodd y Cyngor i “weithio'n agos gyda staff a Chyrff Llywodraethu ysgolion ffrydiau deuol Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.”*

*Yn ychwanegol at gynigion ar gyfer ysgolion Ffrydiau Deuol mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn disgwyl i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion sydd ar hyn o bryd wedi'u dynodi yn ysgolion cyfrwng Saesneg, wneud cynnydd ar hyd y continwwm iaith, er mwyn cynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y*

*Gymraeg. Yn amlwg, bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyl am gynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgolion yn Llangennech wedi'u nodi fel rhai sydd â'r potensial i symud yn gyflym i fod yn gyfrwng Cymraeg oherwydd y cynnydd yn niferoedd y ffrwd Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, fel y tystia'r data.*

*Yn rhinwedd fy rôl fel yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant rwy'n awyddus i sicrhau bod cynifer â phosibl o blant yn cael y cyfle i ddatblygu yn bobl ifanc gwbl ddwyieithog, gan fwynhau'r holl fanteision ehangach, yn ôl yr ymchwil ryngwladol, y mae dwyieithrwydd yn ei gynnig i berson ifanc, ac i'w datblygiad personol a chyfleoedd gyrfa."*

**5.29. CWESTIWN GAN MRS SIAN LLOYD I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWETHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

*"Ydy'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno gyda mi fod data cenedlaethol a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd diwethaf gan Lywodraeth Cymru a data gan Awdurdod Addysg Sir Gâr yn dangos yn glir fod disgyblion mewn ysgolion neu ffrydiau Cymraeg yn perfformio'n well mewn profion ac asesiadau allanol yn y pynciau craidd (gan gynnwys Saesneg fel pwnc) na disgyblion mewn ysgolion neu ffrydiau cyfrwng Saesneg, sy'n dangos fod gan ysgolion Cymraeg fanteision addysgol amlwg?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Y dystiolaeth yn Sir Gaerfyrddin yw bod plant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyffredinol yn cyflawni cystal â phlant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg ym mhob pwnc, gan gynnwys Saesneg (iaith) a phynciau craidd eraill. Mae hyn yn cynnwys plant o gartrefi lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith.*

*Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd Estyn adroddiad ynghylch canfyddiadau ei archwiliad o ganlyniadau mewn deg o ysgolion uwchradd dwyieithog gan ddweud bod "... (rhai) athrawon ..... a disgyblion yn gwneud y gamdybiaeth y gall astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg lesteirio eu llwyddiant academiaidd. Mewn gwirionedd, mae disgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyflawni cystal â'r disgyblion hynny sy'n dilyn y rhan fwyaf o'r cyrsiau TGAU drwy gyfrwng y Saesneg, os nad gwell na hwy".*

*Mae'r Adran o'r farn mai addysg cyfrwng Cymraeg yw'r dull mwyaf effeithiol o ddatblygu plant dwyieithog erbyn iddyn nhw adael yr ysgol gynradd a bod y ffurf hon o addysg yn cynnig datblygiad personol ychwanegol a manteision addysgol i'r plant.*

*Yn ychwanegol, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn rhyngwladol drwy waith ymchwil yn dangos bod plant sydd wedi datblygu yn ddwyieithog yn elwa o allu dysgu ychwanegol, gan gynnwys gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwytio ac ati."*



**5.30. CWESTIWN GAN MR CURTIS ROBERTS I'R CYNGHORYDD  
GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS  
ADDYSG A PHLANT**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd Mr Roberts yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw a'i fod wedi gofyn i'r Cadeirydd gyflwyno'r cwestiwn ar ei ran.

*"A all y Bwrdd Gweithredol gadarnhau, ar sail eu profiad yn y tymor hir o gyflwyno'r Gymraeg i blant ag anghenion addysgol arbennig, gyda llawer ohonynt yn dod o gartrefi lle na siaredir Cymraeg, nad yw hyn wedi cael effaith negyddol ar eu haddysg na'u datblygiad fel unigolion?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Mae modd gwneud hyn yn y rhan fwyaf o ddigon o'r achosion, sydd o fudd i'r holl blant.*

*Er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn gallu cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol.*

*Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol.*

*Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi ei datblygu gryfaf i gefnogi a hybu dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf. Mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol ac er mwyn sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i'r staff dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni. Trefnir bod y plentyn yn mynychu ysgol briodol lle gellir diwallu ei anghenion. Mae'n bosibl ar adegau prin na ellir diwallu anghenion plentyn yn yr ysgol leol, er gwaethaf ymrwymiad y Cyngor i addysg gynhwysol, gan ei bod yn syml ddigon yn anymarferol inni ddarparu ar gyfer pob angen ym mhob ysgol. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant wedi ymwneud â dim ond un neu ddau achos yn flynyddol pryd y cyngorwyd bod y plentyn yn symud i ysgol arall. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae gyfundrefn ysgolion*

*Sir Gaerfyrddin yn gwasanaethu cyfanswm o ryw 27,000 o ddisgyblion, felly prin iawn yw'r troeon y mae disgyblion yn symud oherwydd anghenion dysgu ychwanegol.*

*Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol."*

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl bobl oedd wedi dod i'r cyfarfod i ofyn eu cwestiynau, a diolchodd i'r Cynghorydd G.O. Jones am ymateb i'r cwestiynau hynny.

## **6. CWESTIYNAU A GYFEIRIWYD I'R BWRDD GWEITHREDOL GAN Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT:-**

### **6.1. CWESTIWN GAN MR DARREN SEWARD**

*"Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi llunio dogfen sy'n disgrifio ei gynnig i GAU/TERFYNU Ysgol Fabanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ac i agor ysgol gynradd gymunedol newydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn Llangennech. Pam y mae CSC yn gwthio cyfarwyddebau Cynulliad Cymru ynghylch y Gymraeg ymlaen cyn belled pan nad yw hynny'n digwydd mewn siroedd eraill megis Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot a Chasnewydd??"*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu targedau ar gyfer ei amcanion.*

*Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Mae'r strategaeth yn mynnu bod gweithredu'n digwydd o ran 73 o bwyntiau, y mae 21 ohonyn nhw'n ymwneud â'r gwasanaeth addysg. Mae'r holl argymhellion a champau gweithredu perthnasol yn y strategaeth wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin.*

*Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-2017 Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.*

*Mae'r Cynllun yn ceisio cael y canlyniadau canlynol penodol o ran y cynnig ar gyfer ysgol Llangennech:*

- Cynyddu nifer y dysgwyr 7 oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cael rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- Cael rhagor o fyfyrwyr sydd â sgiliau iaith da yn Gymraeg.

Hefyd mae'r Cynllun yn cynnwys y nod canlynol:

- Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Hefyd mae'r Cynllun yn ceisio cyrraedd y nodau a chael y canlyniadau penodedig drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Bod y Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda staff a Chyrff Llywodraethu ysgolion ffrydiau deuol Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Targedu tair o ysgolion dwy ffrwd gyda golwg ar iddynt fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn 2017.

Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwmm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol gynradd.

Mae cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i ymateb i'r Ddeddf ac i Strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch Addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg, ac mae pob awdurdod yn atebol yn unigol i Lywodraeth Cymru."

## 6.2. CWESTIWN GAN NIKKI LLOYD

"Mae 121 o ddisgyblion yn yr ysgol nad ydynt yn byw yn Llangennech. Ond mae 96 o blant o'r pentref yn teithio i ysgolion eraill y tu allan i'r ardal. Dim ond 15 o'r plant hyn sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, felly mae hynny'n golygu bod 81 ohonynt yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg eraill. Pam y fath wahaniaeth? Gallai rhai o'r rhain fod wedi cael lleoedd yn Llangennech ond gwrthodwyd lle iddynt gan beri i'r ffrwd Saesneg ymddangos fel petai'n lleihau."

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

"Y ffigurau a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, o ran niferoedd y disgyblion yw'r rheiny a oedd yn bodoli ar adeg y cyfrifiad statudol blynyddol o ddisgyblion ym mis Ionawr 2015.

Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer mis Ionawr 2016 fel a ganlyn:

Ysgol Fabanod Llangennech

Cyfanswm nifer y disgyblion yw 210, gyda 161 o blant yn byw yn y dalgyrch a 49 o ddisgyblion yn byw y tu allan i'r dalgyrch.

#### Ysgol Iau Llangennech

Cyfanswm nifer y disgyblion yw 236, gyda 175 o blant yn byw yn y dalgyrch a 61 o ddisgyblion yn byw y tu allan i'r dalgyrch.

#### Y Ddwy Ysgol Gyda'i Gilydd

Gyda'i gilydd y cyfanswm ar gyfer y ddwy ysgol yw 446, gyda 336, neu 75% yn byw yn y dalgyrch a 110 o blant, neu 25% yn byw y tu allan i'r dalgyrch.

Ym mis Ionawr 2016, roedd 96 o blant sy'n byw o fewn dalgyrch ysgolion Llangennech yn mynychu ysgolion eraill. O blith y rhain, roedd 16 o blant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, 7 yn mynychu ysgolion dwy ffrwd a 73 yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda nifer sylweddol o blant, 39 ohonyn nhw, sef dros hanner y rheiny a oedd yn gadael y dalgyrch, yn mynychu ysgol y Bryn. Roedd 3 o'r plant yn mynychu ysgolion ffydd.

Dymuniad y Cyngor Sir yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol, a chynllunnir lleoedd mewn ysgolion ar sail yr egwyddor hon.

Fodd bynnag y sefyllfa yw bod rhai rhieni yn dewis ysgol heblaw ysgol ddynodedig y dalgyrch ar gyfer eu plant, gan wneud hynny am nifer o resymau, e.e. bod rhieni sy'n gweithio yn gallu cael cymorth gan eu teulu estynedig, hwylustod cludo plant, bod yr ysgol yn agos i'r cartref, enw da, ffydd, ac yn y blaen.

Yr unig rwymedigaeth sydd ar y Cyngor Sir o ran hwyluso dewis y rhieni yw pan fo'r dewis hwnnw'n gyson â darparu addysg mewn modd effeithiol a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Nid oes gan yr un rhiant hawl i fynnu lle mewn ysgol benodol i'w blentyn neu i'w blant. Caiff y lleoedd yn yr ysgolion eu dyrannu ar sail polisi derbyn disgyblion cyhoeddedig y Cyngor, sy'n ffafrio bod plant yn mynychu eu hysgol leol neu ysgol "ddynodedig". Derbynnir plant mewn ysgolion heblaw eu hysgol ddynodedig pan fo lleoedd ar gael.

Derbyn Plentyn i'r Ysgol: Dywed y llyfryn Gwybodaeth i Rieni - "Gall rhieni fynegi eu bod yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgyrch. Os dilynir y gweithdrefnau cywir ac os nad yw nifer y disgyblion yn fwy na'r nifer y caniateir i'r ysgol ei derbyn, bydd lle yn cael ei roi."

Mae'n berthnasol nodi oherwydd cyfluniad dalgyrch ysgolion Llangennech, bod nifer sylweddol o blant sy'n byw yn ne'r dalgyrch yn byw yn agosach at ysgolion eraill nag ydyn nhw i ysgolion Llangennech. Yn amlwg ymhlith y rhain mae Ysgol y Bryn sy'n derbyn 39 o blant o ddalgyrch Llangennech sy'n byw naill ai ar Heol Penllwyngwyn, Parc Hendre, Harddfán, y Bryn Uchaf a Heol Pendderi neu'n agos atynt ac o ganlyniad yn byw yn llawer agosach i'r ysgol hon.

Mae ysgolion Llangennech yn gallu darparu lle i'r holl blant sy'n byw o fewn y dalgyrch. Mae'r plant hyn yn cael blaenoriaeth dros blant sy'n byw y tu allan i'r dalgyrch dan y polisiau derbyn sefydledig.

*Nid oes yr un plentyn o ddalgylch ysgolion Llangennech wedi cael gwrthod lle yn ysgolion Llangennech gan y Cyngor Sir fel yr Awdurdod Derbyn statudol.*

*Mae'r Nifer Derbyn a gyhoeddwyd ar gyfer ysgolion Llangennech yn berthnasol i'r ysgol gyfan ac nid yw'n ystyried dewis iaith. Yr awdurdod lleol yn unig fel y corff derbyn statudol sy'n gallu derbyn plant i'r ysgolion. Nid oes hawl gan ysgolion i dderbyn disgyblion eu hunain nac i wrthod lle. Nid yw'r Cyngor Sir wedi gwrthod lle i unrhyw blentyn sy'n byw o fewn y dalgylch, beth bynnag yw'r dewis iaith.*

*Mae'n gyffredin i ddisgyblion symud rhwng dalgylchoedd ysgolion a hynny ledled y sir yn yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd trefol."*

### **6.3. CWESTIWN GAN NIKKI LLOYD**

*"Gwyddom am un rhiant y gwrthodwyd lle eisoes i'r plentyn yn Ysgol y Bryn gan fod 54 o geisiadau am ddim ond 30 o leoedd. Mae'r Hendy yn llawn hefyd, felly ymhle rydych yn mynd i ddarparu lleoedd i rieni sy'n dymuno neu sydd ANGEN addysgu eu plant drwy gyfrwng y Saesneg?"*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Yn y cylch derbyn disgyblion ar gyfer mis Medi 2016 daeth cyfanswm o 54 o geisiadau i law am le yn Ysgol y Bryn o gymharu â Nifer Derbyn o 30.*

*Dim ond 8 o blith y 54 o geisiadau oedd ar gyfer plant a breswyliai yn nalgylch Ysgol y Bryn. Roedd 7 ar gyfer plant oedd yn preswyllo yn ardal dalgylch ysgolion Llangennech.*

*Cynigiwyd lleoedd i 30 o blant, hyd at y Nifer Derbyn cyhoeddedig, yn unol â'r meini prawf yn y ddogfen "Derbyn Plentyn i'r Ysgol - Gwybodaeth i Rieni 2016/2107".*

*Mae'r broses dderbyn yn mynd yn ei blaen ac ni fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys am rai wythnosau eto.*

*Os bydd y patrwm hyn yn parhau yn y dyfodol, mae'n debygol y gallai lleoedd yn Ysgol y Bryn fod ar gael i blant sy'n preswyllo yn nalgylch Llangennech, ond ni ellir gwarantu lleoedd, fel sy'n wir am yr holl ysgolion eraill ledled y sir.*

*Fodd bynnag bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn Ysgol Llangennech a bod y disgyblion, yn y dyfodol, yn mynychu ysgol y pentref gan dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Mae'n bwysig nodi na fydd y cynnig yn effeithio ar ddisgyblion presennol yr ysgol, a bydd y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg yn dal i wneud hynny tan iddyn nhw adael am yr ysgol uwchradd. Bydd yr ysgol yn dal i ddarparu digon o gefnogaeth i'r disgyblion presennol drwy gyfrwng yr iaith y maen nhw'n cael eu haddysg drwyddi ar hyn o bryd.*

*Os gweithredir y cynnig rhoddir digon o gefnogaeth i'r holl ddisgyblion newydd sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig nodi bod disgwyl i'r holl athrawon wahaniaethu'r holl ddarnau gwaith ar sail anghenion y disgyblion. Ar hyn o bryd*



mae'r ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maen nhw wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd yn y dyfodol. Mae athrawon arbenigol ar gyfer datblygu'r Gymraeg, sef "Athrawon Cymraeg a Dwyieithrwydd", yn darparu cymorth i ysgolion ledled y sir. Ar hyn o bryd maen nhw yn yr ysgolion ddwywaith yr wythnos, a byddan nhw'n dal i gefnogi'r ysgol drwy gynnig cymorth ychwanegol i'r plant fel bo'r angen.

Mae'r holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth penodol a glustnodir mewn cynlluniau unigol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau personol. Bydd yr holl gefnogaeth angenrheidiol yn dal i gael ei darparu i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion Llangennech ar hyn o bryd, a hynny drwy gyfrwng yr iaith y maen nhw'n cael eu haddysg ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig, bydd yr holl ddisgyblion yn y dyfodol yn cael y gefnogaeth hon drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Yn y rhan fwyaf o achosion nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Yn ein profiad ni, mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion sydd ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddo ym mhob un o'n hysgolion, ni waeth beth fo'r iaith addysgu. Fodd bynnag, cydnabyddir o ran nifer bychan o achosion fod anghenion penodol y plant unigol yn golygu bod ar y plant hynny angen darpariaeth sy'n anodd ei darparu mewn ysgol brif ffrwd gynhwysol. Yn achos yr ychydig blant hyn sicrheir bod darpariaeth benodol ar gael mewn ysgol sy'n gallu diwallu anghenion y plentyn. Dymuniad yr awdurdod lleol yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol ond, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion penodol, nid yw hyn yn bosibl bob amser. Pan fo gan blentyn anghenion penodol yn ôl ymarferwyr proffesiynol, a bod ysgol benodol nad yw'n ysgol leol y plentyn yn cael ei chlustnodi oherwydd ei bod yn gallu diwallu anghenion y plentyn, mae polisi cludiant y Cyngor yn datgan y gallai'r plentyn fod yn gymwys i gael cludiant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol."

#### 6.4. CWESTIWN GAN ROBERT WILLOCK

"O blith y 121 o blant sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, mae 91 yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Pam y mae hyn, pan fo 132 o leoedd gwag yn Ysgol newydd y Ffwmes a 38.5 o leoedd gwag yn Ysgol Brynsierfel yn ôl adran 2.3 o'r ddogfen ymgynghori. Nid yw nifer y lleoedd gwag yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyson â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2013 sy'n datgan na ddylai'r lleoedd gwag fod yn fwy na 10%. Yn ôl y ffigurau a godwyd o wefan Cyngor Sir Caerfyrddin, mae 1,710 o leoedd gwag yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Felly nid yw hyn yn cyfiawnhau creu rhagor o leoedd. Dywed Côt Trefniadaeth Ysgolion 2013 y dylai cyrff perthnasol, wrth ddatblygu cynlluniau, roi ystyriaeth i gynlluniau lleol ar gyfer datblygiadau economaidd neu dai. Pam nad oes ystyriaeth wedi'i rhoi i'r 91 o dai sy'n cael eu codi yn yr Hendy, a'r 700 a mwy o dai sydd yn yr arfaeth ym Mhontarddulais? Mae'n siŵr y byddai hyn yn cael effaith fawr ar yr ysgolion cyfagos. Ysgol yr Hendy yw un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg agosaf os gweithredir y cynnig hwn. Fodd bynnag mae Ysgol Llanedi yn wynebu cael ei chau, a'r cyngor yw symud i'r Hendy. Mae Ysgol yr Hendy bron â bod yn llawn ac, fel ysgol ddwy ffrwd, fe'i clustnodwyd yn ysgol fyddai'n newid i fod yn ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Yr ysgol agosaf arall drwy gyfrwng y Saesneg yw Ysgol y Bryn ond mae'r sir wedi bod yn anfon llythyron gwrthod eisoes gan fod 54 o geisiadau wedi dod i law hyd yn hyn am ddim ond 30 o

leoedd. Yn ogystal â bod yr ysgol newydd arfaethedig yn anaddas i'r diben gan nad yw'n gwasanaethu'r gymuned y mae hi i fod i'w chefnogi, ymddengys nad oes ysgolion eraill yn y cyffiniau i blant Saesneg eu hiaith?"

### **Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

"Yn Nhymor y Gwanwyn 2016 roedd cyfanswm o 446 o blant yn mynychu ysgolion Llangennech, 210 yn yr ysgol fabanod a 236 yn yr ysgol iau.

Ar y cyfan, gan ystyried y ddwy ysgol gyda'i gilydd ac eithrio'r plant sydd yn y dosbarthiadau derbyn, mae 73% o'r plant yn y ffrwd Gymraeg ac mae 27% yn y ffrwd Saesneg.

Mae'r plant yn mynychu'r ffrydiau iaith yn unol â dewis y rhieni ac fel y cytunwyd rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r data'n cadarnhau bod nifer a chyfran y plant sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf a bod nifer a chyfran y plant sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg wedi bod yn lleihau.

Codwyd adeilad newydd Ysgol y Ffwrnes i sicrhau bod digon o le yno er mwyn diwallu'r rhagamcanion yn ardal Llanelli lle mae'r galw am addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Roeddidd yn llwyr gydnabod y byddai lleoedd gwag yn Ysgol y Ffwrnes adeg ei hagog, ond y byddai'r rhain yn cael eu llenwi dros ychydig flynyddoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ymdrechu i reoli'r lleoedd gwag yn eu hysgolion, a hynny o fewn goddefiant o 10% ar draws yr holl ysgolion, gan dderbyn bod y niferoedd mewn ysgolion unigol yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau. Yn ôl y Côt Trefniadaeth Ysgolion "mae rhai lleoedd dros ben yn angenrheidiol er mwyn galluogi ysgolion i ymdopi â'r amrywiadau o ran niferoedd disgyblion". Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gormod o leoedd gwag mewn ysgol unigol os oes ganddi fwy na 25% o leoedd gwag.

Mae'n wir fod lleoedd gwag yn nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg Sir Gaerfyrddin. Ysgolion mewn ardaloedd gwledig yw'r rhain yn bennaf lle mae lleihad wedi bod yn nifer y teuluoedd ifanc ac yn nifer y plant. Nid yw'r sefyllfa hon yn dangos bod lleihad o ran y galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ond mae'n dangos bod newid demograffig yn wynebu llawer o gymunedau gwledig lle mae poblogaeth hŷn.

Dros y 15 mlynedd diwethaf mae Cyngor Sir Caerfyrddin, drwy'i Raglen Moderneiddio Addysg, wedi gwaredu rhyw 3150 o leoedd gwag o'i ystad ysgolion cynradd a hynny'n bennaf yn yr ardaloedd gwledig. Mae hyn yn amlygu bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn effeithiol o ran rheoli lleoedd gwag.

Mae'r cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion gan y Cyngor hwn yn rhoi ystyriaeth yn rheolaidd i ddatblygiadau tai yn y dyfodol ac i'r galw am leoedd mewn ysgolion y gall y datblygiadau hyn ei greu. Nod cynigion y Cyngor ar gyfer ysgolion Llangennech yw bod y plant lleol yn mynychu ysgol Llangennech yn y dyfodol. Nid yw'n fwriad gan y Cyngor fod unrhyw blentyn lleol yn ceisio am le mewn ysgol y tu hwnt i Llangennech, ac eithrio o ran yr achosion prin mewn perthynas ag angen dysgu ychwanegol penodol pryd y bydd y Cyngor yn cydweithio â'r rhieni i

*glustnodi'r trefniant mwyaf priodol. Am y rheswm hwnnw, nid oes cyfeiriad yn y ddogfen ymgynghori at ddatblygiadau tai posibl yn yr Hendy nac mewn unrhyw ardal ysgol arall.*

*Bydd y Cyngor Sir yn dal i fonitro'r galw am leoedd yn Ysgol yr Hendy, yn enwedig mewn perthynas â'r datblygiadau tai newydd sy'n cael eu codi yn y cyffiniau yn y dyfodol ac mewn perthynas â'r adolygiad o Ysgol Llanedi, a bydd yn ymateb mewn modd priodol. Mae darpariaeth yn Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ar gyfer buddsoddi yn Ysgol yr Hendy yn y tymor canolig er mwyn helaethu a moderneiddio adeiladau a chyfleusterau'r ysgol, a dylai fod modd cysoni'r buddsoddiad hwn â'r angen am gynyddu'r lleoedd petai galw am hynny.*

*Mae disgwyl y caiff y fersiwn adneuol drafft o Gynllun Datblygu Lleol Dinas a Sir Abertawe ei gyhoeddi yn ystod haf 2016 er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Mae'r cynllun drafft hwn yn cynnwys dyraniad sylweddol o fwy na 700 o unedau preswyl ym Mhontarddulais. Mae'r trafodaethau gyda swyddogion Dinas a Sir Abertawe yn cadarnhau eu bod yn bwriadu datblygu ysgolion yng nghymuned Pontarddulais er mwyn diwallu'r holl alw fydd yn deillio o Gynllun Datblygu Lleol yr awdurdod maes o law, fel sy'n ofynnol gan yr amserlen ddatblygu. Mater i awdurdod Lleol Abertawe ei ddatrys yw hwn."*

## **6.5. CWESTIWN GAN JACQUELINE SEWARD**

*"Ar ôl cau ysgol a cholli ffrwd iaith yn sgil hynny dylid, yn ôl Côt Trefniadaeth Ysgolion 2013, gynnig darpariaeth sy'n cyrraedd o leiaf yr un safonau i'r dysgwyr. Fodd bynnag, mae Llangennech yn Wyrdd ar hyn o bryd. Mae'r Hendy yn felyn ac mae'r Bryn yn ambr. Sut mae hyn yn gyfwerth?"*

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae'r holwr yn nodi categorïau ysgolion Llangennech, y Bryn, a'r Hendy yn 2015 yn gywir.*

*Bwriad y Cyngor Sir yw y dylai plant Llangennech dderbyn eu haddysg gynradd yn yr ysgol leol, y mae ei pherfformiad o safon ar hyn o bryd ac yn y categori Gwyrdd.*

*Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddan nhw'n gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys safonau'r ysgolion eraill, y goblygiadau o ran cludiant, ac ati.*

*Nid yw'r Cyngor Sir yn cynnig dewisiadau eraill heblaw ysgol Llangennech ar gyfer y plant lleol. Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol, a bod y plant lleol yn y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref gan dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf.*

*Mae ysgolion eraill drwy gyfrwng y Saesneg wedi'u rhestru yn y Ddogfen Ymgynghori fel sy'n ofynnol gan y Côt Trefniadaeth Ysgolion, ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol at ddibenion cymharu, ond nid yw'n fwriad gan y Cyngor fod plant o Llangennech yn chwilio am ysgol arall."*

## 6.6. CWESTIWN GAN NIGEL HUGHES

*"Mae'r ddogfen ymgynghori yn ddogfen wallus sydd heb gydnabod y rheiny o bentref Llangennech sy'n cael eu rhoi dan anfantais gan y cynigion. Mae datgan nad oes neb yn cael ei effeithio gan y newidiadau arfaethedig hyn yn beth naif ac anwybodus ac yn dangos nad yw'r Awdurdod wedi rhoi 'sylw dyledus' o dan y Ddeddf Dyletswydd Cyhoeddus i'r rheiny a effeithiwyd, wrth ddweud yn grwn nad ydynt yn bodoli. Drwy wneud hyn nid ydynt wedi cwmpasu'r agweddau lechyd a Diogelwch neu broblemau lleoedd yn yr ysgolion eraill. Wrth gerdded i'r Hendy, er enghraifft, bydd croesi ffordd ddeuol yn peryglu bywydau. Mae CrashMap ar gael ar-lein sy'n dangos bod un ddamwain yn digwydd bob deufis ar gyfartaledd ar y ffordd benodol honno. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn amlygu'r brys i gyrraedd canlyniad a bennwyd ymlaen llaw, waeth beth fo'r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y broses. Credwn y gallwn ddangos tystiolaeth bod naill ai'r Awdurdod Addysg Lleol neu'r corff llywodraethu, neu'r ddau, wedi methu â chydymffurfio â Chôd Trafniadaeth Ysgolion 2013 ac o bosibl y gyfraith. Ydych chi o'r farn ei bod hi'n dderbyniol peryglu plant bach yn ddyddiol fel hyn?"*

### **Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae'r Ddogfen Ymgynghori a'r broses ymgynghori'n cydymffurfio â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion.*

*Bwriad cynnig y Cyngor Sir yw bod plant Llangennech yn mynychu'r ysgol leol.*

*Os gweithredir y cynnig bydd y plant sy'n preswyllo yn nalgylch ysgol Llangennech ac sy'n mynychu ysgol Llangennech yn cael budd o bolisi derbyn disgyblion a pholisi cludiant i'r ysgol yr awdurdod lleol, sy'n rhoi sylw llawn i'r ystyriaethau diogelwch.*

*Fodd bynnag os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddan nhw'n gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys y goblygiadau o ran cludiant, ac ati."*

## 6.7. CWESTIWN GAN DARREN SEWARD

*"A oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal pan fo gennym ddau ddarparwr eisoes? Mae angen rhoi ystyriaeth i ffactorau penodol mewn perthynas â chynigion i ychwanegu neu i waredu dosbarthiadau meithrin fel yr amlinellwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2013. Dylai cyrff perthnasol roi ystyriaeth i ffactorau penodol: safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau a'r cyfleusterau a gynigir yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan, a hyfywedd unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin; a oes angen rhagor o leoedd meithrin yn yr ardal?; lefel y galw am rai mathau o addysg feithrin e.e. cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth ac iddi natur grefyddol; effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr sector preifat a thrydydd sector; ac i ba raddau y bydd cynigion yn cydblethu addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant,*



*neu'n gydnaws â dull integredig. Nid oes tystiolaeth yn y ddogfen ymgynghori fod y rhain, ac effaith y cynigion ar ddarparwyr sector preifat eraill, wedi'u hystyried?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae 4 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn Llangennech ar hyn o bryd, y mae 2 ohonyn nhw wedi'u comisiynu i ddarparu addysg feithrin ran-amser ac y mae 1 ohonyn nhw'n gallu darparu hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.*

*Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y bydd goblygiadau i'r 2 ddarparwr hyn os gweithredir y cynnig gan y bydd y cyllid y maen nhw'n ei gael ar hyn o bryd am ddarparu addysg feithrin ran-amser yn peidio.*

*Er bod addysg feithrin ledled Sir Gaerfyrddin yn cael ei darparu drwy fodel "economi cymysg" sef gan ysgolion, cyrff sector annibynnol a chwmnïau preifat, barn y Cyngor Sir yw y darperir addysg feithrin yn fwy effeithiol mewn ysgol, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, a hynny o dan gyfarwyddyd proffesiynol athrawon cymwysedig ac o dan arweiniad pennaeth proffesiynol. Yn gyffredinol ystyrir ei bod yn well lleoli'r ddarpariaeth feithrin ar safle ysgol gan fod hynny'n hwyluso mynediad y plentyn i addysg amser llawn mewn modd mwy effeithiol. Ar y cyfan dyma'r model a ffefrir yn ysgolion Sir Gaerfyrddin."*

## **6.8. CWESTIWN GAN MICHAELA BEDDOWS**

*"Anghenion Addysgol Arbennig: Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig a gynghorir fel arfer i fynd i ffrwd Saesneg yn unig, neu ffrwd iaith yr aelwyd. Mae plant sydd ag oedi cyffredinol yn cael trafferth gydag un iaith heb sôn am ddwy, felly drwy waredu'r ffrwd ddeuol byddai hyn yn eithrio'r plant hyn rhag mynychu'r ysgol. Ni all plant sydd ag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig ymdopi â newid mewn trefn, felly petaent yn cychwyn ac wedyn yn cael trafferth mewn ysgol Cyfrwng Cymraeg ac wedyn yn gorfod symud i ysgol Cyfrwng Saesneg, byddai'r newid hwnnw yn cael effaith enfawr arnynt. Sut yr esgeuluswyd hyn a pham nad aethpwyd i'r afael â hyn?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bynnag y bo modd. Mae modd gwneud hyn yn y rhan fwyaf o ddigon o'r achosion, sydd o fudd i'r holl blant.*

*Mae cyfundrefn ysgolion Sir Gaerfyrddin yn gwasanaethu cyfanswm o ryw 27,000 o ddisgyblion, ac er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol.*

*Er mwyn gallu sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu, mae'r gyfundrefn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Cynigir addysg mewn ysgol arbenigol i'r*



plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth pan na fo lleoliad prif ffrwd yn addas i'w hanghenion neu pan fo'n well gan y rhieni'r math hwn o leoliad. Mae gan rai ysgolion uwchradd a chynradd ledled y sir unedau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion penodol, megis awtistiaeth, namau synhwyrdd, neu oedi o ran lleferydd ac iaith. Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol. Er ei bod yn well gan y Cyngor ddiwallu anghenion yr holl blant mewn ysgol brif ffrwd pryd bynnag y bo modd, nid yw hyn yn ymarferol bob amser.

Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni. Trefnir bod y plentyn yn mynychu ysgol briodol lle gellir diwallu ei anghenion. Mae'n bosibl ar adegau prin na ellir diwallu anghenion plentyn yn yr ysgol leol, er gwaethaf ymrwymiad y Cyngor i addysg gynhwysol, gan ei bod yn syml ddigon yn anymarferol inni ddarparu ar gyfer pob angen ym mhob ysgol.

Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n amrywio o ran eu gallu, yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol.

O ran y cynnig ar gyfer Llangennech, bydd y ddarpariaeth a roddir i'r plant sydd ag anghenion ychwanegol yn parhau drwy gyfrwng yr iaith y maen nhw'n cael eu haddysg ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig, bydd yr holl ddisgyblion yn y dyfodol yn cael y gefnogaeth hon drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf."

## 6.9. CWESTOWN GAN STEVE HATTO

"Mae'r ffigurau wedi'u gweithio - O'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Addysg Leol, mae'n amlwg bod y ffigurau wedi cael eu trin gan unigolion i gryfhau sefyllfa benodol. Gallwn ddangos tystiolaeth fod y ffrwd Saesneg bresennol yn yr ysgol yn cynnwys mwy na 30% o gyfanswm y disgyblion. Dywed yr ymgynghoriad fod cyfanswm nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Fabanod Llangennech yn 2015 yn 186. Nid yw'r ffigur hwn yn gywir gan ei fod yn cynnwys yr holl ddisgyblion yn nosbarthiadau Derbyn 1 a 2, sef cyfanswm o 94 o ddisgyblion, heb ystyried a ydyn nhw wedi'u cofrestru i gamu ymlaen i'r ffrwd Saesneg neu beidio. Maen nhw wedi'u cam-glustnodi'n ddisgyblion sydd yn y ffrwd Gymraeg at ddibenion y ddogfen ymgynghori. Hefyd os ystyriwn y 27% sy'n dod o'r tu hwnt i'r ardal, ynghyd â'r posibilrwydd y collir y ffrwd Saesneg, dengys y rhagamcanion presennol y bydd mwy na 50% o ddisgyblion Ysgol Llangennech yn dod o'r tu hwnt i'r ardal. A ydych chi'n credu felly fod gennym 'yr ysgol iawn yn y lle iawn' ac a ydych chi'n gallu cadarnhau bod y ffigurau hyn yn gywir?"

**Ymateb y Cynghorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros**

## **Addysg a Phlant:-**

*"Mae'r ffigurau yn y ddogfen ymgynghori yn fanwl-gywir, fel roedden nhw ym mis Ionawr 2015. Mae'r pwynt a wnaed gan yr holwr, sef bod yr holl blant yn nosbarthiadau Derbyn 1 a Derbyn 2 yn cael addysg ddwyieithog, ond bod hynny'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod dewis o ran y ffrwd iaith ar gael wrth i'r plant gamu i Flwyddyn 1, yn gywir.*

*Nid oes dim ffrydiau ar wahân yn y dosbarthiadau derbyn. Mae'r holl blant yn elwa ar gael eu trochi mewn darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a defnyddir Saesneg i gefnogi mynediad i'r Gymraeg drwy drawsgyfeirio.*

*Mae'r ffigurau presennol fel a ganlyn:*

### **Ysgol Fabanod Llangennech**

*Dysgir pob un o'r 118 o ddisgyblion sydd yn y dosbarthiadau derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a defnyddir Saesneg fel cyfrwng hwyluso yn ôl anghenion y plant unigol.*

*O blith y cyfanswm o 116 o ddisgyblion sydd yn nosbarthiadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae 88, neu 76%, yn y ffrwd Gymraeg ac mae 28, neu 24%, yn y ffrwd Saesneg.*

### **Ysgol Iau Llangennech**

*O blith y cyfanswm o 235 o ddisgyblion, mae 167, neu 71%, yn y ffrwd Gymraeg ac mae 68, neu 29%, yn y ffrwd Saesneg.*

### **Y Ddwy Ysgol Gyda'i Gilydd**

*Gan ystyried y ddwy ysgol gyda'i gilydd ac eithrio'r plant sydd yn y dosbarthiadau derbyn, mae 73% o'r plant yn y ffrwd Gymraeg ac mae 27% yn y ffrwd Saesneg.*

*Mae'r ffigurau hyn yn cadarnhau bod mwyafrif sylweddol o'r rhieni, y mae llawer ohonyn nhw heb fod yn siaradwyr Cymraeg, yn ffafrio darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.*

*Cred yr Adran fod creu ysgol Gymraeg ei chyfrwng yn ardal Llangennech yn darparu'r ysgol iawn yn y lle iawn, gan olygu bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i ymddatblygu'n bobl ifanc gwbl ddwyieithog erbyn iddyn nhw gamu ymlaen i'r ysgol uwchradd."*

## **6.10. CWESTIWN GAN KAREN HUGHES**

*"Mae oddeutu 11 o ysgolion dwy ffrwd yn Sir Gaerfyrddin sydd, yn ôl Strategaeth yr Iaith Gymraeg, yn cael eu clustnodi ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn unig. Rhaid cydnabod na fyddai'r ysgolion hyn i gyd yn addas, ar sail logisteg, oherwydd maen nhw'n ysgolion dwy ffrwd am reswm, felly sut a phwy sy'n asesu'r galw a'r priodoldeb? A gynhaliwyd ymarfer i fwrw golwg ar y gorwel o ran cymuned*

Llangennech? h.y. i asesu sut le fydd pentref/poblogaeth Llangennech ymhen 5, 10, 15 mlynedd? Wrth i ragor o dai newydd gael eu hadeiladu, y mewnlifiad o bobl, lleoliad y pentref wrth goridor yr M4, a allwn ni ddweud yn hyderus y bydd Cyfrwng Cymraeg yn Unig yn bodloni'r gofynion hyn o ystyried bod 80% o'r boblogaeth eisoes yn siarad Saesneg yn unig. Wedi'r cyfan, daw 27% o'r disgyblion o'r tu hwnt i'r pentref ac nid yw ffigurau'r pentref yn dangos bod cynnydd yn y galw am y Gymraeg. Hefyd nid yw'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg wedi cael ei hasesu'n gywir, os o gwbl. Nid oes cyfeiriad at siaradwyr Saesneg yn gwerthfawrogi treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn llai os ydynt yn mynychu ffrwd Saesneg yn Unig; mae mwy o bobl yn debygol o roi cynnig ar y ffrwd Gymraeg os ydynt yn gwybod y gallant gwympo'n ôl ar y Saesneg yn yr un ysgol. Bydd hyn yn cael effaith i'r gwrthwyneb. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned yn fach ac nid yw'n cyd-fynd â'r ddemograffeg ieithyddol nac ystadegau cyfrifiad 2011. Pam nad yw'r ffactorau hyn yn cael eu hystyried?"

### **Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

"Mae 10 o ysgolion dwy ffrwd yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, fel y bu i'w cyrff llywodraethu eu categorio, gan gynnwys y ddwy ysgol yn Llangennech.

Mae'r cynigion wedi cael eu llunio mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin a Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb o ran "cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg." Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg penderfynwyd bod "y Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda staff a Chyrff Llywodraethu ysgolion ffrydiau deul Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg."

Caiff yr holl ysgolion eu hasesu ar yr adeg briodol er mwyn penderfynu ar eu gallu i ddatblygu darpariaeth iaith.

Yn ychwanegol at gynigion ar gyfer ysgolion Ffrydiau Deul mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn disgwyl i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion sydd ar hyn o bryd wedi'u dynodi yn ysgolion cyfrwng Saesneg, wneud cynnydd ar hyd y continwmm iaith, er mwyn cynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn amlwg, bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyl am gynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgolion yn Llangennech wedi'u nodi fel rhai sydd â'r potensial i symud yn gyflym i fod yn gyfrwng Cymraeg oherwydd y cynnydd yn niferoedd y ffrwd Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, fel y tystia'r data.

Barn y Cyngor Sir yw bod pob plentyn yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n darparu datblygiad sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn.

Rydym yn nodi bod rhai pobl yn y gymuned yn methu siarad Cymraeg a bod llawer o'r plant sy'n mynychu'r ysgol yn dod o gefndiroedd di-Gymraeg. Felly mae'n

*bwysig bod yr awdurdod lleol yn cynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn hybu dwyieithrwydd yn yr ardal ac er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

*Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel y'i dyfynnir gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau a gyhoeddwyd ganddi, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra datblygir hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.*

*Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod cymunedau'n newid gyda threigl amser a bod symudedd cymdeithasol yn dal i gynyddu. Mae'r Cyngor Sir yn ystyried bod y pwynt hwn yn cyfnerthu'r angen am wreiddio addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cynifer o gymunedau â phosibl er mwyn cryfhau'r iaith ac er mwyn sicrhau bod cynifer o blant â phosibl yn cael cyfle i ymddatblygu'n ddinasyddion gwirioneddol ddwyieithog ac yn elwa ar y manteision personol a ddaw yn sgil dwyieithrwydd.*

*Dros gyfnod ystyrir dwyieithrwydd yn gynyddol fel sgil ar gyfer cyflogaeth. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyafrwy o angen iddyn nhw benodi nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu eu gwasanaethau. Bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am swydd.*

*Yn hytrach na bod yn rhwystr, mae nifer o brifysgolion, yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystyried bod meddu ar sgiliau Cymraeg yn sgil ychwanegol sy'n gallu bod yn fanteisiol pan fo pobl ifanc yn cystadlu am le astudio."*

## **6.11. CWESTIWN GAN ROBERT WILLOCK**

*"Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn Asesiad o Effaith o gwbl. Nid yw wedi clustnodi unrhyw risgiau nac wedi cynnal asesiad risg ohonyn nhw (drwy roi dyfarniad cadarnhaol, negyddol neu niwtral). Byddid yn disgwyl y byddid wedi rhoi ystyriaeth i'r effaith ar yr ysgolion cyfagos, yr effaith ar y rhieni a'r teuluoedd, yr effaith ar y disgyblion, y goblygiadau o ran teithio, yr effaith ar ddemograffeg y gymuned, yr effeithiau amgylcheddol, yr effaith ar weithgareddau cymunedol, a'r effaith ar y trigolion. Y rhain yw'r meysydd sy'n debygol o gael eu hasesu'n negyddol, ac maen nhw wedi'u diystyru'n llwyr! Pam?"*

**Ymateb y Cyngorydd G.O. Jones, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

*"Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r asesiadau eraill a amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori wedi'u datblygu yn unol â gofynion y Côt Trefniadaeth Ysgolion, sef y safon sy'n berthnasol o ran datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion."*

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl bobl oedd wedi gofyn cwestiynau, a diolchodd i'r Cynghorydd G.O. Jones am ymateb i'r cwestiynau hynny.

## **7. GOHIRIAD**

Yn y man hwn yn y cyfarfod tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at yr amser, gan gynnig bod y cyfarfod yn cael ei ohirio er mwyn cael cinio.

Gan nad oedd y Cynghorydd Devichand yn gallu dychwelyd i'r cyfarfod ar ôl y gohiriad gofynnodd am ganiatâd gan y Cadeirydd i ofyn ei chwestiwn cyn i'r cyfarfod dorri.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1 gofynnodd y Cynghorydd Devichand a oedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno nad bwriad Llywodraeth Lafur Cynulliad Cymru na Bwrdd yr Iaith oedd gwaredu'r dewis oedd gan gymuned ynghyd â'i hawl ddemocrataidd i newid categori iaith yr ysgol heb roi ystyriaeth briodol i'r effeithiau niweidiol ar gymuned Llangennech?

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant nad oedd ef yn gallu siarad ar ran y Llywodraeth Lafur ond ei fod yn aros am gyfarwyddyd gan Gaerdydd ynghylch symud ar hyd y continwwm iaith.

Gofynnodd y Cynghorydd Devichand a oedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn cytuno na ddylai'r iaith fod yn rhwystr oedd yn peri pryder a rhaniadau mewn cymuned gan gyfyngu ar ddewisiadau pobl o ran eu bywyd academiaidd neu o ran eu gwaith?

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei fod yn cytuno a phwysleisiodd fod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal am y rheswm hwnnw, sef sicrhau bod y plant yn cael y cyfleoedd gorau posibl yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio gweddill y materion ar yr agenda tan 1.50pm y diwrnod hwnnw.**

## **8. Y CYFARFOD YN AILYMGYNNULL**

Yr oedd y Bwrdd Gweithredol wedi ailymgynnull yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 1.50 p.m.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd. E. Dole [Cadeirydd]

### **Y Cynghorwyr:**

H.A.L. Evans, L.D. Evans, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens a J. Tremlett

### **Yn bresennol fel sylwedyddion:**

Y Cynghorwyr S.M. Caiach, D.M. Cundy, J.S. Edmunds, W.G. Hopkins a G. Thomas



### **Yr oedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

Mr M. James	-	Y Prif Weithredwr
Mr C. Moore	-	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
Mr J. Morgan	-	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
Ms R. Mullen	-	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
Mr R. Sully	-	Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Mr P. Thomas	-	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol
Ms W. Walters	-	Y Prif Weithredwr Cynorthwyol
Mr J. Fearn	-	Y Pennaeth Cynnal a Chadw Eiddo ac Adeiladu
Mr S. Pilliner	-	Y Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianeg
Ms L. Rees Jones	-	Y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
Mr G. Morgans	-	Y Prif Swyddog Addysg
Mr S. Davies	-	Y Rheolwr Moderneiddio Ysgolion
Mrs D. Hockenhull	-	Y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
Mr I. Llewellyn	-	Y Rheolwr Blaen-gynllunio
Mr G. Williams	-	Cyfreithiwr Cynorthwyol
Mrs M. Evans Thomas	-	Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 1.50 p.m. - 3.30 p.m.**

### **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Gravell.

## **9. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I GAU YSGOL BABANOD LLANGENNECH AC YSGOL IAU LLANGENNECH A SEFYDLU YSGOL GYMUNEDOL GYNRADD LLANGENNECH**

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a chyflwyniad a roddai fanylion y cynnig i gau Ysgol Fabanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ac i sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol Llangennech.

Yn dilyn ymddeoliad pennaeth Ysgol Fabanod Llangennech ar ddiwedd tymor yr haf 2013 sefydlwyd ffederasiwn llac gyda phennaeth Ysgol Iau Llangennech. Ar 24<sup>ain</sup> Medi 2014, penderfynodd Cyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol ffedereiddio'n ffurfiol o fis Ebrill 2015 ymlaen.

Ar hyn o bryd yr oedd yr Awdurdod Lleol yn cynnig darpariaeth amser llawn ar gyfer plant 4-11 oed drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn Ysgol Fabanod ac Ysgol Iau Llangennech sydd wedi'u ffedereiddio. Y bwriad yn yr ysgol gynradd newydd i ddisgyblion 3-11 oed, a fyddai'n cynnwys darpariaeth feithrin, fyddai newid categorïau ieithyddol presennol Ysgol Fabanod Llangennech (Dwy Ffrwd – (DFf)) ac Ysgol Iau Llangennech (Dwy Ffrwd – (DFf)) i greu ysgol newydd categori Cyfrwng Cymraeg (CC) a fyddai'n cynyddu'r ddarpariaeth o ran addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Hefyd byddai'n sicrhau bod cynnydd o ran dwyieithrwydd yn ardal Llangennech. Byddai'n sicrhau bod parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd er mwyn i bob disgybl ddod yn rhugl ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, yn

unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014–17.

Yn sgil estyniad bychan i'r cyfnod ymgynghori, yn sgil y cyfnod cyn yr etholiad, ac yn sgil y nifer mawr o ymatebion a ddaethai i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, yr oedd dyddiadau'r cynnig wedi newid. Yr oeddid wedi gwneud hyn er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gael i bobl fynegi eu barn ac er mwyn sicrhau nad oedd cyfnod gwyliau'r ysgolion yn tarfu ar y broses. Felly yr oeddid yn cynnig:-

- (i) cau Ysgol Fabanod Llangennech ar 31<sup>ain</sup> Awst, 2017;
- (ii) cau Ysgol Iau Llangennech ar 31<sup>ain</sup> Awst, 2017;
- (iii) o 1<sup>af</sup> Medi, 2017 ymlaen sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol, ynghyd â darpariaeth feithrin, drwy gyfrwng y Gymraeg (CC) i ddisgyblion 3-11 oed (a elwir o hyn ymlaen yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llangennech) ar safleoedd ac yn adeiladau presennol Ysgol Fabanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech. Byddai nifer y lleoedd yn y ddwy ysgol yn aros yr un fath ond byddai'r nifer yn cael ei adolygu a'i addasu'n unol â hynny petai galw yn y dyfodol.

Yn unol â chyfarwyddiadau'r Bwrdd Gweithredol yn y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 4<sup>ydd</sup> Ionawr 2016 (gweler cofnod 15), yr oedd ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal rhwng 25<sup>ain</sup> Ionawr a 18<sup>fed</sup> Mawrth, 2016, yr oedd y canlyniadau ynghlwm wrth yr adroddiad.

Pe byddid yn penderfynu cyhoeddi Hysbysiad Statudol, byddid yn ei gyhoeddi yn ystod yr wythnos fyddai'n dechrau ar 5<sup>ed</sup> Medi, 2016. Pe byddid, ar ôl i gyfnod yr Hysbysiad Statudol orffen, yn cymeradwyo'r adroddiad gwrthwynebiadau oedd yn crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a gawsid gan randdeiliaid, byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, i'r Bwrdd Gweithredol, ac yn y pen draw, i'r Cyngor i benderfynu'n derfynol yn ei gylch.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1 gofynnodd y Cynghorydd D.M. Cundy - pe byddid yn gwaredu'r gyfundrefn ddwy ffrwd yn Llangennech, gan beri bod pwysau aruthrol o ran y lleoedd yn yr ysgolion lleol drwy gyfrwng y Saesneg yn y Bynea, y Bryn a'r Hendy o fis Medi eleni ymlaen, o ystyried y datblygiadau oedd newydd eu cwblhau a'r datblygiadau adeiladu newydd arfaethedig yn yr ardal, ynghyd â'r plant ychwanegol o Langennech fyddai am gael addysg drwy gyfrwng y Saesneg - beth oedd y cynllun a'r gyllideb ar gyfer y gwaith gwella anochel fyddai'n angenrheidiol yn yr ysgolion hyn yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Esboniodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod cynigion yr Awdurdod ynghylch trefniadaeth ysgolion yn rhoi sylw i ddatblygiadau tai yn y dyfodol, gan ystyried y galw y gallent ei beri am leoedd yn yr ysgolion. Nod cynigion y Cyngor ar gyfer Ysgol Llangennech yw bod y plant lleol yn mynychu'r ysgol honno yn y dyfodol. Eglurwyd nad oedd yn fwriad gan y Cyngor fod unrhyw blant lleol yn chwilio am le mewn ysgolion y tu hwnt i Langennech. Dywedwyd y byddai'r Cyngor yn dal i fonitro'r galw am leoedd yn Ysgol yr Hendy, gan roi sylw penodol i'r datblygiadau tai newydd yn y cyffiniau. Yr oedd y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cynnwys darpariaeth ar gyfer buddsoddi yn Ysgol yr Hendy er mwyn ei helaethu a'i moderneiddio, a dylai fod modd cysoni'r buddsoddiad hwn â'r angen am gynyddu'r lleoedd petai galw am hynny. Dywedwyd taw mater i Ddinas a Sir Abertawe oedd y datblygiad preswyl ym Mhontarddulais.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1 gofynnodd y Cynghorydd J.S. Edmunds i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant a fyddai'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried caniatáu i'r sefyllfa bresennol barhau yn Llangennech, a thrwy hynny osgoi effeithiau andwyol y cynigion ar gymuned Llangennech, ynghyd â mabwysiadu meddylfryd mwy strategol ar gyfer y 9 mis oedd yn weddill gan y weinyddiaeth er mwyn i'r sefyllfa bresennol beidio â digwydd mewn manau eraill yn Sir Gaerfyrddin.

Atgoffwyd y Cynghorydd Edmunds gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod y broses yn un ddemocrataidd iawn a bod sawl cyfnod ymgynghori cyn i'r Cyngor Llawn benderfynu'n derfynol ar y mater.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 nodi'r sylwadau a ddaethai i law ar ôl y cyfnod ymgynghori cychwynnol ac ymatebion yr Awdurdod iddynt;**

**9.2 bod hysbysiad statudol i weithredu'r cynnig yn cael ei gyhoeddi.**

## **10. ADRODDIAD TERFYNOL GRŴP GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD 2015/16: - TALIADAU PARCIO CEIR**

Rhodddwyd gwybod i'r Bwrdd Gweithredol fod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd, yn ei gyfarfod ar 15<sup>fed</sup> Mai, 2015, wedi cytuno i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymchwilio i'r gwahanol ymagweddau at daliadau am barcio ceir y gellid eu rhoi ar waith yn y sir.

Ar ôl ystyried yr adroddiad am Feysydd Parcio yn Llanelli yn ei gyfarfod ar 28<sup>ain</sup> Medi, 2015 (cofnod 14) yr oedd y Bwrdd Gweithredol wedi gofyn i'r Grŵp roi sylw hefyd i'r dewisiadau o ran cyflwyno system talu wrth adael ym maes parcio aml-lawr Llanelli yn lle'r system talu ac arddangos/talu ar droed.

Daethai'r adolygiad i ben ag 11 o argymhellion a oedd wedi eu llunio yn sgil ystyried amrywiaeth o dystiolaeth mewn cyfres o gyfarfodydd a gynhelid rhwng Medi 2015 ac Ebrill 2016.

Diolchodd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i bawb oedd wedi bod yn gysylltiedig â hyn.

Nodwyd y byddai angen i'r argymhellion dan sylw gael eu cloriannu mewn perthynas â'r goblygiadau o ran yr adnoddau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd: Taliadau am Barcio Ceir, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.**

## **11. STRATEGAETH DIOGELWCH FFYRDD SIR GAERFYRDDIN**

Bu'r Bwrdd yn ystyried Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Sir Gaerfyrddin 2016-2020 a oedd wedi ei llunio er mwyn ceisio lleihau nifer y bobl oedd yn cael eu lladd neu eu

hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd y Sir, yn unol â'r targedau cenedlaethol o ran lleihau nifer y clwyfedigion oedd wedi'u pennu gan y Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru yr oedd rhaid eu cyrraedd erbyn 2020.

Nodwyd y byddai'r Awdurdod yn dal i fuddsoddi mewn diogelwch ffyrdd drwy gyllido addysg ynghylch diogelwch ffyrdd, gwaith gwerthuso a gwaith peirianegol, a thrwy ddal i estyn cefnogaeth i gamau gorfodi gan yr Heddlu. Hefyd byddai'r swyddogion yn dal i fod yn gysylltiedig â threfniadau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cynnal mentrau addysg ynghylch diogelwch ffyrdd ac er mwyn clustnodi safleoedd ar gyfer gwaith gorfodi ac ymyriadau peirianegol.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Sir Gaerfyrddin 2016/2020 yn cael ei chymeradwyo.**

## **12. Y RHAGOLYGYN O RAN CYLLIDEB REFENIW 2017/18 - 2019/20**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad am y rhagolygon ariannol presennol a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y model ariannol presennol ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf. Yr oedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynigion o ran paratoi'r gyllideb am y tair blynedd nesaf sef 2017/18, 2018/19 a 2019/20.

### **PENDERFYNWYD**

- 12.1 nodi'r rhagolygon cyllidebol cychwynnol a'r heriau ariannol sylweddol oedd ynghlwm wrthynt;**
- 12.2 cadarnhau'r dull a gynigiwyd o ran clustnodi'r arbedion angenrheidiol;**
- 12.3 cadarnhau'r dull a gynigiwyd o ran ymgynghori ynghylch y gyllideb.**

## **13. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2015-2016**

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 24<sup>ain</sup> Chwefror 2015 (gweler Cofnod 8), wedi mabwysiadu'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Yn unol â'r polisi hwnnw, cafodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys a oedd yn amlinellu gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn ystod 2015/16 ac yn crynhoi'r gweithgareddau oedd wedi digwydd yn ystod 2015/16 o dan y penawdau canlynol: Buddsoddiadau; Benthycu; Dangosyddion Darbodaeth Rheoli'r Trysorlys; Dangosyddion Darbodaeth; Prydlesu ac Aildrefnu.

### **PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CYNGOR ei fod yn derbyn Adroddiad Blynyddol 2015/16 ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys.**

## **14. PROSIECT SOLAR FFOTOFOLTAIDD (PV)**

Cafodd y Bwrdd grynoded o'r broses ers y penderfyniad, yn ei gyfarfod ar 27<sup>ain</sup> Gorffennaf, 2015 (gweler Cofnod 3), i gamu ymlaen â'r Prosiect Solar Ffotofoltaidd.

Yr oedd y Cyngor wedi ystyried adroddiad ychwanegol ar 10<sup>fed</sup> Mawrth, 2016 (gweler Cofnod 11) pryd yr oedd wedi cytuno i gyllido'r cynllun fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac yr oedd y Cyngorydd D.M. Jenkins, yr Aelod o'r Bwrdd

Gweithredol dros Adnoddau, wedi ei benodi i fod ar Fwrdd y Gymdeithas Budd Cymunedol, Egni Sir Gâr.

Er i benderfyniad gael ei wneud ynghylch y dylai'r Cyngor fuddsoddi'n uniongyrchol yn Egni Sir Gâr, a hynny hyd at uchafswm o £1.5 miliwn, nid oedd caniatâd i'r Cyngor brynu cyfranddaliadau yn Egni Sir Gâr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cyngor yn prynu cyfranddaliadau yn Egni Sir Gâr sef am werth y buddsoddiad olaf, a hynny hyd at uchafswm o £1.5 miliwn.**

## 15. PRIF GYNLLUN PARC HOWARD

Bu'r Bwrdd yn ystyried prif gynllun diwygiedig ar gyfer Parc Howard yn Llanelli. Eglurwyd bod y parc yn cael ei reoli gan Adran yr Amgylchedd a bod y Plasty (yr Amgueddfa) yn cael ei reoli gan yr Is-adran Hamdden o fewn yr Adran Cymunedau.

Er bod elfennau o'r prif gynllun yn ddyheadau tymor hirach a fyddai'n cael eu gwireddu o bosibl drwy Gymdeithas Parc Howard neu Gyfeillion Grŵp Parc Howard, neu law yn llaw â'r rhain, yr oedd pum maes blaenoriaeth wedi eu clustnodi ar gyfer cael sylw ar unwaith:-

- Cyfleusterau chwarae newydd ar gyfer plant bach, plant iau a phlant yn eu harddegau yn y parc;
- Cyfleuster parcio ceir a fyddai'n fodd i annog mwyfwy o bobl i ddefnyddio'r cyfleusterau ac a fyddai'n hanfodol er mwyn i ddatblygiad y parc yn fasnachol ddigwydd mewn modd sensitif.
- Bod datblygiad masnachol llawr isaf y plasty ac efallai'r ardd furiog yn y cefn yn digwydd mewn modd sensitif.
- Ailwampio'r llecyn arddangos ar y llawr cyntaf, gan gynnwys ystafell gymunedol, a gwireddu prosiect y 6 Threftadaeth (sef prosiect ar y cyd gan yr Archifau, yr Amgueddfeydd a'r Llyfrgelloedd gyda golwg ar ddatblygu gwefan i ddigideiddio treftadaeth Sir Gaerfyrddin drwy gyfrwng gwefan gan y gymuned sy'n seiliedig ar 6 thema: Pobl, Lleoedd, Digwyddiadau, Cyfnodau, Diwydiant a Chwaraeon);
- Ailwampio'r bandstand.

Dywedwyd bod £150,000 wedi'i neilltuo yn y cronfeydd adrannol ar gyfer gwella'r lle chwarae. Byddai angen cadarnhau costau gwella'r maes parcio ond yr oeddid yn rhagweld y byddent tua £100,000. Ar ôl y buddsoddiad cyfalaf cychwynnol, dylai'r defnydd masnachol o lawr isaf y plasty a'r ardd furiog ddod ag incwm i'r parc a ddylai helpu i leihau'r costau cynnal yn y dyfodol. Yr oeddid yn rhagweld y byddai cost ailwampio'r amgueddfa a chynnal prosiect y 6 Threftadaeth yn rhyw £30,000. Nid oedd cadarnhad hyd yn hyn ynghylch cost atgyweirio'r bandstand ond byddai'n debygol o fod tua £50,000 (mwy na thebyg drwy gyflwyno cais am grant neu gyllid allanol ar y cyd â Chymdeithas Parc Howard).

## PENDERFYNWYD

### 15.1 derbyn Prif Gynllun Parc Howard;

### 15.2 cymeradwyo dyrannu £150,000 o'r cronfeydd adrannol er mwyn



**gosod dau le chwarae newydd yn y parc;**

**15.3 adolygu/diddymu'r is-ddeddfau lleol yn y parc fel eu bod yn gyson â'r defnydd presennol a'r defnydd yn y dyfodol;**

**15.4 adolygu'r ddarpariaeth parcio yn y parc ac o'i gwmpas, ac archwilio cyfleoedd datblygu masnachol sensitif ar gyfer llawr isaf y plasty a'r ardd furiog yn y cefn.**

## **16. PRIF GYNLLUN PARC GWLEDIG PEN-BRE**

Bu'r Bwrdd yn ystyried fersiwn drafft cyntaf y prif gynllun diwygiedig ar gyfer Parc Gwledig Pen-bre. Y bwriad wrth lunio'r ddogfen ddrafft oedd sbarduno rhagor o drafod gan roi amcan sut y gellid datblygu parthau yn y parc. Byddai angen gwneud llawer mwy o waith manwl i'r prif gynllun yn enwedig o ran cynllunio a dylunio. Hefyd byddai angen i'r prif gynllun fod yn rhan o'r prif gynllun adfywio ehangach ar gyfer Penrhyn Pen-be ac Ardal Arfordirol Llanelli.

Yr oedd tri maes blaenoriaeth wedi eu clustnodi gyda golwg ar weithredu'n ddiymdroi:-

- Gwelliannau i fynedfa'r safle ac i'r arwyddion yn y parc;
- Adeilad toiledau a chawodydd newydd ar gyfer y safle carafannau a gwersylla;
- Canolfan ymwelwyr a chaffi yn y parc.

Yn ogystal byddid yn rhoi sylw i'r meysydd canlynol o ran gwneud rhagor o waith dylunio a phennu costau:-

- Yr oeddid yn rhagweld y gellid gosod cladin newydd ar adeilad y bwyty, a oedd yn adeilad helaeth a chadarn, ynghyd â'i ailwampio er mwyn cynnwys gweithgareddau dan do yr oedd eu mawr angen ar y parc e.e. chwarae meddal, dringo dan do, gemau bwrdd, muriau antur, arcêd fechan;
- Creu parth chwaraeon traeth newydd yng nghyffiniau'r caban ger y traeth, ynghyd â chyfleuster chwarae newydd a llecyn chwarae pêl foli / pêl-droed ar y traeth.

Dywedwyd bod amcangyfrif y costau yn anodd ar hyn o bryd heb wneud unrhyw waith archwilio ar y safle a heb fanylebau manwl. Gallai rhai o'r dyheadau yn y prif gynllun gael eu gwireddu yn y camau diweddarach drwy gael buddsoddiad gan y sector preifat neu drwy fuddsoddiad mewnol er mwyn arbed ceisiadau. Yr oedd angen dylunio'r cyfleusterau newydd yn y parc mewn modd sensitif gan fod yn gyson o ran brandio. Dewis posibl fyddai camu ymlaen i'r gwaith dylunio ac yna'r gwaith gwneud a hynny â chyllidebau penodedig ar gyfer pob datblygiad. Gallai'r costau posibl fod o fewn y terfynau canlynol:-

- Y fynedfa tua £75,000
- Yr adeilad cawodydd a thoiledau tua £200,000
- Canolfan ymwelwyr a chaffi tua £600,000
- Canolfan gweithgareddau dan do tua £450,00
- Parth chwaraeon traeth newydd tua £250,000

Eglurwyd bod £250,000 wedi'i neilltuo eisoes yn rhaglen gyfalaf 2016/17 ar gyfer

Parc Gwledig Pen-bre; fodd bynnag, yr oedd cyfran o'r swm hwn wedi ei glustnodi eisoes ar gyfer gwaith (tua £30,000) yng nghaffi'r Ganolfan Sgïo ac yr oedd £50,000 wedi ei wario eisoes ar osod cyfarpar chwarae newydd yn y lle chwarae i blant iau. Y bwriad oedd buddsoddi rhagor yn y Ganolfan Sgïo a Gweithgareddau, gan greu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau antur newydd megis wal ddringo, llecyn chwarae antur, gwifren wib, ac yn y blaen.

Byddai angen gwneud cryn waith o ran dylunio a chynllunio yn achos yr holl bethau uchod. Yn ddelfrydol byddai'r datblygiadau blaenoriaeth yn barod ar gyfer tymor y Gwanwyn/Haf 2017, ond byddai hynny'n dipyn o her. Gallai defnyddio partneriaid fframwaith neu bartneriaid datblygu allanol fod o gymorth mawr o ran datblygu'r elfennau hyn yn gyflym.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**16.1 derbyn y fersiwn drafft o Brif Gynllun Parc Gwledig Pen-bre;**

**16.2 nodi'r goblygiadau o ran adnoddau mewn perthynas â'r canlynol:-**

- **ailwampio mynedfa'r parc, gan gynnwys arwyddion a system atalfa - tua £75,000;**
- **adeilad toiledau a chawodydd newydd ar gyfer y safle carafanio a gwersylla - tua £200,000;**
- **canolfan ymwelwyr a chaffi - tua £600,000.**

## **17. CLYMOG JAPAN A PHLANHIGION ANFRODOROL YMLEDOL ERAILL**

Rhodddwyd gwybod i'r Bwrdd fod Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 wedi cyflwyno newidiadau mawr o ran y pwerau sydd ar gael i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yr oedd y llywodraeth wedi cyflwyno'r ddeddf hon heb ddarparu dim adnoddau ychwanegol ar gyfer ei gweithredu.

Yr oedd pwerau'r Ddeddf uchod yn cynnwys "Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol" y gallai Cynghorau, yr Heddlu a landlordiaid cymdeithasol dynodedig eu defnyddio lle'r oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio'n andwyol ar ansawdd bywyd y gymdogaeth ac yn gyson ac afresymol. Gallai hysbysiadau o'r fath fynnu bod unigolyn yn rhoi'r gorau i'r ymddygiad tramgwyddus, neu roi bod i gamau cadarnhaol i atal rhagor o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yr oedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi newid trefniadau'r swyddogaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol drwy dynnu cyllid yn ei ôl oddi ar bob un o'r cynghorau yn rhanbarth Dyfed-Powys (a oedd yn darparu swyddogion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol penodol) ac wedi cyfnerthu'r rôl hon yn nwylo Gwalia yn 2015. Eglurwyd taw rôl swyddogion Gwalia yw helpu asiantaethau eraill mewn perthynas â chyfarfodydd Grwpiau Datrys Problemau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac o ran estyn cymorth i ddiodefwyr; fodd bynnag nid oes ganddynt rôl orfodi fel oedd gan y trefniadau blaenorol.

Gan nad oes gan swyddogion Gwalia rôl orfodi, mater i'r Cyngor neu Awdurdod yr Heddlu yw unrhyw orfodi.

Gan roi sylw i blanhigion anffrodorol ymledol, gan gynnwys clymog Japan, yr oedd

canllawiau'r Swyddfa Gartref yn awgrymu y gellid defnyddio'r pŵer hwn (cyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol) i fynnu bod perchenogion tir yn cymryd camau i reoli planhigion o'r fath ar eu tir. Gan law canllaw oedd hwn, nid oedd rheidrydd cyfreithiol ar asiantaethau i weithredu hyn ac i gymryd camau gorfodi,

Yr oedd anawsterau ymarferol ynghlwm wrth ddefnyddio'r pŵer hwn:-

- (a) Prin yw'r dulliau sydd ar gael i berchenogion tir i fynd i'r afael â chlymog Japan, a gwan yw eu heffaith. Yr oedd yn ddigon posibl na fyddai'r gofynion mewn hysbysiad yn gweithio;
- (b) Hefyd mae'r dulliau sydd ar gael yn ddrud, gan olygu bod gan dderbynnnydd hysbysiad reswm dilys dros apelio;
- (c) Os ceir cwyn bod clymog Japan wedi ymledu o eiddo arall i dir yr achwynydd, byddai'n rhaid cyflwyno hysbysiadau i'r ddau berchennog tir;
- (d) Byddai'r ffactorau uchod yn rhoi bod i ymchwiliad, a byddai'r camau gorfodi i unioni'r sefyllfa yn cymryd llawer iawn o amser ac felly'n dipyn o dreth ar adnoddau'r swyddogion;
- (e) Dim ond pan fo'r cyfryw blanhigion wedi eu symud yn anghyfreithlon y byddai Awdurdod yr Heddlu yn cymryd camau gorfodi;
- (f) Yr oedd gan yr Awdurdod wybodaeth am blanhigion anfrodorol ymledol ar y wefan, ynghyd â chyfeiriadau/dolenni cyswllt at wybodaeth ychwanegol ynghylch dulliau rheoli;
- (g) Yr oedd gan yr Awdurdod raglen ar waith i reoli unrhyw blanhigion anfrodorol ymledol ar dir y Cyngor.

## PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 17.1 Ni fydd yr Awdurdod yn ymateb i geisiadau ynghylch clymog Japan a phlanhigion anfrodorol ymledol eraill ar eiddo preifat nac yn cymryd unrhyw gamau ffurfiol mewn perthynas â'r mater hwn;
- 17.2 Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio cwsmeriaid at y canllawiau sydd ar gael ar wefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch difa a gwaredu planhigion o'r fath yn ddiogel;
- 17.3 Bydd yr Awdurdod yn dal i weithredu ei raglen rheoli planhigion anfrodorol ymledol ar ei eiddo ei hun;
- 17.4 Bydd yr Awdurdod yn cyflwyno sylwadau i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch bod angen rhagor o gyllid ar Awdurdodau Lleol i reoli planhigion ymledol.

## 18. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Atgoffwyd y Bwrdd fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 11<sup>eg</sup> Tachwedd, 2015 (gweler Cofnod 12), wedi cymeradwyo cyhoeddi'r fersiwn drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol at ddibenion ymgynghori ffurfiol. Yr oedd y cyfnod ymgynghori wedi ei gynnal rhwng 24<sup>ain</sup> Chwefror ac 8<sup>fed</sup> Ebrill, 2016. Yr oedd cyfanswm o 59 o sylwadau wedi dod i law gan amrywiaeth o gyrff, pobl oedd a wnelont â'r mater, a'r cyhoedd, ac yr oedd y sylwadau ar gael yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Nodwyd bod y fersiwn drafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi ei lunio i ategu'r polisiau a'r darpariaethau oedd yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin ac i ymhelaethu arnynt. Nid diben y Canllawiau Cynllunio Atodol oedd datganoli materion polisi o'r Cynllun Datblygu Lleol nac o'r polisi cenedlaethol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**18.1 Nodi'r sylwadau oedd wedi dod i law;**

**18.2 Bwrw ati i fabwysiadu'n ffurfiol y Canllawiau Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin gan gynnwys y newidiadau arfaethedig;**

**18.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion gywiro unrhyw wallau teipio neu ramadeg.**

## **19. POLISI MODEL AMSER I FFWRDD AR GYFER YSGOLION**

[SYLWER: Yr oedd y Cynghorwyr L.D. Evans a G.O. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Bwrdd yn ystyried y Polisi Amser o'r Gwaith (Enghreifftiol) ar gyfer Ysgolion, a oedd yn addasiad o'r Polisi Amser o'r Gwaith Corfforaethol.

Eglurwyd bod gan yr Awdurdod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ynghylch amser o'r gwaith a oedd yn rhoi manylion am y mathau o amser o'r gwaith y gall gweithwyr wneud cais amdanynt yn statudol ac yn unol â'u contract gan eu rheolwyr llinell. Dywedwyd bod yr holl bolisiau hyn wedi eu rhestru ar wahân ar hyn o bryd ymhlith y polisiau a'r canllawiau Adnoddau Dynol ar Fewnwyd y Cyngor, ac y gallai fod angen i reolwyr ddarllen nifer o ddogfennau i gael hyd i'r polisi sy'n berthnasol i'w sefyllfa hwy.

Er bod ysgolion yn gallu cyrchu'r dogfennau hyn, byddai angen i gyrff llywodraethu ysgolion fabwysiadu pob un o'r polisiau hyn yn unigol. Eglurwyd bod y Polisi Amser o'r Gwaith (Enghreifftiol) ar gyfer Ysgolion wedi ei lunio ar ffurf dogfen gyfeirio hawdd ei defnyddio gan gwmpasu'r holl drefniadau amser o'r gwaith y gallai gweithwyr ofyn amdanynt.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo mabwysiadu'r Polisi Amser o'r Gwaith (Enghreifftiol) ar gyfer Ysgolion.**

## **20. POSIBILRWYDD O GAFFAEL NEUADD SIROL CAERFYRDDIN**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod am i'r eitem hon gael ei thrafod yn gyhoeddus, ac felly cynigiodd fod yr eithriad yn cael ei godi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL godi'r eithriad ac ystyried yr adroddiad yn gyhoeddus.**

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad am y dewisiadau o ran y posibilrwydd o brynu Neuadd Sirol Caerfyrddin.

Yn sgil y penderfyniad gan Wasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi i gau'r Neuadd Sirol ac i'w gwaredu, yr oedd nifer o fudiadau a chynghorwyr ynghyd â'r cyhoedd wedi mynegi barn bendant ynghylch cadw'r Neuadd Sirol ym meddiant y cyhoedd, a hynny oherwydd ei phwysigrwydd hanesyddol ac oherwydd ei phensaerniaeth ysblennydd, gan sicrhau ei bod ar gael er budd pobl Sir Gaerfyrddin.

Eglurwyd bod swyddogion yr Awdurdod wedi bod yn cynnal trafodaethau helaeth gyda'r asiantiaid oedd yn gweithredu ar ran Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi gyda golwg ar brynu'r adeilad o bosibl. Yn sgil derbyn cyfarwyddyd ar y cyd gan y Cyngor a'r perchenogion, yr oedd y Prisiwr Dosbarth wedi ymgymryd â phrasiad annibynnol gan bennu bod y Neuadd Sirol yn werth £225,000. Er yr heriau a'r cyfyngiadau oedd ynghlwm wrth yr adeilad, yr oedd y Prisiwr Dosbarth yn dal o'r farn, oherwydd pwysigrwydd y neuadd yn hanesyddol, fod y prasiad yn unol â gwerth yr adeilad ar y farchnad agored. Gan ei fod yn adeilad rhestredig Gradd 2 nad yw ei isadeiledd yn unol â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ac sydd â dyluniad braidd yn gyfyngedig, ni fyddai'r defnydd o'r adeilad a fyddai'n cael ei ffafrio gan y Cyngor yn glir hyd nes y byddid wedi ymgynghori'n llawn â'r rhanddeiliaid perthnasol. Er mwyn ei helpu i benderfynu ar y mater, yr oedd yn rhaid i'r Cyngor wneud nifer o dybiaethau ar sail defnydd posibl. Fodd bynnag, petai'r Cyngor yn penderfynu mynd ar drywydd y mater hwn, byddai angen gwneud gwaith manwl er mwyn canfod pa ddefnydd a allai fod yn briodol a pha ddefnydd a allai fod yn amhriodol, a hynny o ran ymarferoldeb ac o ran yr hyn a ystyrid yn briodol gan CADW/y cynllunwyr.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL brynu'r Neuadd Sirol am y pris a bennwyd gan y Prisiwr Dosbarth.**

## **21. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## **22. CYFFORDD STRYD Y GWYNT - LÔN TIR-Y-DAIL, RHYDAMAN - PRYNU TIR**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 21 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyo dechrau prynu tir a defnyddio pwerau Prynu Gorfodol, yn ôl yr angen, mewn perthynas â phrif gynllun ailddatblygu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**22.1 cymeradwyo cychwyn prynu'r tir sydd ei angen ar gyfer y prosiect;**

**22.2 cymeradwyo, mewn egwyddor, ddefnyddio pwerau Prynu Gorfodol yn ôl yr angen.**



**23. MAES PARCIO CYHOEDDUS NEWYDD ARFAETHEDIG - STRYD Y BRENIN, TALACHARN**

[SYLWER: Gan ei bod wedi datgan buddiant personol a rhagfarnol yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J. Tremlett y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 21 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyo dechrau prynu tir a defnyddio pwerau Prynu Gorfodol, yn ôl yr angen, mewn perthynas â phrif gynllun ailddatblygu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ddal ati â'r buddsoddiad cyfalaf yn y maes parcio cyhoeddus newydd yn Stryd y Brenin, Talacharn, yn unol â'r telerau oedd yn yr adroddiad.**

*[Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan fod gan y Cadeirydd, a bod angen, ryddid yn y cyfarfod i amrywio trefn y materion ar yr agenda.]*

---

CADEIRYDD

---

DYDDIAD

DYDD LLUN, 19EG MEDI, 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd E. Dole [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**

H.A.L. Evans, L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, T.J. Jones,  
P.A. Palmer, L.M. Stephens a J. Tremlett

**Yn bresennol fel sylwedyddion:**

Y Cynghorwyr D.M. Cundy, T. Devichand a J. S. Edmunds

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

Mr J. Morgan - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol  
Mr C. Moore - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol  
Mr R. Sully - Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant  
Ms W. Walters - Prif Weithredwr Cynorthwyol  
Mr J. Fearn - Pennaeth Eiddo  
Ms L. Rees Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
Mr G. Morgans - Prif Swyddog Addysg  
Mrs D. Hockenull - Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau  
Mrs M. Evans Thomas - Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 10.40 a.m.**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd dim buddiannau personol yn y cyfarfod.

**3. COFNODION - 23AIN AWST 2016**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 23<sup>ain</sup> Awst 2016 yn gofnod cywir.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan yr Aelodau. Fodd bynnag, roedd wedi cael gwybod gan y Cyngorydd D.M. Cundy, ei fod yn dymuno gofyn cwestiwn ynghylch eitem 6 ar yr agenda, felly byddid yn rhoi sylw i hwn o dan yr eitem briodol yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2016/17 SIR GAERFYRDDIN A'R YMGYNGHORIAD

Dywedwyd wrth y Bwrdd Gweithredol fod Adran 85 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo.

Nod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yw cyflawni canlyniadau a thargedau Llywodraeth Cymru fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gynlluniau 3 blynedd ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol adolygu ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chyflwyno fersiwn diwygiedig ohono i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar ymatebion swyddogion i sylwadau a ddaeth i law yn dilyn ymgynghori ynghylch adolygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2016/17.

Gofynnodd y Cynghorydd D.M. Cundy, yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1, a fyddai modd i'r Bwrdd Gweithredol argymhell i'r Cyngor Llawn neu weithgor ymchwilio i fethodoleg ynghylch sut y mae'r polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn y gyfraith fel ei fod yn dderbyniol gan bawb ac yn caniatáu i ysgolion dwy ffrwd drosglwyddo'n fwy cymunedol gynhwysol i gyfrwng Cymraeg ac nad yw'n eithrio plant ag anghenion arbennig neu anawsterau addysgol.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant ei fod wedi derbyn dogfen ymgynghorol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y bwriad i gael 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Roedd y ddogfen yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer cyrraedd y targed hwn ac yn cyfeirio at yr angen i gynyddu'n sylweddol nifer y bobl sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg gan mai dim ond drwy alluogi mwy o bobl i ddysgu Cymraeg y byddai'r targed o 1 filiwn o siaradwyr yn cael ei gyrraedd. Roedd ymarfer ymgynghori helaeth yn cael ei gynllunio a fyddai'n gyfle i bawb gyflwyno eu sylwadau. Nododd fod gan Sir Gaerfyrddin Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg sy'n monitro'r sefyllfa ac felly gofynnodd a oedd angen panel arall.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg.**

## 7. POLISI DEFNYDD MEWNOL O'R GYMRAEG

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y fersiwn drafft o'r Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg. Mae cyfrifoldeb statudol ar yr Awdurdod, yn unol â Mesur y Gymraeg (2011), i baratoi a chyhoeddi'r polisi hwn, sy'n ceisio hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd ac yn ein gweithle.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg.**

## **8. POLISI ADRODD AC YMATEB I ACHOSION O DORRI DIOGELWCH**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y fersiwn drafft o'r Polisi Rhoi Gwybod am Achosion Torri Amodau ac Ymateb iddynt a oedd wedi'i ddiwygio yn dilyn cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd y polisi drafft yn cryfhau gallu'r Awdurdod i ymateb yn briodol i dor-diogeledd data yn ymwneud â cholli gwybodaeth bersonol neu ei datgelu'n ddamweiniol.

Fel rheolwr data, mae'n ofynnol i'r Awdurdod, yn ôl y gyfraith, roi mesurau sefydliadol priodol ar waith mewn perthynas â diogeledd y wybodaeth bersonol y mae'n ei thrin, sy'n cynnwys sicrhau bod polisïau addas mewn grym.

Cyfeiriwyd at bwynt 3.3 o'r polisi a theimlwyd y dylid newid y gair "occurring" ar ddiwedd y frawddeg gyntaf i'r gair "discovered".

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Polisi Rhoi Gwybod am Dorri Amodau ac Ymateb iddynt yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar gynnwys y newid.**

## **9. BREXIT A'R EFFAITH BOSIBL AR SIR GAERFYRDDIN**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r ddealltwriaeth bresennol ynghylch gadael yr UE a'r goblygiadau posibl o ran faint o gyllid Ewropeaidd y mae'r Sir yn ei dderbyn, yn ogystal â chamau sy'n cael eu cymryd i leihau'r effaith uniongyrchol ar Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**9.1 derbyn yr adroddiad;**

**9.2 bod yr Awdurdod yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau bod y gwariant yn cael ei gyflymu a bod buddsoddi o hyd ar ôl gadael yr UE;**

**9.3 cynorthwyo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lobïo ynghylch ymrwymiad cyllid pendant gan lywodraeth y DU i wneud iawn am unrhyw ddiffyg yn y cyllid Ewropeaidd sydd wedi'i ddyrannu i Gymru hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglenni presennol h.y. 2020;**

**9.4 symud y prosiectau presennol yn eu blaenau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyflymach.**

## **10. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad monitro ynghylch y gyllideb refeniw a oedd yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf fel yr oedd ar 30<sup>ain</sup> Mehefin, 2016 o ran blwyddyn ariannol 2016/17.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai gorwariant diwedd blwyddyn o £1,854k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £2,710k ar lefel adrannol. Rhagwelid tanwariant o £404k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 derbyn yr Adroddiad Monitro ynghylch y Gyllideb;**

**12.2** bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu eu sefyllfa oedd cyllidebol yn feirniadol ac yn cymryd camau priodol i ddarparu eu gwasanaethau yn unol â'r cyllidebau a ddyrannwyd iddynt.

**11. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2016-17**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ynghylch gwariant y Rhaglen Gyfalaf yn erbyn cyllideb 2016/17, fel yr oedd ar 30<sup>ain</sup> Mehefin, 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**11.1** derbyn yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf;

**11.2** cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol a amlinellwyd yn yr adroddiad.

**13. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraffau 14 a 17 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

**14. FFORDD GYSWLLT GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 13 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) a gwybodaeth sy'n datgelu bod yr Awdurdod yn cynnig gwneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddfiad.

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a manylion am gynigion mewn perthynas â Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** gymeradwyo'r argymhellion y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

---

CADEIRYDD

---

DYDDIAD



## Y Bwrdd Gweithredol 17 Hydref 2016

### Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gwyrdd o Dŷ i Dŷ

#### Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

- Ystyried y cynigion ar gyfer cyflwyno system newydd o dalu am gasgliadau gwastraff gwyrdd/gwastraff gardd o dŷ i dŷ, gan ddefnyddio biniau olwyn plastig yn gynwysyddion.
- Cymeradwyo'r lefel o daliadau a argymhellir.
- Cymeradwyo gweithredu'r system/taliadau a argymhellir o ddydd Llun 3 Ebrill 2017 ymlaen, gan gynnwys cyfnod gwyliau'r Pasg yn 2017.

#### Y Rhesymau:

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno bob pythefnos system newydd o dalu am gasgliadau gwastraff gwyrdd/gwastraff gardd, ar sail darparu biniau 240 litr a fydd yn disodli'r gwasanaeth casglu presennol y codir tâl amdano, sy'n seiliedig ar ddarparu bagiau pydradwy.

Mae'r newid hwn yn y system gasglu yn angenrheidiol am ddau reswm:

- Nid yw ffurf a dyluniad ein fflyd newydd o gerbydau, a gyflwynir ym mis Hydref 2016, yn caniatáu i borfa gael ei chasglu drwy'r system bresennol o fagiau gwyrdd. Bydd y ffurf newydd yn mynd i'r afael â rhai anawsterau ymarferol o ran y cerbydau presennol.
- Y newid posibl yn y dyfodol i'r broses o drin gwastraff bwyd os byddwn yn dewis newid i'r dull o drin bwyd sy'n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru, sef treuliad anerog. Byddai hyn yn golygu symud i ffwrdd o'r arfer presennol o gymysgu porfa â gwastraff bwyd. Bydd cyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd ar wahân yn sicrhau elfen o baratoi ar gyfer y dyfodol gan roi mwy o hyblygrwydd inni ddewis y modd mwyaf priodol o drin bwyd yn y dyfodol.

Mae'r newidiadau arfaethedig a argymhellir wedi eu nodi'n fanylach fel a ganlyn:

1. Bydd y system newydd yn cynnwys darparu biniau plastig, gwyrdd, 240 litr o faint, a bydd cartrefi sy'n cymryd rhan mewn contract â'r Awdurdod ar gyfer y gwasanaeth ym mhob blwyddyn ariannol, am dâl penodol.
2. Gallai'r opsiwn o ddarparu biniau 140 litr o faint fod ar gael ar gais i gartrefi â chyfleusterau storio llai, neu'r rheiny sy'n cael anhawster i symud y biniau mawr. Bydd y tâl yr un fath â'r bin mawr er mwyn adlewyrchu cost y casglu.
3. Bydd y gwasanaeth yn weithredol o fis Mawrth/Ebrill tan fis Hydref ym mhob blwyddyn galendr, gan gynnwys cyfnod gwyliau'r Pasg.
4. Yn y flwyddyn gyntaf byddai'r gwasanaeth newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2017 ac yn cynnwys y Pasg (mewn blynyddoedd i ddod fe allai fod mor gynnar â mis Mawrth, gan ddibynnu ar ba bryd bydd y Pasg).

5. Bydd y gwasanaeth presennol yn dod i ben ddiwedd mis Hydref 2016.
6. Bydd tâl blynyddol am y gwasanaeth. Y ffi safonol arfaethedig sy'n cael ei gynnig ar gyfer y gwasanaeth yw £48 fesul bin ar gyfer 2017/18.
7. Bydd yr opsiynau talu yn cynnwys debyd uniongyrchol (gan rannu'r taliadau dros 6 mis) – mis Ebrill i fis Medi), neu daliad sengl ar ddechrau'r tymor gan gynnwys gostyngiad o 15%. Bydd yr opsiwn taliad sengl felly yn cael ei ostwng i £40.80.
8. Wrth ystyried yr amser sydd ar gael i sefydlu'r gwasanaeth, rhagwelir y bydd rhaid cyfathrebu/hysbysebu'r cynigion newydd ym mis Rhagfyr er mwyn caniatáu digon o amser i gaffael y biniau a'u dosbarthu erbyn mis Ebrill 2017.
9. Ni fydd modd i gwsmeriaid brynu sachau gwastraff gardd pydradwy i'w casglu o ymyl yr heol o fis Hydref 2016 ymlaen. Ni fydd unrhyw ad-daliadau ar gael ar gyfer bagiau bioddiraddadwy a brynwyd eisoes. Felly, rydym ar hyn o bryd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd bydd y cynllun bagiau presennol yn dod i ben, er mwyn sicrhau nad ydynt yn prynu gormod o fagiau ymlaen llaw cyn diwedd y cynllun presennol. Bydd yn bosibl parhau i prynu biniau compost.

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol

DO - Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd – 26 Medi 2016

Y BWRDD GWEITHREDOL

Argymhellion / Sylwadau'r Pwyllgor Craffu:

### Cyfeirio at yr Ymgynghoriadau

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad OES

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad NAC OES

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO: Y  
Cynghorydd Hazel Evans

#### Y Gyfarwyddiaeth:

Yr Amgylchedd

#### Awdur yr Adroddiad:

Ainsley Williams

#### Swydd:

Pennaeth Gwastraff a  
Gwasanaethau  
Amgylcheddol

Rhif Ffôn: 01267 224500

[AiWilliams@sirgar.gov.uk](mailto:AiWilliams@sirgar.gov.uk)

# EXECUTIVE SUMMARY

## 17<sup>TH</sup> OCTOBER 2016

### Kerbside Green Waste Collection Service

#### 1 Introduction

1.1 The Authority will replace its current waste collection vehicles with a fleet of new vehicles in Autumn 2016. The existing collection rounds have been re-designed to provide more efficient routes and hence fewer collection vehicles are required in the new fleet. The new vehicles will also address some current operational difficulties as set out in the following paragraphs.

1.2 Food waste and green (garden) waste are currently co-collected in the same compartment at the rear of the refuse collection vehicle. The combined waste is currently processed via an in-vessel composting facility at CWM Environmental's facility at Nantycaws, Carmarthen.

1.3 In practical terms, difficulties have been experienced with the current form of combined food and green waste collection relating to the open split back design of our existing fleet. Incidents of food waste being forced out at high pressure through seals at the back end of the vehicle during compaction have been observed. There are also difficulties associated with cleaning the vehicles due to the build up of food deposits.

1.4 In addition, we may in future need to consider a new form of food waste treatment by means of anaerobic digestion (AD) - Welsh Government's preferred treatment method. The AD form of treatment does not readily lend itself to receiving a mixture of food and green waste. Separating the two waste types at this stage provides the Authority with flexibility in future to choose the most appropriate form of treatment. In effect, we are future proofing our ability to consider different options.

1.5 In considering the factors outlined in the preceding paragraphs, the new vehicles, which are due at the end of October 2016, will have a different configuration to the current split back twin compartment arrangement. Food waste will be contained in a separate enclosed pod unit located directly behind the cab of the vehicle. Crucially, food waste will no longer be compacted. However, this configuration does not allow green (garden) waste to be collected in the same way as the current method.

1.6 The Authority will therefore need to review its kerbside green waste collection service before new refuse collection vehicles are rolled out in October 2016. The current form of collection will no longer be appropriate.

1.7 Currently, householders can purchase a roll of compostable bags for the purpose of setting out garden green waste at the kerbside for a weekly collection i.e. collection is made at the same time as the food waste collection. Current cost for compostable bag purchase is £3.50 per roll of 20 bags.

1.8 The configuration of the food pod units on the new vehicles do not allow green waste to continue to be collected in this way and hence we will need to consider alternatives; there are three options open to us with respect to the kerbside green collection:

- Cease the collection service and rely on our household waste recycling centres for disposal directly by the public.
- Continue to collect green waste utilising biodegradable bags, but collection would have to be based on bespoke rounds utilising dedicated vehicles and would require customers to formally set up an agreement/contract with us on the same chargeable basis as the proposed bin scheme. However, there are practical drawbacks in continuing to collect using biodegradable bags that relate to concerns over the integrity of the bag if left full of grass over a period of a fortnight. In addition, it would be more difficult to exercise proper controls and checks in relation limiting the service only to those customers that have a subscription.
- Provide a bespoke collection service on a chargeable basis utilising wheeled bins.

1.9 Given the difficulties that terminating the green waste collection service may pose, this report sets out the potential option for operating a chargeable separate service for the collection of green waste and sets out the assumptions and costs relating to setting up such a service. Legislation allows local authorities to charge for the collection of green waste, but not for its disposal or treatment. Hence we are unable to recover the full cost of the service, but this is currently the case with respect to treatment cost.

1.10 Customers will continue to have the option of utilising our household waste recycling centres for disposal of green waste irrespective of whether they subscribe to the new service. In addition, compost bins are available for purchase.

1.11 Disposal arrangement will remain as per the current form of treatment in the short term (composting process), but may be subject to review as part of the wider waste treatment and disposal considerations in future.

## **2 Proposal**

**2.1 Basis of service** - chargeable kerbside collection service provided fortnightly, operating from the beginning of March/April to the end of October each year.

**2.2 Crew and vehicles** – two dedicated 15t open back refuse collection vehicles (RCVs) fitted with cone type bin lifts, crewed by 1 driver and 1 loader per vehicle. The vehicles will be hired for 8-9 months of the year. During the period that the service is not operational, the vehicles will be off-hired and the crews will be deployed elsewhere within the service (refuse and cleansing).

**2.3 Receptacles** –it is proposed that we use wheeled plastic bins of 240 litres capacity (green in colour with the Carmarthenshire logo applied together with the bilingual wording “Green Garden Waste” or similar), with the option of a 140 litres capacity bin for those who find the

smaller bins easier to manage. The subscription charge per bin will remain the same for the two bin sizes. At the end of each season, the bins will remain with the customer on the basis that they will continue to subscribe to the service in the following year. Bins will only be recovered upon notification by the customer that they no longer require the service, or in the event of non-payment.

**2.4 Take up** – experience in other authorities suggests that about 8.5% of all households have taken up a similar chargeable service, although this does vary. For Carmarthenshire, it would equate to about 7,400 households, but current estimates would suggest that we are nearer half this number on our existing bag system, although we do not necessarily know exactly how many take up this service as thus far the information has not been required.

**2.5 Service viability** – the provision of two vehicles and four crew members will be sufficient to serve up to about 6000 customers. Any take up above 6000 subscriptions will mean an additional vehicle and crew being introduced.

**2.6 Standard subscription charge** – three levels of charges have been modelled. It is recommended that the charge to be applied is £48 per annum for each bin. This equates to just 92 pence per week or £4 per calendar month over the year. The annual subscription charges applied by other authorities, based on similar collection schemes are as follows:

- Pembrokeshire, £41.50 per annum
- Bridgend; £27 per annum.
- Monmouthshire; £14 per annum.
- Authorities in England - their charges vary significantly from £20-£120 per annum.

**2.7 Charging mechanism and associated subscription** – it is proposed that the standard charge of £48 per annum made on the basis of a direct debit payment option spread over a period of 6 months (April to September). For those customers paying as a single payment, a 15% discount will be offered, reducing the charge from the standard charge of £48 to £40.80 for 2017/18.

**2.8 Administrative costs** – the cost of administrating the scheme, managing the customer base, associated subscriber accounts and the arranging of new customer schedules and delivery/removal bins has been taken into account in calculating the cost of the service and setting the proposed charge.

**2.9 Cost to Carmarthenshire** – See summary table:

*Summary of net costs for collection (subscription rate of £48 (in Year 1):*

Scenario	Assumed Subscriptions	Cost £ Yr1	Cost £ Yr 2	Cost £ Yr 3	Cost £ Yr 4	Cost £ Yr 5
1. Full cost - with bins bought from	Yr1-5 @ 3000 subscriptions	<b>136,564</b>	82,523	84,173	85,857	87,57



revenue budget.	Yr2-5 @ 4000 subscriptions		<b>41,385</b>	23,003	23,464	23,933
	Yr3-5 @ 4500 subscriptions			<b>8,881</b>	<b>-1,691</b>	<b>-2,556</b>

Notes:

- The above assumes a subscription rate of £48 for Year 1, with inflation applied annually.
- The service would be self-funding from Year 4 onwards, assuming 4,500 subscriptions were secured.
- If the customer base does not expand beyond 3000 customers, the ongoing cost to Authority will be circa £80-£90k per annum.
- If the customer base does not expand beyond 4000 customers, ongoing cost to Authority circa £24k per annum.
- Total cost of scheme, assuming no income is £281k per annum.
- The figures in the table do not include the 15% concession for the single payment option.

If the 15% concession is offered, then the net cost of the scheme would increase by circa £22k based on 3000 customers and £32k for 4500 customers.

The current predicted waste budget deficit for 2017/18 is up to £270k. This deficit excludes any additional cost associated with the proposed gross collection scheme. However, this deficit may yet be reduced due to other variables.

### **3 Recommendation**

3.1 It is therefore recommended that a kerbside green collection scheme be introduced at a standard subscription rate of £48 per annum for Year 1. Charges for subsequent years will be subject to review and annual validation will be applied. The scheme will be available on a direct debit basis over a 6 month period (April to September). For those choosing to pay the full amount as a single payment, a reduction of 15% will apply.

3.2 The scheme should be viewed as a long term trial to establish its appeal and level of participation. The scheme will need to be in place from April 2017 (Year 1 being 2017/18), to include the Easter holiday period.

3.3 In the meantime customers purchasing compostable bags will be advised of the proposed termination of the existing scheme (October 2016) and advised not to purchase too many bags in the lead up to termination of the current scheme. No refunds will be available for compostable bags already purchased.

DETAILED REPORT ATTACHED ?	YES
----------------------------	-----

## IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

**Signed: A Williams**

**Head of Waste and Environmental Services**

Policy, Crime & Disorder and Equalities <b>YES</b>	Legal <b>NO</b>	Finance <b>YES</b>	ICT <b>NO</b>	Risk Management Issues <b>NO</b>	Staffing Implications <b>YES</b>	Physical Assets <b>YES</b>
---	--------------------	-----------------------	------------------	-------------------------------------	-------------------------------------	-------------------------------

### **Policy, Crime & Disorder and Equalities.**

Change in waste operational policy.

Equalities impact assessment completed on the basis that service provision will be maintained, but provided in a different way.

### **Finance**

The current predicted waste budget deficit for 2017/18 is up to £270k. This deficit excludes any additional cost associated with the proposed grass collection scheme. However, this deficit may yet be reduced due to other variables.

- dewis ehangach o gyrsiau a'u hyblygrwydd – yn arwain at gymwysterau o gwricwlwm lleol;
- dysgu ehangach o'r craidd dysgu – gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth, agweddau, gwerthoedd a phrofiadau y bydd eu hangen ar bob un 14-19 oed waeth beth fydd eu llwybr.

Tair elfen cymorth i ddysgwyr yw:

- mynediad at hyfforddwr dysgu – cymorth dysgu ar gael yn fwy dwys i'r rhai sydd â'r angen mwyaf;
- mynediad at gymorth personol – i helpu i oresgyn rhwystrau personol i ddysgu;
- cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd.

Cafodd addysg a hyfforddiant ei drawsnewid yn Sir Gaerfyrddin yn sgil gweithredu rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19. Roedd y trawsnewid hwn yn cynnwys mwy o ffocws ar lwybrau hyfforddi galwedigaethol yn gysylltiedig â blaenoriaethau economaidd lleol a gwell cymorth personol i ddysgwyr i'w helpu i lwyddo. Roedd yr arferion cydweithio rhwng ysgolion uwchradd, Coleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant yn canolbwyntio ar wella'r dewisiadau galwedigaethol sydd ar gael i ddysgwyr, ynghyd ag asesu ansawdd cyflenwi'r ddarpariaeth ar y cyd. Yn sgil y gwaith hwn, sefydlwyd diwylliant cadarn o ymddiriedaeth rhwng darparwyr addysg nad yw'n bodoli unrhyw le arall yng Nghymru. Mae'r diwylliant hwn yn galluogi i anghenion y dysgwyr gael eu blaenoriaethu yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm.

Er bod polisi Llywodraeth Cymru bellach wedi symud ymlaen o fodel Llwybrau Dysgu 14-19, y mae'n hanfodol bod Sir Gaerfyrddin yn cadw'r ethos o ganolbwyntio ar y dysgwr a'r llwybrau dysgu lleol sydd wedi ennill eu plwyf drwy'r ysgolion a Choleg Sir Gâr ac i mewn i'r sectorau cyflogaeth allweddol fel adeiladu a gofal. Mae'r egwyddorion hyn yn sylfaen i ddatblygu cwricwlwm Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol.

## **6.2 Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – Cyflenwi Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru (2009)**

Prif flaenoriaeth y strategaeth hon gan Lywodraeth Cymru oedd sicrhau gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar gyfleoedd swyddi lefel uchel yn y dyfodol. Nodai'r adroddiad yr angen i integreiddio gwaith ysgolion, sefydliadau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch a darparwyr ôl-16 eraill er mwyn trawsnewid y ffyrdd y caiff addysg a hyfforddiant eu cyflenwi ledled y rhanbarth daearyddol.

O ganlyniad, roedd disgwyl i ddarparwyr addysg ffurfio partneriaethau dysgu sectorol. Byddai gofyn i'r partneriaethau hyn gynllunio a gweithredu'r gwelliannau a amlinellwyd ym mholisi Llywodraeth Cymru. Roedd gofyn trawsnewid y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant er mwyn ehangu'r opsiynau sydd ar gael i rai 14-19 oed, lleihau achosion diangen o ddyblygu darpariaeth, a symud tuag at ragoriaeth ar draws rhwydweithiau o ddarparwyr. Roedd gofyn i bob awdurdod lleol gyflwyno Achos Deiliant Strategol i amlinellu sut byddai'r newidiadau angenrheidiol yn cael eu gweithredu.

Nododd yr adroddiad amrywiaeth o opsiynau posibl i ddarparwyr gydweithio. Byddai gofyn ystyried yr opsiynau hyn i sicrhau gwelliannau sylweddol o ran cyflenwi addysg a hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16, a gallent gynnwys cydweithio anffurfiol, cydlywodraethu partneriaethau dysgu lleol, cyfuno'r hyn a gyflenwir gan ysgolion a cholegau, a gwaredu achosion o drosglwyddo darpariaeth bresennol am resymau dyblygu neu aneffeithlonrwydd ariannol.

Disgwyliad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r partneriaethau dysgu lleol yn canolbwyntio ar feysydd i'w datblygu lle mae'r angen mwyaf o welliant yn neilliannau'r dysgwyr.

Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y dylai pawb sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant ôl-14 gydweithio i fynd i'r afael â'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

- gwelliant mewn lefelau sgiliau sylfaenol;
- cynnydd yng nghyfradd y rhai 16-18 ac 19-24 sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth;
- cynnydd yng nghyfraddau llwyddiant dysgwyr yn gyffredinol, gan adlewyrchu lefelau uwch o gwblhau ymhlith dysgwyr yn ogystal â chyrraedd nodau cymwysterau;
- cynnydd mewn cymwysterau Lefel 2, 3 a 4;
- cynnydd yn y gyfradd sy'n symud ymlaen i ddysgu lefel uwch neu gyflogaeth lefel uwch.

Disgwyliad Llywodraeth Cymru oedd y byddai cynigion i gydweithio yn rhoi ystyriaeth i achosion o aneffeithlonrwydd perthnasol mewn darpariaeth ôl-16. Credai Llywodraeth Cymru fod aneffeithlonrwydd yn fwy tebygol pan fo ysgol chweched dosbarth yn gweithredu â llai na 150 o fyfyrwyr (ar sail ymchwil y Comisiwn Archwilio) ond yr oedd hefyd yn cydnabod bod angen rhoi ystyriaeth i ardaloedd gwledig a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Roedd ymateb Sir Gaerfyrddin i'r agenda drawsnewid yn seiliedig ar gryfderau presennol gwaith partneriaeth yn gysylltiedig â gweithredu rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19. Ers 2009, gall y bartneriaeth gynnig tystiolaeth o amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn gysylltiedig â'r rhaglen hon, gan gynnwys gwell perfformiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4, gwell cyfraddau aros ymlaen, a gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r gwaith hwn yn parhau yn Sir Gaerfyrddin a bydd yn parhau i fod yn egwyddor sylfaenol wrth ddatblygu cwricwlwm lleol a amlinellir yn argymhellion yr adroddiad hwn.

Fel ymateb i'r Agenda Drawsnewid ehangach, lansiodd Llywodraeth Cymru amrywiaeth o adolygiadau, strategaethau a pholisïau gan gynnwys:

- Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru (Thomas 2011) a oedd yn argymhell rhesymoli Sefydliadau Addysg Bellach o 19, i sefydlu rhwng 8 a 12 endid corfforaethol Addysg Bellach erbyn Awst 2013, a daethpwyd i'r casgliad mai'r farn oedd y byddai datblygu consortia rhanbarthol yn ffordd gadarnhaol ymlaen. Nodwyd bod angen cydweithio a gwaith partneriaeth pellach i sicrhau y caiff dysgwyr yn ystodau oedran 14-16 ac 16-19 gynnig cyfleoedd a dewis go iawn.
- Yn adolygiad Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol (Hill 2013), pwysleisiwyd canfyddiad Estyn o ddiffygion yng ngwaith awdurdodau addysg lleol. Canolbwyntiai'r Adolygiad ar effeithiolrwydd dulliau cyflenwi presennol awdurdodau lleol ac ystyriai beth ddylid gwneud ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Arweiniodd Adolygiad Hill at sefydlu pedwar consortia gwella ysgolion rhanbarthol gan ganolbwyntio ar:

- godi safonau a gwella deilliannau i ddysgwyr o bob oed;
- gwell cymorth a her i ysgolion i wella safonau;
- datblygu a chryfhau arweinyddiaeth ysgolion ac ansawdd y dysgu a'r addysgu;

- sicrhau gwerth am arian a defnydd effeithiol o adnoddau;
- sicrhau cydlyniad a chysylltiadau cryf rhwng holl feysydd y system addysg, gan gynnwys darpariaeth ôl-16 ac agenda ehangach gwasanaethau plant.

Mae manylion gwaith consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru (*ERW*) wedi'u cynnwys yn adran ranbarthol yr adolygiad hwn.

### **6.3 Mesur Dysgu a Sgiliau (2009)**

Roedd Mesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth (Cymru) 2009 yn sylfaen statudol i raglen Llwybrau Dysgu 14-19. Trawsnewidiwyd darpariaeth cwricwla a chymorth i ddysgwyr gan bolisi Llwybrau Dysgu 14-19, gan helpu i wella cyrhaeddiad a chyflawniad, a pharatoi pobl ifanc at gyflogaeth sgiliau uchel neu addysg uwch. Bwriad y polisi hwn oedd galluogi Cymru i gystadlu'n economaidd yn Ewrop yr 21ain Ganrif. Credai Llywodraeth Cymru y byddai cynnwys egwyddorion sylfaenol y polisi hwn mewn fframwaith cyfreithiol yn sicrhau y câi'r polisi ei weithredu mewn ffordd gyson er budd dysgwyr 14-19 oed ledled Cymru.

Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar holl awdurdodau lleol Cymru i ffurfio cwricwla lleol i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ac mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Y mae hefyd yn darparu pwerau llunio rheoliadau i Weinidogion Cymru i bennu isafswm nifer y cyrsiau astudio i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol, ac isafswm nifer y cyrsiau astudio galwedigaethol i sicrhau bod cwricwla ardaloedd lleol yn cynnwys amrywiaeth eang o opsiynau astudio sy'n academiaidd a galwedigaethol eu natur.

Roedd y Mesur yn cefnogi'r gwaith o weithredu Llwybrau Dysgu 14-19. Roedd yn sicrhau bod pob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4 yng Nghymru yn gallu dewis o blith lleiafswm o 25 o gyrsiau a bod yn rhaid i dri ohonynt fod yn alwedigaethol, a bod 30 o opsiynau ar gael i ddysgwyr 16-18 oed, a bod yn rhaid i 5 ohonynt fod yn alwedigaethol. Mae pob ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin a Choleg Sir Gâr yn cyflawni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau ar hyn o bryd. Ond gallai toriadau i'r gyllideb a llai o arian i gefnogi cydweithio ym maes addysg 14-19 olygu na fyddai'n bosibl cynnal y cwricwlwm a gynigir ar hyn o bryd, yn arbennig mewn ysgolion llai mewn ardaloedd gwledig.

### **6.4 Cwricwlwm i Bob Dysgwr (2010)**

Darparai'r ddogfen hon ganllawiau i athrawon/ymarferwyr dysgwyr sydd ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau/ysgolion prif ffrwd ac arbennig. Mae'n cefnogi addysgu a dysgu yn erbyn cwricwlwm ysgol 2008. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio'n benodol ar Gyfnod Allweddol 2 a 3, ond byddant yn ddefnyddiol i staff sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen a chyda dysgwyr 14-19 oed mewn amrywiaeth o leoliadau. Y mae'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae iddo saith o nodau craidd sy'n ceisio sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn datblygu i'w botensial llawn. Mae'r ddogfen hon bellach wedi'i disodli gan y Cwricwlwm am Oes (2015) ac argymhellion Adroddiad Donaldson.

### **6.5 Rhaglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif (2010-presennol)**

Mae'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn rhaglen allweddol, strategol a hirdymor ar gyfer buddsoddi cyfalaf. Nod y rhaglen yw creu cymunedau addysgol sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif yng Nghymru sy'n darparu:

- Amgylcheddau dysgu a fydd yn ei gwneud yn haws gweithredu strategaethau gwella a gwell deilliannau addysgol
- Amgylcheddau dysgu sy'n ddarbodus ac effeithlon drwy ddefnyddio adnoddau yn well
- System addysg gynaliadwy sy'n cyrraedd safonau adeiladu cenedlaethol a lleihau costau rheolaidd ac ôl troed carbon adeiladu addysg.

Ym mis Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fuddsoddiad o £1.4 biliwn ar gyfer y cyfnod cyntaf o brosiectau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Caiff yr arian ei roi ar sail arian cyfatebol 50:50 gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. Diben y cyllid hwn yw creu amgylcheddau ysgol sy'n diwallu anghenion y gymuned a chynnig y ddarpariaeth ddysgu orau i'r ardal.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol i gyflawni'r cyfnod cyntaf o brosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif erbyn 2019. Ond awdurdodau lleol sy'n pennu ar ba gyflymder y caiff eu prosiectau unigol eu cyflawni. Cafwyd amserlen o 7 mlynedd ar gyfer y cyfnod cyntaf hwn o brosiectau. Mae gweithredu Menter Benthycia Llywodraeth Leol fel rhan o raglen yr 21ain Ganrif yn galluogi awdurdodau lleol i gyflymu gwariant ar eu rhaglenni a chyflawni eu prosiectau mewn 5 mlynedd yn hytrach na 7 mlynedd.

Mae Sir Gaerfyrddin ar flaen y gad yng Nghymru o ran datblygiadau ysgolion fel rhan o Raglen Moderneiddio Addysg. Mae cyllid y rhaglen hon wedi trawsnewid addysg yn ardal Dinefwr, gyda gwaith sylweddol wedi'i wneud i uwchraddio safleoedd Dyffryn Aman a Maes y Gwendraeth, ac adeilad ysgol newydd Sbon yn Ffairfach (Ysgol Bro Dinefwr). Galluogodd y datblygiadau hyn i nifer fawr o leoedd ysgol gwag i gael eu gwaredu, a chaniatáu i bobl ifanc gael eu haddysgu mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf. Gwnaed gwaith adnewyddu sylweddol hefyd yn Ysgol y Strade, Coedcae a Bryngwyn, ac mewn amrywiaeth eang o leoliadau ysgolion cynradd ledled y sir.

## 6.6 Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2011 hyd y presennol)

Ar lefel awdurdod lleol, caiff deilliannau a thargedau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru eu cyflawni drwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Y nod yw hwyluso cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gyfrwng allweddol i greu gwell system gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Sir Gaerfyrddin, yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru fonitro'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymateb ac yn cyfrannu at weithredu amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy:

- Sicrhau bod pob cam yn mhrosesau addysg awdurdod lleol yn cynnwys ystyriaeth lawn i addysg cyfrwng Cymraeg;
- Ymestyn y ddarpariaeth pan fo angen wedi'i nodi ar sail gwell cynllunio;
- Symud gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg yn raddol oddi wrth rolau traddodiadol *Athrawon Bro* a thuag at wasanaeth hyfforddiant a mentora newydd;
- Sicrhau cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg ar sail consortia yn y dyfodol agos;
- Gwella safonau a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc;

- Dangos cynnydd tuag at dargedau penodol yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir, gan gynnwys darpariaeth alwedigaethol, yn sylfaenol i'r adolygiad hwn. Mae manylion yr argymhellion hyn wedi'u cynnwys yn adran cwricwlwm yr adroddiad hwn.

## 6.7 Creu Cymunedau Cryf: Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2013 hyd y presennol)

Mae'r fenter hon gan Lywodraeth Cymru yn gosod nifer o dargedau mewn perthynas â thlodi a chyrraedd addysgol. Nod y targedau yw:

- Lleihau'r bwlch cyrraedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan 10 y cant erbyn 2017.
- Gwella cyfradd y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg i 37 y cant erbyn 2017.
- Lleihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i 9 y cant erbyn 2017. Ar ddiwedd 2012, y ffigwr oedd 10.2.
- Lleihau cyfran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yng Nghymru o gymharu â'r Deyrnas Unedig gyfan erbyn 2017.

Mae **Strategaeth Tlodi Plant** Llywodraeth Cymru a dogfen gysylltiedig **Ailysgrifennu'r Dyfodol** (2015) yn pwysleisio pwysigrwydd tri amcan strategol:

- Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio, gan fod plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio mewn risg penodol o fod yn byw mewn tlodi.
- Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel fel y gallant gael cyflogaeth sy'n talu cyflog da a symud ymlaen yn eu gwaith gan fod tlodi mewn gwaith yn fater sydd ar gynydd.
- Lleihau'r anghydraddoldeb sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Mae atal tlodi yn sylfaenol i weledigaeth Llywodraeth Cymru o gynorthwyo aelwydydd incwm isel. O'r herwydd, mae mentrau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi wedi'u cysylltu'n agos â strategaethau'r llywodraeth i wella cyrraedd addysgol ar lefel awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae'r gwaith i fynd i'r afael â thlodi plant yn Sir Gaerfyrddin wedi'i gysylltu'n agos â'r adolygiad hwn o'r cwricwlwm. Mae gweithgareddau wedi'u targedu a ariennir gan grantiau Teuluoedd yn Gyntaf ac Amddifadedd Disgyblion yn chwarae rôl bwysig wrth gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n dioddef o dlodi. Mae lleihau effeithiau tlodi hefyd yn nodwedd bwysig ar y cylch nesaf o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan ganolbwyntio'n bennaf ar leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Caiff y gweithgareddau hyn eu hymgorffori yn yr amrywiaeth o gymorth sy'n ategu datblygiadau Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â'r cwricwlwm.

## 6.8 Teuluoedd yn Gyntaf (2012)

Yn 2012, lluniodd Llywodraeth Cymru dull integredig, ar sail y teulu cyfan, i gynorthwyo teuluoedd yng Nghymru. Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella'r ffordd y mae



asiantaethau'n cydweithio, ac mae'n rhoi pwyslais clir ar ymyrraeth gynnar i deuluoedd, yn arbennig i'r rhai sy'n byw mewn tldi, i helpu i atal problemau rhag datblygu i fod yn argyfwng. Fel rhan o Deuluoedd yn Gyntaf, Cymru yw'r unig wlad lle mae gofyn i bob awdurdod lleol weithredu model "tîm o amgylch y teulu", sy'n annog sefydliadau i gydweithio i gynorthwyo teuluoedd a'u helpu i fynd i'r afael â'r ystod eang o heriau y gallant wynebu.

Cred Llywodraeth Cymru bod y problemau y mae teuluoedd yn eu hwynebu yn gynyddol heriol ac mae gwasanaethau yn wynebu dewisiadau anodd wrth i ymwybyddiaeth o wasanaethau a'r galw amdanynt gynyddu. Yr egwyddor sy'n arwain drwy gydol y gwaith hwn yw gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ddiwallu anghenion pobl yn effeithiol, yn gynaliadwy ac ar y cyfle cyntaf posibl. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn dwyn sefydliadau ynghyd i gydweithio â'r teulu cyfan, nid â'r unigolyn yn unig. Golyga hyn fod asiantaethau yn addasu'r ffordd y maent yn gweithio er mwyn diwallu anghenion y teulu yn well. Mae'n golygu adeiladu ar gryfderau craidd yr uned deuluol ac adeiladu dull 'tîm o amgylch y teulu' sy'n dwyn asiantaethau a gwasanaethau ynghyd mewn ffordd gydlynol, gan ei gwneud yn llai cymhleth i deuluoedd gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae dull Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i ymwreiddio yng ngwaith yr Adran Addysg a Phlant drwy gyfuniad o wasanaethau cymorth i deuluoedd wedi'u creu a'u comisiynu. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc sydd wedi'u nodi gan y Proffil Asesu Bregusrwydd yn rhai sydd mewn risg o beidio â llwyddo yn yr ysgol. Mae'r cymorth ychwanegol hwn yn hanfodol i sicrhau goresgyn amrywiaeth o rwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag cyflawni'u llawn botensial, a'u bod yn cael eu cynnal fel rhan o fodel datblygol Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin.

## **6.9 Fframwaith Cynllunio ac Ariannu Ôl-16 (2014)**

Ym mis Medi 2014, rhoddodd Llywodraeth Cymru system gynllunio ac ariannu newydd yn ei lle ar gyfer addysg ôl-16 yn chweched dosbarth ysgolion gan ddisodli'r fethodoleg ariannu reolaidd a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Mae'r system newydd yn dod â dyraniadau ariannu newydd i chweched dosbarth mewn ysgolion yn unol â'r trefniadau ar gyfer colegau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Mae'r trefniadau cynllunio ac adrodd ôl-16 ar gyfer awdurdodau lleol yn ceisio:

- gwella pa mor effeithlon, effeithiol a thryloyw yw dulliau cynllunio ac ariannu ôl-16 er mwyn canolbwyntio ar well canlyniadau a dilyniant i ddysgwyr;
- safoni'r gwaith o gynllunio darpariaeth ar draws sectorau'r ysgolion a cholegau i wella gwybodaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwell a chytbwys;
- canolbwyntio'r sylw ar y canlyniadau ehangach i ddysgwyr unigol.

O fis Medi 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y bydd cyllid yn seiliedig ar raglenni dysgu yn hytrach na chymwysterau, a bydd gan bob rhaglen ddiben wedi'i diffinio a chanlyniad er mwyn monitro yn ei erbyn.

Mae rôl gynllunio'r awdurdod lleol wedi'i chryfhau'n sylweddol yn y system newydd, gyda chyfrifoldeb ychwanegol am gydlynu'r gwaith o gyflenwi darpariaeth chweched dosbarth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod achosion o ddyblygu darpariaeth yn cael eu hosgoi a bod y cyrsiau a gynigir yn cyflawni blaenoriaethau economaidd lleol a rhanbarthol. Mewn sefydliadau addysg bellach, mae'r system newydd wedi arwain at gwricwlwm sy'n cael ei arwain i raddau llawer mwy gan fyfyrwyr, a gwaredwyd y rhaglenni hynny a oedd yn cael eu cynnal yn bennaf i ddenu cyllid ychwanegol. Canlyniad hyn yw cwricwlwm sydd yn

seiliedig i raddau mwy ar gyflogadwyedd ac anghenion cyflogwyr, gyda'r agweddau cynllunio wedi'u cysylltu'n agos â gwybodaeth ac anghenion y farchnad lafur yn lleol.

Braenarwyd y tir er mwyn paratoi ysgolion uwchradd at y system ariannu ôl-16 newydd. Fel rhan o'r gwaith hwn, casglwyd data ynglŷn â nifer bresennol y disgyblion sydd yn astudio ar bob un o'r rhaglenni dysgu a ariennir fel rhan o'r fethodoleg ariannu newydd. Yn ystod y cyfnod pontio, mae'r awdurdod yn defnyddio model ariannu sy'n seiliedig ar nifer y disgyblion ac ymgodiadau cyllido ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, teneurwyd poblogaeth a natur wledig yr ardal, a gytunwyd gyda phenaethiaid yr ysgolion uwchradd.

Bydd gofyn i Gynllun Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill bob blwyddyn a bydd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Darparu addysg o ansawdd uchel i bob dysgwr;
- Sicrhau ansawdd ac amrywiaeth;
- Sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau drwy ddatblygu modelau cydweithio a rhannu;
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn fforddiadwy a chynaliadwy;
- Hyrwyddo'r arfer o gyflenwi a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth uchod, y mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru bod gan yr awdurdod lleol lawer mwy o rôl i'w chwarae wrth roi arweiniad i gyflenwi darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion. I gefnogi'r rôl hon yn Sir Gaerfyrddin, mae potensial sylweddol i ddatblygu model comisiynu ar gyfer ariannu chweched dosbarth. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â strwythur llywodraethu presennol y clystyrau, a chynnwys arian yn cael ei ddyrannu i gyrsiau a gyflenwir gan ysgolion gyda'i gilydd a/neu gyda Choleg Sir Gâr mewn cydweithrediad. Byddai angen i fodel comisiynu newydd fod wedi'i gysylltu'n agos â blaenoriaethau'r economi a'r sectorau lleol a dylai gynnwys cyfleoedd i ehangu darpariaeth galwedigaethol cyfrwng Cymraeg.

## **6.10 Adolygiad Cymwysterau 14–19 (2012)**

Lansiwyd Adolygiad Cymwysterau 14-19 oed yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2012) ym mis Medi 2011, gan osod gweledigaeth o "gymwysterau gwerthfawr a dealladwy sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru." Argymhelliad yr adolygiad oedd bod angen datblygu system gymwysterau genedlaethol o ansawdd uchel sy'n gadarn a nodedig ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. Ystyrir bod rhoi cydnabyddiaeth briodol i werth cymwysterau galwedigaethol yn golygu sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr ac economi modern Cymru. Yn ogystal a'u gwerth cynhenid, ystyrir bod cymwysterau galwedigaethol yn ysgogol a deniadol i'r dysgwyr hynny a allai golli diddordeb mewn addysg fel arall.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylai cymwysterau galwedigaethol i rai 14-16 oed anelu at ddarparu cyflwyniad cyffredinol i sector o ddiwydiant yn hytrach nag arwain at gymhwysedd galwedigaethol, a ffurfio rhan o gwricwlwm cyffredinol eang a chytbwys. Dylai'r rhain fod yn gymwysterau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET), nad ydynt yn arwain at gymhwysedd galwedigaethol a dylent fod ar gael i ddysgwyr 14 oed yn unig; neu'n gymwysterau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVET) lefel 2 sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Dylai'r naill categori neu'r llall fod ar gael i rai ôl-16. Dylai'r newid hwn wella cydlyniant llwybrau'r cwricwlwm.

Os yw cymwysterau yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion cyflogwyr a bod iddynt sail alwedigaethol, bydd galw cynyddol ar iddynt gael eu cyflenwi gan ymarferwyr

galwedigaethol sydd â phrofiad priodol, boed mewn ysgol, coleg neu leoliad darparwr hyfforddiant.

### **6.11 Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (2013)**

Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru. Mae'r cynllun anstatudol hwn yn nodi cyfrifoldebau'r awdurdod lleol i ddwyn partneriaeth ynghyd i oruchwylio'r gwaith o gyflenwi'r fframwaith yn lleol.

Mae'r strategaeth yn nodi chwe elfen allweddol sy'n cyfuno i alluogi gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n datblygu i fod yn NEET mewn ardal leol:

- Nodi pobl ifanc sydd â'r risg mwyaf o ymddieithrio drwy gyfrwng Proffil Asesu Bregusrwydd;
- Broceru a chydlynu cymorth i bobl ifanc yn well;
- Dulliau cryfach ar gyfer dilyn trywydd pobl ifanc wrth iddynt bontio o un cam i'r nesaf drwy'r system;
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc;
- Cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael swydd;
- Mwy o atebolrwydd am well deilliannau i bobl ifanc.

Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â gweithredu'r System Gynllunio ac Ariannu Ôl-16 yn 2014, argymhellion Adolygiad Cymwysterau 14-19 yng Nghymru 2012 yn ogystal â gwaith ehangach Llywodraeth Cymru i hybu cyflogaeth ieuenctid drwy Dwf Swyddi Cymru, hyfforddiaethau a phrentisiaethau.

Datblygodd Sir Gaerfyrddin dull ar y cyd o weithredu'r Fframwaith hwn, gan gydweithio'n agos â Sir Benfro, gyda Grŵp Gweithredol ar y cyd rhwng y ddwy sir yn goruchwylio. Mae'r Proffil Asesu Bregusrwydd bellach yn weithredol ym mhob ysgol. Mae'r offeryn hwn yn nodi'r bobl ifanc hynny sydd arnynt angen cymorth ychwanegol, sydd wedyn yn cael ei ddarparu drwy gyfuniad o wasanaethau prif ffrwd ac ymyriadau Teuluoedd yn Gyntaf, dan oruchwyliaeth dull gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu. Bydd y Proffil Asesu Bregusrwydd yn cael ei ddefnyddio i dargedu ymyriadau a ariennir gan gynnig rhanbarthol Cynnydd i Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae arian o'r cynnig hwn yn debygol o fod ar gael yn gynnar yn 2016 a chaiff ei oruchwylio gan gyd-grŵp rheoli sy'n cynnwys staff o'r awdurdod lleol a Choleg Sir Gâr.

### **6.12 Y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg (2014)**

Dyma fargen newydd, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Mehefin 2014, i gynorthwyo athrawon, arweinwyr a staff cymorth gyda'i datblygiad proffesiynol drwy gydol eu gyrfaedd, yn ogystal â chynyddu'r parch i'r proffesiwn. Mae'r fargen newydd yn rhoi cyfleoedd i ymarferwyr gael mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar bob cam yn eu gyrfa. Nod y datblygiad hwn yw gwella perfformiad cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth a gwella lefelau cyrhaeddiad dysgwyr Cymru.

Caiff y fargen newydd ei chefnogi gan Fodel Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, a luniwyd i wella ansawdd ymarfer proffesiynol tra'n cynyddu'r parch sydd at y gweithlu. Yn gyfnewid am y gefnogaeth hon, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i athrawon, arweinwyr a staff cymorth gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain a rhannu eu gwybodaeth ac arferion da gydag eraill, sy'n nodwedd o unrhyw broffesiwn uchel ei statws.

Bydd y fenter hon hefyd yn golygu y bydd consortia gwella ysgolion rhanbarthol, drwy'r Model Cenedlaethol o Weithio Rhanbarthol, yn cydweithio i ddarparu rhaglen genedlaethol o gyfleoedd datblygu proffesiynol i staff byd addysg. Mae'r gwaith o lunio'r rhaglen hyfforddiant leol lawn sy'n gysylltiedig â'r Fargen Newydd yn tynnu at ei derfyn yn awr.

### **6.13 Cymwys am Oes (2014 hyd y presennol)**

Cymwys am Oes yw cynllun Llywodraeth Cymru i wella addysg. Nod y cynllun 5 mlynedd (2015-2020) yw gwella cyrhaeddiad addysgol dysgwyr 3 i 19 oed. Mae gweithgareddau allweddol y cynllun wedi'u gosod o dan 4 amcan strategol:

- Datblygu gweithlu proffesiynol rhagorol ac iddo addysgeg gref sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio yn ymarferol (gan gysylltu'n gryf â'r Fargen Newydd, fel a ddisgrifir uchod).
- Darparu cwricwlwm diddorol a deniadol i blant a phobl ifanc, sy'n meithrin eu gallu i fynd ati'n annibynnol i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau.
- Sicrhau bod y cymwysterau mae pobl ifanc yn eu hennill yn cael eu parchu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a'u bod yn basbort i ddysgu pellach a chyflogaeth yn y dyfodol.
- Sicrhau bod arweinwyr addysg yn cydweithio ar bob lefel o fewn system hunanwella, lle mae pawb yn helpu ac yn herio ei gilydd er mwyn codi safonau ein holl ysgolion.

Yn rhannol, ymateb Sir Gaerfyrddin i gynllun Cymwys am Oes yw Adolygiad 11-19 Sir Gaerfyrddin, o ystyried y ffocws a nodwyd ar ddatblygu staff, datblygu cwricwlwm, cymwysterau buddiol ac arweinwyr yn cydweithio ar draws sectorau mewn system o hunanwella. Bydd y camau a nodir yn yr adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r themâu hyn ac yn darparu amrywiaeth o strategaethau i sicrhau y caiff Cymwys am Oes ei weithredu'n effeithiol yn y sir.

### **6.14 Cynllun Gweithredu Sgiliau (2014)**

Diben y cynllun hwn oedd pennu sut i weithredu blaenoriaethau lefel uchel yn natganiadau polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn nodi camau polisi allweddol a gâi eu cymryd yn y cyfnod hyd at 2016-17. Mae'r camau hyn yn rhoi'r sylfaen ar gyfer ymyriadau polisi cyflogaeth a sgiliau dros y degawd nesaf.

Mae cwmpas y cynllun hwn yn cydweddu â'r datganiad polisi ar sgiliau ac yn canolbwyntio ar bolisi cyflogaeth a sgiliau ôl-19 yng Nghymru. Ond mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen am gysylltiadau agos â'r system addysg orfodol ac ôl-orfodol. Diben hyn yw sicrhau bod y gweithlu yn y dyfodol yn adlewyrchu uchelgeisiau'r llywodraeth i sicrhau cymdeithas fedrus iawn. Mae hyn yn cynnwys datblygu staff sydd â Lefel 3 yn y meysydd sgiliau hynny y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi ac sy'n bwysig yn rhanbarthol fel meincnod allweddol.

Caiff y targed hwn o gyrhaeddiad ei osod ochr yn ochr â'r angen i wella sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh ymysg oedolion sy'n gweithio i o leiaf Lefel 2 lle bynnag y bo'n bosibl. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried yr angen i ddarparu sgiliau ôl-19 cyfrwng Cymraeg yn unol ag anghenion cyflogwyr. Yn sail i'r cynllun y mae cyfres o Fesurau Perfformiad Sgiliau i'w defnyddio fel pwynt cyfeirio parhaus wrth werthuso polisiau a rhaglenni i sicrhau eu bod yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i'r dyfodol.

Maent yn canolbwyntio ar y pedwar maes allweddol canlynol:

- Swyddi a thwf – Gwelliannau mewn lefelau cyflogaeth a chynhyrchiant.
- Cynaliadwyedd ariannol – Sicrhau bod cydbwysedd priodol a chynaliadwy o arian ar gael i gynorthwyo'r system sgiliau drwy gyllid llywodraeth, cyflogaeth, unigolion a ffynonellau Ewropeaidd.
- Cydraddoldeb a thegwch – Darparu cyfleoedd cyfartal i unigolion wrth dderbyn cymorth cyflogaeth a sgiliau ôl-19.
- Meincnodi sgiliau yn rhyngwladol – gwella'r proffil sgiliau i sicrhau bod Cymru yn parhau'n gystadleuol fel cenedl.

Dyma'r pedwar maes sydd yn ganolbwynt i Lythyron Gweinidogol 2015-2016 i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach. O ystyried hyn, mae'r camau a nodir yn yr adolygiad hwn yn cysylltu'n agos â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau dysgu fel a nodwyd yn y llythyron hyn.

### **6.15 Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig (2015)**

Caiff Bagloriaeth Cymru ei chyflwyno gan ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae'r Fagloriaeth yn rhoi profiadau ehangach na rhaglenni dysgu traddodiadol, sy'n addas i anghenion amrywiol pobl ifanc. Yn adroddiad Estyn ar Fagloriaeth Cymru, 2012, barnwyd bod mwyafrif y myfyrwyr sy'n astudio craidd y Fagloriaeth yn cael eu cyflwyno i amrywiaeth eang o bynciau a chyfleoedd sy'n eu helpu i wella eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau rhyngpersonol. Cred Llywodraeth Cymru bod myfyrwyr sy'n astudio'r Fagloriaeth yn datblygu i fod yn fwy hyderus, yn gwella eu sgiliau hanfodol a chymdeithasol ac yn meithrin gwell dealltwriaeth o amrywiaeth o bynciau, o fenter i wleidyddiaeth a materion cyfoes.

Ar bob lefel, caiff y craidd ei astudio yn ogystal ag amrywiaeth o gymwysterau dewisol academiaidd a/neu alwedigaethol. Caiff Diploma Sylfaenol, Canolradd neu Uwch Bagloriaeth Cymru ei ddyfarnu, fel sy'n briodol, i'r ymgeiswyr hynny sy'n cyflawni gofynion y Craidd a'r Dewisiadau sy'n berthnasol i bob lefel o'r cymhwyster.

O fis Medi 2015, bydd y Fagloriaeth yn cychwyn ar gyfnod o gyflwyno'r cymhwyster dros gyfnod o 4 blynedd (2015-2020). Bwriad y cyflwyno fesul cam hwn yw galluogi ysgolion a cholegau i reoli'r newid, datblygu staff a sicrhau y caiff y cymhwyster ei gyflwyno ag ansawdd uchel. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau fesul cam dros y cyfnod hwn, gyda'r bwriad bod y Fagloriaeth yn llwyr weithredol erbyn 2020.

Mae'r Fagloriaeth ddiwygiedig yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau graddedig a chymwysterau ategol (gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a dyfarniadau galwedigaethol). Y nod pennaf yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos dealltwriaeth o sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd, a hyfedredd ynddynt; sef sgiliau cyfathrebu, rhifedd, llythrennedd digidol, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, ac effeithiolrwydd personol. Mae'r pwyslais ar ddysgu cymhwysol a phwrpasol ac ar ddarparu cyfleoedd asesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau go iawn drwy dair her (Cymuned, Dinasyddiaeth Fyd-eang, Cyflogaeth ac Entrepreneuriaeth) a phrosiect unigol estynedig.

Mae goblygiadau staffio sylweddol i ysgolion Cymru yn sgil y Fagloriaeth ddiwygiedig, o gyfuno hynny â chyflwyno rhaglen 9 TGAU wedi'u capio erbyn mis Medi 2017. Bydd y cyfuniad hwn o newidiadau yn golygu y bydd staff addysgu mewn pynciau anstatudol ar

wahân i'r 9 pwnc wedi'u capio yn treulio llai o amser ar eu pwnc arbenigol o ddewis, a mwy o amser yn addysgu cwricwlwm yn gysylltiedig â'r Fagloriaeth. Mae'r newidiadau hyn eisoes yn effeithio ar ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin a Choleg Sir Gâr a byddant yn effeithio ymhellach ar staff pwnc arbenigol dros y blynyddoedd sydd i ddod wrth i'r Fagloriaeth gael ei chyflwyno i'r holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16.

Mae rhoi'r Fagloriaeth ddiwygiedig ar waith eisoes wedi bod yn heriol yn ystod blwyddyn academaidd 2015-2016. Mae'r ffaith i fanylebau diwygiedig y cyrsiau gyrraedd yn hwyr, a'r ffaith bod gofynion newydd yn gysylltiedig â'r e-bortffolio, yn golygu bod disgyblion, myfyrwyr a staff wedi'i chael yn anodd ymgymryd â'r cymhwyster yn gadarnhaol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad pellach o'r materion sy'n gysylltiedig â Bagloriaeth Cymru yn gynnar yn 2016. Y gobaith yw y bydd yr adolygiad hwn yn mynd i'r afael â'r problemau presennol y mae ysgolion a cholegau yn eu hwynebu.

Yn cyd-redeg â'r newidiadau i Fagloriaeth Cymru, mae bellach gofyn i bob person ifanc mewn chweched dosbarth ac mewn addysg bellach nad ydynt wedi llwyddo i ennill cymhwyster TGAU Mathemateg a Saesneg ailsefyll y cymwysterau hyn fel rhan o'u rhaglen astudio ôl-16. Nid oes arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i gyflawni hyn, gan roi pwysau ariannol a phwysau o ran amserlennu a staffio ar ysgolion a cholegau.

Ni fydd yn orfodol cyflwyno'r Fagloriaeth i bob disgybl mewn ysgolion a cholegau hyd at fis Medi 2020. Ond cred yr awdurdod lleol a Choleg Sir Gâr bod y Fagloriaeth yn rhan hanfodol o gwricwlwm datblygol Sir Gaerfyrddin gan fod y cymhwyster yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i lwyddo mewn bywyd, y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr, a'r sgiliau hynny sy'n eu galluogi i symud ymlaen yn effeithiol i addysg uwch.

## **6.16 System Genedlaethol ar gyfer Categoriiddio Ysgolion (2015)**

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau System Genedlaethol ar gyfer Categoriiddio Ysgolion i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Diben y system yw nodi'r ysgolion hynny sydd angen y cymorth mwyaf, a gwneud yn siŵr bod cymorth ac adnoddau yn cael eu cyfeirio yn y modd mwyaf effeithiol, er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen yn y system ysgol.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi esboniad manwl o dri cham y System Genedlaethol ar gyfer Categoriiddio Ysgolion:

- Perfformiad a safonau
- Hunanwerthuso a'r gallu i hunanwella mewn perthynas ag arwain ac addysgu;
- Gwella ysgolion drwy gonsortia addysg rhanbarthol a chategoriiddio dysgu, a lefel o gymorth, her ac ymyrraeth.

Datblygodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau hyn gyda'r consortia rhanbarthol cyn eu cyhoeddi ac roedd y wybodaeth hon ar gael i gynghorwyr her y consortia wrth gategoriiddio'r ysgolion ym mlwyddyn 2014-2015. Ym mis Chwefror 2015, roedd 4 o ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin (33%) yn y categori Gwyrdd (rhagorol), 6 (50%) yn Felyn (da) a 2 (17%) yn Ambr (boddhaol). Ni chafodd yr un ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin ei rhoi yn y categori Coch (angen cymorth dwys). Dyma sefyllfa sy'n newid cadarnhaol o gymharu â blwyddyn 2014-2015, gydag 83% o'r ysgolion yng nghategoriâu Gwyrdd neu Felyn, o gymharu â 65% ar draws rhanbarth ERW.

## 6.17 Dyfodol Llwyddiannus – Adolygiad Donaldson (2015 hyd y presennol)

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a gynhaliwyd gan yr Athro Graham Donaldson, ac yntau wedi gwneud gwaith tebyg yn yr Alban yn flaenorol. Nod yr adolygiad oedd darganfod cryfderau a gwendidau'r cwricwlwm presennol.

Dyma'r cryfderau a nodwyd:

- Tegwch a chynhwysiant;
- Cymorth i Anghenion Addysgol Arbennig drwy Ar Drywydd Dysgu;
- Y Cyfnod Sylfaen;
- Y pwyslais ar lythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach;
- Diwylliant Cymru a'r Gymraeg;
- Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig.

Dyma'r gwendidau a nodwyd yn yr adolygiad:

- Gormodedd, afreidrwydd a chymhlethdod addasiadau olynol;
- Y cwricwlwm presennol heb fod yn galluogi pobl ifanc i gyrraedd safonau a nodir;
- Asesu ac atebolrwydd wedi'u cydblethu mewn ffordd ddi-fudd.

Hefyd, meddai athrawon wrth yr Athro Donaldson yr hoffent allu penderfynu beth byddent yn dysgu yn eu pynciau a sut. Meddai plant a phobl ifanc wrth yr arolwg eu bod eisiau mwy o ffocws ar sgiliau bywyd, hyder personol, sgiliau sylfaenol, sgiliau gwaith, cyngor ar yrfaeodd a lles.

O feddu ar yr adborth hwn, cynigodd Donaldson i gwricwlwm newydd gael ei ddatblygu, gyda phedwar diben clir o ddatblygu pobl ifanc i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn mewn bywyd a gwaith;
- Dinasyddion Cymru a'r byd sy'n foesegol a deallus;
- Unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaol fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas;

Yn ôl Donaldson, mae strwythur y cwricwlwm presennol yn rhy gymhleth ac mae angen ei symleiddio a'i wneud yn fwy cydlynol. Mae'r strwythur presennol yn rhwystro llif a dilyniant mewn dysgu ac yn atal y cwricwlwm rhag bod yn ymatebol i anghenion lleol. Cred Donaldson y dylid datblygu dull gweithredu mwy cyson sy'n cwmpasu'r cyfnodau Cynradd ac Uwchradd hyd at Gyfnod Allweddol 3 o leiaf. Pwysleisia'r angen am ddefnydd mwy dychmygus o amser, ac estyniad i ddull y Cyfnod Sylfaen o weithredu, lle caiff meysydd dysgu eu defnyddio yn hytrach na phynciau. Argymhellir hefyd bod pob athro yn gyfrifol am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Cynghora'r adolygiad bod angen i'r iaith Gymraeg gael ei chryfhau oddi mewn i'r cwricwlwm gan gynnig y dylai pob plentyn a pherson ifanc barhau i ddysgu'r Gymraeg hyd nes eu bod yn 16 oed. Nodir yr angen i wella ansawdd a pherthnasedd addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Awgryma'r adolygiad fod ysgolion cyfrwng Gymraeg yn dod yn ganolfannau iaith Gymraeg i roi cymorth i ysgolion cyfrwng Saesneg.



Dylid defnyddio gwaith ymchwil ar ddilyniant dysgu plant wrth ddatblygu disgrifiadau o gyrhaeddiad disgwylidig. Dylent fod yn heriol a hygyrch, a chynnig cyfleoedd i wyro fel eu bod yn addas i fyfyrwyr sy'n rhagori a rhai sy'n gwneud cynnydd yn arafach.

Awgryma'r adolygiad bod gweithdrefnau asesu yn cael eu symleiddio ac y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith asesu a gwerthuso cyffredinol fel a argymhellir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Awgryma'r adroddiad ddefnyddio asesiadau athro ynghyd â phrofion allanol i asesu.

Mae i'r argymhellion oblygiadau sylweddol i ddatblygiad proffesiynol athrawon ac ymarferwyr eraill ledled Cymru ac yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys:

- yr angen i ymestyn gallu athrawon ym meysydd yr iaith Gymraeg, iechyd a lles;
- cymhwysedd digidol, cyfrifiadureg a chodio;
- cynllunio'r cwricwlwm ac asesu.

Ar ôl cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus, bu i Lywodraeth Cymru annog pawb sy'n ymwneud ag addysg i gymryd rhan yn "Y Ddadl Fawr" i ffurfio datblygiad y polisi hwn. Erbyn mis Rhagfyr 2015, nid yw goblygiadau llawn Adroddiad Donaldson i'r cwricwlwm yng Nghymru a Sir Gaerfyrddin eto'n glir, er bod yr ysgolion arloesi yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer rhaglen Dyfodol Llwyddiannus bellach wedi'u nodi. Mae gweithredu diwygiadau Donaldson ar y cwricwlwm 3-19 yn destun adroddiad pwysig gan yr awdurdod lleol (*Palmantu'r Ffordd / Paving the Way*) sy'n ategu'r adolygiad hwn a'r argymhellion cysylltiedig.

## 6.18 Ysgolion Creadigol Arweiniol (2015)

Nod Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru yw hybu ffyrdd newydd i weithio, ac mae rhaglenni arloesol a phwrpasol wedi'u llunio i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu. Lluniwyd Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i gydweithio ag ysgolion a darparu'r bobl, y sgiliau a'r adnodau creadigol sydd eu hangen i helpu ysgolion i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Bydd y cynllun yn datblygu technegau dysgu ac addysgu sydd wedi'u datblygu'n dda ac sydd wedi'u llunio'n benodol i fod yn ymarferol a pherthnasol i alwadau bywyd go iawn y cwricwlwm. Caiff y technegau hyn eu cyfarwyddo gan waith ymchwil helaeth o bob rhan o'r byd i'r hyn sy'n gwneud ysgolion sy'n perfformio ar lefel uchel. Nod yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yw meithrin a datblygu creadigrwydd dysgwyr fel eu bod yn cyflawni'u potensial, yn tyfu i fod yn unigolion cyflawn ac wedi'u paratoi â sgiliau am oes.

Mae Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn caniatáu i ysgolion fod yn rhan o raglen hirdymor sydd â'r nod o'u cynorthwyo i:

- weithio gydag Ymarferwyr Creadigol yn eu hystafelloedd dosbarth i drawsnewid y dysgu a'r addysgu;
- dyfeisio a gweithredu prosiect neu raglen o waith yn gysylltiedig â blaenoriaethau datblygu unigol yr ysgolion;
- darganfod dulliau creadigol i fynd i'r afael â llythrennedd, rhifedd a lleihau'r bwlch rhwng dysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion;
- ymwreiddio newidiadau yn yr arferion addysgu gan arwain at effaith gynaliadwy;
- rhoi lle canolog i'r celfyddydau a chreadigrwydd ym mywyd yr ysgol;

- derbyn cydnabyddiaeth am eu hymroddiad i wella drwy ddysgu ac addysgu creadigol a'r celfyddydau.

Daw'r arian ar gyfer yr Ysgolion Creadigol Arweiniol o gyllideb o £20 miliwn a ddyrannwyd i weithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau rhwng 2015 a 2020. Bydd yr ysgolion yn dechrau elwa o'r cynllun yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Yn ystod oes y cynllun, rhagwelir y bydd traean yr ysgolion yng Nghymru wedi cael y cyfle i fod yn rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae Ysgolion Creadigol Arweiniol Sir Gaerfyrddin bellach wedi'u nodi a bydd y gwaith i weithredu'r rhaglen hon yn cychwyn yn gynnar yn 2016.

### **6.19 Blaenoriaethau Gweinidogol Blynyddol ar gyfer Colegau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol (2015)**

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn nodi'r blaenoriaethau blynyddol ar gyfer sectorau Addysg Bellach ac ysgolion ôl-16 Awdurdodau Lleol ym mis Mai bob blwyddyn er mwyn paratoi at y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Ar gyfer blwyddyn 2016-2017, y blaenoriaethau hyn yw:

- **Swyddi a thwf** gan gynnwys dulliau o gydweithio i ddatblygu prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mesurau perfformiad sgiliau, datblygiad y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac ymgysylltu â chyflogwyr a mentergarwch;
- **Cynaliadwyedd ariannol** gan gynnwys cyd-fuddsoddi mewn sgiliau;
- **Cydraddoldeb a thegwch** gan gynnwys Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, datblygu Rhwydwaith Seren i'r bobl ifanc mwyaf galluog, llythrennedd a rhifedd, yr iaith Gymraeg, safonau, dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledau;
- **Meincnodi sgiliau rhyngwladol** gan gynnwys ansawdd, safonau a dilyn trywydd cyrchfannau dysgwyr, fframweithiau prentisiaethau, Bagloriaeth Cymru, corff newydd Cymwysterau Cymru, cofrestru addysg gweithlu.

Roedd y Gweinidog hefyd yn gofyn i sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol barhau i ddarparu Dysgu Oedolion yn y Gymuned, datblygu ymhellach y defnydd o e-ddysgu, a chydweithio'n agos â'r consortia gwella ysgolion rhanbarthol wrth ddatblygu darpariaeth yn strategol. Roedd disgwyl hefyd y byddai pawb sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-16 yn parhau i ddatblygu diwylliant o dryloywder a chydweithio, a sicrhau arbedion effeithlonrwydd a'r defnydd gorau o adnoddau drwy'r cydweithio hwn. Tra bo gwaith partneriaeth yn y sir yn mynd i'r afael â'r materion hyn a godwyd gan y Gweinidog, mae argymhellion yr adolygiad hwn yn dwyn ynghyd nifer o themâu pellach i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd.

### **6.20 Rhwydwaith Seren (2015)**

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad gan Paul Murphy AS a nodai'r ffactorau sy'n cyfrannu at y niferoedd isel o bobl ifanc o Gymru sy'n mynd ymlaen i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Roedd yr adroddiad yn argymhell sefydlu rhwydwaith o hybiau lleol i gynnig gweithgarwch cyfoethogi i ddisgyblion ysgol a choleg ym Mlwyddyn 12 a fyddai'n eu paratoi i ymgeisio am leoedd yn 30 prifysgol mwyaf cystadleuol Prydain, Ymddiriedolaeth Sutton. Yn dilyn gwaith datblygu yn 2015, lanswyd Hwb Seren Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro ym mis Chwefror 2016, gyda 330 o bobl ifanc galluog a dawnus o bob rhan o'r ddwy sir wedi'u nodi yn gyfranogwyr posibl. Mae rhaglen o weithgareddau cyfoethogi wedi'i chynllunio i'r grŵp hwn o bobl ifanc yn 2016-2017, gyda grŵp gweithredol

ar y cyd o staff ysgolion, colegau addysg bellach a staff awdurdod lleol yn goruchwyllo'r gwaith.

## **6.21 Adroddiad Blynyddol Estyn 2015**

Mae Adroddiad Blynyddol Estyn 2015 yn cyfeirio at nifer o themâu sy'n berthnasol iawn i'r adroddiad hwn. Caiff newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru eu trafod yn fanwl. Nodir bod cryfderau'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd da i'w gweld pan fo ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill a cholegau i ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae ehangu'r cwricwlwm fel hyn yn cynnwys llwybrau galwedigaethol yn gysylltiedig â'r economi lleol a rôl Bagloriaeth Cymru wrth ehangu dealltwriaeth o fenter, dinasyddiaeth a byd gwaith. Pwysleisir ymrwymiad ysgolion sy'n perfformio ar lefel uchel i ddatblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol a moesol ehangach y disgyblion a hybu ffyrdd iach o fyw. Caiff amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol, artistig, cerddorol a chwaraeon hefyd eu nodi yn elfennau creiddiol i ddatblygu dysgwyr hyderus sydd wedi'u paratoi'n dda at astudio pellach a chyflogaeth.

Er mwyn cyflawni'r cwricwlwm eang a diddorol hwn, noda Estyn bwysigrwydd cynllunio dychmygus gan uwch reolwyr sy'n eu galluogi i arloesi a datblygu arferion dysgu ymreolus trawsgwricwlaidd. Pwysleisir rôl ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol wrth gydweithio i ddatblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i ddysgwyr a sectorau allweddol yr economi lleol, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am bobl ifanc er mwyn gallu dilyn trywydd eu cynnydd yn well. Gan gysylltu'n agos â gweithredu pedwar diben craidd Dyfodol Llwyddiannus, noda Estyn y dylai ysgolion fod yn paratoi at weithredu'r cwricwlwm newydd drwy adeiladu ar yr arferion da presennol sydd wedi'u nodi yn y gwaith o ddylunio a datblygu cwricwlwm. Fel y bydd adrannau diweddarach yn yr adolygiad hwn yn nodi, mae llawer o'r ymarfer da hwn eisoes yn bodoli yn Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu bod y sir mewn sefyllfa dda i ddatblygu dull arloesol o ddatblygu cwricwlwm lleol.

## **6.22 Strategaethau Cenedlaethol – Crynodeb**

Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, cafwyd cyfres o geisiadau gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid dulliau cyflenwi a darparu addysg a hyfforddiant 11-19 drwy bolisïau, strategaethau a deddfwriaeth newydd. Yn ystod y cyfnod hwn, ceisiodd mentrau Llywodraeth Cymru:

- gynorthwyo a herio ysgolion a cholegau i wella safonau a chanlyniadau dysgwyr;
- mynd i'r afael â ffactorau sy'n achosi tloedi a'i effaith ar blant a theuluoedd;
- datblygu a chryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion a cholegau;
- sicrhau gwerth am arian a defnydd effeithiol o adnoddau;
- sicrhau cydlyniant a chysylltiadau cryf rhwng holl feysydd y ddarpariaeth ôl-16;
- hwyluso proses o uno a chydweithio;
- cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- mynd i'r afael â gostyngiadau yn nifer y disgyblion sydd mewn ysgolion drwy resymoli lleoedd ysgol;
- dwyn dulliau cyflenwi darpariaeth ôl-16 addysg bellach ac ysgolion ynghyd o dan yr un trefniant cyllido.

Tra bo'r nodau hyn i'w canmol, mae natur amrywiol ac weithiau datgysylltiedig polisi Llywodraeth Cymru yn cyflwyno heriau sylweddol i weithredu'r polisïau hyn yn

llwyddiannus ar lefel sir. Mae gweithredu'r newidiadau hyn yn rhanbarthol ac ar draws ffiniau awdurdodau lleol hyd yn oed yn fwy heriol.

Cafodd llawer o'r gwaith hwn ei ariannu gan grantiau unigol Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â meini prawf cyllido llym, ac yn parhau i gael ei ariannu felly. Yn y blynyddoedd diwethaf, gweinyddwyd rhai o'r grantiau hyn ar sail ranbarthol, gan alw am fiwrocratiaeth ychwanegol i reoli adnoddau yn effeithiol. Gall dulliau gwahanol o weithredu ar lefel awdurdod lleol hefyd olygu mai anodd yw datblygu dull cyson o fynd i'r afael â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar lefel rhanbarth. Ond o ystyried yr arferion cydgysylltiedig o ddatblygu cwricwlwm 11-19 sydd eisoes yn eu lle yn Sir Gaerfyrddin, bydd yr adolygiad hwn yn nodi sut gall yr heriau hyn barhau i gael eu goresgyn er mwyn diwallu anghenion plant, pobl ifanc, teuluoedd, cymunedau a'r economi lleol yn Sir Gaerfyrddin.

## **7.0 Y Cyd-destun Rhanbarthol**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin a Choleg Sir Gâr yn ymrwymedig i weithio'n rhanbarthol ac i ddatblygu strategaeth gydlynol er mwyn cyflwyno addysg a hyfforddiant yn well i bobl ifanc. Mae'r ffaith bod amser ac ymdrech sylweddol y staff yn cael ei ymroi i weithgarwch rhanbarthol, fel rhan o waith dydd i ddydd uwch staff y ddau sefydliad, yn tystio i'r ymrwymiad hwn. Mae tri phrif grŵp presennol yn hwyluso'r arfer o weithio'n rhanbarthol.

## **7.1 Y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol**

Mae'r Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol yn bartneriaeth strategol o bartneriaid addysg ac adfywio yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru sy'n gweithio i gyflawni: sgiliau ar gyfer swyddi a thwf, sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol, sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi, a sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Y mae'n bartneriaeth o gynrychiolwyr allweddol llywodraeth leol, addysg uwch, addysg bellach, y trydydd sector a'r sector preifat ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

### **7.1.1 Y Cynllun Cyflawni Lleol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru**

Mae Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull strategol o ddarparu cymorth cyflogaeth a sgiliau i unigolion a busnesau, a fydd yn sylfaen i ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a ffynonellau arian eraill. Mewn ymateb i'r agenda gyflogaeth a sgiliau hon, mae'r Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol wedi helpu i ddatblygu Cynllun Cyflawni Lleol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru sy'n cydweddu'n strategol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Sgiliau (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014) a'r Cynllun Gweithredu dilynol (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014).

Mae'r cynllun hefyd yn ceisio cydweddu â blaenoriaethau Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a datblygiad Tyfu Canolbarth Cymru, er mwyn galluogi i ddarpariaeth sgiliau a dysgu ddiwallu anghenion economaidd y rhanbarth a'r farchnad lafur dros y degawd nesaf a thu hwnt.

Ym mis Hydref 2014, bu i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Julie James AC, gyhoeddi'n ffurfiol strwythurau'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol a fydd yn datblygu a chyhoeddi cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol blynyddol. Bydd y rhain yn nodi blaenoriaethau buddsoddi yn ogystal â'r galw a'r cyfleoedd yn lleol. Cyflwynwyd pedwerydd fersiwn y cynllun i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015, a bydd gofyn cyflwyno cynllun blynyddol diwygiedig erbyn mis Mawrth 2016.

Mae'r Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol yn datblygu ymyriadau rhanbarthol drwy bedwar grŵp fframwaith – Pobl Ifanc Rhanbarthol, Cyflogadwyedd Oedolion Rhanbarthol, Sgiliau ar gyfer Twf Rhanbarthol ac Entrepreneuriaeth Rhanbarthol. Mae'r ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth anghenion sgiliau a chyflogaeth rhanbarthol, ac yn ategu'r cynlluniau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaeth i uwchsgilio'r gweithlu, a chymorth i gael mynediad i'r gweithle a symud ymlaen oddi mewn i'r gweithle, ac ymateb i amodau a blaenoriaethau economaidd rhanbarthol penodol. Y mae hefyd yn cynnwys gweithgarwch ieuencid sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth.

Datblygwyd y fframweithiau gan y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol i sefydlu dull cydlynol o weithredu, lleihau achosion o brosiectau'n dyblygu gwaith ei gilydd, a sefydlu gweithdrefnau atgyfeirio. Mae pob fframwaith yn ddull strategol i fynd i'r afael â thema benodol neu garfan benodol o gyfranogwyr, gyda nifer o brosiectau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi'u neilltuo i bob un.

Er mwyn osgoi achosion o ddyblygu gwaith a nodi bylchau mewn gweithgarwch, caiff prosiectau a weithredir gan sefydliadau cenedlaethol, e.e. Llywodraeth Cymru, eu cynnwys yn y fframweithiau. Wrth i geisiadau am gyllid allanol gael eu cymeradwyo yn y dyfodol, caiff y fframweithiau eu defnyddio yn offeryn i nodi'r galw sy'n codi, y ddarpariaeth bresennol a'r bylchau o ran sgiliau. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob partneriaeth sgiliau rhanbarthol ddatblygu Aseidiadau Galw a Chyflenwi i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Cynllunio Cyflawni Rhanbarthol erbyn mis Medi 2015.

Mae Cynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru yn nodi rôl allweddol i bartneriaethau sgiliau rhanbarthol drwy fod yn fodd i gynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau rhanbarthol yn y dyfodol o ran ariannu sgiliau yn unol ag anghenion cyflogaeth a sgiliau. Yr Aseiad Galw a Chyflenwi ym mhob rhanbarth yw'r dull i bartneriaethau ddarparu'r sylfaen dystiolaeth hon i Lywodraeth Cymru. Y mae hefyd yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar flaenoriaethu arian mewn meysydd allweddol.

Bydd yr Aseidiadau Galw a Chyflenwi yn y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar Ddyraniadau Dysgu Seiliedig ar Waith gan gynnwys Prentisiaethau 2016-17 ac Adleoli Cyllid Addysg Bellach 2016 – 17 (ôl-16). Bydd yr Aseidiadau yn canolbwyntio ar 3-4 blaenoriaeth allweddol i ddylanwadu ar ddyraniad Prentisiaethau ac adleoli cyllid addysg bellach. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn adrodd yn ôl i'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol erbyn mis Gorffennaf 2016 ar sut y dylanwadwyd ar ddyraniadau cyllid o ganlyniad i broses yr Aseidiadau Galw a Chyflenwi yn ogystal â ffyrdd i wella'r broses sy'n cael ei pheilota ar gyfer dyraniadau 2016-17 yn y dyfodol.

Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu, a bydd yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau addysg bellach a deiliaid contractau dysgu seiliedig ar waith. Caiff yr aseiad ei rannu'n ddwy i adlewyrchu ardaloedd daearyddol Tyfu Canolbarth Cymru a Bwrdd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

## 7.2 Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

Lansiwyd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'n cwmpasu pedair ardal awdurdod lleol, sef Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae cydweithio fel Dinas-Ranbarth yn rhoi cyfle i'r awdurdodau lleol hyn fynd i'r afael ag adfywio economaidd mewn ffyrdd newydd, gan gynnwys:

- Marchnadoedd llafur mwy o faint a mwy effeithlon ac felly gwell rhagolygon i greu swyddi;
- Cyfleoedd i gynllunio'n well ar gyfer tai, trafnidiaeth, cymorth i fusnesau a gwasanaethau eraill y tu hwnt i ffiniau gweinyddol presennol;
- Gwell rhagolygon i ddenu buddsoddiad, arloesedd a gweithgarwch economaidd gwerth ychwanegol.

Nod Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yw i dde-orllewin Cymru fod yn Ddinas-Ranbarth Ewropeaidd erbyn 2013 sy'n hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig, ac sydd â chydabyddiaeth ryngwladol am ei heconomi ddatblygol ym maes gwybodaeth ac arloesi. Targed allweddol lefel uchel y Strategaeth yw bod lefelau cynhyrchiant yn Dinas-Ranbarth Bae Abertawe erbyn 2030 unwaith eto ar 90% o lefelau cynhyrchiant y Deyrnas Unedig.

Mae'r strategaeth gysylltiedig, Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2020, yn pwysleisio pryderon ynglŷn â lefelau sgiliau yn y rhanbarth, gan ddweud: *"Mae diffygion [sgiliau] sylweddol ar draws ein Dinas-Ranbarth. Mae gennym brinder pobl sydd â chymwysterau lefel uwch a gormod o bobl heb gymwysterau o gwbl"*. Yn Sir Gaerfyrddin, mae gan 23.9% o'r boblogaeth gymwysterau lefel 4 ac uwch o gymharu â chyfartaledd o 30.3% yng Nghymru, ac mae 26.8% o'r boblogaeth heb gymhwyster o gwbl, o gymharu ag 11.4% yn genedlaethol (Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Bydd y Cynllun Datblygu Rhanbarthol yn gweithredu Nod Strategol 2 (cynorthwyo i ddatblygu gweithlu medrus ac uchelgeisiol ar draws de-orllewin Cymru) Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (t23). Blaenoriaethau allweddol y nod hwn yw:

- Adeiladu sgiliau mewn addysg;
- Symud i mewn i waith;
- Cynyddu'r galw a gwella sgiliau.

Mae strategaeth Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn nodi mai un o'r amcanion ddylai fod "sichrau bod darpariaeth addysg bellach ac uwch yn y ddinas-ranbarth yn cynnig cymorth hyblyg sy'n cydweddu'n llwyr ag anghenion cyflogwyr a'r sectorau twf ym maes gwybodaeth yn yr economi lleol, a bod y ddarpariaeth yn cael ei ffurfio gan yr anghenion hynny."

Mae'r Strategaeth hefyd yn galw am ffocws ar "wella cyrhaeddiad ac uchelgais yn ein hysgolion sy'n perfformio isaf i sichrau bod gan bobl ifanc, pan fyddant yn gadael y system addysg, y sgiliau a'r cymwysterau a fydd yn caniatáu iddynt symud ymlaen i swyddi o ansawdd uchel". Caiff sectorau uwch-weithgynhyrchu, creadigol, ynni a'r amgylchedd, bwyd (gan gynnwys amaethyddiaeth), TGCh, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, gwyddorau bywyd a thwristiaeth eu nodi yn allweddol i ffyniant y ddinas-ranbarth. Mae'r strategaeth hefyd yn cydweddu â blaenoriaethau strategaethau adfywio Ceredigion a Phowys sy'n ffinio â'r ddinas-ranbarth.

Mae datblygiadau cyfalaf posibl i'r dyfodol yng Ngholeg Sir Gâr eisoes wedi'u cydweddu â blaenoriaethau Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Rhaid i'r gwaith cyffredinol o ddatblygu addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin gael ei ystyried yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach hwn a chaiff ei gyfarwyddo gan waith Dinas-Ranbarth Bae Abertawe hyd yma ac yn y dyfodol.

### **7.3 Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Consortiwm ERW**

Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fodel Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Roedd y model cenedlaethol hwn yn amlinellu'r weledigaeth o gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol yn ogystal â pha rôl fyddai i bob haen (ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru) yn y system addysg (Llywodraeth Cymru, 2014a).

Mae'r model cenedlaethol yn cwmpasu'r elfennau canlynol mewn pum adran allweddol:

1. cenhadaeth, gwerthoedd ac egwyddorion gwella ysgolion;
2. cwmpas consortia rhanbarthol;
3. cyflawni swyddogaethau consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol;
4. llywodraethu ac atebolrwydd;
5. trefniadaeth a gweithrediad y consortia.

Yn dilyn cyhoeddi'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion, diwygiwyd Consortiwm ERW ym mis Ebrill 2014. Mae'r Consortiwm yn cynnwys chwe Awdurdod Lleol; Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys, Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe. Diben ERW yw cyflawni un gwasanaeth gwella ysgolion sy'n gyson, proffesiynol ac integredig, i blant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau yn y chwe awdurdod lleol. Blaenoriaethau ERW yn 2015-2018 yw Arwain Dysgu, Dysgu ac Addysgu a Chymorth i Ddysgu. Caiff y rhain eu cynorthwyo gan ffrydiau gwaith trawsbynciol i'w diwygio'n flynyddol yn dibynnu ar anghenion a newidiadau gweithredol.

Caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu cyflawni drwy strwythur model 'hwb'. Yn lleol, mae awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn cydweithio i herio perfformiad ysgolion a gwella dysgu ac addysgu. Mae hwb y consortiwm yn darparu gwasanaeth gwella ysgolion i 192 o ysgolion, a chaiff y gwaith ei oruchwylio gan rôl Pennaeth Gwasanaeth ar y cyd. Mae timau'n cyflenwi her ac ymyrraeth cychwynnol oddi mewn i feysydd penodol ac yn gweithio gydag arbenigwyr amlddisgyblaethol. Mae gwella arweinyddiaeth ysgolion yn dasg allweddol ar draws yr hwb, ac felly hefyd waith y Cynghorwyr Herio wrth gyd-drefnu cymorth amrywiol a symud yr agenda ysgol-i-ysgol yn ei blaen. Mae cynghorwyr herio'r hwb hefyd yn gweithio ar draws y rhanbarth yn unol â chytundeb y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol y mae'r ddau awdurdod yn rhan ohono.

### **7.4 Cynnydd a Cham Nesa, Prosiectau Rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop**

Ers i Ymgysylltu ddod i ben yn 2014 – prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop i leihau nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) – bu partneriaid ledled de-orllewin Cymru yn gweithio ar gais am brosiect olynol oddi mewn i raglen yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2016-2020. Cyngor Sir Penfro a fu'n arwain ar y broses o ymgeisio am y prosiect newydd (Cynnydd) sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Cheredigion, ynghyd â'r colegau addysg bellach ym mhob un o'r ardaloedd hyn, a Gyrfa Cymru. Er i'r oedi cyn cymeradwyo'r rhaglen olygu bod y dyddiad cychwyn a fwriadwyd yn 2015 bellach wedi



mynd heibio, bydd cais am £18M yn cael ei gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ym mis Mawrth 2016, gyda'r disgwyl y caiff y prosiect ei lansio ym mis Ebrill 2016. Yn Sir Gaerfyrddin, mae cais Cynnydd yn debygol o ddenu cyllid ychwanegol o £2M o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i'w ddefnyddio ar gyfer systemau cymorth ieuenctid i atal pobl ifanc 11-19 yn yr ysgolion ac yng Ngholeg Sir Gâr rhag mynd ymlaen i fod yn NEET.

Yn ychwanegol at brosiect Cynnydd, mae cais rhanbarthol pellach (Cam Nesa) ar y gweill, sef cais am adnoddau ychwanegol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi pobl ifanc 16-25 oed sydd ar hyn o bryd yn NEET yn Sir Gaerfyrddin. Y disgwyl yw y caiff y cais hwn ei gyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn haf 2016.

## **7.5 Cyd-destun Rhanbarthol – Casgliadau**

Mae gweithio ar lefel ranbarthol i wella addysg a datblygu economaidd yn dangos sut caiff blaenoriaethau cenedlaethol eu cyflawni, a hynny drwy amrywiaeth eang o drefniadau cydweithio. Mae'r trefniadau hyn yn ceisio gwella ansawdd, creu arbedion effeithlonrwydd, a chynig un trywydd er mwyn rhoi ffocws i gyflawni'r gwaith. Yn cwmpasu'r agenda ranbarthol y mae Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2030. Canolbwynt y strategaeth hon yw datblygu sgiliau, manteisio i'r eithaf ar gyfleodd swyddi a darparu continwwm dysgu o'r ysgolion ymlaen i addysg bellach ac uwch er mwyn hybu ymwybyddiaeth o werth uwchsgilio a'r cyfleodd datblygu sydd ynghlwm wrth hyfforddiant pellach. Mae'r datblygiadau rhanbarthol hyn yn cysylltu'n agos â mentrau partneriaeth ar lefel awdurdod lleol sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd a gwaith yn Sir Gaerfyrddin.

## **8.0 Y Cyd-destun Lleol: Trosolwg o Sir Gaerfyrddin**

O ran arwynebedd, Sir Gaerfyrddin yw'r trydedd sir fwyaf yng Nghymru (2365 cilomedr sgwâr) a'r bedwaredd sir fwyaf o ran poblogaeth (184,681). Er mai sir wledig yw Sir Gaerfyrddin ar y cyfan, gyda dwysedd poblogaeth yn 2012 o 76.7 o bobl i bob cilomedr sgwâr (y 19eg yng Nghymru), Llanelli yw pumed ardal drefol fwyaf Cymru ac mae poblogaethau sylweddol wedi'u lleoli yn nhrefi Caerfyrddin, Rhydaman a Phorth Tywyn.

Mae gan Sir Gaerfyrddin dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a'i hunaniaeth ei hun sy'n gwneud y sir yn nodedig. Dyma'r sir sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a datblygodd ei Strategaeth Iaith Gymraeg ei hun mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r iaith. Mae rôl allweddol i'r Gymraeg ym mywyd Sir Gaerfyrddin, gyda 43.9% o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad yr iaith, a chan 58.1% o'r boblogaeth un neu ragor o sgiliau yn y Gymraeg.

Mae Ystadegau Cymru yn rhagweld y bydd nifer y bobl yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu tua 14,000 (7.7%) i 198,000 yn 2026, er bod llawer o'r cynnydd hwn yn ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio. Ar hyn o bryd, pobl ifanc (0-18 oed) yw 21% o gyfanswm y boblogaeth, mae 57% o'r bobl rhwng 19 a 64 oed ac mae 22% dros 65 oed. Bu twf Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yn ne-orllewin Cymru yn gyson is na'r twf yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf, ac ystyrir bod 38% o'r aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi. Ym mis Mawrth 2011 roedd 8,430 o unedau busnes wedi'u cofrestru yn Sir Gaerfyrddin. O'r rhain, roedd 76% yn fusnesau bach a chanddynt 4 neu lai o gyflogion, sy'n uwch na chyfradd Cymru gyfan o 66.4%.

Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, bydd gostyngiad bach (1.7%) yn y boblogaeth 0-15 oed rhwng 2008 (22,187) a 2023 (21,799). O ran y rhai 16-64 oed, mae gostyngiad o 1.5% rhwng 2008 (70,871) a 2023 (69,818). Rhagwelir y bydd poblogaeth yr ysgolion uwchradd yn cynyddu 337 o fis Ionawr 2015 (11,278) i fis Ionawr 2021 (11,615). Amcanestynnir y bydd poblogaeth chweched dosbarth yn gostwng gan 1716 o Ionawr 2014 hyd Ionawr 2020 (13,331 o ddisgyblion i 13187 o ddisgyblion).

Mae yn Sir Gaerfyrddin ardaloedd sydd â lefelau sylweddol o amddifadedd. Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn 2014, mae yn y sir 25 o ardaloedd sydd ymhlith y 30% o wardiau o amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd hyn (60%) wedi'u lleoli yn ardal Llanelli (15), gydag 20% yn ardal Rhydaman (5), 12% yn ardal Gwendraeth (3) ac 8% yn ardal Caerfyrddin (2). Oddi mewn i Sir Gaerfyrddin, mae 18% o'r disgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â ffigwr Cymru gyfan o 19.7%.

Yn 2012, prif sectorau cyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn ôl niferoedd staff amser llawn a rhan-amser oedd iechyd (12,500 o gyflogeion), manwerthu (8,500), amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (7,391), addysg (6,400), gweithgynhyrchu (6,100) a gweinyddiaeth gyhoeddus (4,700).

Y prif sectorau busnes yn Sir Gaerfyrddin yn 2013 oedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (2,140 o unedau busnes), manwerthu (850), adeiladu (770), proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (525), a llety a gwasanaethau bwyd (520). Microfusnesau a busnesau bach a chanolig yw mwyafrif y busnesau yn Sir Gaerfyrddin. Felly hanfodol yw'r angen i hyrwyddo a chynorthwyo menter, arloesedd ac entrepreneuriaeth. Yn 2012, roedd 70% o gyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn y sector preifat. Sector blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sydd â'r nifer fwyaf o unedau yn lleol yn 2012 oedd bwyd a ffermio (2,170).

Amcanestynnir y bydd cyfanswm y nifer sy'n gyflogedig yn amrywio yn ystod cyfnod 2013 i 2030, gydag isafbwynt y cyfnod o 72,700 yn 2015, cyn cynyddu hyd at uchafbwynt o 78,400 yn 2030. Amcanestynnir cyfanswm o gynnydd o 5,600 mewn cyflogaeth rhwng 2013 a 2030. Y prif sectorau yr amcanestynnir twf swyddi ynddynt erbyn 2030 yw iechyd (8,900), masnach fanwerthu (8,600), addysg (7,100), adeiladu (6,700), a phreswyl a chymdeithasol (6,600). Mae cyfanswm nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau allan o waith yn is na chyfartaledd Cymru: 1.6% yn Sir Gaerfyrddin yn erbyn 1.9% yng Nghymru. O'r rhai sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith, mae 2.8% ohonynt yn y garfan 18-24 oed, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 2.7%.

Yn ôl data 2014-2015, bu gostyngiad o -9.6% (-194) yn nifer hawlwyf lwfans ceisio gwaith, o 2,019 ym mis Tachwedd 2014 i 1,825 ym mis Tachwedd 2015. Mae ffigurau Cymru yn yr un cyfnod yn dangos gostyngiad o -22%. Sir Gaerfyrddin bellach yw'r 6<sup>ed</sup> awdurdod isaf yng Nghymru o ran hawlwyf lwfans ceisio gwaith (fffigurau wedi'u cyfrifo ar sail y boblogaeth 16-64 oed).

Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, bydd nifer yr aelwydydd yn y sir yn cynyddu o 81,102 yn 2015 i 85,408 erbyn 2023. Y mae'n debygol y bydd y cynnydd hwn yn y boblogaeth yn cael ei achosi'n bennaf gan gynnydd yn nifer y bobl o oedran pensiwn (65+ oed). Er y rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn tyfu, pobl o oedran ymddeol a rhai sydd yn economaidd anweithgar yw llawer o'r twf hwn. Felly er mwyn sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn ffynnu yn y dyfodol, y mae rheidrydd i addysgu a hyfforddi pobl ifanc i ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol y dyfodol. Er gwaethaf y camau

presennol i gadw pobl ifanc yn y sir, mae nifer sylweddol yn gadael yr ardal i dderbyn addysg uwch a/neu i fanteisio ar gyfleodd swyddi. Mae anawsterau hefyd o ran y ffaith nad oes gan rai pobl ifanc y sgiliau neu'r diddordeb i ymgymryd â'r swyddi sydd ar gael mewn rhai sectorau allweddol yn lleol.

## 8.1 Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin

Trefniant gwirfoddol yw'r **Bwrdd Gwasanaethau Lleol** sy'n dwyn ynghyd arweinwyr a phrif weithredwyr sefydliadau allweddol, cynrychiolwyr y sectorau gwirfoddol a chymunedol, ac uwch was sifil yn Llywodraeth Cymru. Ei ddiben yw cynllunio gwasanaethau i oresgyn rhwystrau er wyn sicrhau bod pob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau yn Sir Gaerfyrddin yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf. Mae cynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn sicrhau bod gan gymunedau lleol lais, ac mae'r uwch was sifil yn Llywodraeth Cymru yn cynnig cyswllt rhwng buddiannau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob 2 fis a chaiff ei gadeirio gan Barry Liles, Prifathro Coleg Sir Gâr. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn rhan o rwydwaith ehangach o bartneriaethau sydd, gyda'i gilydd, yn cael eu galw'n Bartneriaeth Sir Gaerfyrddin. Mae'n goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin 2011-2016 ac mae'n adrodd ar gynnydd i Fforwm Blynyddol. Mae Canlyniad 2 y Strategaeth Gymunedol Integredig yn pwysleisio'r angen hwn: "Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu". Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn bwriadu cyflawni'r deilliant hwn drwy:

- gwella sgiliau dysgwyr o bob oed ym meysydd llythrennedd, rhifedd, TG, dwyieithrwydd a chyfathrebu;
- sicrhau bod y modd yr asesir dysgwyr yn gyson ac yn drylwyr;
- datblygu arweinwyr ysgolion sydd â'r sgiliau i weithio'n gydweithredol;
- buddsoddi yn y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif;
- codi lefel dyheadau pob plentyn, ac yn benodol plant sy'n derbyn gofal;
- cyflenwi cwricwlwm amrywiol, sy'n cynnwys opsiynau galwedigaethol;
- meithrin pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i ddod yn arweinwyr cymunedol;
- darparu addysg llythrennedd ariannol mewn ysgolion.

Caiff llawer o'r amcanion hyn eisoes eu cwmpasu gan waith partneriaeth a byddant hefyd yn rhan sylweddol o argymhellion yr adolygiad hwn. O fis Mawrth 2016, bydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin yn cael ei ailstrwythuro, gyda 3 grŵp thematig diwygiedig (Cymunedau Ffyniannus a Chadarn, Cymunedau Iachach, Cymunedau Teg a Diogel) a'u cyfrifoldeb fydd cyflawni blaenoriaethau'r bwrdd. Bydd datblygu cwricwlwm 11-19 Sir Gaerfyrddin yn rhan greiddiol o elfen ffyniant economaidd yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn y dyfodol.

## 8.2 Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2015-2020

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi blaenoriaethau strategol y Cyngor a dyhead o weledigaeth o ddyfodol y sir. Mae'r blaenoriaethau strategol a'r dyheadau hyn yn cydweddu â'r canlyniadau amlasiantaethol ar gyfer y sir gyfan a nodwyd yn Strategaeth Gymunedol Integredig y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac yn canolbwyntio ar wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl Sir Gaerfyrddin.

Mae dwy o'r blaenoriaethau strategol yn y Strategaeth Gorfforaethol yn arbennig o berthnasol i'r adroddiad hwn. Maent yn cysylltu'n agos â'r ffactorau economaidd a demograffig y cyfeirir atynt uchod. Er mwyn sicrhau bod *pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial o ran dysgu*, bydd gofyn canolbwyntio ar:

- Gwelliannau parhaus mewn canlyniadau addysg i bob plentyn a pherson ifanc ar draws y cyfnodau dysgu;
- Llwyddo i gyflwyno a throsi'r cwricwlwm cenedlaethol newydd a'r cymwysterau i fod yn gwricwlwm lleol sy'n ddeniadol ac yn ysbrydoli;
- Datblygu system ysgol hunanwella ar draws y sir gan wneud pob ysgol yn ysgol dda sy'n gwella;
- Parhau i wella lefelau presenoldeb ysgol;
- Sicrhau amrywiaeth o wasanaethau cymorth i ieuencid i feithrin yr arfer ymysg pobl ifanc o ymwneud ag addysg, gwaith a bywyd cymunedol;
- Parhau i wella cyflwr, addasrwydd a effeithlonrwydd adnoddau'r rhwydwaith o ysgolion drwy'r Cynllun Moderneiddio Addysg drwy fuddsoddi £170m yn ychwanegol i wella adeiladau ysgol drwy'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 12ain Ganrif;
- Datblygu gwasanaeth *Un Sir Gâr - Yr Hwb* drwy symleiddio mynediad at wasanaethau cymorth dysgu a chyflogaeth i bobl ifanc a phobl o oedran gweithio.

Mae'r ffocws ar sicrhau bod gan Sir Gaerfyrddin *economi cryfach a mwy ffyniannus* yn cynnwys:

- Creu swyddi a thwf ledled y sir;
- Datblygu cyfleoedd hyfforddiant a dysgu i bobl leol;
- Gwella'r seilwaith briffyrdd a'r rhwydwaith cyfathrebu i gynorthwyo datblygiad economaidd a chysylltedd pellach;
- Sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol hirdymor i Sir Gaerfyrddin drwy Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe a llwybrau cyllido Ewropeaidd ac allanol.

Mae'r datblygiadau cwricwlwm sy'n cael eu cynnig yn yr adolygiad hwn wedi'u cysylltu'n agos â'r canlyniadau hyn ac felly maent yn gamau allweddol i'r Adran Addysg a Phlant. Nodir y camau hyn yng Nghynllun Busnes yr Adran 2015-2016. Mae'r adran hefyd yn cydweithio'n agos ag adrannau Adfywio a Hamdden y Cyngor Sir, partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (gan gynnwys Coleg Sir Gâr, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Bwrdd Iechyd Hywel Dda) a Chyngor Sir Penfro i gyfrannu at gyrraedd y nodau hyn. Mae cryfder y gwaith partneriaeth presennol yn y sir yn sylfaen ragorol i'r gwaith hwn.

### **8.3 Strategaeth Gorfforaethol Coleg Sir Gâr 2014-2017**

Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau strategol Coleg Sir Gâr yn ystod y cyfnod a nodir. Cenhadaeth gyffredinol y coleg yw "bod yn rhagorol – y coleg dewisol" ac mae'r weledigaeth strategol yn nodi pedwar maes allweddol o flaenoriaeth:

- Ein gwasanaeth: bod yn goleg sydd â'r safonau uchaf, cwricwlwm cynhwysol a phrofiad cyfoethog i'r myfyrwyr.
- Ein diwylliant: bod yn goleg dwyieithog, sydd wedi ymwreiddio yn ein cymuned, lle mae lles ein dysgwyr a'n staff yn ganolog i bopeth a wnawn.
- Ein cyflenwi: cyflenwi dysgu ac addysgu sy'n ysbrydoli, a chyflawni arloesedd a rhagoriaeth yn ein holl weithgareddau.

- Ein hadnoddau: darparu'r adnoddau gorau posibl i ddysgwyr a staff tra'n sicrhau perfformiad ariannol cynaliadwy a chryf.

Mae cydweithio'n agos mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol yn sylfaenol i'r weledigaeth hon, a nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn bod ymrwymiad hirsefydlog y coleg i gydweithio yn allweddol i ddatblygu cwricwlwm Sir Gaerfyrddin sy'n diwallu anghenion dysgwyr, cymunedau a'r economi lleol.

Ym mis Ebrill 2013, ymunodd Coleg Sir Gâr â strwythur grŵp Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r coleg a rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Nid yn unig y mae'r trefniant hwn yn sylfaen i waith partneriaeth 11-19 yn y sir, ond y mae hefyd yn agor y drws i botensial sylweddol i ehangu cyrsiau addysg uwch sy'n galluogi i bobl ifanc symud ymlaen i astudio at radd mewn sectorau allweddol tra'n parhau i fyw yn y sir.

#### **8.4 Y Ddarpariaeth Addysgol a Gwaith Partneriaeth Presennol**

Yn Sir Gaerfyrddin, caiff menter Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru ei chyflenwi drwy dri chlwtwr daearyddol lleol ac un grŵp thematig Cyfrwng Cymraeg.

Dyma'r strwythur o glystyrau:

- Clwtwr Taf Myrddin (Ysgol Dyffryn Taf, Ysgol Emlyn, Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth, Ysgol Bro Myrddin, Coleg Sir Gâr);
- Clwtwr Dinefwr (Ysgol Dyffryn Aman, Ysgol Bro Dinefwr, Ysgol Maes y Gwendraeth, Coleg Sir Gâr);
- Clwtwr Llanelli (Bryngwyn, Coedcae, Sant John Lloyd, Glan-y-môr, Ysgol y Strade, Coleg Sir Gâr);
- Y Bartneriaeth (Ysgol Maes yr Yrfa, Ysgol y Strade, Ysgol Bro Myrddin a Choleg Sir Gâr).

Mae Coleg Sir Gâr yn bartner allweddol ym mhob clwtwr, ynghyd â darparwyr hyfforddiant perthnasol a Gyrfa Cymru ym mhob ardal. Drwy weithio mewn clystyrau, gall y darparwyr weithredu cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer cydweithio, ac mae'r clystyrau yn cynnig cyfleoedd i rannu arferion da er budd dysgwyr. Mae'r clystyrau hyn yn gweithredu oddi mewn i strwythur llywodraethu sy'n unigryw yng Nghymru. Mae'r grwpiau cydlywodraethu yn cynnwys staff a llywodraethwyr yr ysgolion uwchradd a Choleg Sir Gâr, yn ogystal â chyflogwyr lleol.

Yn hanesyddol, mae gweithio ar draws ffiniau gydag awdurdodau cyfagos (yn arbennig gyda Cheredigion ym Mhartneriaeth BECA yn nyffryn Teifi isaf) wedi sicrhau hyfywedd rhywfaint o ddarpariaeth i bobl ifanc 14-19 mewn ardaloedd gwledig. Ond er mwyn datblygu'r bartneriaeth hon ymhellach, bydd gofyn am ymrwymiad strategol gan Gyngor Sir Ceredigion er mwyn bwrw ymlaen.

Mewn adroddiad gan Estyn ym mis Mawrth 2012 ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin i blant a phobl ifanc, pwysleiswyd:

*“Mae gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdod, sefydliadau addysg bellach ac uwch, cyflogwyr ac ysgolion uwchradd i ddatblygu gwaith y pedwar rhwydwaith 14-19 yn dda. Mae trefniadau cydlywodraethu'r rhwydweithiau hyn yn arwain y sector. Maent yn llwyddo i*

*hybu cydweithredu a gwaredu cystadleuaeth anfuddiol rhwng darparwyr. Maent hefyd yn galluogi llywodraethwyr ysgol, y coleg, cyflogwyr a'r awdurdod i gynllunio, monitro a darparu adnoddau ar gyfer cwricwlwm 14-19 effeithiol sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn eu clystyrau yn dda iawn. Mae cydweithio ar draws yr awdurdod yn sicrhau bod dysgwyr mewn ardaloedd trefol a gwledig yn manteisio ar ddewis cwricwlwm eang."*

Ers 2013, bu'r Rhwydwaith yn gweithio yn is-ranbarthol gyda Sir Benfro. Mae'r gwaith hwn yn golygu rhannu adnoddau staff cydlynu a datblygu dull cyffredin o ddilyn trywydd a chynorthwyo pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru. Caiff camau cydweithio eu harwain ar y cyd gan Grŵp Gweithredol 14-19 Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r ysgolion, y ddau goleg, darparwyr hyfforddiant, Gyrfa Cymru a staff yr awdurdodau lleol. Mae'r dull hwn o gydweithio hefyd yn unigryw yng Nghymru ac mae wedi galluogi i arferion da gael eu datblygu a'u rhannu yn y ddwy sir, gan gyd-fynd â datblygiadau gwella ysgolion ar draws hwb gorllewin ERW.

## **8.5 Gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i Ddysgwyr 14-19 yn Sir Gaerfyrddin**

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr 14-19 drwy:

- Gynyddu'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael mewn pynciau academiaidd a galwedigaethol, wedi'u cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Sicrhau bod gan unigolion fynediad cyfartal i gyrsiau ledled y sir;
- Datblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion dysgwyr lleol yn well;
- Galluogi mynediad at hyfforddiant dysgu ac amrywiaeth eang o gymorth personol ychwanegol er mwyn goresgyn rhwystrau i lwyddo mewn addysg a hyfforddiant;
- Gwell "parch cydradd" rhwng cyrsiau galwedigaethol ac academiaidd;
- Mwy o foddhad ac ysgogiad i ddysgwyr yn sgil cyfleoedd i ddilyn cwricwlwm mwy amrywiol sy'n adlewyrchu diddordebau dysgwyr yn well;
- Lleihau'n sylweddol nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET yn 16 oed yn y cyfnod 2005-2011;

Mae'r cydweithio rhwng ysgolion, Coleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant wedi galluogi i bobl ifanc:

- Astudio mewn lleoliadau dysgu eraill i ffwrdd o'u sefydliad arferol am ran o'u hamserlen;
- Dysgu mewn grwpiau mwy o faint gyda phobl ifanc o ysgolion a cholegau eraill;
- Dilyn cyrsiau mewn pynciau arbenigol na fyddai ar gael neu na fyddai'n hyfyw mewn sefydliadau unigol;
- Cael gwell dealltwriaeth o gynnwys cyrsiau mewn meysydd galwedigaethol, gan alluogi gwell dewis dysgu ôl-16 (a allai gynnwys newid o'r pwnc a ddewiswyd i gychwyn);
- Dangos mwy o ddiddordeb yn eu hastudiaethau drwy ddewis eang o gyrsiau sy'n adlewyrchu eu diddordebau, a hynny'n arwain at well perfformiad gan ddisgyblion sydd i'w weld mewn gwell canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4;
- Symud ymlaen i ddysgu ymhellach yn eu dewis faes galwedigaethol wrth adael Blwyddyn 11.


Yn ychwanegol, mae datblygu Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Mesur Dysgu a Sgiliau wedi galluogi i ailadeiladu'r ymddiriedaeth rhwng darparwyr dysgu ôl-16 a oedd wedi crebachu wedi i golegau addysg bellach gael eu hymgorffori ym 1993. Bu'r ddarpariaeth ar y cyd, a

oruchwylwyd gan y Rhwydweithiau 14-19, yn allweddol i greu gwir waith partneriaeth i bobl ifanc gan ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant, Gyrfa Cymru a'r awdurdod addysg lleol. Mae'r gwaith hwn yn galw am oriau lawer o gyd-drafod a hwyluso gan staff yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag addysg 14-19, yr ysgolion a Choleg Sir Gâr. Yn sgil y gwaith hwn, mae'r cydgyllunio yn fwy effeithiol ac mae'r dull o gyflwyno amrywiaeth eang o fentrau Llywodraeth Cymru yn fwy integredig. Y mae hefyd wedi gwella'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

## 8.6 Data Cyrchfannau Disgyblion – Cyd-destun Sir Gaerfyrddin

Caiff data cyrchfannau ysgolion a data "ciplun" o rai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ei gasglu gan Gyrfa Cymru ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn ar gyfer rhai sy'n gadael ym Mlwyddyn 11, 12 ac 13. Mae'r data hwn yn ddangosydd defnyddiol o sut gall pobl ifanc symud ymlaen drwy'r system addysg yn lleol. Mae'n cynnwys manylion disgyblion a fyddai'n elwa o gymorth ychwanegol wedi'i dargedu er mwyn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth. Caiff y data ei gyhoeddi'n flynyddol ym mis Ebrill gan Ystadegau Cymru, ac mae'n cyfeirio at y flwyddyn academiaidd flaenorol.

Mae data Blwyddyn 11 Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu'r "economi cymysg" presennol o ran darpariaeth ôl-16, ac yn cynnwys chweched dosbarth yr ysgolion, darpariaeth addysg bellach Coleg Sir Gâr gan gynnwys system drydyddol yn ardal Llanelli, cyrsiau galwedigaethol a darpariaeth dysgu seiliedig ar waith. Mae data Blynnyddoedd 12 a 13 yn seiliedig ar gofnodion chweched dosbarth ysgolion Sir Gaerfyrddin yn unig. Nid yw'n cynnwys data cyrchfannau coleg addysg bellach, gan fod Llywodraeth Cymru yn cofnodi hwn mewn ffordd wahanol gan olygu mai anodd yw cymharu canlyniadau.



Yn 2014, cynyddodd nifer disgyblion Blwyddyn 11 nad oeddynt yn mynd ymlaen i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) o 3.0% (65 o bobl ifanc) yn 2013 i 3.4% (69 o bobl ifanc) o gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.1%. Roedd Sir Gaerfyrddin yn y 14<sup>eg</sup> safle o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dangosydd perfformiad allweddol hwn.

Roedd y cynnydd bach hwn yn 2014 yn ganlyniad i gyfuniad o'r ffactorau canlynol:

- Y lefel uchel o ddibyniaeth ar gyllid grant i gefnogi'r Gwasanaeth Ieuencid a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid yn golygu mai anodd yw cynllunio ar gyfer y tymor hir;




- Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gysylltiedig â'r arbedion cyllidebol adrannol a oedd yn ofynnol, a'r newidiadau i wasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf;
- Mwy o ffocws ar bresenoldeb disgyblion yn arwain at ragor o bobl ifanc yn cael eu haddysgu yn y cartref (pan fo rhieni yn pryderu ynglŷn â dirwyon os nad yw plant yn mynychu'r ysgol ac felly'n tynnu'u plant allan o'r ysgol er mwyn osgoi hyn) a lle mae hyn yn digwydd ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 mae'r tebygrwydd bod y bobl ifanc hyn wedyn yn datblygu i fod yn NEET yn cynyddu'n sylweddol.
- Yr oedi wrth weithredu rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2015-2020 Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n cynnig cyfleoedd i gynnal gwaith prosiect wedi'i dargedu gyda'r garfan hon o bobl ifanc.


Mae cyfradd y bobl ifanc sy'n symud ymlaen o flwyddyn 11 i chweched dosbarth yn y sir wedi parhau'n weddol gyson dros gyfnod 2004-2015, gan amrywio rhwng 38 a 42% (40.3% ar gyfartaledd). Mae'r ganran sy'n symud ymlaen i addysg bellach wedi cynyddu o 39% yn 2004 i 47% yn 2015 (43% ar gyfartaledd). O ystyried bod y gyfradd sy'n symud ymlaen i chweched dosbarth yn parhau'n weddol gyson, mae'n ymddangos bod y gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc sy'n datblygu i fod yn NEET wedi trosi i gynnydd yng nghanran y bobl ifanc sy'n dewis derbyn addysg bellach.

Mae'r tueddiadau hyn yn dangos cryfder gwaith partneriaeth addysgol yn lleol, sy'n cael ei gydnabod yn waith sy'n arwain yn y sector. O'r herwydd, ac yn wahanol i ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr, nid oes llawer o gystadleuaeth yn lleol am ddisgyblion ôl-16. Mae hyn yn caniatáu i fwy o wybodaeth, cyngor a chanllawiau sy'n canolbwyntio ar y disgyblion gael eu darparu gan ysgolion a Choleg Sir Gâr. Mae hyn yn arwain at ddiwallu anghenion dysgwyr yn fwy effeithiol.

Mae effeithiau'r gwaith sy'n ymwneud â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i'w gweld yn y categori "ddim yn gwybod", gyda dim ond 1 person ifanc yn y statws hwn yn 2014, o gymharu â 94 o bobl ifanc yn 2004. Mae'r gostyngiad hwn yn dangos bod y wybodaeth gyfunol leol am ble mae'r bobl ifanc arni wedi gwella'n fawr. Mae hyn yn galluogi i wasanaethau (fel y rhai a ariennir gan Deuluoedd yn Gyntaf) gael eu targedu i helpu'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd.



Yn 2014, bu i ysgolion Sir Gaerfyrddin gadw 84% o'r disgyblion a oedd yn cwblhau Blwyddyn 12, gan ddod yn y 6<sup>ed</sup> safle o'r 22 o'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn y dangosydd perfformiad allweddol hwn (cyfartaledd Cymru oedd 82%). Awgryma hyn gyfradd uchel o foddhad ymysg disgyblion o ran profiad y chweched dosbarth a gynigir mewn ysgolion. Canran y bobl ifanc a oedd yn symud ymlaen i fod yn NEET ar ddiwedd Blwyddyn 12 oedd 1.2% (cyfartaledd Cymru oedd 1.9%), gan olygu bod Sir Gaerfyrddin yn y 6<sup>ed</sup> safle o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn y dangosydd perfformiad allweddol hwn. Roedd canran y bobl ifanc a oedd yn symud ymlaen i fod yn NEET yn amrywio o ysgol i ysgol, o 0% i 4%. Ond mae'r ffocws ar y garfan hon o bobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan y gall lefelau'r disgyblion sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 12 fod yn ddangosydd o anfonlonrwydd gyda'r cwricwlwm a gynigir, yn enwedig i'r disgyblion hynny sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth heb ffocws cryf wrth symud ymlaen a/neu rai sydd â graddau TGAU gwan.



Cynyddodd canran disgyblion Blwyddyn 13 a symudodd ymlaen i fod yn NEET o 5.5% (40 o bobl ifanc) yn 2013 i 6.0% (46 o bobl ifanc) yn 2014. Mae Sir Gaerfyrddin yn yr 17eg safle o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, a chyfartaledd Cymru yw 4.9%. Yn ôl y gwaith dadansoddi, mae awgrym bod y duedd hon yn gysylltiedig ag ysgolion penodol lle mae lefelau dilyniant o chweched dosbarth i brifysgol yn isel, ac mae amrywiaeth sylweddol yn y canlyniadau hyn ar lefel ysgolion unigol. Er enghraifft, y gyfradd uchaf o ddisgyblion yn symud ymlaen o un o ysgolion Sir Gaerfyrddin i addysg uwch yw 74.5%, a'r isaf yw 38%. A'r ysgol sydd â'r gyfradd isaf o ddisgyblion yn symud ymlaen i addysg uwch sydd hefyd â'r gyfradd uchaf o ddisgyblion Blwyddyn 13 yn symud ymlaen i addysg bellach (24%) a'r gyfradd uchaf o ddisgyblion Blwyddyn 13 yn symud ymlaen i fod yn NEET (16%), o gymharu â'r ysgol sydd â'r gyfradd isaf yn Sir Gaerfyrddin o 1.2% o ddisgyblion yn symud ymlaen i fod yn NEET yn y categori hwn.

Awgryma'r data hwn, yn 2014, fod rhai disgyblion nad oedd Safon Uwch yn arbennig o addas iddynt wedi aros yn yr ysgol er y byddai symud ymlaen i goleg addysg bellach neu hyfforddiant seiliedig ar waith wedi bod yn well iddynt. Ni chafodd y disgyblion hyn raddau Safon Uwch da yn yr ysgol ac felly naill ai aethant ymlaen i addysg bellach ôl-safon uwch (gan wastraffu dwy flynedd yn yr ysgol, mewn gwirionedd) a/neu ni wnaethant symud ymlaen, gan olygu eu bod yn NEET. Mewn trafodaethau gyda rheolwyr sector addysg bellach, pwysleisiwyd bod y sefyllfa hon hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr coleg, gan fod cyfradd o fyfyrwyr yn gadael y coleg yn dilyn blwyddyn gyntaf Safon Uwch (Uwch Gyfrannol), a bod rhai o'r bobl ifanc hyn wedyn yn dewis dilyn cyrsiau galwedigaethol

amser llawn. Dyma faes sy'n destun sylw penodol i'r System Gynllunio a Chyllido Ôl-16 newydd.

Mae cyfradd trigolion Sir Gaerfyrddin sydd â chymwysterau Lefel 4 yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae angen mynd i'r afael â hyn drwy gwricwlwm ehangach a mwy deniadol, a llwybrau dilyniant clir i hyfforddiant ac addysg bellach ac uwch. Yn yr un modd, mae nifer yr unigolion sydd heb gymwysterau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r diffyg sgiliau hyn yn achos pryder i'r economi lleol, wrth i gyflogwyr nodi nad ydynt yn gallu dod o hyd i'r staff medrus sydd eu hangen arnynt i dyfu'u busnesau yn lleol. Un ffordd i gyflawni hyn yw llwybrau dilyniant lleol cryf i gyrsiau galwedigaethol, gan adeiladu ar y llwybrau presennol sydd rhwng ysgolion a'r coleg.

Er bod trefniadau presennol o ran partneriaethau a chlystyrau wedi cynyddu'r dewis i'r dysgwyr ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r gwaith hwn wedi'i gynorthwyo gan gyllid grant allanol gan Lywodraeth Cymru. Wrth i'r cyllid grant leihau, bydd yr ysgolion a'r coleg o dan bwysau cynyddol gan fod y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yn effeithio ar lefelau'r arian sydd ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin.

Mae angen i bob dysgwr allu cael mynediad at brofiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n addas iawn ar eu cyfer ac sydd â llwybrau dilyniant clir a dealladwy. Yn ôl data dilyniant, mae cyfradd fach o bobl ifanc ledled Sir Gaerfyrddin, ar adegau, yn gwneud y dewisiadau anghywir ar gamau pontio allweddol. Yn 2014, bu i 10% o ddisgyblion blwyddyn 12 (93) ac 8% o ddisgyblion Blwyddyn 13 adael ysgol a symud i golegau addysg bellach lleol. Mae hyn yn dangos yr angen am wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd cyn i bobl ifanc symud ymlaen i addysg ôl-16, i wneud yn siŵr eu bod yn dewis cyrsiau sy'n adlewyrchu eu gyfaeoddd arfaethedig ac anghenion economaidd lleol.

## **9.0 Sail Resymegol ar gyfer Trawsnewid Cwricwlwm 11-19**

Mae llawer o dystiolaeth bod addysg 11-19 yn Sir Gaerfyrddin wedi gwella canlyniadau i bobl ifanc ers gweithredu agenda Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cymru. Ond mae bellach angen gweledigaeth newydd a chwricwlwm lleol cysylltiedig er mwyn cyflawni'r amcanion canlynol i bobl ifanc mewn addysg 11-19. Caiff canlyniadau'r trawsnewid eu pwysleisio gan yr adolygiad hwn a'u cysylltu â'r themâu a nodwyd yn Llythyrau Blaenoriaethau Gweinidogol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach. Bydd y canlyniadau hyn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

Swyddi a Thwf:

- cydweithio ar geisiadau i Gronfa Gymdeithasol Ewrop;
- cysylltu hyfforddiant galwedigaethol a'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol;
- defnyddio gwybodaeth y farchnad lafur i gynllunio darpariaeth cyrsiau galwedigaethol.

Cydraddoldeb a Thegwch:

- cydweithio i leihau nifer y bobl ifanc sy'n datblygu i fod yn NEET;
- lleihau effeithiau tlodi ar blant, pobl ifanc a theuluoedd;
- gweithredu pob elfen ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid;
- sicrhau bod pob person ifanc yn cyflawni TGAU Mathemateg a Saesneg;
- cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- cynorthwyo disgyblion mwy galluog a dawnus drwy ddatblygiadau Hwb Seren;

- sicrhau bod cynllun pontio yn ei le ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau neu anabledau dysgu.

Gan grynhoi, mae angen i ddarpariaeth addysg a hyfforddiant 11-19 yn Sir Gaerfyrddin newid a datblygu ymhellach i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau yn y dyfodol. Mae hefyd angen i'r ddarpariaeth ddatblygu i sicrhau bod y strwythurau cyflenwi yn gynaliadwy mewn cyfnod o leihad mewn arian cyhoeddus.

## **10.0 Ffactorau sy'n cyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin**

Caiff y gwaith o ddatblygu cwricwlwm i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin ei gyfarwyddo gan bum ffactor: polisi Llywodraeth Cymru, dewisiadau sefydliadol ynglŷn â gweithgareddau allgyrsiol a dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, anghenion y farchnad lafur leol a rhanbarthol, cymorth wedi'i dargedu, a barn pobl ifanc.

### **10.1 Polisi Cwricwlwm Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyn mae gofyn i bobl ifanc ddysgu mewn ysgolion uwchradd a sefydliadau addysg bellach. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ysgolion uwchradd yng Nghymru addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol i'w disgyblion. Mae'r cwricwlwm sylfaenol yn cwmpasu addysg grefyddol, addysg rhyw, ac addysg bersonol a chymdeithasol. Ac i rai 14-16 oed, addysg yn gysylltiedig â gwaith, a Bagloriaeth Cymru sydd bellach yn weithredol i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Rhaid i'r ysgolion hefyd ddarparu addysg ac arweiniad ar yrfaedd i bob un 13-16 oed sy'n diwallu anghenion fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys 12 o bynciau, sef "pynciau craidd" Cymraeg a Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, a'r "pynciau di-graidd" sef Cymraeg ail iaith, ieithoedd tramor modern, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth, hanes, daearyddiaeth, celf, cerddoriaeth, addysg gorfforol ac addysg grefyddol. Yn ychwanegol, y mae fframwaith sgiliau anstatudol, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), addysg rhyw, a fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dim ond pum pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol sydd yn orfodol ar hyn o bryd (Saesneg, Cymraeg neu Gymraeg ail iaith, mathemateg, gwyddoniaeth, ac addysg gorfforol) ac mae gan ysgolion fwy o hyblygrwydd i ddarparu pynciau dewisol sy'n diwallu anghenion a diddordebau eu disgyblion. Mae mwyafrif y disgyblion yn y cyfnod allweddol hwn yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau allanol, TGAU yn bennaf. O 2017 ymlaen, bydd cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 yn newid yn sylweddol, gan symud tuag at 9 TGAU wedi'u capio a gweithredu argymhellion Adolygiad Donaldson. Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y 9 wedi'u capio o 2017 ymlaen yw TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Rhifedd a 2 gymhwyster Gwyddoniaeth Lefel 2, ynghyd â 4 cymhwyster arall. O 2018 ymlaen, rhaid i'r pynciau gwyddoniaeth fod yn 2 gymhwyster TGAU. Yn ychwanegol at hyn, mae cyfleoedd i astudio cyrsiau galwedigaethol, fframwaith sgiliau anstatudol, addysg gorfforol, addysg grefyddol, addysg rhyw, fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a Bagloriaeth Cymru.

Mewn addysg (anorfodol) ôl-16 yn chweched dosbarth ysgolion ac mewn colegau addysg bellach, mae pobl ifanc yn dilyn rhaglenni dysgu sydd fel arfer wedi'u strwythuro o amgylch Safon Uwch Gyfrannol / Safon Uwch neu gymwysterau Lefel 2 neu 3. Mae'r rhaglenni hyn

yn cynnwys TGAU Mathemateg neu Saesneg i'r bobl ifanc hynny nad ydynt eisoes wedi ennill y cymwysterau hyn. Ar hyn o bryd, mae'r ysgolion a'r colegau yn y cyfnod hwn o addysg yn cael eu hariannu ar sail nifer y bobl ifanc sy'n mynychu'r prif sefydliadau, ond mae Llywodraeth Cymru yn symud tuag at System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yn seiliedig ar y rhaglenni eu hunain y mae'r myfyrwyr yn eu dilyn. Bydd y newid hwn yn debygol o effeithio'n sylweddol ar yr arian sydd ar gael i sefydliadau, yn arbennig chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae colegau addysg bellach eisoes yn cael eu hariannu ar sail rhaglenni.

Mae gweithredu Llwybrau Dysgu 14-19 yn Sir Gaerfyrddin o 2005 ymlaen wedi arwain at fod cwricwlwm galwedigaethol llawer ehangach ar gael i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4. Cynigwyd y cyrsiau hyn gan ysgolion mewn partneriaeth ac Choleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant. Yn y rhan fwyaf o achosion, ariannwyd y cyrsiau hyn gan grantiau ychwanegol Llywodraeth Cymru (adnoddau Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol 14-19 yn flaenorol, ac yn fwy diweddar arian a ddyrannwyd o Grant Gwella Addysg ERW). Mewn rhai achosion, dewisodd yr ysgolion barhau â'r ddarpariaeth hon gan ddefnyddio arian Unedau Disgyblion Cymru Gyfan wedi i gymorth grant ar gyfer y cyrsiau hyn gael ei leihau. Cyfarwyddwyd y cwricwlwm galwedigaethol hwn gan anghenion y farchnad lafur leol, gan ganolbwyntio'n gryf ar sectorau sy'n bwysig i'r economi lleol megis adeiladu, peirianeg, gofal plant ac amaethyddiaeth.

Mae meysydd eraill o gyd-ddarpariaeth (megis cyrsiau gwallt a harddwch) heb fod mor gydnaws â'r economi lleol, ac ni chafwyd cymaint o sylw i sectorau twf eraill (megis lletygarwch a thwristiaeth) mewn cyd-ddarpariaeth hyd yma.

Mae llawer o'r disgyblion a ddilynodd gyrsiau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 dros y cyfnod ers 2016 wedi dewis symud ymlaen i Goleg Sir Gâr i dderbyn eu haddysg ôl-16. Mae'r disgyblion hyn wedi symud ymlaen i addysg bellach yn eu dewis cychwynnol o bwnc galwedigaethol ac i amrywiaeth eang o gyrsiau eraill, gan gynnwys Safon Uwch. Awgryma hyn fod ymgysylltu â'r disgyblion hyn drwy gyrsiau galwedigaethol ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 (er enghraifft, cynyddu perfformiad TGAU) ac o ran eu cynorthwyo i symud ymlaen i addysg ôl-16, boed hynny mewn ysgol neu goleg. Wrth ddilyn trywydd y disgyblion hyn yng Ngholeg Sir Gâr, mae modd gweld bod nifer sylweddol wedi symud ymlaen o addysg bellach i raglenni addysg uwch yn y coleg ac wedyn ymlaen at swyddi mewn sectorau sy'n allweddol i'r economi lleol.

Er y cafwyd llai o gydweithio mewn lleoliadau ôl-16, ceir enghreifftiau da o ysgolion yn cydweithio i sicrhau bod cwricwlwm eang ar gael i bob disgybl. Bu'r Bartneriaeth, sef partneriaeth yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, yn rhagweithiol wrth gydweithio i rannu darpariaeth Safon Uwch a galwedigaethol cyfrwng Cymraeg rhyngddynt. Mae hyn wedi arwain at gydgyflenwi pynciau Safon Uwch llai poblogaidd (gan gynnwys Seicoleg a Sbaeneg) a darpariaeth alwedigaethol yn sector allweddol gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Ond bydd toriadau pellach i gyllideb ôl-16 yr ysgolion yn gosod heriau sylweddol i allu chweched dosbarth i gynnig yr amrywiaeth o gyrsiau sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Fesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Er mwyn cynnig amrywiaeth briodol a pherthnasol o gyrsiau i bob disgybl chweched dosbarth, bydd gofyn i ysgolion a cholegau gydweithio ymhellach yng nghyfnod 2016-2020.

Mae'r cyrsiau presennol a gyflwynir ar y cyd wedi dibynnu i raddau helaeth ar gyllid allanol gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt fod yn hyfyw. Defnyddiwyd rhan sylweddol o'r

cyllid hwn i gynorthwyo i gludo disgyblion o ysgol i ysgol neu i'r coleg. Byddai ffyrdd i oresgyn y costau hyn yn cynnwys defnyddio mwy o ddysgu cyfunol neu dechnolegau e-ddysgu er mwyn cyflwyno'r cyrsiau prif ffrwd. Byddai cyflwyno'r cyrsiau fel hyn yn cynnwys ffyrddio darlithoedd byw ac wedi'u recordio dros y we, rhannu adnoddau dysgu drwy blatfform dysgu Hwb Llywodraeth Cymru, a symud staff addysgu i gynnig tiwtorialau wyneb yn wyneb a sesiynau cymorth dysgu. Dyma rai ffyrdd y gellid datblygu'r agenda gydweithio hon ymhellach.

Mae manylion llawn cymwysterau diwygiedig Bagloriaeth Cymru, argymhellion Adroddiad Donaldson a champau lleol cysylltiedig wedi'u cynnwys yn nogfen baralel Cyngor Sir Ceredigion, 'Palmantu'r Ffordd – Golwg Strategol o Drefniadau 3-19 yn Sir Gaerfyrddin'. Disgwyliad Llywodraeth Cymru yw y caiff y cymwysterau a'r argymhellion hyn eu gweithredu'n llawn gan bob awdurdod lleol a choleg addysg bellach yng Nghymru. Caiff goblygiadau lleol argymhellion Adolygiad Donaldson eu nodi'n fanwl yn nogfen 'Adolygiad Strategol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu 3-19 yn Sir Gaerfyrddin', a gaiff ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2016.

## **10.2 Profiadau Ehangach**

Yn ogystal â gofynion cwricwlwm gorfodol a osodir gan Lywodraeth Cymru, mae gan ysgolion a cholegau addysg bellach y cyfle i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol i bobl ifanc. Mae'r elfennau hyn i gyfoethogi'r cwricwlwm yn cynnwys profiadau celfyddydol a chreadigol gan gynnwys eisteddfodau a chynyrchiadau drama, timau chwaraeon a gweithgarwch corfforol anffurfiol, amrywiaeth eang o ymweliadau addysgiadol yng Nghymru, Prydain a thramor, a Gwobr Dug Caeredin a Gwobr John Muir. Mewn llawer o achosion, y profiadau hyn yw rhai o'r profiadau a fydd yn rhoi'r boddhad mwyaf a'r mwyaf cofiadwy i bobl ifanc yn ystod eu cyfnod mewn addysg ffurfiol. Mae'r profiadau hyn hefyd yn cyfrannu'n weithredol at ddatblygu sgiliau 'meddal' a rhyngpersonol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Er yr heriau ariannol parhaus y mae ysgolion a cholegau yn eu hwynebu, y mae'n bwysig y caiff pob person ifanc y cyfle i gymryd rhan yn y profiadau hyn. O'r herwydd, dylent gael eu cadw yn ychwanegiad gwerthfawr i'r cwricwlwm ffurfiol, er mai cyfrifoldeb yr ysgol neu'r coleg dan sylw fydd gwneud penderfyniadau ynghylch beth sydd i'w gynnig ym mhob sefydliad.

## **10.3 Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith**

Ceisiodd Llywodraeth Cymru gryfhau'r cysylltiadau rhwng addysg a byd gwaith drwy amrywiaeth o fentrau polisi ers 1999. Mae'r enghreifftiau mwyaf diweddar yn cynnwys Cymwys am Oes, Dyfodol Llwyddiannus a pholisïau i liniaru effeithiau tlodi yng Nghymru. Mae'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol newydd a'r Blaenoriaethau Gweinidogol Blyneddol yn ceisio datblygu'r cyswllt hwn ymhellach, gan bwysleisio'r angen i awdurdodau lleol a cholegau sicrhau y caiff anghenion y farchnad lafur leol eu hadlewyrchu yn y cyrsiau a gynigir ganddynt. Mae datblygiad y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol a Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn golygu bod gwybodaeth llawer gwell ar gael bellach ynglŷn â'r farchnad lafur yn y sectorau allweddol yn ne-orllewin Cymru. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i nodi'r sectorau allweddol ar gyfer datblygiadau'n ymwneud â'r cwricwlwm yn Sir Gaerfyrddin.

Mae fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn ymwneud â'r berthynas rhwng pobl ifanc, eu haddysg a byd gwaith. Mae'n helpu'r dysgwyr i archwilio'r agweddau sydd eu hangen mewn perthynas â chyflogadwyedd a dysgu gydol oes, ac yn eu galluogi i gynllunio a rheoli eu llwybr drwy ddysgu a gwaith. Mae'r fframwaith yn cynnwys cymorth i bobl ifanc

wneud dewisiadau gyrfa effeithiol, datblygu i fod yn fwy entrepreneuriaidd, bod â mwy o ysgogiad, gosod nodau hirdymor a goresgyn rhwystrau. Mae'n cynorthwyo pobl ifanc i weld sut mae eu hastudiaethau yn berthnasol i'w bywyd a'u gwaith ac yn caniatáu iddynt ddatblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Mewn datblygiadau yn y cwricwlwm sy'n gysylltiedig â hyn, mae Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig 2015 (a Her Menter a Chyflogadwyedd yn benodol) yn cynnwys llawer o'r cymwyseddau sydd i'w datblygu drwy fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Ond yn dilyn toriadau sylweddol iawn i gyllideb graidd Gyrfa Cymru, mae gallu'r sefydliad hwn i gynnig cymorth personol cyffredinol i bobl ifanc a chyflawni fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith wedi lleihau'n sylweddol. Yn 2015, trosglwyddodd Gyrfa Cymru y cyfrifoldeb am drefnu profiad gwaith a dysgu'n gysylltiedig â gwaith i ysgolion ac awdurdodau lleol. Nid oes gan ysgolion unigol yr adnoddau i neilltuo staff i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o Yrfaoedd a Byd Gwaith, datblygu cysylltiadau effeithiol ag amrywiaeth eang o gyflogwyr lleol, a phwysleisio swyddi sy'n bodoli yn yr ardal leol. Mae angen i hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau gael eu hyrwyddo'n well, a hynny'n gysylltiedig a'r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur a meysydd o brinder sgiliau yn y rhanbarth. O ystyried y lleihad yn yr hyn y mae modd i Yrfa Cymru wneud, mae rôl yr awdurdod lleol yn y gwaith hwn yn hollbwysig. Yn Sir Gaerfyrddin, y bwriad yw bod y Cyngor Sir (yr adrannau addysg ac adfywio ill dwy) yn ymgymryd â'r rôl hon i sicrhau y caiff pob person ifanc wybodaeth lawn a chytbwys am y farchnad lafur leol a pha gymwysterau sydd eu hangen er mwyn symud ymlaen i weithio yn y sectorau twf allweddol.

#### **10.4 Cymorth wedi'i dargedu**

Yn ychwanegol at y cwricwlwm prif ffrwd, mae amrywiaeth eang o wasanaethau wedi'u targedu ar gael i gynorthwyo pobl ifanc gyda'u hanghenion penodol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau cymorth Tîm o Amgylch y Teulu yn gysylltiedig â Theuluoedd yn Gyntaf, menter Llywodraeth Cymru i leihau tlodi;
- Darpariaeth a gyflenwir gan wasanaeth cynhwysiant yr awdurdod lleol, gan gynnwys cymorth i bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig, seicoleg addysg, tîm cymorth ymddygiad, tîm pontio, cymorth ieithyddol i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), a chwmsela yn seiliedig yn yr ysgol;
- Ysgolion arbennig i bobl ifanc sydd ag anableddau, anghenion iechyd arbenigol, anawsterau ymddygiad, a rhai sydd wedi dadrithio ag addysg ffurfiol;
- Cymorth ychwanegol sy'n cael eu cynnig drwy raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop megis prosiect rhanbarthol Cynnydd i leihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- Gwaith gymdeithasol a chymorth iechyd a gynigir gan Wasanaethau Plant Cyngor Sir Caerfyrddin i grwpiau gan gynnwys pobl ifanc ag anableddau a rhai sy'n derbyn gofal gan y Cyngor Sir;
- Amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i ddysgwyr a ddarperir i fyfyrwyr sy'n astudio yn Ngholeg Sir Gâr.

#### **10.5 Symud Ymlaen i Addysg Uwch a Chyflogaeth**

Tra bo'r adolygiad hwn yn nodi'r datblygiadau sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl gael mynediad at gwricwlwm 11-19 sy'n berthnasol ac yn addas, mae'n hanfodol sicrhau y gall



pobl ifanc symud ymlaen i addysg uwch a/neu waith wrth adael yr ysgol, y coleg neu ddysgu seiliedig ar waith yn 18 oed. Mae llwybrau dilyniant cryf eisoes yn eu lle i bobl ifanc yn y sectorau allweddol megis adeiladu a pheirianeg yn seiliedig ar drefniadau partneriaeth hirsefydlog sy'n cael eu cefnogi gan Goleg Sir Gâr. Gall y cysylltiadau hyn gael eu datblygu ymhellach drwy gydweithio'n agos â thîm Adfywio Cyngor Sir Gaerfyrddin sydd â chysylltiadau â chwmnïau newydd a rhai sy'n ehangu yn y sir. Mae safle Coleg Sir Gâr oddi mewn i strwythur grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnig cyfle i ddatblygu llwybrau dilyniant ymhellach yn y sectorau allweddol, gan gynnwys addysg ac addysgu. Bydd cynnwys cyflogwyr mewn strwythurau partneriaeth presennol a Bwrdd Corfforaethol Coleg Sir Gâr yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ddatblygu ymhellach llwybrau dilyniant ymlaen o'r ysgol a'r coleg.

## 10.6 Cyfranogiad Pobl Ifanc

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae gan bobl ifanc yr hawl i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a rhaid darparu addysg iddynt sy'n datblygu eu personoliaeth a'u doniau yn llawn.

Diffiniad Llywodraeth Cymru o gyfranogiad yw'r hawl i gael cyfle i chwarae rhan mewn penderfyniadau, a chynllunio ac adolygu gweithred a allai effeithio arnynt.

Felly tra bo Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith cyfreithiol a pholisi sy'n effeithio ar ddarparu addysg ar bob lefel yng Nghymru, rhaid i bob datblygiad cwricwlwm lleol gael ei gyfarwyddo gan farn pobl ifanc am yr amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r themâu sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn yn destun ymgynghoriad â phobl ifanc yn ystod Tymor y Gwanwyn 2016 drwy Arolwg Mawr Sir Gâr, sef holiadur ar-lein y Cyngor Sir sydd i'w lenwi gan ddisgyblion ysgol a myfyrwyr coleg.

## 11.0 Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2020

Mae cwricwlwm cyffredinol arfaethedig i'w gynnig i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 ac mewn Dysgu Ôl-16 wedi'i nodi isod. Y mae wedi'i gyfarwyddo gan y ffactorau a ddisgrifiwyd uchod a dylai gael ei ddatblygu i sicrhau ei fod yn cydweddu'n agos ag anghenion yr economi lleol a rhanbarthol. Bydd hefyd yn pwysleisio'r amrywiaeth o gymorth wedi'i dargedu sydd ar gael i bobl ifanc sydd ag anghenion cymorth ychwanegol. Bydd cyfuniad o'r cwricwlwm cyffredinol, dewisiadau pwnc cysylltiedig a'r cymorth wedi'i dargedu a fydd ar gael, oll yn ffurfio hawl dysgwyr Sir Gaerfyrddin ym mhob un o'r tri chyfnod mewn addysg a hyfforddiant 11-19 mewn ysgolion, coleg addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 (i bobl ifanc 11-14 oed), cynigir bod yr hawl hon yn cynnwys:

### 1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):

- Y cwricwlwm craidd (13 o bynciau gwahanol)
- Addysg bersonol a chymdeithasol;
- 4 canlyniad allweddol Egwyddorion Donaldson gan gynnwys datblygu llythrennedd digidol ymhellach;
- Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith gan gynnwys gwybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth lleol a'r llwybrau astudio i symud ymlaen i'r swyddi hyn;
- Mynediad at raglenni i roi cymorth i ddysgwyr mwy galluog a dawnus;

- Amrywiaeth o brofiadau ehangach sydd â'r nod o ddatblygu dysgwyr cyflawn.

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:

- Cymorth Tîm o Amgylch y Teulu;
- Mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cymorth Cynhwysiant;
- Addysg arbenigol lle y bo'n briodol;
- Cymorth personol ychwanegol wedi'i gynnig drwy brosiect Cynnydd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET;

3. Dilyniant i Gyfnod Allweddol 4 ar lwybr dysgu priodol.

*(Gweler Atodiad 1)*

Yng Nghyfnod Allweddol 4 (i bobl 14-16 oed), cynigir y bydd yr hawl hon yn cynnwys:

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):

- Cymwysterau 9 TGAU wedi'u capio (Cymraeg Iaith 1<sup>af</sup> neu Saesneg Iaith 1<sup>af</sup>, Mathemateg, Rhifedd, 2 TGAU Gwyddoniaeth a 4 cymhwyster arall
- Bagloriaeth Cymru – Canolradd (yn cynnwys heriau mewn Dinasyddiaeth Fyd-eang, Menter ac Entrepreneuriaeth, Cymuned, a phrosiect unigol)
- Addysg bersonol a chymdeithasol;
- Y 4 canlyniad allweddol yn seiliedig ar Egwyddorion Donaldson;
- Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;
- Dewisiadau cyrsiau galwedigaethol yn gysylltiedig â sectorau allweddol y farchnad lafur leol;
- Mynediad at raglenni i gynorthwyo dysgwyr mwy galluog a dawnus;
- Amrywiaeth o brofiadau ehangach sydd â'r nod o ddatblygu pobl ifanc cyflawn.

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:

- Cymorth Tîm o Amgylch y Teulu;
- Mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cymorth Cynhwysiant;
- Addysg arbenigol lle y bo'n briodol;
- Cymorth personol ychwanegol wedi'i gynnig drwy brosiect Cynnydd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET;
- Cymorth Gwasanaethau Plant i grwpiau penodol (pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau).

3. Dilyniant i addysg neu hyfforddiant ôl-16 ar lwybr dysgu priodol.

*(Gweler Atodiad 2)*

Mewn addysg ôl-16 (i bobl 16-19 oed) mewn chweched dosbarth ysgol, cynigir y bydd yr hawl hon yn cynnwys:

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):

- Safon Uwch Gyfrannol / Safon Uwch neu gymhwyster galwedigaethol ar Lefel 2 neu 3;
- Bagloriaeth Cymru – Uwch (yn cynnwys heriau Dinasyddiaeth Fyd-eang, Menter ac Entrepreneuriaeth, Cymuned a phrosiect unigol)

- Y 4 canlyniad allweddol yn seiliedig ar Egwyddorion Donaldson;
- Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;
- Mynediad at raglenni i gynorthwyo dysgwyr mwy galluog a dawnus gan gynnwys Hwb Seren;
- Amrywiaeth o brofiadau ehangach sydd â'r nod o ddatblygu pobl ifanc cyflawn.

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:

- Cymorth i ailsefyll TGAU Mathemateg a Saesneg os nad ydynt eisoes wedi ennill gradd C neu uwch yn y cymwysterau hyn;
- Ymyriadau Tîm o Amgylch y Teulu i oresgyn rhwystrau i ddysgu'n effeithiol;
- Mynediad at amrywiaeth o wasanaethau cymorth Cynhwysiant (mewn chweched dosbarth ysgol);
- Addysg arbenigol lle y bo'n briodol;
- Cymorth personol ychwanegol wedi'i gynnig drwy brosiect Cynnydd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET;
- Cymorth Gwasanaethau Plant i grwpiau penodol (pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau).

3. Dilyniant i addysg neu hyfforddiant ôl-18 neu gyflogaeth.

*(Gweler Atodiad 3)*

Mewn addysg bellach ôl-16 (i bobl ifanc 16-19 oed), cynigir y bydd yr hawl hon yn cynnwys:

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):

- Safon Uwch Gyfrannol / Safon Uwch neu gymhwyster galwedigaethol ar Lefel 2 neu 3;
- Bagloriaeth Cymru – Canolradd neu Uwch (yn cynnwys heriau Dinasyddiaeth Fyd-eang, Menter ac Entrepreneuriaeth, Cymuned a phrosiect unigol);
- Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith;
- Mynediad at raglenni i gynorthwyo dysgwyr mwy galluog a dawnus gan gynnwys rhaglenni Hwb Seren ac ACE;
- Cymryd rhan yn rhaglen Sgiliau'r Byd i ddysgwyr galwedigaethol;
- Mynediad at gymorth academi chwaraeon a pherfformiad;
- Amrywiaeth o brofiadau ehangach sydd â'r nod o ddatblygu dysgwyr cyflawn.

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:

- Cymorth i ailsefyll TGAU Mathemateg a Saesneg os nad ydynt eisoes wedi ennill gradd C neu uwch yn y cymwysterau hyn;
- Mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i ddysgwyr;
- Cymorth personol ychwanegol wedi'i gynnig drwy brosiect Cynnydd, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET;
- Gwasanaethau cymorth arbenigol i grwpiau penodol (pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau).

3. Dilyniant i addysg neu hyfforddiant ôl-18 neu gyflogaeth, gan gynnwys rhaglen dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau yn y coleg.

*(Gweler Atodiad 4)*

Mewn darpariaeth hyfforddiant pellach ôl-16 a phrentisiaethau (i bobl ifanc 16-19 oed), cynnigir y bydd yr hawl hon yn cynnwys:

1. Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg):

- Cymhwyster galwedigaethol ar Lefel 2 neu 3;
- Cyngor ac arweiniad ar yrfaedd;

2. Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion ychwanegol a nodwyd gan gynnwys:

- Cymorth i ailsefyll TGAU Mathemateg a Saesneg os nad ydynt eisoes wedi ennill gradd C neu uwch yn y cymwysterau hyn;
- Mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i ddysgwyr;
- Gwasanaethau cymorth arbenigol i grwpiau penodol (pobl ifanc sy'n derbyn gofal, pobl ifanc ag anableddau).

3. Dilyniant i addysg neu hyfforddiant ôl-19 neu gyflogaeth, gan gynnwys rhaglen dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau yn y coleg.

*(Gweler Atodiad 5)*

## **12.0 Y Manteision i Ddysgwyr**

Bydd datblygu cwricwlwm Sir Gaerfyrddin, wedi'i gyfarwyddo gan bolisi Llywodraeth Leol a'i ffurfio gan anghenion lleol, yn galluogi i'r mwyafrif helaeth o bobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin gyflawni eu potensial yn llawn. Nod ffurfio'r cwricwlwm cyffredin hwn yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt a sut gall llwybrau sy'n berthnasol i'w dewis yrfaedd ddatblygu, yn gysylltiedig â chyfleoedd cyflogaeth rhanbarthol a chenedlaethol.

Cyfrifoldeb yr ysgolion uwchradd unigol, Coleg Sir Gâr a'r darparwyr hyfforddiant a gonaethwyd yn lleol fydd cyflawni'r cynnig. Yn achos darpariaeth ysgolion ac addysg bellach, rhagdybir y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau sy'n rhoi manylion nifer y cyrsiau i'w cynnig i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Yn yr achos hwn, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fod â'r cyfrifoldeb o wirio bod yr ysgolion uwchradd yn bodloni'r Mesur. Yn achos darpariaeth addysg bellach ôl-16, Coleg Sir Gâr sy'n gyfrifol am hyn.

Fodd bynnag, bydd y tebygrwydd o ostyngiadau pellach i gyllid Llywodraeth Cymru yn golygu y bydd rhai sefydliadau unigol yn ei chael yn gynyddol anos cyflawni gofynion y Mesur, gan gynyddu'r angen am ddulliau o gydweithio ar sail clwstwr er mwyn cyflenwi'r cwricwlwm ar lefel leol. O ystyried bod angen datblygu cwricwlwm sy'n rhannol gysylltiedig â blaenoriaethau'r farchnad lafur leol, bydd datblygu ymhellach strwythurau partneriaeth Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys y grwpiau cydlywodraethu a chysylltiadau cryf â Bwrdd Gwasanaethau Lleol, yn hanfodol er mwyn i botensial llawn datblygiadau'r cwricwlwm a amlinellir yma gael ei wireddu.

Bydd y cwricwlwm a nodwyd yn yr Adolygiad 11-19 yn cael ei ddatblygu yn y Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys opsiynau cwrs er

mwyn sicrhau amrediad ac ieithyddol continwmm o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr yn unol â Mesur 2009 Dysgu a Sgiliau (Cymru).

Ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'r rôl y rhwydwaith Partneriaeth Addysg Gymraeg (PAG) clwstwr sy'n cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, bydd Coleg Sir Gâr a chyflogwyr lleol allweddol yn hanfodol wrth sicrhau bod dilyniant effeithiol i gyrsiau cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 4 a Bydd 5 ar gael. Bydd cysylltiadau cryfach i'r ddarpariaeth addysg uwch lleol drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn cael ei datblygu i alluogi dilyniant ieithyddol pellach ar gyfer pobl ifanc.

Bydd yr Awdurdod Lleol, Ysgolion Uwchradd a Choleg Sir Gâr yn gweithio gyda'i gilydd yn strategol er mwyn galluogi cynnydd iaith er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n rhugl mewn amrywiaeth eang o sgiliau iaith Gymraeg. Bydd y rhai nad ydynt yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn cael cynnig gwell cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg sy'n cyfoethogi eu profiad o fyw mewn sir ddwyieithog. Byddwn yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil a gydnabyddir yn y gweithle trwy weithgareddau addysgol sy'n gysylltiedig â gwaith a gynhelir mewn partneriaeth gyda chyflogwyr, Gyrfa Cymru ac Adfywio CSC cydweithwyr.

Bydd cysylltiadau cryf ag addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar a dilyniant ieithyddol drwy bob cyfnod addysg yn Sir Gaerfyrddin yn bosibl i ddatblygu pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog. 'Galluogi iaith Gymraeg i ffynnu' yn floc allweddol adeilad yn y 'Cwricwlwm Cymru - cwricwlwm am Oes' ddogfen, (LIC 2015), sef y cynllun gweithredu ar gyfer yr adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' (2015), gan yr Athro Graham Donaldson. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi yn agos i ddatblygu'r 9 argymhelliad a gynigir gan yr Athro Donaldson ynglŷn â lle'r Gymraeg yn y cwricwlwm - fel pwnc arwahanol, fel cyfrwng addysgu ac fel modd o gyfathrebu anffurfiol. cyhoeddiadau diweddar a wnaed gan Alun Davies AC, y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes ynglŷn â Y Gymraeg (ee y Senedd 12.7.16) cymorth datblygu'r iaith Gymraeg mewn addysg, megis datblygu un continwmm dysgu ar gyfer yr iaith Gymraeg. Bydd y rhain yn 3-16 datblygiadau'r cwricwlwm yn cael ei hystyried yn llawn, fel sy'n briodol, o fewn y cwricwlwm 11-19 a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

Dylid nodi y bydd rhai pobl ifanc yn methu â chyflawni popeth a allant yn ystod cyfnod addysg 11-19. Bydd hyn o ganlyniad i amgylchiadau unigol gan gynnwys problemau iechyd corfforol a meddyliol, dadrithiad â'r system addysg ffurfiol, anawsterau ymddygiad, addysg ddewisol yn y cartref ac ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai dull cydgysylltiedig wedi'i dargedu ac yn gysylltiedig â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid i rai 16-19 oed yn cynnig y cyfle i dargedu cymorth arbenigol sy'n briodol i'w hanghenion. Mae'r ceisiadau rhanbarthol i Gronfa Gymdeithasol Ewrop (Cynnydd a Cham Nesa) yn cynnig y cyfle i roi cymorth i'r grŵp hwn o bobl ifanc yn ychwanegol at y gwasanaethau presennol sydd wedi'u targedu er mwyn diwallu eu hanghenion.

### **13.0 Y Manteision i'r Economi yn Sir Gaerfyrddin**

Er bod cysylltiadau cryf eisoes yn bodoli rhwng addysg a chyflogwyr lleol, mae argymhellion yr arolygiad hwn yn cynnig cyfle defnyddiol i wella'r cysylltiadau rhwng yr ysgolion, Coleg Sir Gâr a'r awdurdod leol drwy'r Adran Addysg a Phlant a'r Adran Adfywio.

Mae'r cwricwlwm sydd wedi'i nodi yn cynnig y cyfle, drwy Fagloriaeth Cymru, fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith ac egwyddorion craidd Dyfodol Llwyddiannus i baratoi pobl ifanc yn well at gyflogaeth. Nid yn unig y bydd y cwricwlwm diwygiedig yn rhoi i bobl ifanc y sgiliau generig y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, ond bydd hefyd yn dangos y

llwybrau y bydd angen i bobl ifanc eu dilyn er mwyn symud ymlaen i weithio yn y sectorau cyflogaeth allweddol yn lleol. Bydd comisiynu ôl-16 yn gysylltiedig â'r sectorau allweddol yn sicrhau y caiff arian ei flaenoriaethu ar gyfer llwybrau hyfforddi sy'n cysylltu'n agos ag anghenion y farchnad lafur leol. Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn golygu y bydd pobl ifanc wedi'u paratoi'n well i ymgymryd â'r gwaith sydd eisoes yn bodoli yn lleol a symud ymlaen i lefelau uwch o ddysgu, boed hyn yn y sir neu'r tu hwnt.

#### **14.0 Casgliadau Adolygiad 11-19**

Mae gwaith partneriaeth addysgol yn Sir Gaerfyrddin dros y 15 mlynedd diwethaf wedi gwella amrywiaeth ac ansawdd y cyrsiau sydd ar gael i bobl ifanc. Y mae wedi darparu'r cyfleoedd i ddisgyblion a myfyrwyr ddilyn cyrsiau ac ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'r economi lleol a'u galluogi i symud ymlaen i brifysgolion yng Nghymru, yng ngweddill y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae canlyniadau'r gwaith hwn i'w weld yn nifer y bobl ifanc sy'n symud ymlaen i addysg uwch a gwaith yng Nghymru a thu hwnt a'r gostyngiad yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau cwricwlwm sydd ar droed, newidiadau strwythurol posibl ac effaith gostyngiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru, mae angen i bob sefydliad sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yn Sir Gaerfyrddin gydweithio'n agosach i sicrhau y caiff anghenion addysgol a lles pobl ifanc eu diwallu.

Mae cyflawni modelau'r cwricwlwm a nodwyd yn rhoi ffocws clir i'r gwaith hwn, ac yn dangos ymrwymiad partneriaeth Sir Gaerfyrddin i gynnig profiadau addysgol sy'n diwallu anghenion pobl ifanc, cymunedau lleol a'r economi. Mae gweithredu modelau'r cwricwlwm i bob cyfnod o addysg 11-19 yn rhoi ffocws o'r newydd i weithio mewn partneriaeth ac yn cyfarwyddo'r gwaith o weithredu'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol a datblygiadau cyfalaf posibl yn y sir. Bydd gweithredu'r argymhellion a nodir isod yn rhoi ffocws clir i ddatblygu Partneriaeth Dysgu Sir Gaerfyrddin ymhellach a galluogi i'r ymarfer yn y sir sy'n arwain y sector ddiwallu anghenion newidiol pobl ifanc a chyflogwyr.

O ystyried yr achos strategol sydd wedi'i nodi uchod a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, y mae'n bwysig bod gweledigaeth gyffredin yn ei lle i ddatblygu cwricwlwm 11-19 dwyieithog i Sir Gaerfyrddin a fydd yn:

- Darparu addysg ar gyfer yr 21ain Ganrif sy'n greadigol, arloesol ac yn ymgeisio at ragoriaeth i bawb;
- Canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr gydag ansawdd yn elfen allweddol mewn astudiaethau academiaidd a galwedigaethol;
- Cynnig darpariaeth addysgol 11-19 sy'n adeiladu ar ddyheadau a hunan-barch i bob dysgwr ac yn sicrhau cyrhaeddiad ar draws ystod eang o allu;
- Sicrhau dewis a hyblygrwydd o ran cyfleoedd dysgu a dilyniant ystyrion i'r cam nesaf o ddysgu neu gyflogaeth;
- Darparu sgiliau cyflogadwyedd a phrofiad gwaith i ddysgwyr fel sy'n briodol;
- Bod yn ymatebol i anghenion cyflogwyr a'r gymuned;
- Diwallu anghenion y dysgwyr hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- Sicrhau bod anghenion y dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu;
- Cynyddu cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;

- Darparu cyfleoedd cyfartal i bawb;
- Cynnig gwerth am arian a manteisio'n llawn ar y defnydd a wneir o adnoddau cyfyngedig.

## 15.0 Argymhellion Adolygiad 11-19

I sicrhau y gall manteision llawn modelau'r cwricwlwm a nodwyd gael eu cyflawni i bobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin, cynigir bod yr awdurdod lleol, Coleg Sir Gâr a'r bartneriaeth ddysgu ehangach yn:

1. Cytuno ar gydrannau allweddol cwricwlwm cyffredin 11-14, 14-16 ac 16-19 (*erbyn mis Ionawr 2017*);
2. Gweithredu model cwricwlwm cyffredin ar draws Ysgolion Uwchradd Sir Gaerfyrddin, Coleg Sir Gâr a darparwyr hyfforddiant sy'n seiliedig yn Sir Gaerfyrddin ac a gontractiwyd gan Lywodraeth Cymru (*erbyn mis Ionawr 2017*);
3. Cytuno ar strwythur diwygiedig ar gyfer cydlywodraethu a chomisiynu gan yr awdurdod lleol ar gyfer y cwricwlwm diwygiedig (*erbyn mis Tachwydd 2016*);
4. Datblygu model comisiynu i fod yn sylfaen i weithredu'n llawn y System Gynllunio ac Adrodd Ôl-16 ar gyfer Darpariaeth Chweched Dosbarth (*erbyn mis Tachwydd 2016*);
5. Nodi blaenoriaethau cyffredin ar gyfer datblygiadau cyfalaf pellach yn seiliedig ar fodelau'r cwricwlwm ac anghenion yr economi lleol yn gysylltiedig â blaenoriaethau Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (*erbyn mis Ionawr 2017 ac yn barhaus wedi hynny*);
6. Defnyddio Cyllid Grant Gwella Addysg Sir Gaerfyrddin (neu unrhyw gyllid a ddaw yn ei le) i gynorthwyo i ddarparu cyrsiau galwedigaethol yn y sectorau twf sydd wedi'u nodi (gofal henoed a'r blynyddoedd cynnar; peirianeg; ynni a'r amgylchedd; adeiladu; twristiaeth a lletygarwch; bwyd ac amaethyddiaeth; y diwydiannau creadigol; diwydiannau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM); TGCh; a gwasanaethau proffesiynol) yng Ngholeg Sir Gâr a chyda darparwyr hyfforddiant i ddisgyblion ysgol yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5 (*o fis Tachwydd 2016*);
7. Adeiladu ar bartneriaethau presennol â busnesau lleol er mwyn canolbwyntio ar y galw am sgiliau a chyflogadwyedd rhai sy'n cychwyn yn y farchnad lafur yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau y caiff galw lleol ei ddiwallu (*erbyn mis Ionawr 2017 ac yn barhaus wedi hynny*);
8. Sicrhau cysylltiadau cryf â Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2030 i alluogi cydweddiad â'r sectorau economaidd allweddol a dargedir a dilyniant lleol i addysg uwch yn y sectorau blaenoriaeth a nodir (*erbyn mis Ionawr 2017 ac yn barhaus wedi hynny*);
9. Gwneud defnydd o wybodaeth am y farchnad lafur wedi'i diweddarau'n rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau cytbwys, ynghyd â data ar dueddiadau twf sectorau



a'r sectorau twf ar gyfer cyflogaeth yn barhaus (*erbyn mis Ionawr 2017 ac yn barhaus wedi hynny*);

10. Gweithredu rhaglen o ddysgu cyfunol ac e-ddysgu i gyflenwi cwricwlwm 16-19 mewn pynciau Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch llai poblogaidd yn y Gymraeg a'r Saesneg (*o mis Medi 2017*);
11. Gweithredu'r camau a nodwyd yng Nghynllun Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid Sir Gaerfyrddin i leihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (*mis Medi 2016 ac yn barhaus wedi hynny*);
12. Parhau i ddilyn trywydd cyrchfannau pobl ifanc er mwyn eu cynorthwyo i bontio'n effeithiol i gyfnodau ôl-16 ac ôl-19 drwy waith sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (*mis Medi 2016 ac yn barhaus wedi hynny*);
13. Darparu cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc fregus gan gynnwys rhai sydd ag anableddau ac yn y perygl mwyaf o fod yn NEET gan ddefnyddio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop drwy brosiectau Cynnydd a Cham Nesa ar gyfer y gwaith hwn (*erbyn mis Medi 2016 ac yn barhaus wedi hynny*);
14. Cynorthwyo cynnydd y dysgwyr mwyaf galluog a dawnus drwy Hwb Seren Sir Benfro / Sir Gaerfyrddin (*yn barhaus*);
15. Cynorthwyo athrawon, darlithwyr ac ymarferwyr eraill i ddatblygu sut mae pobl ifanc yn dysgu am fyd gwaith drwy lunio dulliau ar lefel sir gyfan i gyflenwi Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig (*yn barhaus*);
16. Cynnwys cyflogwyr, mewn ffordd ystyrlon, yn y gwaith o newid y cwricwlwm, gan gynnwys meithrin cysylltiadau cryf â chyflogwyr allweddol lleol ac adrannau adfywio'r Cyngor Sir (*erbyn mis Ionawr 2017 ac yn barhaus wedi hynny*);
17. Cyfnerthu cryfderau presennol gwaith partneriaeth gyda cholegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant drwy weithredu strwythurau partneriaeth diwygiedig (*erbyn mis Medi 2016 ac yn barhaus wedi hynny*);
18. Sicrhau y caiff gofynion llawn Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith eu cyflawni yn Sir Gaerfyrddin drwy:
  - a. Weithredu fformat ar gyfer diwrnodau / wythnos gyrfaoedd ym Mlynnyddoedd 7-9 gan gynnwys cyflogwyr lleol ac adrannau adfywio'r awdurdod lleol, ac yn gysylltiedig â gwybodaeth am y farchnad lafur lleol a data'r Ganolfan Byd Gwaith;
  - b. Cynnal cronfa ddata o leoliadau profiad gwaith (ar y cyd â Chyngor Sir Penfro);
  - c. Fetio agweddau iechyd a diogelwch / diogelu ar gyfer pob lleoliad gwaith a gomisiynir gan awdurdodau lleol;
  - d. Cynnal cynhadledd Gyrfaoedd flynyddol i ddisgyblion Blwyddyn 10/11 mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru;
  - e. Cynorthwyo i un wythnos o brofiad yn gysylltiedig â gwaith gael ei chynnwys ym Mlynnyddoedd 10 a 12, yn gysylltiedig â 3 her Bagloriaeth Cymru, gwirfoddoli a Gwobr Dug Caeredin;

- f. Cryfhau cysylltiadau â rhieni a gofalywyr drwy gylchlythyr/gwefan, nosweithiau gwybodaeth, sesiynau gyda'r nos i rieni;
- g. Cymorth un-i-un i ddisgyblion ysgol / myfyrwyr gan diwtoriaid personol i bob person ifanc;
- h. Datblygu rolau broceru Tîm o Amgylch y Teulu a Gweithwyr Ieuenctid i gynorthwyo camau pontio i addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc fregus;
- i. Camau dilynol cynnar ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael ysgol a choleg yn nhymhorau'r hydref neu'r gaeaf ym Mlwyddyn 12.

19. Dadansoddi gwybodaeth y farchnad lafur yn flynyddol i gyfarwyddo'r gwaith o gyflenwi cyrsiau galwedigaethol ar y cyd a chynllunio ôl-16 yn y cyfnod hyd at 2020 (*erbyn mis Medi 2016 ac yn barhaus wedi hynny*).

20. Atebolwydd am gynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn i gael ei oruchwyllo drwy'r clystyrau cydlywodraethu, Bwrdd Corfforaethol Coleg Sir Gâr, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Phwyllgorau Craffu Addysg a Phlant (*erbyn mis Medi 2016 ac yn barhaus wedi hynny*).

## 16.0 Cyfeirnodau

- Adran Addysg a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin (2015): *Cynllun Busnes 2015/16*.
- Adran Addysg a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin (2015): *Dogfen Ddrafft Rhaglen Moderneiddio Addysg*.
- Adran Addysg a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin (2016) *Palmantu'r Ffordd – Adolygiad Strategol o Ddatblygiadau Cwricwlwm 3-19 yn Sir Gaerfyrddin*.
- Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin (2011): *Strategaeth Gymunedol Integredig i Sir Gaerfyrddin 2011-16*
- Coleg Sir Gâr (2014): *Cenhadaeth, Gweledigaeth a Strategaeth 2014-2017*.
- Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (2015) *Canllawiau Bagloriaeth Cymru Ddiwygiedig*.
- Cyngor Sir Caerfyrddin (2014): *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-2017*.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004): Llywbrau Dysgu 14-19: Canllawiau, cylchlythyr 37/2004.
- Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (2013): *Strategaeth Ranbarthol Dinas-Ranbarth Economaidd Bae Abertawe 2013-2030*
- Donaldson, G. (Chwefror 2015): *'Dyfodol Llwyddiannus – adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru'*
- ERW (2015): *Cynllun Busnes ERW 2015-2016*.
- Estyn: *Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2006) Darpariaeth Ôl-16 mewn Ysgolion – ffactorau sy'n dylanwadu ar allu chweched dosbarth ysgolion i ddiwallu anghenion a gwireddu dyheadau dysgwyr*.
- Gyrfa Cymru (2015): *Arolwg Cyrchfannau Disgyblion 2014*.
- Llywodraeth yr Alban (2014): *Developing the Young Workforce: Scotland's Employment Strategy*
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007): *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Cylchlythyr 023.2007*
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith – Fframwaith i bobl ifanc 11-19 oed*.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008): *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig*.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009*.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009): *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*.

- Llywodraeth Cymru (2013): *Teuluoedd yn Gyntaf – Canllawiau'r Rhaglen.*
- Llywodraeth Cymru (2013): *Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau – Cyflawni'r datganiad polisi ar sgiliau.*
- Llywodraeth Cymru (2013): *Creu Cymunedau Cryf: Symud ymlaen â'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi.*
- Llywodraeth Cymru (2014): *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru.*
- Llywodraeth Cymru (2014): *Cyflwyniad ar gyfer Ysgolion Llwybrau Llwyddiant.*
- Llywodraeth Cymru (2014): *Canllawiau'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol.*
- Llywodraeth Cymru (2014): *Canllawiau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid.*
- Llywodraeth Cymru (2015): *Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes.*
- Llywodraeth Cymru (2015): *Blaenoriaethau ar gyfer Awdurdodau Lleol 2016-2017.*
- Llywodraeth Cymru (2015): *Blaenoriaethau ar gyfer y Sector Addysg Bellach 2016-2017.*
- Llywodraeth Cymru (2015): *Rhwydwaith Seren: Cefnogi Myfyrwyr Disgleiriaf Cymru.*
- Llywodraeth Cymru (2015): *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau – cynllun gweithredu i Gymru.*
- Robinson, K. (2009): *The Element: How Finding Your Passion Changes Everything.*
- Y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol (2014): *Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Farchnad Lafur yn Sir Gaerfyrddin.*
- Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2015): *How to provide meaningful experience of the world of work for young people aged 16-19 as part of study programmes.*

## 17.0 Rhestr o acronymau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad


ABCh	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
AC	Aelod o'r Cynulliad
AS	Aelod Seneddol
CVET	Continuing Vocational Education and Training
ESTYN	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
ERW	Consortium gwella ysgolion rhanbarthol ar gyfer De Orllewin a Chanbolbarth Cymru
ESOL	English for Speakers of Other Languages
IVET	Intermediate Vocational Education and Training
NEET	Not in Employment, Education or Training
STEM	Science, Technology, Engineering and Maths
TG	Technoleg Gwybodaeth
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

## *Rhestr o acronymau Saesneg a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad Saesneg*

<i>AM</i>	<i>Assembly Member</i>
<i>CCC</i>	<i>Carmarthenshire County Council</i>
<i>CSG</i>	<i>Coleg Sir Gâr</i>
<i>CW</i>	<i>Careers Wales</i>
<i>CWoW</i>	<i>Careers and the World of Work</i>
<i>DT</i>	<i>Design Technology</i>
<i>EET</i>	<i>Employment Education and Training</i>
<i>ESF</i>	<i>European Social Fund</i>
<i>DfES</i>	<i>Department for Education and Skills (Welsh Government)</i>
<i>EOTAS</i>	<i>Educated Other Than At School</i>
<i>eFSM</i>	<i>eligible for Free School Meals</i>
<i>ESOL</i>	<i>English for Speakers of Other Languages</i>
<i>ERW</i>	<i>Regional school improvement consortium for south west and mid Wales</i>
<i>FE</i>	<i>Further Education</i>
<i>FEI</i>	<i>Further Education Institution</i>
<i>GCSE</i>	<i>General Certificate of Secondary Education</i>
<i>HE</i>	<i>Higher Education</i>
<i>HEI</i>	<i>Higher Education Institution</i>
<i>ICT</i>	<i>Information and Communication Technology</i>
<i>IVET</i>	<i>Intermediate Vocational Education and Training</i>
<i>JWP</i>	<i>Joint Working Party</i>
<i>KS</i>	<i>Key Stage</i>
<i>LA</i>	<i>Local Authority</i>
<i>LLDD</i>	<i>Learner with Learning Difficulties or Disabilities</i>


<i>LMI</i>	<i>Labour Market Information</i>
<i>LTM</i>	<i>Learning Transformation Manager</i>
<i>LSB</i>	<i>Local Service Board</i>
<i>MEAS</i>	<i>Minority Ethnic Achievement Service</i>
<i>MEP</i>	<i>Modernising Education Programme</i>
<i>MFL</i>	<i>Modern Foreign language</i>
<i>NEET</i>	<i>Not in Employment, Education or Training</i>
<i>OECD</i>	<i>Organisation for Economic Co-ordination and Development</i>
<i>P16PR</i>	<i>Post 16 Planning and Reporting</i>
<i>PDG</i>	<i>Pupil Deprivation Grant</i>
<i>PRU</i>	<i>Pupil Referral Unit</i>
<i>PSE</i>	<i>Personal and Social Education</i>
<i>RPL</i>	<i>Regional Learning Partnership</i>
<i>RLSO</i>	<i>Regional Learning and Skills Observatory</i>
<i>SBCR</i>	<i>Swansea Bay City Region</i>
<i>SBYW</i>	<i>School Based Youth Worker</i>
<i>SEN</i>	<i>Special Educational Needs</i>
<i>SOC</i>	<i>Strategic Outcome Case</i>
<i>SSA</i>	<i>Subject Sector Area</i>
<i>STEM</i>	<i>Science, Technology, Engineering and Maths</i>
<i>SWW</i>	<i>South West Wales</i>
<i>TAF</i>	<i>Team Around the Family</i>
<i>TLC</i>	<i>Teaching and Learning Centre</i>
<i>WB</i>	<i>Welsh Baccalaureate</i>
<i>WG</i>	<i>Welsh Government</i>
<i>WEFO</i>	<i>Wales European Funding Office</i>
<i>WMES</i>	<i>Welsh Medium Education Strategy</i>
<i>WESP</i>	<i>Welsh in Education Strategic Plan</i>
<i>YEPF</i>	<i>Youth Engagement and Progression Framework</i>

## Atodiad 1 – Cynnig Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin – Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7 i 9)






## Sut gallai cynnig cwricwlwm ysgolion edrych yn 2017? - Cyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11)



## Atodiad 3 – Cynnig Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin – ôl-16 oed Chweched Dosbarth (Blynyddoedd 12 a 13)


### Cynnig Cyffredinol (yn Gymraeg a Saesneg)






## Atodiad 4 – Cynnig Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin – Coleg Addysg Bellach ôl-16

### Cynnig Addysg Bellach yn Saesneg gyda rhai rhaglenni galwedigaethol ar gael yn Gymraeg a Saesneg



## Atodiad 5 – Cynnig Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin – Coleg Dysgu Seiliedig ar Waith ôl-16 a Darparwyr Hyfforddiant

### Cynnig Dysgu Seiliedig ar Waith yn Saesneg gyda rhai rhaglenni ar gael yn Gymraeg a Saesneg



Cymorth wedi'i dargedu i ddiwallu anghenion a nodwyd (yn Gymraeg a Saesneg)

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Carmarthenshire 11-19 Review Recommendations – Implementation Workplan September 2016-August 2017 D#2 (13.09.2016)**

#	Recommendation/Action	Timescale	Responsible Officer(s)	Comments	Status
1	Agree the key components of 11-14, 14-16 and 16-19 shared curriculum offers	January 2017	AR/MM	Pending member elected approval by Jan 2017	
2	Implement the agreed curriculum model across all Carmarthenshire Secondary Schools, Coleg Sir Gâr and Carmarthenshire based Welsh Government contracted training providers	January 2017	AR/MM	Pending member elected approval by Jan 2017	
3	Agree the revised shared governance and local authority commissioning structure for the revised curriculum offer	November 2016	AR/MM	Plans to be discussed in Governance groups in Oct 2016	
4	Develop a commissioning model to underpin the full implementation of the Post-16 Planning and Reporting system for Sixth Form Provision	November 2016	AR/MM	Plans to be discussed in Governance groups in Oct 2016	
5	Identify shared priorities for further capital developments based on the curriculum models and the needs of the local economy linked to Swansea Bay City Region priorities;	January 2017	MM/SD	Link 11-19 review recommendations to CCC MEP programme	
6	Utilise Carmarthenshire Education Improvement Grant Funding (or any replacement funding) to support vocational course delivery in the identified growth sector areas (elder and early years care, engineering, energy and environment construction, tourism & hospitality, food and agriculture, creative industries, STEM industries, ICT and professional services) at Coleg Sir Gar and training providers for school pupils in Key Stage 4 and 5	November 2016	AR/MM	Plans to be discussed in Governance groups in Oct 2016	
7	Build on existing partnership relationships with local businesses to focus skills demands and employability of new labour market entrants within Carmarthenshire to ensure that local demands are met	January 2017	RS/AR	Links to RLP Employer groups?	

## Carmarthenshire 11-19 Review Recommendations – Implementation Workplan September 2016-August 2017 D#2 (13.09.2016)

8	Ensure strong links with the Swansea Bay City Region Economic Regeneration Strategy 2013-2030 to enable a strategic fit with the key economic sectors being targeted and local progression to Higher Education in the identified priority sectors	January 2017	RS/AR	Links to RLP Employer groups?	
9	Utilise regularly updated labour market intelligence on which to make informed decisions together with data on sector growth trends and growth sectors for employment on an on-going basis	January 2017	MM	Contact with RLP/RLSO	
10	Implement a programme of blended and e-learning learning to deliver the 16-19 curriculum in low take-up AS and A Level subjects in both Welsh and English	September 2017 – on-going	MM/DD/MJ	Need to address long-standing school and LA connectivity issues	
11	Implement the actions identified in the Carmarthenshire Youth Engagement and Progression Plan to reduce the number of young people who become NEET	September 2016 on-going	MM/GA	On-going delivery of 6 elements of the YEPF	
12	Continue to track the destinations of young people to support effective Post 16 and Post 19 transitions through YEPF related work ( <i>September 2016 and on-going</i> );	September 2016 on-going	MM/GA	Possibility of shared post with PCC based in CW?	
13	Provide targeted support for vulnerable young people including those with disabilities and most at risk of becoming NEET utilising ESF funding via the <i>Cynnydd</i> and <i>Cam Nesa</i> projects for this work	September 2016 on-going	MM/TG	Cynnydd Project approved May 2016 with delivery planned from Sept 2016 Cam Nesa project still in development	
14	Support the progress of the most able and talented learners via the Pembrokeshire/Carmarthenshire Seren Hub	Seren Hub delivery on- going	MM/Seren Hub Steering Committee	Seren delivery on- going though no identified funding from April 2017	



**Carmarthenshire 11-19 Review Recommendations – Implementation Workplan September 2016-August 2017 D#2 (13.09.2016)**

15	Support teachers, lecturers and other practitioners to develop young people’s learning about the world of work through a County-wide approach to the delivery of the revised Welsh Baccalaureate ( <i>on-going</i> );	September 2016 on-going	MM/JM/SM	Support programme on-going	
16	Embed meaningful employer involvement in curriculum change, including strong links with key local employers and County Council regeneration departments ( <i>by September 2016 and on-going</i> );	January 2017	RS/AR/MM	Needs greater links with CCC Rengen colleagues to promote this	
17	Consolidate the existing strengths of partnership working with FE colleges and training providers through the implementation of revised partnership structures ( <i>by September 2016 and on-going</i> );	Sept 2016 on-going	RS/AR/MM	Delivered through continuance of shared governance structures	
18	Ensure that the full requirements of the Careers and the World of Work Framework are delivered in Carmarthenshire ( <i>by September 2017</i> ) by: <ul style="list-style-type: none"> <li>a. Implementing a format for careers days/ week in Years 7-9 involving local employers and LA regeneration departments and linked to local labour market information and JobCentre Plus data;</li> <li>b. Maintaining a work experience placement database (jointly with Pembrokeshire CC)</li> <li>c. Undertaking Health and Safety/ safeguarding vetting for all placements commissioned by the local authorities;</li> <li>d. Delivering an annual Careers conference for Year 10/11 pupils in partnership with Careers Wales in March 2017;</li> <li>e. Supporting one week of work related experience built into Years 10 and 12, with links to the 3 Welsh Baccalaureate challenges, volunteering and Duke of Edinburgh’s Award;</li> <li>f. Strengthening links with parents and carers via newsletter/website, information evenings, parent’s evening sessions;</li> <li>g. One to one support with school pupils/students by personal tutors for all young people;</li> <li>h. Developing Team Around the Family and Youth Worker brokerage roles to support transition to education and training for vulnerable young people;</li> </ul>	Sept 2016 on-going	MM/CCC Regen staff /Careers Wales staff /Futureworks	Separate work streams for these activities?	

## Carmarthenshire 11-19 Review Recommendations – Implementation Workplan September 2016-August 2017 D#2 (13.09.2016)

	f. Early follow up of young people dropping out of school and college in the autumn and winter terms of Year 12.				
19	Annual analysis of labour market information to inform collaborative vocational course delivery and Post 16 planning in the period to 2020	November 2016 on-going	MM		
20	Accountability for the progress of these recommendations be overseen via the shared governance clusters, Coleg Sir Gâr Corporate Board, Local Service Board and the Education and Children’s Scrutiny Committees.	September 2016 on-going	RS/AR/MM	Delivered through continuance of shared governance structures	

**BWRDD GWEITHREDOL  
17 HYDREF 2016**

**STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG**

**Y Pwrpas:**

Paratowyd y fersiwn drafft o Strategaeth Hybu'r Gymraeg fel rhan o gyfrifoldebau'r Cyngor o fewn fframwaith y Safonau Iaith. Mae'r ddogfen wedi ei llunio drwy'r Fforwm Iaith Sirol a gyda chyfraniadau gan ystod eang o bartneriaid megis y Mentrau Iaith.

**Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd eu Hangen:**

- Bod y Bwrdd Gweithredol yn cytuno'r Strategaeth Hybu cyn ei chyhoeddi'n derfynol.

**Y Rhesymau:**

- Mae gofyn i'r Cyngor Sir i baratoi Strategaeth Hybu'r Gymraeg fel rhan o fframwaith Safonau'r Iaith Gymraeg (Safon 145).

**Ymgynghorwyd â'r pwyllgor craffu perthnasol**

**DO**

**Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau – 5 Hydref 2016**

**Argymhellion / Sylwadau'r Pwyllgor Craffu:**

Cymeradwywyd y ddogfen gan y Pwyllgor Craffu

Nodwyd bod angen sicrhau bod y sector breifat hefyd yn rhan o'r Strategaeth

Nodwyd bod angen Strategaeth benodol i annog pobl ifanc i aros yn y Sir, neu i ddychwelyd

**Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad – OES**

**Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad – NAC OES**

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-

Y Cynghorydd Mair Stephens

**Y Gyfarwyddiaeth:**

**Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**

Wendy Walters

**Awdur yr Adroddiad:**

Llinos Evans

**Swyddi:**

Prif Weithredwr Cynorthwyol  
(Adfywio a Pholisi)

Swyddog Polisi a Phartneriaeth

**Rhifau ffôn:**

01267 224112 / 4914

**Cyfeiriadau E-bost:**

[WSWalters@sirgar.gov.uk](mailto:WSWalters@sirgar.gov.uk)

[Llinevans@sirgar.gov.uk](mailto:Llinevans@sirgar.gov.uk)

# EXECUTIVE SUMMARY

## Executive Board

### 17 October 2016

## Strategy to promote the Welsh language

### 1. BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT

Carmarthenshire County Council received its Compliance Notice in relation to the Welsh language Standards in September 2016.

As part of the Standards we are required to prepare and publish a Strategy outlining how we will promote and facilitate the use of the Language in our area (standard 145).

The draft Strategy builds upon the 'Welsh language in Carmarthenshire' report approved by Council in April 2014. Many of the opportunities outlined in the draft Strategy were previously in place through the agreed recommendations.

However this Strategy provides us with an opportunity to work and share best practice with other organisations across the county through the County's Strategic Welsh Language Forum whose membership includes:

- Carmarthenshire Federation of Young Farmers
- Coleg Sir Gâr
- Cymdeithas yr Iaith
- Dyfodol i'r Iaith
- Hywel Dda University Health Board
- Mentrau Iaith
- Merched y Wawr / Clybiau Gwawr
- Mudiad Meithrin
- Welsh Government
- University of Wales Trinity St David
- Urdd
- Welsh for Adults
- Welsh language Centres (Y Lle, Llanelli and Yr Atom, Carmarthen)

The Strategy will be delivered in partnership with the Forum members with links to our Public Services Board partners being established as the action plan is developed.

Preparing and publishing a Strategy to promote the Welsh language is a statutory responsibility under the Welsh Language Measure (2011).

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

(Draft Strategy)



EICH CYNGOR **arleinamdani**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

**YOUR COUNCIL doitonline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

## IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:

Signed: **W.S. Walters** Assistant Chief Executive (Regeneration & Policy)

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>

### 1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

The Council has a statutory responsibility to meet the Welsh language Standards, which have been placed on us as part of the Welsh Language Measure (2011).

### 2. Legal

The Welsh Language Standards Regulations 2015 came into force on 31 March 2015. These Regulations have replaced the responsibilities placed on Carmarthenshire County Council under the Welsh Language Act 1993 and have been imposed on the council since 31 March 2016.

### 3. Finance

As the Strategy is implemented, thorough consideration must be given to the potential financial implications. Further investment may be required in future to ensure progress in made.

## CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: **W.S. Walters** Assistant Chief Executive (Regeneration & Policy)

**1. Scrutiny Committee - N/A**

**2. Local Member(s) - N/A**

**3. Community / Town Council - N/A**

**4. Relevant Partners - N/A**

**5. Staff Side Representatives and other Organisations**

The draft Strategy has been discussed and supported by the Council's Members Advisory Panel on the Welsh language.

The draft Strategy has been discussed and supported by the County's Strategic Welsh Language Forum.

The draft Strategy has been discussed and supported by the Corporate Management Team.

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Welsh Language Standards		<a href="http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1443477/Carmarthenshire-Welsh-Language-Standards.pdf">http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1443477/Carmarthenshire-Welsh-Language-Standards.pdf</a>
Welsh language in Carmarthenshire report		<a href="http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/68004/WelshLanguageCarms.pdf">http://www.carmarthenshire.gov.wales/media/68004/WelshLanguageCarms.pdf</a>

# Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin

2016-2021





1. Rhagair gan y Cyngorydd Mair Stephens
2. Cyflwyniad: Cyd-destun y Strategaeth Hybu
3. Gweledigaeth ac Amcanion
4. Cyd-destun ieithyddol
5. Y Gwaith a wnaed eisoes
6. Dulliau Gweithredu'r Amcanion: Y fecanwaith
7. Gweithredu'r Amcanion: Camau Gweithredu
8. Y ffordd ymlaen – blaenoriaethau ychwanegol cychwynnol

DRAFT

## 1. Rhagair

DRAFT

## 2. Cyflwyniad: Cyd-destun y Strategaeth Hybu

### Y Safonau Iaith

Yn Ebrill 2016, daeth Safonau Iaith Cyngor Sir Caerfyrddin i rym. Ar ôl cyfnod o ymgynghori ac o baratodau, cyflwynwyd 174 o Safonau gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a fyddai bellach yn cael ei reoleiddio gan y Comisiynydd.

Disodlwyd Cynllun Iaith y Cyngor felly a derbyniwyd y Safonau yn fframwaith newydd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y pum maes gwaith isod:

- 1) cyflenwi gwasanaethau Cymraeg,
- 2) llunio polisi mewn modd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg,
- 3) gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg,
- 4) cadw cofnodion ynglŷn â'r Gymraeg ac yn olaf
- 5) hybu'r Gymraeg.

Mae'r Cyngor wedi bod yn cynllunio ar lefel sirol i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg ers pum mlynedd bellach, ar sail canlyniadau Cyfrifiad 2011, ac mae Safonau hybu'r Comisiynydd yn 2016 yn ysgogiad i ffurfioli'r gwaith cynllunio hwnnw ymhellach. Mae Safonau 145 a 146 yn benodol yn galw ar y Cyngor Sir i lunio'r Strategaeth hon.

*145 Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -*

*(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a*

*(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).*

*146 Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -*

*(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a*

*(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn -*

*(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny; rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.*

*(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.*

Ni lunnir y Strategaeth hon mewn gwagle fodd bynnag. Er bod y Safonau hybu yn elfen newydd i Gyngor Sir Caerfyrddin o safbwynt cael eu rheoleiddio, mae gwaith wedi bod yn digwydd i'r perwyl o hybu'r Gymraeg yn y Sir ers degawdau a'r Cyngor Sir yn gorff canolog i'r datblygiadau hynny. Yn wir, o achos y datblygiadau cyson yma, mae gennym Fforwm Strategol Sirol o gyrff sydd yn y busnes o gynllunio ieithyddol o fewn y sir, sydd yn fecanwaith delfrydol ar gyfer arwain ar waith y strategaeth hon. Crynhoir yr ymdrechion diweddar a wnaed gan y Cyngor i arwain ar gynllunio ieithyddol yn y Sir ym mhennod 5 y Strategaeth hon, ond byddai'n fuddiol yma i ystyried cyd-destun y Strategaeth hybu o safbwynt ymdrechion bwriadus eraill i gynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sirol ac yn Genedlaethol.

### **laith Fyw: iaith byw**

Cyhoeddwyd Strategaeth ar gyfer y Gymraeg 'laith Fyw: iaith Byw' gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2012. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth y Llywodraeth sy'n gweithredu er mwyn gweld y Gymraeg yn ffynnu. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y weledigaeth a amlinellwyd yn 'laith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog' a gyhoeddwyd yn 2003. Mae'n amlinellu sut bydd y Llywodraeth yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid a fydd yn cyfrannu'n helaeth at sicrhau y caiff y weledigaeth ei gwireddu.

I'r perwyl hwn, chwe nod 'laith Fyw: iaith byw' yw:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol

Datblygwyd y chwe maes strategol hyn yn feysydd gwaith ar gyfer y Mentrau Iaith yn ystod y cyfnod nesaf yn ogystal.

Dilynwyd 'Iaith Fyw: iaith byw' gyda 'Bwrw Mlaen', sef datganiad polisi ac amcanion polisi ar gyfer 2014-17, oedd yn cynnwys pwyslais ar

1. Yr angen i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr economi a'r Gymraeg.
2. Yr angen am gynllunio strategol gwell ar gyfer y Gymraeg.
3. Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
4. Yr her o newid ymddygiad ieithyddol.

Ein gobaith yw y bydd y Strategaeth yn ddogfen fyw a chyda hynny mewn meddwl fe fydd modd addasu'r nod a'r amcanion i awgrymiadau a ddaw o ddiweddariad y Llywodraeth o 'Iaith Fyw: iaith byw'.

### **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru**

Mae'r Strategaeth hon, a luniwyd yn 2010, yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg. Un o brif weithrediadau'r Strategaeth oedd i alw am gynlluniau gan yr Awdurdodau Lleol i ddiwallu anghenion lleol. Lluniodd Sir Gaerfyrddin **Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-17** er mwyn amlinellu sut y bydd y Sir yn cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru ac yn cynllunio'n well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir, gan symud ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyd y continwwm iaith i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn gynyddol. Mae gan y Strategaeth rôl gwbl allweddol yn ymdrechion y Cyngor i gynyddu nifer ein trigolion sy'n caffael y Gymraeg ac fe fydd yn hanfodol fod Strategaeth Hybu'r sir yn atgyfnerthu ac yn cefnogi'r Strategaeth Addysg.

## **Mwy na geiriau**

Lluniwyd y Cynllun Strategol 'Mwy na Geiriau' yn 2012 gyda'r nod o gryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r her o ddatblygu'r 'Cynnig Rhagweithiol', sef bod aelodau staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i gleifion, yn hytrach na disgwyl i gleifion ofyn amdanynt.

Diweddarwyd y strategaeth yn 2016 gyda 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016 – 2019' a darparwyd teclynnau ar gyfer cynorthwyo staff i'w weithredu. Nid ydyw'r Gwasanaeth Iechyd wedi bod yn aelodau o Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin hyd yn hyn, ond maent wrth gwrs yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a fydd yn darparu cyfleoedd i gydweithio ar yr agenda Gymraeg. Fodd bynnag, fe fyddai'n sicr yn gam adeiladol pellach i'w cynnwys yn uniongyrchol yn natblygiadau ein Strategaeth Hybu.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

Mae'r Ddeddf hon yn fodd o helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl yn y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson, a hynny er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Ar lefel sirol, gweithredir y Ddeddf hon gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd ymwneud y Strategaeth hybu gyda gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddeublyg. Fe fydd yn angenrheidiol i nodau ac amcanion y Strategaeth hybu gyd-weddu â nodau ac amcanion y Bwrdd Gwasanaethau. Yn ail, fe fydd yn hanfodol fod y Fforwm Sirol, wrth weithredu'r Strategaeth hybu, yn gweithio i gynorthwyo'r cyrff sydd yn ffurfio'r tri grŵp thematig i wireddu nodau'r Bwrdd sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg, sef cyfrannu at 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Gan fod gwaith y ddau gorff yn ei ddyddiau cynnar, fe ddaw'n gliriach yn ystod y blynyddoedd nesaf sut yn union fydd y gwaith yn cyd-blethu, ond yn ystod y cyfnod cynnar hwn, fe fydd y gwaith y bydd y Bwrdd yn

ei wneud ar asesiad lles yn faes gwaith diddorol i'r Fforwm Sirol o safbwynt mesur cynnydd ar gyfer y Strategaeth hybu.

DRAFF



### 3. Gweledigaeth ac Amcanion

Ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer y Strategaeth yw:

Anelu at wneud y Gymraeg yn brif iaith y sir

Er bod yna ddirywiad amlwg ar droed o safbwynt yr iaith Gymraeg yn Sir Gâr, rydym yn ffyddiog ein bod mewn sefyllfa i fedru cymryd camau pwrpasol i normaleiddio'r iaith ym mhob agwedd o fywyd ein trigolion. Mae gennym sail gadarn a gwaelodlin gymharol iach i adeiladu arni gyda'n golwg ar wneud y Gymraeg yn iaith naturiol bywyd a gwaith yn Sir Gâr. Dyma, yn wir, yw gweledigaeth y Cyngor (a'r Strategaeth hon) wrth iddi gymryd rhan flaengar mewn ymdrechion i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg yn y sir.

Cydnabyddir mai'r modd orau o wireddu'r weledigaeth hon yw adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd o fywyd. Dymunwn wrthdroi tueddiadau'r degawdau diwethaf lle mae'r Gymraeg yn dirywio o fod yn brif iaith Sir Gâr (75% yn 1951 i 43.9% yn 2011), a dim ond drwy sicrhau fod mwyafrif yn hytrach na lleiafrif o drigolion y sir yn medru, ac yn dewis, defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd y gellir sicrhau parhad yr iaith fel iaith gymunedol, fyw i genedlaethau'r dyfodol.

Dymunwn hefyd ymestyn allan at gynulleidfa mor eang â phosib gan wneud yr iaith yn ddeniadol i bawb gan gynnwys trigolion newydd y sir a thrigolion sydd heb gael llawer o gyffyrddiad gyda'r Gymraeg hyd yma. Bwriadwn greu hinsawdd o fewn y sir lle mae ein holl drigolion yn teimlo perchnogaeth o'r iaith ac yn gweld budd mewn byw mewn sir gwirioneddol ddwyieithog.

Ein gobaith a'n bwriad felly yw y bydd y strategaeth hon yn adnodd gwerthfawr i'n cynorthwyo i gydgyllunio, i gydweithio ac i dargedu adnoddau er mwyn cyrraedd y 5 amcan isod:

- i. Cynyddu niferoedd sy'n **caffael sgiliau sylfaenol a sgiliau pellach** yn y Gymraeg drwy'r system addysg a thrwy drosglwyddo iaith yn y cartref;
- ii. **Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly ddefnydd y Gymraeg** ym mhob agwedd o fywyd, ac annog a chefnogi sefydliadau'r sir i wneud y Gymraeg yn gynyddol yn gyfrwng naturiol eu gwasanaethau;
- iii. Cymryd camau pwrpasol i **effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth** gan geisio denu'n pobl ifanc i sefydlu neu i ail-ymsefydlu yn y sir fel na gollir y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a enillir drwy'r drefn addysg. Yn ogystal, gwneud ymdrechion sylweddol i gymathu mewnfudwyr a sicrhau nad ydy datblygiadau cynllunio newydd yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg;
- iv. Targedu **ardaloedd daearyddol** penodol o fewn y sir, naill ai am eu bod yn cynnig potensial i ddatblygu neu yn achosi pryder yn ieithyddol, i gynyddu niferoedd sy'n medru ac yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny;
- v. **Marchnata a hyrwyddo'r iaith.** Codi statws y Gymraeg gan gynnwys manteision dwyieithrwydd a manteision addysg ddwyieithog. A thrwy godi ymwybyddiaeth o'r manteision hyn, denu mwy o drigolion y sir i gaffael yr iaith.

DRAFT

#### 4. Cyd-destun ieithyddol

Gyda 78,048 o drigolion yn medru Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, Sir Gaerfyrddin yw'r Awdurdod unedol gyda'r nifer fwyaf o drigolion sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ddwyseidd o siaradwyr Cymraeg yn eithaf cyson hefyd ar draws y sir, gyda chyn lleied â chwe chymuned allan o'r deugain gyda llai na 40% o siaradwyr Cymraeg yn y sir. Mae'r elfen o ddwyseidd cyson ar draws y sir yn gymorth i feithrin agweddau cadarnhaol yn gyffredinol tuag at yr iaith Gymraeg a'r angen i'w hyrwyddo, a hyn yn wleidyddol ac yn gymunedol.

Yn wir, gymaint oedd unfrydedd y gefnogaeth wleidyddol tuag at y Gymraeg yn y sir pan ddaeth canlyniadau gofidus Cyfrifiad 2011 i fwrw'r wlad ben baladr, nes bod y Cyngor Sir wedi mynd ati i gomisiynu paratoi adroddiad ystadegol manwl ar sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Gâr gan Dr Dylan Phillips. Dilynai'r adroddiad a alwyd yn, 'Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin', yr un patrwm o ran cynnwys a threfn a'r adroddiad a gwblhawyd yn 2005 ar ganlyniadau cyfrifiad 2001 er mwyn hwyluso cymariaethau. Mae'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad manwl o dueddiadau ieithyddol o fewn y sir ac yn yr un modd ac y bu'n sail ar gyfer gwaith Gweithgor y Cyfrifiad, fe fydd hefyd yn adnodd gwerthfawr ar gyfer y Strategaeth hybu hon.

Amlygwyd y duedd o gollu siaradwyr Cymraeg yng nghadarnleoedd y Gymraeg yn yr adroddiad, 'Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin':

Yn Sir Gaerfyrddin, disgyn a wnaeth niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn gyson, gyda cholled net o 11,165 yn ystod yr un cyfnod. Yn yr un modd, parhau i ostwng a wnâi canrannau'r siaradwyr Cymraeg. Ym 1991, medrai 54.8 y cant o drigolion y sir siarad Cymraeg, ond gostyngodd y ganran i 50.1 y cant o'r boblogaeth erbyn 2001 (gw. Graff 1.3) a gostwng eto fyth i 43.9 y cant yn 2011 - **y tro cyntaf erioed i ganran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin i ostwng islaw'r hanner, gan olygu fod siaradwyr Cymraeg y sir bellach yn lleiafrif** mewn ardal a ystyrir yn draddodiadol yn un o gadarnleoedd yr iaith...

Er bod y rhan fwyaf o siroedd wedi gweld gostyngiad bychan yng nghanrannau eu siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011, ardaloedd yr hen Fro Gymraeg a brofodd y gostyngiad mwyaf – gyda Cheredigion yn gweld gostyngiad o -4.5 y cant a Gwynedd - 3.3 y cant. **Ond Sir Gaerfyrddin brofodd y gostyngiad mwyaf o bell ffordd, wrth i'r ganran ddisgyn -6.1 y cant** rhwng y ddau gyfrifiad (a -10.9 y cant rhwng 1991 a 2011).

Ceir ystadegau dadlennol yng nghorff yr adroddiad sy'n egluro, i raddau helaeth, y dirywiad hwn. Yn gyntaf, mae tueddiadau demograffeg yn arwyddocaol dros ben:

Hyd at y 1970au roedd 8 o bob deg person yn Sir Gaerfyrddin oedd yn ganol oed neu'n hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, gostyngodd canrannau siaradwyr Cymraeg y grŵp oed hwn ar raddfa cynt ym mhob cyfrifiad oddi ar hynny. Ers 1981 bu'r sir yn colli bron 8 y cant o'i siaradwyr Cymraeg o blith y boblogaeth 65 oed a throsodd bob degawd, ac roedd marw'r genhedlaeth hŷn yn cael ei adlewyrchu'n uniongyrchol yng ngostyngiad canrannau siaradwyr Cymraeg y sir gyfan fesul cyfrifiad.

Yn ail, mae symudiadau poblogaeth yn amlwg yn dylanwadu ar ddirywiad y Gymraeg:

Ychydig iawn o amheuaeth sydd mai un o'r ffactorau pwysicaf a effeithiodd ar lewyrch y Gymraeg yn ei hardaloedd traddodiadol mewn blynyddoedd diweddar fu symudoledd poblogaeth. Parodd y broses ddeuol o allfudiad siaradwyr Cymraeg a mewnfudiad siaradwyr uniaith Saesneg ddirywiad sylweddol iawn yn niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg ar draws ei chadarnleoedd. Profwyd hynny hefyd yn Sir Gaerfyrddin, a welodd gynnydd arwyddocaol yng nghanrannau'r rheini a anwyd y tu allan i Gymru oddi ar y 1970au.

Mae'r adroddiad yn cofnodi mewnfudo sylweddol i ardaloedd gwledig a threfol y sir fel ei gilydd ac yn nodi hefyd mai dim ond 13.2 y cant o fewnfudwyr ar draws y sir sy'n honni eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Yn drydydd, adnabyddir, yn 'Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin' diffyg trosglwyddiad Cymraeg yn y cartref fel ffactor niweidiol i'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, fel yng ngweddill Cymru.

Ar gyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin, gallai 76.7 y cant o blant 3-4 oed a oedd yn byw ar aelwydydd Cymraeg eu hiaith siarad Cymraeg - sef cynnydd bychan oddi ar 2001 pan mai 72.9 y cant o blant 3-4 oed oedd yn byw ar aelwyd Gymraeg a allai siarad Cymraeg. Golyga hynny bod bron chwarter y rhieni ar aelwydydd Cymraeg yn dewis magu eu plant yn Saesneg. Pe edrychid yn fanylach ar allu ieithyddol y plant hyn yn ôl strwythur y cartref, gwelid bod y plant hynny a fegir gan ddau oedolyn Cymraeg yn llawer mwy tebygol o fedru siarad Cymraeg (85.3 y cant) na'r rheini a fegir gan riant sengl Cymraeg (58.8 y cant).

Mae Dr Dylan Phillips yn adnabod ambell i dueddiad calonogol fodd bynnag.

Dengys data 2011 yn glir fod canran uwch o blant 3-4 oed Sir Gaerfyrddin yn siarad Cymraeg nag oedd yn 2001 – yr unig grŵp oed lle y digwyddodd hynny. Yn wir, dyma'r

uchaf i ganran siaradwyr Cymraeg 3-4 oed y sir fod oddi ar 1961 (pan ddychwelwyd 51.9 y cant o'r grŵp oed hwn fel siaradwyr Cymraeg).

Nododd nad oedd gormod o golli tir o fewn y grwpiau oed dilynol chwaith:

Mae'r data ar gyfer y cyfnod ysgol hefyd yn obeithiol, gan fod 6 o bob 10 plentyn 5-9 a 10-14 oed wedi'u dychwelyd fel siaradwyr Cymraeg – canrannau tebyg iawn i rai 2001, sy'n awgrymu fod y system addysg yn llwyddo cynnal y canrannau siaradwyr Cymraeg er gwaethaf y dirywiad amlwg a fu ym mhob grŵp oed arall ar ôl cyfnod ysgol. Fodd bynnag, yn wyneb y ffaith fod canrannau Sir Gaerfyrddin o siaradwyr Cymraeg 3-15 oed yn dal i ostwng yn raddol, ac o gofio mai nod polisi addysg y sir yw sicrhau fod pob plentyn yn gyfan gwbl ddwyieithog erbyn iddyn nhw adael yr ysgol, nid oes dadl nad oes llawer o waith eto i'w wneud.

Mae'r newyddion da o safbwynt cynnal niferoedd siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oed yn dod i ben fodd bynnag ar ôl oed ysgol:

Siomedig hefyd yw'r ffaith mai yn y grŵp oed 25-34 (37.5 y cant) y ceid y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, sef y grŵp oed sydd fwyaf tebyg o fagu plant. Roedd y ganran hon gryn dipyn yn is yn 2011 na 2001 (42.4 y cant), ac yn sylweddol is na'r ganran am siaradwyr Cymraeg 16- 24 oed yn 2001 (47.6 y cant), felly os taw'r un bobl oedd llawer o'r rhain ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yna roedd cyfran sylweddol iawn ohonynt wedi dewis troi eu cefnau ar yr iaith am ryw reswm. Yn yr un modd, gostwng a wnaeth canran y siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oed eraill hefyd rhwng 2001 a 2011.

Mae diffyg siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oed hyn yn broblem ddifrifol i Sir Gaerfyrddin ac yn arwydd o batrymau ieithyddol sy'n dirywio. Yn yr un modd, mae'r bwlch llafar-llythrennedd yn destun pryder:

Yn Sir Gaerfyrddin gyfan, 11.5 y cant o'r rheini sydd â rhyw wybodaeth o'r Gymraeg a fedr ei siarad yn unig o gymharu â chyfartaledd o 10.2 y cant ar draws Cymru. Unwaith eto, mae hyn yn cymharu'n anffafriol gyda'r ardaloedd eraill yn yr hen Fro Gymraeg, lle mae cyfartaledd uwch o siaradwyr yr iaith hefyd yn gallu ei hysgrifennu a'i darllen...

Fel y mae nifer o gymdeithasegwyr iaith wedi dadlau yn dilyn trafodaeth bwysig cyntaf E. G. Bowen a Harold Carter ar y testun ym 1975, mae'r gallu i ddarllen ac ysgrifennu mewn iaith yn arwydd o'i sefydlogrwydd. Yn yr un modd, mae diffyg llythrennedd mewn iaith yn arwydd o ansefydlogrwydd ac yn awgrymu nad ydyw'r siaradwyr yn gosod gwerth uchel ar fod yn seiliedig yn yr iaith honno. Ymhellach na hynny, mae diffyg llythrennedd yn amlach na pheidio yn arwyddo cam hollbwysig yn nirywiad

iaith, gan taw'r sgiliau cyntaf i'w hepgor mewn proses o shifft iaith fydd y sgiliau llythrennedd. Mae'r rheini'n gofyn am fwy o fuddsoddiad o ran amser ac egni gan y siaradwr na'r gallu i siarad yn unig, neu hyd yn oed ddeall iaith lafar, sydd yn sgiliau haws i'w caffael a'u cynnal ac i raddau yn sgiliau y bydd trigolion mewn cymdeithas ddwyieithog yn eu hennill mewn modd goddefol. Oherwydd hynny, defnyddiwyd y bwlch llafar-llythrennedd gan Bowen a Carter i adnabod cymunedau 'ffiniol' sydd yn mynd trwy broses o shifft ieithyddol.

Mae'r canfyddiadau y mae 'Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin' yn cynnig yn gymorth i ni fedru deall yn well y tueddiadau yr ydym yn eu teimlo yn feunyddiol o fyw a gweithio yn Sir Gaerfyrddin. Efen arall cyfarwydd sy'n cael ei hamlygu yn yr ystadegau yw diffyg hyder o fewn grwpiau o Gymry Cymraeg sy'n peri iddynt danbrizio eu sgiliau ieithyddol. Yn ôl yr adroddiad, ceir 20,000 o drigolion sy'n honni fod ganddynt rhyw sgiliau Cymraeg ond na allant siarad yr iaith. O'r rhain ceir 14,297 o drigolion sy'n hawlio eu bod yn medru *deall* Cymraeg ond ddim ei siarad. Mae'r ffigurau hyn yn ein cyfeirio at rai trigolion sydd wedi cael Cymraeg yn y cartref ond ddim yn yr ysgol, neu wedi cael Cymraeg yn eu haddysg ond ddim ar yr aelwyd, a hynny'n eu peri iddynt golli hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol, ar lafar, ac yna tanbrizio eu sgiliau.

Mae'r dadansoddiad manwl fesul ward a chymuned yn arf amhrisiadwy wrth i ni adnabod yr ardaloedd daearyddol ble y mae'r sefyllfa ar ei fwyaf difrifol. 'Ond y dref a welodd y gostyngiad mwyaf yng nghanrannau ei siaradwyr Cymraeg yn ddi-os rhwng 2001 a 2011 oedd Rhydaman'. Yr anhawster yw bod modd dehongli pob ardal yn y sir yn ardal sydd angen sylw, naill ai am ei fod yn dangos tueddiadau newydd o wanychu ieithyddol, neu dueddiadau difrifol, hanesyddol o wanychu ieithyddol:

Mae'r trefi yn draddodiadol wedi cynnwys canrannau uwch o siaradwyr uniaith Saesneg oherwydd dylanwad masnach a diwydiannaeth, ac mae'r ardaloedd glan-môr, lle bu twristiaeth am genedlaethau yn ffactor o Seisnigo, yn parhau yn 2011 i fod â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig Treflan Talacharn (22.4 y cant). Mae'n siŵr bod harddwch naturiol arfordir y sir a'i boblogrwydd wrth ddenu ymwelwyr wedi bod yn ffactor yn Seisnigo pellach 11 nifer o'r wardiau hyn rhwng 2001 a 2011.

...Colli tir, felly, oedd hanes pob un ward etholiadol yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2001 a 2011 – ni welwyd cynnydd yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg yn unman.

Er gwaetha'r tueddiadau negyddol y mae'r adroddiad yn eu hamlygu, parhawn i deimlo'n obeithiol am ddyfodol y Gymraeg yn y sir. Mae gennym sail gadarn i weithio arni o safbwynt niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau ac yn ei system addysg ac mae ein trigolion, ein grwpiau cymunedol a'n sefydliadau yn fwrlwm o bobl weithgar a phenderfynol. Ar y cyfan, mae gan ein trigolion dealltwriaeth dda o'r angen i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ac maent yn gefnogol i'n hymdrechion i wneud hynny. Mae'r sir wedi bod ar flaen y gad mewn materion cynllunio ieithyddol, ac rydym yn awyddus i barhau felly yn ystod y cyfnod nesaf, allweddol hwn.

Tra bod 'Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin' yn rhoi i ni ddealltwriaeth fanylach o dueddiadau ieithyddol y sir, rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, na fydd modd i ni ddibyynu ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyfer mesur effaith y Strategaeth hybu hon. Ni fydd yna ganlyniadau ar gael hyd 2021, ac nid yw hynny'n cyd-fynd gyda'n hamserlen adrodd na chynllunio. Ar ben hynny dyhead y strategaeth hon yw gwneud enillion ieithyddol yn y nifer sy'n defnyddio'r iaith yn ogystal â'i medru. Fe fydd yn rhaid i ni edrych ar fesuryddion pellach felly ar gyfer cynllunio a gweithredu'r Strategaeth. Gallwn droi at arolwg 'Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2013-15' fel cymorth pellach i ganolbwyntio'n hymdrechion i wella statws a hyfywedd y Gymraeg yn y sir, gan ddefnyddio'r wybodaeth am y defnydd a wneir o'r Gymraeg, pa mor rhugl y mae pobl yn siarad a pha mor aml, ar y lefel sirol. Ond, mae 'Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin' yn bendant yn gosod darlun cyflawn o'r sefyllfa sydd ohoni, sy'n ein galluogi i ganolbwyntio ymdrechion i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg yn y sir yn realistig gyda gwybodaeth am lif poblogaeth ac economaidd yn ogystal yn gefndir i'n hymdrechion.



## 5. Y Gwaith a wnaed eisoes

Mae gan y Cyngor Gynllun iaith ers 1993. Yn Sir Gâr y sefydlwyd y Fenter Iaith Gyntaf yn 1991, ac mae nifer o gyrff a mudiadau gweithgar, fel Mudiad Ysgolion Meithrin, yr Urdd a llu o gyrff bach, gwirfoddol diwylliannol yn ymwneud â datblygu iaith yn Sir Gâr ers nifer o flynyddoedd. Ond, roedd canlyniadau gofidus Cyfrifiad 2011 yn gatalydd ar gyfer cyfnod newydd o gynllunio ieithyddol yn y sir ac yn wawr ar ymdrech fwriadus newydd i wrthsefyll y trai ieithyddol. Ymatebodd y Cyngor a'i phartneriaid i ganlyniadau'r Cyfrifiad gyda'r camau bwriadus canlynol:

- Sefydlwyd Gweithgor Tasg a Gorffen i ymchwilio i'r ffactorau a arweiniodd at y dirywiad ac i lunio argymhellion er mwyn ymdrin â'r sefyllfa
- Comisiynwyd ymchwil a arweiniodd at gyhoeddi adroddiad, 'Cyfrifiad 2011: Y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin'
- Cynhaliwyd cyfres o gyflwyniadau i ymchwilio'r sefyllfa
- Lluniwyd Cynllun gweithredu o'r Gweithgor, 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'
- Sefydlwyd Fforwm Strategol Sirol o bartneriaid allweddol sy'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio ieithyddol o fewn y sir
- Sefydlwyd cynlluniau bwriadus gan y Mentrau Iaith mewn ymateb i'r data newydd
- Sefydlodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yr *Atom* yn nhref Caerfyrddin
- Sefydlwyd *Y Lle* yn Ganolfan Gymraeg yn Llanelli
- Sefydlwyd Fforwm Strategol y Gymraeg mewn addysg

Darparodd adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' sylfaen gadarn a ffocws pwrrpasol i waith y Cyngor drwy gyfrwng Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Gymraeg a'r Panel Ymgynghorol. Rhoddwyd sylw cyson i gyfres o 73 o argymhellion yng Nghynllun Gweithredu'r adroddiad yn ystod y ddwy flynedd yn dilyn ei lunio, o fewn y meysydd Addysg, Marchnata Addysg Gymraeg, Cynllunio a Thai, Gweithleoedd Dwyieithog, Iaith ac Economi, Sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg, Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sir, Trosglwyddiad Iaith a Marchnata'r Iaith. Mae mwyafrif helaeth yr argymhellion hynny yn cyfeirio at gamau penodol bydd y Cyngor yn eu cymryd ond mae hefyd elfen gref o gydweithio gyda phartneriaid eraill yn Sir Gâr er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa ar y cyd.


Ers derbyn Safonau'r Iaith Gymraeg ar ddiwedd Mawrth 2016, mae gwaith wedi bod ar droed i gyfuno argymhellion 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' gyda Chynllun Gweithredu newydd y Safonau a chyda Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Sir. Fe fydd rhai o argymhellion y

gweithgor hefyd yn medru cael eu gweithredu drwy'r Strategaeth hybu hwn ac erys ychydig o waith i'w wneud i resymoli'r cynlluniau gweithredu oll yn wyneb y Safonau iaith newydd.

DRAFT

## 6. Dulliau gweithredu'r amcanion: Y Mekanwaith

Gyda'r gwaith a wnaed eisoes ers cyfrifiad 2001 ac ynghynt yn y cefndir, dyma'r mecanwaith sydd mewn lle yn Sir Gâr i arwain ac i weithredu'r Strategaeth Hybu.



## 7. Gweithredu'r Amcanion: Camau Gweithredu

Fel yr eglurwyd eisoes, nid yw'r Strategaeth hybu yn fan cychwyn i'n gwaith yn Sir Gâr. Dyma'r gweithgarwch sydd wedi eu hadnabod fel camau gweithredu ar gyfer hybu'r Gymraeg yn y sir. Dyma dabl sy'n crynhoi'r gwaith a fydd yn cael ei weithredu gan gyrff y Fforwm Sirol a'r modd y mae'r gwaith yn ffitio i mewn i'r Amcanion a adnabuwyd. Mae'r braslun hwn yn ymdrech i roi ar bapur ystod eang o ddarpariaeth gan nifer o gyrff prysur. Mae nifer o'r gyrff wedi eu sefydlu ers blynyddoedd a'u prif nod yw gweithredu i hyrwyddo'r Gymraeg. Nid yw'n bosib nodi holl weithgarwch y gyrff hyn ar ffurf tabl. Yn yr achosion hynny, ceir cyfeiriad at ddogfen arall sy'n nodi cynlluniau'r corff hwnnw am y blynyddoedd i ddod. Ceir mwy o fanylder fodd bynnag o fewn y tabl am weithgarwch y gyrff hynny sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith ond bod eu gwaith craidd yn ymwneud â maes penodol arall.

### i. Caffael Sgiliau sylfaenol a sgiliau pellach

Maes Gwaith	Corff	Gweithgaredd neu wybodaeth bellach
Cylchoedd Meithrin a chylchoedd Ti a Fi	Mudiad Meithrin	Cefnogi darpariaethau gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg, gweler dogfen strategol 'Dewiniaith' am amlinelliad o'r gefnogaeth  Ceir cyfleoedd hyfforddiant a DPP i staff a gwirfoddolwyr trwy 'AcadeMi': Cartref hyfforddiant a DPP Mudiad Meithrin
Cylchoedd Meithrin chylchoedd Ti a Fi	Pwyllgorau rheoli gwirfoddol cylchoedd lleol	Darparu gofal ac addysg i blant 0 – 3 oed a chynnal gweithgareddau cymunedol i godi arian ac i atgyfnerthu gweithgarwch y Cylch
Gweithgareddau 'Cymraeg i Blant' ym Mhorth Tywyn, Trimsaran, Cydweli a Penbre, tref Llanelli a Felinfoel, Rhydaman, Garnant, Brynaman a'r Tymbl.	Mudiad Meithrin	Sicrhau gweithgarwch gydlynus ym maes y Blynyddoedd Cynnar gan sicrhau taith iaith y plentyn o'r crud trwy'r cylch Ti a Fi ymlaen i'r cylch meithrin ac ymlaen i addysg Gymraeg gyda gweithgareddau cefnogol ychwanegol .
Hyfforddi a chymhwysio gweithlu'r	Mudiad Meithrin	Canolfan 'Cam wrth Gam' yn Rhydaman. Lleolir yr ymarferwyr sy'n gweithio at gymhwyster lefel 3 mewn

blynyddoedd cynnar trwy gynllun 'Cam wrth Gam'		lleoliadau blynyddoedd cynnar ar draws y Sir.  Cynigir y cynllun i fyfyrwyr blwyddyn 10-13 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin / Ysgol Gyfun Maes y Gwendraeth / Ysgol Gyfun y Strade.
Meithrinfeydd preifat	Y Gamfa Wen (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)	Darparu gofal cyfrwng Cymraeg i blant 0 – 3 oed gan annog dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg
	Nifer o feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	Cyflwyno sgiliau Cymraeg i blant
Addysg Gymraeg – pob cyfnod addysgol	Cyngor Sir Gâr	Darparu addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'r cyfnod sylfaen hyd at gyfnod allweddol 4,  Cynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg  Fforwm sirol y Gymraeg mewn addysg
	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Hyfforddi athrawon cyfnod sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg
Trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd	Cyngor Sir Gâr	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg
Cyrsiau addysg bellach ac Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg	Coleg Sir Gâr	Cryfhau a chynnal darpariaeth addysg bellach cyfrwng Cymraeg yn y meysydd Amaeth, Chwaraeon, Gofal plant, Busnes a Gwaith Saer.  Cryfhau a chynnal y ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn y maes Amaeth  Datblygu darpariaeth bellach ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg newydd yn y meysydd Gwasanaethau Cyhoeddus, Celf a Dylunio, Mynediad i Nyrsio, Iechyd a Gofal a Hamdden a

		Thwristiaeth.
	Prifysgol y Drindod Dewi Sant	Darparu rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o fewn portffolio academaidd y sefydliad.
	Coleg Sir Gâr a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant	Cydweithio fel rhan o'r Brifysgol Sector Deuol i sicrhau llwybrau dilyniant cyfrwng Cymraeg o addysg bellach i addysg uwch o fewn clwstwr penodol o ddisgyblaethau.
	Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Annog mwy o fyfyrwyr i gwblhau rhannau o'u cwrs yn Gymraeg.  Ariannu dwy uned cyfrwng Cymraeg ar y cwrs Busnes Lefel 3 yn ystod 2016-17, dwy ddarlithyddiaeth llawn amser addysg uwch ym maes Amaeth a hefyd un ddarlithyddiaeth rhan amser ym maes Celf o 2017-2018).
Gwersi Cymraeg i Oedolion yn y gymuned	Cyngor Sir Gâr	Marchnata cyrsiau, darparu cyrsiau, darparu dilyniant, cyfleoedd anffurfiol
Cymraeg yn y gweithle	Cyngor Sir Gâr	Strategaeth sgiliau iaith y Cyngor Rhaglen dysgu a datblygu'r Cyngor (Croeso i'r Gymraeg, mentoriaid, cyrsiau amrywiol), Polisi defnydd mewnol
	Coleg Sir Gâr	Rhaglen dysgu Cymraeg mewnol i staff
	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Darparu modylau achrededig ym maes dysgu'r Gymraeg a gloywi iaith ar gyfer ei holl staff a myfyrwyr.
	CAVS	
	Heddlu Dyfed Powys	
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Strategaeth Sgiliau iaith y Bwrdd Iechyd Pecyn e-ddysgu Cefnogi staff i fynychu cyrsiau ffurfiol
Argymhellion 'Y Gymraeg yn sir Gâr'	Cyngor Sir Gâr	

(gweler atodiad)		
------------------	--	--

**ii. Cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly ddefnydd y Gymraeg :**

Yn gymunedol, yn y gweithle, o amgylch yr ysgol, mewn bywyd hamdden, mewn busnesau ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus

<b>Maes Gwaith</b>	<b>Corff (a phrosiect)</b>	<b>Gweithgaredd / Gwybodaeth bellach</b>
Gweithgareddau i blant a phobl ifanc gyda'r Ysgol (neu goleg)	Yr Urdd	Cynllun Corfforaethol Urdd Gobaith Cymru 2016-19
	Y Mentrau	Cynllun Corfforaethol Gorllewin Sir Gâr 2016-19 Cynllun Corfforaethol Menter Bro Dinefwr 2016-19 Cynllun Corfforaethol Menter Cwm Gwendraeth Elli 2016-19
	Adran Addysg Cyngor Sir Gâr	Siarter Iaith Sir Gâr
	Coleg Sir Gâr	
Gweithgareddau i Blant a Phobl ifanc y tu allan i'r ysgol	Yr Urdd	Gweler Cynllun Corfforaethol
	Y Mentrau	Gweler Cynlluniau Corfforaethol
	Yr Atom	Lleoliad Clwb Ieuenctid Aelwyd Myrddin; Dawnsio Stryd MGSG, Cylch Meithrin Myrddin
	Y Lle	
Gweithgareddau i blant a Phobl ifanc o fewn cymunedau gwledig	Ffermwyr Ifanc	Gweler rhaglen flynyddol



<b>Maes Gwaith</b>	<b>Corff (a phrosiect)</b>	<b>Gweithgaredd / Gwybodaeth bellach</b>
	Y Mentrau	Gweler Cynlluniau Gweithredu
	Yr Urdd	Gweler Cynllun Gweithredu
Gweithgareddau hamdden	Awdurdod Lleol	
	Clybiau chwaraeon	
	Yr Urdd	Gweler Cynllun Gweithredu
	Clybiau Gwawr a chlybiau Merched y Wawr	
	Y Mentrau	Gweler Cynllun gweithredu
	Ffermwyr ifanc	Gweler rhaglen flynyddol
	Yr Atom	Lleoliad i weithgareddau hamdden megis ioga
Gweithgareddau cymunedol	Capeli	
	Corau	
	Y Lle	
	Yr Atom	
	Yr Urdd	
	Papur bro	
	Clybiau gwawr	
	Y Mentrau	
	Clybiau Cinio	
	Merched y Wawr	
Yn y gweithle	Cyngor Sir Caerfyrddin	Polisi defnydd mewnol
	Yr Atom	Sefydlu cysylltiadau gyda busnesau tref Caerfyrddin

Maes Gwaith	Corff (a phrosiect)	Gweithgaredd / Gwybodaeth bellach
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Strategaeth Sgiliau iaith y Bwrdd Iechyd Pecyn e-ddysgu Cefnogi staff i fynychu cyrsiau ffurfiol
	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Sefydlu Uned Gwasanaethau Cymraeg ar Gampws Caerfyrddin i ddarparu ystod o wasanaethau priodol ar gyfer ei siaradwyr Cymraeg ynghyd â'r rheini sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg.
	Busnesau	
	Cyrff cyhoeddus cenedlaethol	
	Theatr Genedlaethol	Wedi ei leoli yng Nghaerfyrddin, yn darparu swyddi cyfrwng Cymraeg ac yn cydweithio gyda'r gymuned yn ehangach
	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Canolfan <i>Yr Egin</i> , yn gartref i S4C ac i fusnesau eraill yn y diwydiannau creadigol
	Coleg Sir Gâr	
Cyfleoedd Gwirfoddoli	Yr Urdd	
	Papur bro	
	Capeli	
	Y Mentrau	
	Coleg Sir Gâr	
	Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin	
Cydlynu / Hybu gweithgaredd Cymraeg mewn ardaloedd penodol	Fforwm Strategol Sirol	Cynllunio a chydlynu gwaith datblygu'r Gymraeg mewn 6 ardal blaenoriaeth

Maes Gwaith	Corff (a phrosiect)	Gweithgaredd / Gwybodaeth bellach
	Yr Atom	Marchnata, hybu a hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg ar hyd a lled tref <b>Caerfyrddin</b> a'r cyffiniau
Normaleiddio'r Gymraeg ar draws gweithgarwch sefydliadau addysg bellach	Coleg Sir Gâr	Nosweithiau agored
Argymhellion 'Y Gymraeg yn sir Gâr'	Cyngor Sir Gâr	
Cymathu dysgwyr i weithgareddau cymunedol	Mentrau	
	Cymraeg i Oedolion	

iii. **Effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth:**

gwneud ein cymunedau'n ddeniadol o safbwynt economaidd, addysgol, a chymdeithasol

Maes Gwaith	Corff	Gweithgaredd / Gwybodaeth bellach
Datblygiad Dinas Rhanbarth Abertawe	Cyngor Sir Caerfyrddin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Coleg Sir Gâr, Busnesau preifat	Creu cyfleoedd economaidd a hamdden apelgar
Pecynnau croeso mewn datblygiadau tai	Y Cyngor Sir a'r Mentrau	Darparu gwybodaeth i fewnfudwyr i godi eu hymwybyddiaeth o natur ddwyieithog y sir, o'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, o addysg Gymraeg a'r cyfleoedd i gymdeithasu yn Gymraeg
Darparu swyddi cyfrwng Cymraeg	Theatr Genedlaethol	Wedi ei leoli yng Nghaerfyrddin, yn ac yn cydweithio gyda'r gymuned yn ehangach
	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Canolfan <i>Yr Egin</i> , yn gartref i S4C ac i fusnesau eraill yn y diwydiannau creadigol
		Y Llwyfan: Denu mudiadau, cyrff a

Maes Gwaith	Corff	Gweithgaredd / Gwybodaeth bellach
		swyddi cyfrwng Cymraeg megis y Theatr Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Profiad gwaith cyfrwng Cymraeg	Menter GSG  Coleg Sir Gâr	Prosiect Profi, gweler Cynllun Corfforaethol
Polisi Tai fforddiadwy	Cyngor Sir Gâr	Aseiad angen lleol Cyfathrebu'r gwaith gyda siaradwyr Cymraeg
Prosiect Ardal Llanfihangel yr Arth	Fforwm Sirol	Cydweithio i ffocysu ymdrechion i gymathu mewnfudwyr i weithgareddau cymunedol Cymraeg

**iv.** Targeddu **ardaloedd daearyddol** penodol o fewn y sir

Gweithgaredd	Corff (a phrosiect)
Ardal Tref Rhydaman	Partneriaid y Fforwm Sirol
Ardal Llanymddyfri/Llandeilo	Partneriaid y Fforwm Sirol
Ardal Cydweli a Mynydd y Garreg	Partneriaid y Fforwm Sirol
Ardal Llanelli a'r cyffiniau	Partneriaid y Fforwm Sirol
Canolfan Gymraeg yn Llanelli	Y Lle
Porth Tywyn, Trimsaran, Cydweli a Phenbre, tref Llanelli a Felinfoel, Rhydaman, Garnant, Brynaman a'r Tymbl.	Meithrin - Cymraeg i Blant
Ardal Tref Caerfyrddin	Partneriaid y Fforwm Sirol  Yr Atom
Ardal Llanfihangel-ar-Arth a Phencader	Partneriaid y Fforwm Sirol

**v.** **Marchnata a hyrwyddo'r iaith:**

Codi statws y Gymraeg gan gynnwys manteision dwyieithrwydd a manteision addysg ddwyieithog

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Corff neu Brosiect</b>	<b>Gweithgaredd / Gwybodaeth bellach</b>
Ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol (gyda ffocws o fewn y sir)	Coleg Sir Gâr	Dathlu Diwrnod Shwmae Sumae, Santes Dwynwen, Gŵyl Ddewi
	Ysgolion	Dathlu gwyliau Cymreig drwy'r flwyddyn gan gynnwys Dathlu Gŵyl Dewi mewn partneriaeth gyda Chyngor Tref Caerfyrddin er enghraifft
	Y Mentrau	Dathlu gwyliau Cymreig yn ystod y flwyddyn, er enghraifft Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen,
	Yr Atom	Marchnata digwyddiadau Caerfyrddin yn genedlaethol ar y cyfryngau cenedlaethol a'r cyfryngau cymdeithasol; Dathlu gwyniau Cymreig yn ystod y flwyddyn
	Cyngorau tref a chymuned	Dathliadau Gŵyl Dewi yng Nghaerfyrddin, Rhydaman, Castell newydd Emlyn er enghraifft
	Mudiad Meithrin	Sylw i weithgaredd cylchoedd lleol, digwyddiadau lleol a Gŵyl Dewin a Doti trwy gyfryngau cymdeithasol ac yn y Wasg. Rhannu pecyn gwybodaeth i ddarpar rieni a theuluoedd newydd ar fanteision gofal ac addysg Gymraeg.
Ymgyrchoedd marchnata Sirol	Cyngor Sir Gâr	Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Gweler Cynllun Cyfathrebu.
Ymgyrchoedd marchnata lleol/corff-benodol	Coleg Sir Gâr a'r Coleg Cymraeg	Cynhadledd Celf a Dylunio 2016-17 (y Celfyddydau i bobl ifanc: Rhowch gynnig arni!)
	Ysgolion	Marchnata'r iaith fel rhan o'r Siarter iaith o fewn yr ysgol
Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd	Cyngor Sir Gâr	Taflen 'Pam defnyddio'r Gymraeg' E-fodiwl ymwybyddiaeth iaith
	Urdd	Sesiynau ymwybyddiaeth iaith
	Y Mentrau	Gweler Cynlluniau corfforaethol
	Coleg Sir Gâr	sesiynau ymwybyddiaeth iaith gyda'r

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Corff neu Brosiect</b>	<b>Gweithgaredd / Gwybodaeth bellach</b>
		myfyrwyr
Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg	Coleg Sir Gâr	Mewn sesiynau ymwybyddiaeth iaith, nosweithiau agored gyda'r myfyrwyr a sesiynau cynefino cyfrwng Cymraeg o fis Medi 2016.
	Y Mentrau	Gweler Cynlluniau Corfforaethol
	Cyngor Sir Gâr	cydweithio fesul ysgol i gyfathrebu gyda rhieni lle bo angen
Sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn y gweithle	Cyngor Sir Gâr	E-fodiwl Ymwybyddiaeth iaith Hyfforddiant Arweinwyr iaith
	Y Mentrau	Gyda busnesau gw. Cynlluniau corfforaethol
	Yr Atom	Gyda busnesau yng Nghaerfyrddin
Sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn y gymuned	Y Mentrau	Gweler cynlluniau corfforaethol
Sesiynau ymwybyddiaeth iaith i bobl ifanc	Prosiect PCAI Siarter iaith Cymraeg Campus - Siarter Ail iaith ERW Athrawon Bro	
	Y Mentrau	
	Yr Urdd	
Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried, lle bo modd, ffiniau Seneddol presennol a ffiniau llywodraeth leol, ac rydym wedi ceisio osgoi neu leihau torri cysylltiadau lleol. Ar brydiau, rydym wedi rhoi sylw i ystyriaethau daeryddol arbennig. Cynigion cychwynnol yw'r rhain, fodd bynnag. Byddwn yn edrych yn ofalus ar bob cynrychiolaeth a wneir i ni i weld a ellir diwygio a gwella'r cynigion cychwynnol. Fodd bynnag, bydd rhaid i ni gydbwysu'r materion a godir mewn cynrychiolaethau yn erbyn yr holl ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu hystyried, a'r cyfyngiadau a bennwyd yn y ddeddfwriaeth.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Gadeirydd blaenorol, Meistr Ustus Williams, a oruchwyliodd y gwaith paratoadol ar gyfer yr arolwg, y Comisiynwyr, yr Athro M<sup>c</sup>Nabb a Mr Loveluck, am eu cyfraniadau amhrisiadwy, yr Ysgrifennydd a'r Dirprwy Ysgrifennydd a swyddogion eraill y Comisiwn am eu cymorth yn ein gwaith. Hoffwn ddiolch hefyd i'n haseswyr statudol yn yr Arolwg Ordnans a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am eu cymorth a'u cyfraniadau.

Syr Clive Lewis  
Dirprwy Gadeirydd

# COMISIWN FFINIAU I GYMRU

## AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU

### ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL

CYNNWYS		Tudalen	Para
<b>Pennod 1</b>	<b>CYFLWYNIAD</b>	1	1.
<b>Pennod 2</b>	<b>MEINI PRAWF AR GYFER AROLYGU ETHOLAETHAU SENEDDOL</b>		
	Cymhwyso darpariaethau Deddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011	2	1.
	Y Cylch Arolygon	2	2.
	Lleihad yn nifer yr etholaethau	2	3.
	Amrediad etholwyr statudol	2	4.
	Ffactorau statudol eraill	2	7.
	Ystyriaethau daearyddol arbennig	3	8.
	Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol	3	9.
	Ffiniau etholaethau presennol	3	13.
	Cydadwaith yr ystyriaethau	3	14.
	Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried		
	Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol	4	17.
	Ffiniau llywodraeth leol newydd	4	18.
	Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg	4	19.
	Enwi a dynodi etholaethau	5	20.
	Enwi	5	21.
	Dynodi	5	25.
<b>Pennod 3</b>	<b>YR ETHOLAETHAU PRESENNOL</b>		
	Nifer yr Etholwyr	6	1.
	Maint Etholaethau	6	2.
	Patrwm yr Etholaeth	6	3.
	Ffigur 1 – Dosbarthiad Etholwyr Cymru	7	
<b>Pennod 4</b>	<b>CRYNODEB O'R CYNIGION</b>	8	
<b>Pennod 5</b>	<b>ETHOLAETHAU SENEDDOL</b>	9	1.

**CYNNWYS****Tudalen Para**

<b>Pennod 6</b>	<b>MANYLION Y CYNIGION</b>	10	
	1. Ynys Môn ac Arfon	13	
	2. Gogledd Clywd a Gwynedd	15	
	3. Colwyn and Conwy	19	
	4. Flint and Rhuddlan	21	
	5. Alyn and Deeside	23	
	6. Wrexham Maelor	25	
	7. De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn	27	
	8. Brecon, Radnor and Montgomery	31	
	9. Monmouthshire	33	
	10. Newport	35	
	11. Torfaen	37	
	12. Blaenau Gwent	39	
	13. Merthyr Tydfil and Rhymney	41	
	14. Caerphilly	43	
	15. Cynon Valley and Pontypridd	45	
	16. Rhondda and Llantrisant	47	
	17. Cardiff West	49	
	18. Cardiff North	51	
	19. Cardiff South and East	53	
	20. Vale of Glamorgan East	55	
	21. Bridgend and Vale of Glamorgan West	57	
	22. Ogmore and Port Talbot	59	
	23. Neath and Aberavon	61	
	24. Swansea East	63	
	25. Gower and Swansea West	65	
	26. Llanelli a Lliw	67	
	27. Caerfyrddin	69	
	28. South Pembrokeshire	71	
	29. Ceredigion a Gogledd Sir Benfro	73	
<b>Pennod 7</b>	<b>MANYLION CYHOEDDI</b>		
	Cyhoeddi'r Cynigion Cychwynnol	75	1.
	Mannau Archwilio	75	3.
	Y Gymraeg	75	4.
<b>Pennod 8</b>	<b>Y CYFNOD YMGYNGHORI CYCHWYNNOL</b>	76	1.
	Gwrandawiadau Cyhoeddus	76	5.
	Cyfnod Ymgynghori Eilaidd	77	15.
	Golygu a Pholisi Preifatrwydd	78	18.
<b>Pennod 9</b>	<b>GWYBODAETH YCHWANEGOL</b>		
	Hawlfraint y Goron	79	1.
	Ymholiadau	79	2.

		Tudalen
ATODIAD 1	Tabl Cynigion Cychwynnol	80
ATODIAD 2	Mynegai Etholaethau Presennol	81
ATODIAD 3	Mannau Adneuo	82
ATODIAD 4	Dyddiad, Lleoliad a Man Cyfarfod y Gwrandawriadau Cyhoeddus	84

Argraffwyd yr Argraffiad 1<sup>af</sup> ym mis Medi 2016

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn  
yn Gymraeg neu Saesneg.

## Pennod 1 Cyflwyniad

1. Ar 24 Mawrth 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn') ddechrau Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Ceir crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol ac ymagwedd gyffredinol y Comisiwn tuag at yr arolygon yn llyfryn y Comisiwn "*Canllaw i Arolwg 2018*" (2016), sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg gan y Comisiwn neu ar wefan y Comisiwn, sef [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk).
2. Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol a diduedd sy'n gyfrifol am adolygu ffiniau etholaethau Seneddol yng Nghymru. Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Dirprwy Gadeirydd, Meistr Ustus Lewis, a dau Gomisiynydd, Paul Loveluck OBE (Aelod), a'r Athro Robert M<sup>c</sup>Nabb (Aelod). Mae Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn Aelod ac yn Gadeirydd yn rhinwedd ei swydd ond nid yw'n cymryd unrhyw ran yng ngwaith y Comisiwn. Fe'i cefnogir gan Ysgrifennydd, Mr Steve Halsall, ac Ysgrifenyddiaeth. Mae'r Adroddiad hwn wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd.
3. Erbyn hyn, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ei gynigion cychwynnol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cynigion hynny'n ystyried datblygiadau ers yr arolwg cyffredinol diwethaf yn ofalus, yn enwedig y newid i'r ddeddfwriaeth a chymhwyso ystadegau etholiadol 2015. Fodd bynnag, caiff ei bwysleisio bod y cynigion yn rhai dros dro. Felly, dylid ystyried unrhyw gyfeiriad at gynigion, argymhellion, penderfyniadau a chasgliadau yn y ddogfen hon yn unol â hynny. Yn fwyaf arwyddocaol, rhoddir pwys mawr i'r cyfle sydd ar gael yn awr i bawb dan sylw gyflwyno cynrychiolaethau i'r Comisiwn, p'un a ydynt o blaid neu yn erbyn y cynigion.
4. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi cynigion cychwynnol ar gyfer Cymru gyfan mewn un ddogfen. Mae'r Comisiynau Ffiniau ar gyfer Lloegr a'r Alban yn defnyddio grwpiau o awdurdodau lleol er mwyn cynnal eu harolygon. Yn anffodus, oherwydd daearyddiaeth Cymru a gofynion llym y Rheolau y mae'n rhaid i'r Comisiwn gadw atynt, ni fu modd cynnal yr arolwg yng Nghymru yn y modd hwnnw. Yn hytrach, bu'n angenrheidiol cynnal yr arolwg hwn ar sail Cymru gyfan.
5. Ceir manylion am bryd a sut i gyflwyno cynrychiolaethau yn nes ymlaen yn y ddogfen hon (gweler Pennod 8).
6. Mae Arolwg 2018 yn arolwg newydd. Mae'n seiliedig ar newid o 40 o etholaethau yn cael eu lleihau i 29 sydd yn adlewyrchiad o'r data etholiadol ym mis Rhagfyr 2015. Roedd Arolwg 2013 y Comisiwn yn golygu newid o 40 i 30 o etholaethau ond yn defnyddio data etholiadol gwahanol. Ni ellid felly defnyddio'r cynigion a'r cynrychiolaethau a wnaed yn ystod Arolwg 2013 ar gyfer Arolwg 2018. Ni fydd cynrychiolaethau a allai fod wedi'u cyflwyno yn Arolwg 2013 yn cael eu hystyried a bydd angen i gynrychiolaethau newydd gael eu cyflwyno i'w hystyried yn yr arolwg hwn.



## Pennod 2 Meini prawf ar gyfer arolygu etholaethau Seneddol

### Cymhwysio darpariaethau Deddf System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011

1. Mae'r meini prawf a ddisgrifir yn y bennod hon yn berthnasol i'r arolwg o etholaethau Seneddol.

### Y cylch arolygon

2. Dywed un o ofynion y Ddeddf fod rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad cyfnodol ar arolwg cyffredinol o'r holl etholaethau yng Nghymru erbyn 1 Hydref 2018 ac erbyn 1 Hydref bob 5 mlynedd ar ôl y dyddiad hwnnw.

### Lleihad yn nifer yr etholaethau

3. Bydd cwota etholiadol y DU a'r lleihad yng nghyfanswm yr etholaethau yn y DU o 650 i 600 yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn lleihau o 40 i 29. Bydd hyn yn arwain at newid sylfaenol i'r patrwm etholaethau presennol ym mhob rhan o Gymru.

### Amrediad etholwyr statudol

4. Mae Deddf 2011 yn pennu nifer o Reolau yn Atodlen 2 sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol yn fanwl.<sup>1</sup> Rheol 2, sy'n amodi – ar wahân i bedwar eithriad penodol – bod rhaid i bob etholaeth gael cyfanswm o etholwyr (ar ddyddiad yr arolwg) nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n uwch na 105% o 'gwota etholiadol y DU'. Cwota etholiadol y DU ar gyfer Arolwg 2018, i'r cyfanrif agosaf, yw 74,769.<sup>2</sup>
5. Yn unol â hynny, rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â chyfanswm o etholwyr ar ddyddiad yr arolwg nad yw'n llai na 71,031 ac nad yw'n uwch na 78,507 (yr amrediad etholwyr statudol).
6. Yr unig etholaethau penodedig nad ydynt dan reolaeth gweithredu cwota etholiadol y DU yw'r ddwy etholaeth ar Ynys Wyth yn Lloegr, a'r ddwy etholaeth yn yr Alban, sef Orkney a Shetland a Na h-Eileanan â'n Iar.

### Ffactorau statudol eraill

7. Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth bennu map newydd o'r etholaethau ar gyfer Arolwg 2018, yn benodol:
  - Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys, yn benodol, maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;

<sup>1</sup> Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2011 i'w gweld yn llawn yn Atodiad C yn y *Canllaw i Arolwg 2018*, sydd ar gael are wefan y Comisiwn

<sup>2</sup> Yn ôl Rheol 2(3) yn Atodlen 2 i Ddeddf 2011, cwota etholiadol y DU yw 44,562,440 (cyfanswm yr etholwyr yn y DU ar ddyddiad yr arolwg) wedi'i rannu â 596.

## COMISIWN FFINIAU I GYMRU

- ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 7 Mai 2015 (gweler y *Canllaw i Arolwg 2018*: Pennod 2 paragraff 2);
- ffiniau etholaethau presennol; ac
- unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.<sup>3</sup>

### Ystyriaethau daearyddol arbennig

8. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd ystyriaethau daearyddol arbennig a all effeithio ar y gallu i ffurfio etholaeth gyda chyfanswm etholwyr o fewn yr amrediad etholwyr statudol yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol fel mynyddoedd, brynau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd, yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion yn ymwneud â diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ac agweddau posibl eraill ar ddaearyddiaeth anffisegol yn fwy tebygol o ddod i'r amlwg fel ystyriaethau wrth ystyried y ffactor 'cysylltiadau lleol' ar wahân.

### Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

9. Gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol prif gynghorau a'u ffiniau wardiau etholiadol, cymunedol a wardiau cymunedol mewnol.
10. Er i'r Comisiwn geisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo'n ymarferol, serch hynny, yn aml roedd rhaid croesi'r ffiniau hyn er mwyn ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.
11. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio wardiau etholiadol yn sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau.
12. Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn wedi ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Mae wardiau etholiadol yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac mae dealltwriaeth dda ohonynt ac, yn gyffredinol, maent yn arwydd o ardaloedd â chymuned fuddiant eang. Fodd bynnag, fe ystyriwyd yn briodol gwneud hynny mewn un achos.

### Ffiniau etholaethau presennol

13. Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn wedi ceisio ystyried etholaethau presennol, cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gellir ystyried bod unrhyw etholaeth bresennol wedi'i hamddiffyn rhag newid, hyd yn oed os yw nifer yr etholwyr o fewn yr amrediad statudol neu os gall diwygiad bychan ddod â hi o fewn yr amrediad statudol. Oherwydd lleihau nifer y seddi a'r gofynion mewn perthynas â nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth, gall fod yn angenrheidiol serch hynny gwneud newidiadau i etholaeth debyg er mwyn cyflawni etholaethau ymarferol a chydymffurfiol ledled Cymru.

### **Cydadwaith yr ystyriaethau**

14. Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol dan Reol 2. Ambell waith, mae lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 29 wedi ei gwneud yn arbennig o anodd i ni

---

<sup>3</sup> Mae ffactor pellach – 'yr anghyfleustra sydd ynghlwm wrth newidiadau tebyg' – wedi'i hepgor yn benodol ar gyfer Arolwg 2018, ond gellir ei ystyried ar gyfer arolygon dilynol.

gyfleu'r ffactorau yn Rheol 5. Felly, er enghraifft, gall fod angen cyfuno ardaloedd sydd wedi bod ar wahân yn hanesyddol. Yn yr un modd, gall fod angen i gysylltiadau hirsefydlog gael eu rhoi o'r neilltu a bu rhaid ffurfio rhai cysylltiadau llai amlwg o bryd i'w gilydd.

15. Nid yw Deddf 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn geisio cyflawni cyfanswm etholwyr mewn etholaethau sydd 'mor agos â phosibl' at gwota etholiadol y DU. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ei hystyried yn briodol gosod amcan polisi ar y cynllun statudol o geisio lleihau gwyro oddi wrth gwota etholiadol y DU. Byddai amcan o'r fath yn tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir yn Rheol 5 yn unol â'r polisi ym mharagraff 13 uchod. Felly, i ddangos hynny, gallai fod yn well gan y Comisiwn bennu etholaeth ag amrywiant o 4% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, er enghraifft, ond sy'n parchu cysylltiadau lleol, yn hytrach na dewis arall a fyddai'n creu etholaeth ag amrywiant o 1% yn unig, ond a fyddai'n rhannu cymunedau.
16. Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn am greu etholaethau:
  - o wardiau etholiadol sy'n gyfagos at ei gilydd;
  - o gymunedau cyfan; ac
  - nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu teithio trwy etholaeth wahanol.

### **Ffactorau na wnaeth y Comisiwn eu hystyried**

#### Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

17. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Mae'n pwysleisio'n gryf iawn nad yw patrymau pleidleisio presennol a ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau.

#### Ffiniau llywodraeth leol newydd

18. Y ffiniau llywodraeth leol y gall y Comisiwn eu hystyried – fel y nodwyd uchod – yw'r rheiny a oedd yn bodoli ar 7 Mai 2015. O ganlyniad, nid yw'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau newydd ar ôl y dyddiad hwnnw.

#### Newidiadau i nifer yr etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg

19. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail niferoedd yr etholwyr ar y cofrestrï etholiadol ar 'ddyddiad yr arolwg'. Ni all ystyried newidiadau i faint etholaethau ar ôl 'ddyddiad yr arolwg'. Hefyd, nid yw'n gallu ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru y gellir eu hawlio mewn ardal benodol.

## Enwi a dynodi etholaethau

20. Wrth wneud ei gynigion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

### Enwi

21. Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os yw'r etholaethau yn aros yn bur ddigyfnewid, y dylid cadw enw presennol yr etholaeth fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros newid.
22. Ar gyfer etholaeth newydd, fel arfer dylai'r enw adlewyrchu enw'r prif gyngor neu brif gynghorau sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn yr etholaeth. Fodd bynnag, os oes enw arall addas sy'n mynnu mwy o gefnogaeth leol yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn ystyried yr enw arall hwnnw.
23. Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwmpawd pan nad oes enw mwy addas. Yn gyffredinol, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad mewn enwau arfaethedig Cymraeg.
24. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru gael enw arall yn Gymraeg neu Saesneg. Mae'r Comisiwn felly wedi darparu ar gyfer enwau swyddogol eraill yn Gymraeg ar gyfer enwau'r etholaethau hynny yn Saesneg, ac fel arall. Fel hyn, byddai'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Lle mae enw etholaeth yn ddwyieithog, er enghraifft Blaenau Gwent, ni fyddai enw arall.

### Dynodi

25. Mae Deddf 2011 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai'n 'etholaeth sirol' neu'n 'etholaeth fwrdeistrefol'. Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach y dylid fel arfer eu dynodi'n etholaethau sirol. Mewn achosion eraill dylid eu dynodi'n etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth, a'i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer 'borough constituency' a CC ar gyfer 'county constituency'.
26. Yn gyffredinol, mae'r dynodiad yn pennu pwy fydd yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau Seneddol. Mae'r dynodiad hefyd yn pennu'r terfyn ar y swm y caniateir i ymgeisydd ei wario yn ystod etholiad Seneddol yn yr etholaeth. Mae'r terfyn ychydig yn is mewn etholaethau bwrdeistrefol, er mwyn adlewyrchu'r costau is o gynnal ymgyrch mewn ardal drefol, mwy cywasgedig fel arfer.

## Pennod 3 Yr etholaethau presennol

### Nifer yr Etholwyr

1. Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Mae nifer yr etholwyr yn yr etholaethau yn amrywio o 37,739 (Arfon CC) i 72,392 (Cardiff South and Penarth BC). Dan y ddeddfwriaeth, caiff nifer yr etholaethau yng Nghymru ei lleihau o 40 i 29, ac mae'r amrediad etholwyr statudol rhwng 71,031 a 78,507. O ganlyniad i hynny, un etholaeth bresennol yn unig, sef Cardiff South and Penarth BC, sydd o fewn yr amrediad statudol. Un o effeithiau lleihau nifer gyffredinol yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru, a gofynion yr amrediad etholwyr statudol, yw y gall fod angen newid yr etholaeth bresennol y mae nifer ei hetholwyr o fewn yr amrediad statudol, serch hynny, o ganlyniad i'r angen i greu etholaethau ymarferol mewn ardaloedd eraill. Bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i batrwm presennol yr etholaethau er mwyn bodloni'r amrediad statudol a nifer yr etholaethau.


### Maint Etholaethau

2. Mae maint (o ran arwynebedd) yr etholaethau presennol yn amrywio o 17km<sup>2</sup> (Cardiff Central BC) i 3,014km<sup>2</sup> (Brecon and Radnorshire CC). Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer etholaeth gan y ddeddfwriaeth newydd yw 13,000km<sup>2</sup>. Byddai etholaeth o'r maint hwnnw yn gorchuddio tua 61% o Gymru. Nid oes yr un o'r etholaethau arfaethedig yn dod yn agos at y maint mwyaf.

### Patrwm yr Etholaethau

3. O ystyried y nifer gymharol fach o etholwyr mewn rhannau gwledig o Gymru, mae'n anochel y bydd rhai etholaethau'n fawr iawn o ran eu harwynebedd dan y trefniadau newydd. (Gweler Ffigur 1 ar dudalen 7.) Yn ogystal, oherwydd niferoedd cyfyngedig yr etholwyr mewn rhai o gymoedd De Cymru, bydd rhaid i rai etholaethau gynnwys fwy nag un cwm. Yn yr un modd, efallai y bydd angen rhannu prif gynghorau mewn rhai ardaloedd trefol. Bydd angen cyfaddawdu er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n dilyn Rheolau'r ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig deall y bydd hyd yn oed mân newidiadau i un etholaeth yn cael effeithiau ôl-ddilynol ar ardaloedd cyfagos ac yn ehangach, o bosibl.

Ffigur 1: Dosbarthiad Etholwyr Cymru





## Pennod 4 Crynodeb o'r cynigion

1. Mae'r ddeddfwriaeth newydd wedi lleihau nifer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru o 40 i 29.
2. Ni fydd unrhyw etholaeth yn parhau heb ei newid dan y cynigion cychwynnol. Ar gyfer llawer o ardaloedd, mae'r newidiadau arfaethedig yn helaeth.
3. Cwota Etholiadol y DU yw 74,769 â goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (71,031 a 78,507 yn y drefn honno). Ar hyn o bryd, mae 39 etholaeth yn is na nifer leiaf yr etholwyr ac mae un ohonynt (Cardiff South and Penarth BC) yn disgyn o fewn yr amrediad statudol. Dan y cynigion, byddai pob etholaeth o fewn yr amrediad statudol, gyda naw etholaeth yn is na'r cwota etholiadol ac 20 ohonynt yn uwch na'r cwota etholiadol.
4. Byddai 16 etholaeth bresennol wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaethau newydd (Alyn and Deeside, Blaenau Gwent, Brecon and Radnorshire, Bridgend, Cardiff West, Ceredigion, Cynon Valley, Llanelli, Merthyr Tydfil and Rhymney, Neath, Ogmored, Rhondda, Swansea East, Torfaen, Wrexham ac Ynys Môn).
5. Mae saith o brif gynghorau yng Nghymru sy'n disgyn islaw nifer uchaf yr amrediad etholwyr statudol, ac felly gellid eu cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd. Blaenau Gwent, Ceredigion, Denbighshire, Isle of Anglesey, Merthyr Tydfil, Monmouthshire a Torfaen yw'r rhain. Dan y cynigion, byddai chwe phrif gyngor wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaethau newydd (Blaenau Gwent, Ceredigion, Isle of Anglesey, Merthyr Tydfil, Monmouthshire a Torfaen).
6. Byddai chwe etholaeth dros 1,000 km<sup>2</sup> (Brecon, Radnor and Montgomery, Caerfyrddin, Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, Gogledd Clwyd a Gwynedd, a South Pembrokeshire). Byddai pedair o'r etholaethau hyn rhwng 2,000 a 3,000 km<sup>2</sup> (Caerfyrddin, Ceredigion a Gogledd Sir Benfro, De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn, a Gogledd Clwyd a Gwynedd), ac un etholaeth dros 3,000 km<sup>2</sup> (Brecon, Radnor and Montgomery).
7. Byddai wyth o'r enwau presennol yr etholaethau yn cael eu cadw.
8. O'r 881 o wardiau etholiadol yng Nghymru, byddai 880 wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaethau newydd. Ystyriwyd ei bod yn briodol rhannu un ward etholiadol er mwyn cadw at Reolau 2 a 5 (byddai Ponciau yn cael ei rhannu rhwng ei wardiau cymunedol).

## Pennod 5 Etholaethau Seneddol

1. Manylir ar yr etholaethau newydd arfaethedig ym Mhennod 6 ac maent i'w gweld yn fapiau amlinellol yn y Bennod honno (Tudalennau 11 a 12). Mae mapiau manylach ar gael ar wefan y Comisiwn hefyd yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk) (sylwch ar y rhybudd hawlfraint, ym Mhennod 9 paragraff 1, yn ymwneud â'r mapiau) ac maent wedi'u hadneuo mewn man(nau) penodol ym mhob etholaeth bresennol (gweler Atodiad 3 am fanylion ar gyfer pob etholaeth bresennol). Dylid defnyddio'r mapiau ar y cyd â'r wybodaeth ystadegol sy'n ymwneud â'r wardiau etholiadol a ddisgrifiwyd yn y cynigion. Mae'r wybodaeth hefyd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn ar fformat Excel ac mae'n dangos nifer yr etholwyr yn y wardiau etholiadol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Comisiwn ei defnyddio ar gyfer yr arolwg hwn.
2. Byddai cynigion cychwynnol y Comisiwn, pe baent yn cael eu mabwysiadu, yn arwain at fap Seneddol o Gymru sy'n wahanol iawn i'r hyn yr ydym yn gyfarwydd ag ef. Mae'r Comisiwn wedi wynebu'r dasg o lunio cynigion ar gyfer y 29 etholaeth ofynnol yn lle'r 40 etholaeth bresennol. Wrth wneud hynny, fe'i cyfyngwyd ymhellach gan y gofyniad absoliwt bod rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth ddisgyn o fewn yr amrediad statudol. Oherwydd hynny, mae rhyddid y Comisiwn i roi ystyriaethau statudol eraill ar waith wedi'i gyfyngu, ar adegau. Yn yr un modd, wrth ystyried rhinweddau cynlluniau amgen, nid ystyriwyd atebion amlwg yn ymarferol, mewn rhai achosion, oherwydd na allent gael eu cynnwys o fewn y gofynion o ran maint yr etholaeth neu oherwydd eu heffaithiau ôl-ddilynol ar etholaethau eraill, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gydymffurfio â'r un gofynion hyn. Fodd bynnag, ym mhob cam o'i ystyriaethau, mae'r Comisiwn wedi ceisio dod o hyd i'r atebion mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol ledled Cymru, y gellir eu bodloni o fewn y Rheolau statudol.
3. Hoffai'r Comisiwn bwysleisio bod y cynigion hyn yn cynnwys safbwyntiau cychwynnol y Comisiwn a'i fod yn croesawu barn a chynigion eraill gan y cyhoedd.




## Pennod 6      Manylion y Cynigion

Disgrifir cynigion cychwynnol y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob etholaeth arfaethedig mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol:


- enw'r etholaeth a gynigir gan y Comisiwn, gan gynnwys yr enw arall swyddogol arfaethedig (os yw'n gymwys);
- cyfansoddiad yr etholaeth y mae'r Comisiwn yn ei hargymell, y wardiau etholiadol y byddai'n eu cynnwys a'i hamrywiant oddi wrth y cwota etholiadol;
- y prif ddadleuon yn esbonio'r etholaeth arfaethedig;
- esboniad o'r enw arfaethedig; a,
- map o'r etholaeth argymelledig.

Mewn rhai achosion, mae tudalen wag wedi'i rhoi i mewn yn fwriadol i ganiatáu gallu gweld disgrifiadau o bob cynnig a'r map o'r cynnig ochr yn ochr.

Mae'r ddwy dudalen ganlynol yn amlinellu darlun cyffredinol o'r trefniadau presennol a chynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae'r Allwedd Map a ddangosir isod yn esbonio'r lliwiau a'r llinellau a ddefnyddiwyd ym mhob map cynigion o Dudalen 14 ymlaen.



# Etholaethau Presennol






AROLWG 2018 ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL  
**Cynigion Cychwynnol**

1. Ynys Môn ac Arfon (Isle of Anglesey and Arfon) - 77,425
2. Gogledd Clwyd a Gwynedd (North Clwyd and Gwynedd) - 76,147
3. Colwyn and Conwy (Colwyn a Conwy) - 75,035
4. Flint and Rhuddlan (Flint a Rhuddlan) - 75,902
5. Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrdwy) - 76,678

0 50  
 Cilomedrau / Kilometres  
**Graddfa / Scale: 1:1,030,000**

**Caerdydd**



6. Wrexham Maelor (Wrescam Maelor) - 72,137
7. De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire) - 71,097
8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn) - 72,115
9. Monmouthshire (Sir Fynwy) - 74,532
10. Newport (Casnewydd) - 75,986
11. Torfaen - 72,367
12. Blaenau Gwent - 75,664
13. Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni) - 77,770
14. Caerphilly (Caerffili) - 76,323
15. Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd) - 78,005
16. Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant) - 74,965

17. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd) - 75,563
18. Cardiff North (Gogledd Caerdydd) - 78,014
19. Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd) - 77,059
20. Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg) - 76,984
21. Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg) - 73,004
22. Ogmore and Port Talbot (Ogwr a Phort Talbot) - 72,503
23. Neath and Aberavon (Castell-nedd ac Aberafon) - 77,397

24. Swansea East (Dwyrain Abertawe) - 76,514
25. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe) - 77,873
26. Llanelli and Lliw (Llanelli a Lliw) - 76,751
27. Caerfyrddin (Carmarthenshire) - 72,569
28. South Pembrokeshire (De Sir Benfro) - 74,070
29. Ceredigion a Gogledd Sir Benfro (Ceredigion and North Pembrokeshire) - 71,392

## 1. Ynys Môn ac Arfon (Isle of Anglesey and Arfon)

### 1.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. **Ynys Môn** CC presennol yn gyfan yn cynnwys wardiau etholiadol Sir Ynys Môn, sef Aethwy (4,906), Bro Aberffraw (2,882), Bro Rhosyr (3,626), Caergybi (6,146), Canolbarth Môn (4,874), Llifôn (3,963), Lligwy (4,621), Seiriol (4,407), Talybolion (4,430), Twrcelyn (5,229) ac Ynys Gybi (4,203); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Arfon** CC presennol a Sir Gwynedd, sef Arllechwedd (971), Bethel (1,020), Cadnant (1,438), Cwm-y-Glo (710), Deiniol (496), Deiniolen (1,263), Dewi (1,098), Garth (420), Gerlan (1,559), Glyder (1,139), Hendre (835), Hirael (881), Llanrug (1,289), Marchog (1,446), Menai (Bangor) (839), Menai (Caernarfon) (1,671), Ogwen (1,556), Peblig (Caernarfon) (1,344), Penisarwaun (1,293), Pentir (1,636), Seiont (2,079), Tregarth & Mynydd Llandygai (1,531) a Y Felinheli (1,624).

1.2 Byddai gan yr etholaeth hon 77,425 o etholwyr sydd 3.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Ynys Môn ac Arfon**. Yr enw arall a awgrymir yw **Isle of Anglesey and Arfon**.

1.3 Ni all Ynys Môn fodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â maint yr etholaeth ar ei phen ei hun. Felly, rhaid cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r tir mawr yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae gan Ddinas Bangor, sydd wedi'i chysylltu â'r Ynys gan ffordd a rheilffordd ar draws dwy bont, gysylltiad naturiol ag Ynys Môn. Yn ogystal â Dinas Bangor, bydd rhaid ychwanegu rhai adrannau etholiadol pellach yn yr ardaloedd cyfagos er mwyn dod â'r etholaeth o fewn yr amrediad gofynnol. Ystyriwyd sawl opsiwn, ond teimlwyd, oherwydd nifer yr etholwyr ychwanegol sydd eu hangen a'r gofyniad i'r Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol, y dylai'r etholaeth gynnwys y wardiau o amgylch Bangor ac yn cynnwys Tref Caernarfon a'r wardiau hynny yn uniongyrchol i'r dwyrain o Gaernarfon. Yn y modd hwn, mae'r etholaeth i'r de o Ynys Môn yn gyfan gwbl o fewn Sir Gwynedd.


1.4 Dewis arall fyddai cynnwys wardiau etholiadol i'r gogledd o Fangor, ond, gan ystyried yn benodol maint daearyddol 'Gogledd Clwyd a Gwynedd' (gweler tudalen 15) ac etholaeth 'Colwyn and Conwy' (gweler tudalen 19), ystyriwyd y byddai effeithiau niweidiol ar yr etholaethau cyfagos a fyddai'n llai dymunol.

1.5 Gan fod etholaeth bresennol Ynys Môn wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr etholaeth, defnyddiodd y Comisiwn yr enw hwnnw yn gyntaf yn yr enw etholaethol arfaethedig. Er mwyn i'r etholaeth ystyried yr ardal ychwanegol i'r de o Ynys Môn, mae angen enw ychwanegol. Ystyriwyd sawl opsiwn, ac oherwydd y gyfran o etholaeth bresennol Arfon a gwmpesir gan yr etholaeth newydd - tua 75% o'r etholaeth - ystyriwyd mai Arfon oedd yr enw mwyaf priodol.

1.6 Gellir gweld gweddill y wardiau etholiadol yn etholaeth bresennol **Arfon** presennol ar dudalen 15.



Ynys Môn ac Arfon (Isle of Anglesey and Arfon)



## 2. Gogledd Clwyd a Gwynedd (North Clwyd and Gwynedd)

### 2.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Aberconwy** CC presennol a Sir Conwy, sef Betws-y-Coed (932), Caerhun (1,609), Crwst (1,583), Eglwysbach (1,195), Gower (887), Trefriw (1,022), ac Uwch Conwy (1,230);
2. y wardiau etholiadol yn **Arfon** CC presennol a Sir Gwynedd, sef Bontnewydd.(824), Groeslon (1,246), Llanberis (1,445), Llanllyfni (892), Llanwnda (1,428), Penygroes (1,289), Talysarn (1,276) a Waunfawr (1,201);
3. y wardiau etholiadol yn **Clwyd West** CC presennol a Sir Conwy, sef Betws yn Rhos (1,626), Llangernyw (1,147), a Llansannan (1,470);
4. y wardiau etholiadol yn **Dwyfor Meirionydd** CC presennol a Sir Gwynedd, sef Aberdaron (712), Aberdovey (851), Abererch (971), Abermaw (1,468), Abersoch (510), Botwnnog (698), Bowydd & Rhiw (1,211), Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltud (1,080), Bryn-crug/Llanfihangel (732), Clynnog (698), Corris/Mawddwy (917), Criccieth (1,263), Diffwys a Maenofferen (744), Dolbenmaen (888), Gogledd Dolgellau (862), De Dolgellau (992), Dyffryn Ardudwy (1,128) Efail-newydd/Buan (988), Harlech (1,419), Llanaelhaearn (1,121), Llanbedr (783), Llanbedrog (733), Llanengan (802), Llangelynin (1,505), Llanystumdwy (1,452), Morfa Nefyn (880), Nefyn (952), Penrhyndeudraeth (1,718), Dwyrain Porthmadog (1,076), Gorllewin Porthmadog (1,193), Porthmadog-Tremadog (918), Gogledd Pwllheli (1,407), De Pwllheli (1,218), Teigl (1,321), Trawsfynydd (1,070), Tudweiliog (661), a Tywyn (2,358); a,
5. y wardiau etholiadol yn **Vale of Clwyd** CC presennol a Sir Ddinbych, sef Bodelwyddan (1,583), Canol Dinbych (1,567), Dinbych Isaf (3,575), Dinbych Uchaf/Henllan (2,371), Dwyrain Llanelwy (1,375), Gorllewin Llanelwy (1,265), Trefnant (1,496), a Tremeirchion (1,313).

2.2 Byddai gan yr etholaeth hon 76,147 o etholwyr sydd 1.8% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Gogledd Clwyd a Gwynedd**. Yr enw arall a awgrymir yw **North Clwyd and Gwynedd**.


2.3 Gan nad yw'r wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Arfon wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Ynys Môn ac Arfon', a wardiau etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd (ac eithrio'r tair ward, Bala, Llandderfel, a Llanuwchllyn, gweler tudalen 27) i gyd yn yr un ardal prif gyngor, sef Gwynedd, ystyrir bydd yn addas i'w huno i ffurfio etholaeth. Fodd bynnag, ni fyddai digon o etholwyr i ffurfio etholaeth o fewn yr amrediad statudol o hyd. Rhoddwyd ystyriaeth felly i gynnwys ardaloedd cyfagos y gellir eu cynnwys yn briodol yn yr etholaeth hon.

2.4 Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'n briodol i ychwanegu'r wardiau etholiadol o'r de o etholaethau presennol Aberconwy, Clwyd West a Vale of Clwyd. Ystyrir bod y wardiau hyn i gyd yn debyg o ran cysylltiadau cymdeithasol, demograffeg, natur wledig a thopograffeg â wardiau etholiadol eraill yn yr etholaeth arfaethedig.

- 2.5 Yn ystod y broses roedd y Comisiwn yn ystyriol iawn o faint yr etholaeth a fydd, er ei bod yn 2,890km<sup>2</sup> ac yn dra islaw o'r terfyn 13,000km<sup>2</sup> yn y ddeddfwriaeth, yn dal yn etholaeth fawr, eang. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y cynnig yn gyffredinol yn cynnwys ardaloedd gwledig sy'n darparu cyflogaeth amaethyddol, ond sydd hefyd yn ganolfan twristiaeth gyffredin sy'n cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri. Mae cyswllt rheilffordd a ffordd yr A470 sy'n darparu cyswllt da rhwng y gogledd/ de yng ngorllewin yr etholaeth arfaethedig, a'r A453 a ffyrdd eraill tua'r dwyrain.
- 2.6 Oherwydd ehangder mawr yr etholaeth nid ystyriwyd ei bod yn briodol enwi'r holl etholaethau presennol a gynhwysir yn y cynnig. Daeth y Comisiwn i'r casgliad y gallai Gogledd Clwyd fod yn enw priodol ar gyfer rhan ddwyreiniol yr etholaeth, gyda'r rhan orllewinol i gyd yn wardiau ym mhrif gyngor Gwynedd. Oherwydd natur ieithyddol yr ardaloedd dan sylw, penderfynodd y Comisiwn roi enw swyddogol Cymraeg i'r cynnig ac enw arall Saesneg.
- 2.7 Ystyriodd y Comisiwn nifer o drefniadau gwahanol ar gyfer Gogledd Cymru, gan gynnwys addrefnu posibl ar gyfer 'Gogledd Clwyd a Gwynedd' a 'De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn' lle'r oedd yr holl wardiau a oedd yn weddill yn ardal prif gyngor Gwynedd wedi'u cynnwys gyda Gogledd Sir Faldwyn mewn un etholaeth a'r ardaloedd yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Wrecsam wedi'u cyfuno i ffurfio etholaeth arall. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o'r farn, er na fyddai'r etholaethau hyn yn cyfuno gymaint o rannau o brif gynghorau mewn etholaethau gwahanol, efallai na fyddai etholaeth sy'n ymestyn o Benrhyn Llŷn i ffin Lloegr yn dderbyniol i'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.
- 2.8 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Aberconwy** (tudalen 19), **Arfon** (tudalen 13), **Clwyd West** (tudalennau 19 a 27), **Dwyfor Meirionnydd** (tudalen 28) a **Vale of Clwyd** (tudalennau 21 a 27).



Gogledd Clwyd a Gwynedd (North Clwyd and Gwynedd)





Tudalen wag yn fwriadol

### 3. Colwyn and Conwy (Colwyn a Conwy)

#### 3.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Aberconwy CC** presennol a wardiau etholiadol Sir Conwy, sef Bryn (1,349), Capel Ulo (1,179), Conwy (3,227), Craig-y-Don (2,801), Deganwy (3,235), Gogarth (2,829), Llansanffraid (1,807), Marl (3,500), Mostyn (2,751), Pandy (1,433), Pant-yr-afon/Penmaenan (2,119), Penrhyn (3,784), Pensarn (2,075), a Tudno (3,606); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Clwyd West** CC presennol a wardiau etholiadol Sir Conwy, sef Abergele Pensarn (1,905), Colwyn (3,288), Eirias (2,749), Gele (3,784), Glyn (2,935), Bae Cinmel (4,506), Llanddulas (1,323), Llandrillo yn Rhos (6,032), Llysfaen (1,862), Mochdre (1,458), Pentre Mawr (2,747), Rhiw (4,909), a Tywyn (1,842).


3.2 Byddai gan yr etholaeth hon 75,035 o etholwyr sydd 0.4% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Colwyn and Conwy**. Yr enw arall a awgrymir yw **Colwyn a Conwy**.

3.3 Cynigir y byddai'r wardiau etholiadol o'r rhan ogleddol o etholaeth bresennol Aberconwy a'r rhan ogleddol o etholaeth bresennol Clwyd West yn ffurfio etholaeth gyda nifer o etholwyr o fewn yr amrediad statudol. Byddai'n cynnwys cyrchfannau gwyliau arfordir y gogledd, sef Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno, Bae Penrhyn a Llandrillo-yn-Rhos. Mae pob un o'r ardaloedd hyn yn rhan o'r un prif gyngor, yn debyg o ran eu demograffeg, wedi'u cysylltu gan ffordd a rheilffordd ac yn rhannu'r diwydiant twristiaeth fel prif gynheiliaid yr economi leol. Byddai'r cynnig yn creu yr etholaeth fwyaf cydlynol.

3.4 Ystyriwyd, am fod y cynnig yn rhedeg ar hyd baeau Conwy a Cholwyn, a dyma hefyd yw enwau'r hen gynghorau dosbarth, dylai'r enw a awgrymir adlewyrchu'r rhain.

3.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Aberconwy** (tudalen 15) a **Clwyd West** (tudalennau 15 a 27).

Colwyn and Conwy (Colwyn a Conwy)



#### 4. Flint and Rhuddlan (Fflint a Rhuddlan)

##### 4.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Delyn** CC presennol a Sir y Fflint, sef Dwyrain Bagillt (1,420), Gorllewin Bagillt (1,559), Brynffordd (1,702), Caerwys (1,979), Cilcain (1,495), Ffynngroyw (1,409), Castell Y Fflint (1,324), Coleshill Y Fflint (2,914), Oakenholt Y Fflint (2,026), Trelawny Y Fflint (2,645), Maesglas (1,965), Gronant (1,182), Gwernaffield (1,602), Helygain (1,395), Canol Treffynnon (1,389), Dwyrain Treffynnon (1,361), Gorllewin Treffynnon (1,766), Mostyn (1,413), Llaneurgain (2,439), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,451) a Chwitffordd (1,824) ); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Vale of Clwyd** CC presennol a Sir Ddinbych, sef Diserth (1,905), Canol Prestatyn (2,814), Dwyrain Prestatyn (3,219), Prestatyn Allt Melyd (1,572), Gogledd Prestatyn (4,691), De Orllewin Prestatyn (2,848), Rhuddlan (2,851), Dwyrain Y Rhyl (3,684), De Y Rhyl (2,948), De Dwyrain Y Rhyl (6,007), De Orllewin Y Rhyl (3,736) a Gorllewin Y Rhyl (3,367).

4.2 Byddai gan yr etholaeth hon 75,902 o etholwyr sydd 1.5% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Flint and Rhuddlan**. Yr enw arall a awgrymir yw **Fflint a Rhuddlan**.


4.3 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sy'n rhedeg ar hyd arfordir gogledd Cymru hyd at Aber Dyfrdwy, yn cynnwys adrannau etholiadol o'r prif gynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Byddai'r etholaeth arfaethedig yn ymestyn ar hyd coridor yr A55 o Sir y Fflint i Sir Ddinbych. Byddai'n cynnwys y wardiau etholiadol hynny yn etholaeth bresennol Vale of Clwyd nad ydynt wedi'u cynnwys yn etholaethau arfaethedig 'Gogledd Clwyd a Gwynedd' a 'De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn' (gweler tudalennau 15 a 27). Trwy gyfuno'r ardaloedd hyn gellir bodloni'r amrediad etholwyr statudol a gellir creu etholaeth o wardiau etholiadol â nodweddion cymharol debyg ar hyd Aber Dyfrdwy ac i ganol y tir.

4.4 Byddai'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys rhan fawr o ardal bresennol prif gyngor Sir y Fflint a hefyd Cyngor Dosbarth hanesyddol Rhuddlan. Byddai'r Comisiwn felly yn cynnig defnyddio'r ddau deitl wrth enwi'r etholaeth hon.

4.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Delyn** (tudalen 23) a **Vale of Clwyd** (tudalennau 15 a 27).



Flint and Rhuddlan (Fflint a Rhuddlan)



## 5. **Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrydwy)**

### 5.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Alyn and Deeside CC** presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Sir y Fflint, sef Aston (2,440), Gogledd Dwyrain Brychdyn (1,660), De Brychdyn (2,808), Dwyrain Bistre Bwcle (2,596), Gorllewin Bistre Bwcle (3,139), Mynydd Bwcle (2,436), Pentrobin Bwcle (3,956), Caergwrle (1,157), Ewlo (4,171), Canol Cei Conna (2,232), Cei Conna Golftyn (3,662), De Cei Conna (4,357), Cei Conna Gweptra (1,591), Penarlâg (1,549), Kinnerton Uchaf (1,283), Yr Hôb (2,008), Llanfynydd (1,391), Mancot (2,582), Pen-y-ffordd (3,283), Queensferry (1,236), Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug (878), Saltney Stonebridge (2,583), Sealand (1,917), Dwyrain Shotton (1,267), Shotton Uchaf (1,678), Gorllewin Shotton (1,409), a Treuddyn (1,281); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Delyn CC** presennol a Sir y Fflint, sef Argoed (2,130), Gwernymynydd (1,371), Coed Llai (1,543), Broncoed Yr Wyddgrug (1,878), Dwyrain Yr Wyddgrug (1,491), De Yr Wyddgrug (2,155), Gorllewin Yr Wyddgrug (1,965), New Brighton (2,347) a Northop Hall (1,248).

5.2 Byddai gan yr etholaeth hon 76,678 o etholwyr sydd 2.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Alyn and Deeside**. Yr enw arall a awgrymir yw **Alyn a Glannau Dyfrdwy**.


5.3 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth o etholaeth bresennol Alyn and Deeside a wardiau etholiadol o Sir y Fflint. Cynigir y dylai'r wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Delyn nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynnig ar gyfer 'Flint and Rhuddlan' gael eu cynnwys mewn cynnig newydd 'Alyn and Deeside'. Byddai'r rhain yn cynnwys ardaloedd yr Wyddgrug, New Brighton a Northop Hall a byddai'n creu etholaeth a fyddai o fewn yr amrediad etholwyr statudol a byddai'n cynnwys wardiau etholiadol y mae pob un ohonynt o fewn Sir y Fflint.

5.4 Am fod etholaeth bresennol Alyn and Deeside wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr etholaeth, roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol parhau i ddefnyddio'r enw hwnnw fel yr enw arfaethedig.

5.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Delyn** presennol ar dudalen 21.



**Alyn and Deeside (Alyn a Glannau Dyfrdwy)**



## 6. Wrexham Maelor (Wreccsam Maelor)

### 6.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Wrexham** CC presennol a wardiau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, sef Acton (2,141), Parc Borrás (1,941), Brynyffynnon (2,190), Cartrefle (1,547), Erddig (1,437), Garden Village (1,614), Dwyrain a Gorllewin Gresford (2,202), Grosvenor (1,518), Dwyrain a De Gwersyllt (3,599), Gogledd Gwersyllt (1,967), Gorllewin Gwersyllt (2,141), Hermitage (1,549), Holt (2,411), Little Acton (1,812), Llai (3,519), Maesydre (1,402), Merffordd a Hoseley (1,818), Offa (1,383), Queensway (1,436), Rhosnesni (2,838), Yr Orsedd (2,544), Smithfield (1,364), Stansty (1,631), Whitegate (1,590), a Wynnstay (1,267); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Clwyd South CC** presennol a Chyngor Bwrdeistref Wreccsam, sef Bronington (2,540), Brymbo (2,982), Bryn Cefn (1,482), Coedpoeth (3,482), Esclusham (2,023), Gwenfro (1,214), Marchwiall (1,824), Mwynglawdd (1,843), Brychdyn Newydd (2,649), Owrtyn (2,601) a Ponciau (heb wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau, a Rhos o Gymuned Rhosllanerchrugog) (636).

6.2 Byddai gan yr etholaeth hon 72,137 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Wrexham Maelor**. Yr enw arall a awgrymir yw **Wreccsam Maelor**.

6.3 Nid yw nifer yr etholwyr yn etholaeth bresennol Wrexham yn ddigonol i ffurfio etholaeth, felly rhoddwyd ystyriaeth i uno wardiau etholiadol yn yr ardaloedd cyfagos. Ystyriwyd ei bod yn briodol cyfuno etholaeth bresennol Wrexham gyda wardiau etholiadol etholaeth bresennol Clwyd South i'r de a'r gorllewin o Wrexham. Mae'r wardiau etholiadol ychwanegol sydd union gerllaw etholaeth bresennol Wrexham yn ardaloedd preswyl yn bennaf a allai edrych tua Wreccsam fel canolfan gyflogaeth, manwerthu a gweithgareddau cymdeithasol.

6.4 Mae ward etholiadol Ponciau yn cynnwys wardiau Aberoer a Phentrebychan yng Nghymuned Esclusham a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng Nghymuned Rhosllanerchrugog. Mae'r Comisiwn yn cynnig gosod wardiau Aberoer a Phentrebychan yng Nghymuned Esclusham yn etholaeth arfaethedig Wrexham Maelor, gyda gweddill wardiau Cymuned Rhosllanerchrugog yn ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig 'De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn' (gweler tudalen 27).


6.5 Er bod y cynnig hwn yn rhannu ward etholiadol, mae'n galluogi'r Comisiwn i gadw at Reol 2 y ddeddfwriaeth (torri cysylltiadau cymunedol) ond hefyd i roi sylw i ystyriaethau Rheol 5 yn yr etholaeth hon a'r ardaloedd cyfagos.

6.6 Gan fod pob un o'r wardiau etholiadol sy'n rhan o'r cynnig hwn yn cwmpasu ardal debyg i Gyngor Dosbarth blaenorol Wrexham Maelor, mae'r Comisiwn wedi dewis defnyddio'r enw hwn.

6.7 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Clwyd South** presennol ar dudalen 27.



**Wrexham Maelor (Wrecsam Maelor)**



## 7. De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire).

### 7.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y rhannau canlynol o **Clwyd South** CC presennol yn cynnwys:
  - i. Wardiau etholiadol Sir Ddinbych, sef Corwen (1,826), Llandrillo (930) a Llangollen (3,319); a,
  - ii. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef Cefn (3,709); Dyffryn Ceiriog (1,670), Gogledd Y Waun (1,811), De'r Waun (1,549), Johnstown (2,415), Llangollen Wledig (1,578), Pant (1,534), Pen-y-cae (1,479), Pen-y-cae a De Rhiwabon (1,898), Plas Madoc (1,198), Rhiwabon (2,071) a Ponciau (heb wardiau Aberoer a Pentrebychan o Gymuned Esclusham) (2,831);
2. y rhannau canlynol o **Clwyd West** CC presennol yn cynnwys:
  - i. ward etholiadol Bwrdeistref Sirol Conwy, sef Uwchaled (1,124); a,
  - ii. wardiau etholiadol Sir Ddinbych, sef Efenechdyd (1,316), Llanarmon-yn-lâl/Llandegla (1,978), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,218) Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,793), Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,478) a Ruthun (4,372);
3. y wardiau etholiadol yn **Dwyfor Meirionnydd** CC presennol yn cynnwys Sir Gwynedd, sef Y Bala (1,290), Llandderfel (1,090) a Llanuwchllyn (673);
4. y wardiau etholiadol yn **Montgomeryshire** CC presennol a Sir Powys, sef Glantwymyn (1,558), Banwy (746), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/ Llansilin (1,733), Llanbrynmair (742), Llanfair Caereinion (1,227), Llanfihangel (872), Llanwddyn (818), Meifod (1,040), Llandrinio (1,656), Cegidfa (1,799), Castell Y Trallwng (954), Y Trallwng Gungrog (1,772), Y Trallwng Llannerch Hudol (1,652), Trewern (1,054), Llanfyllin (1,147), Llansanffraid (1,511), Machynlleth (1,627) a Llandysilio (1,387); a,
5. y ward etholiadol yn **Vale of Clwyd** CC presennol yn cynnwys Sir Ddinbych, sef Llandyrnog (1,652).

7.2 Byddai gan yr etholaeth hon 71,097 o etholwyr sydd 4.9% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn**. Yr enw arall a awgrymir yw **South Clwyd and North Montgomeryshire**.


7.3 Ystyriwyd bod y wardiau etholiadol a oedd yn weddill o etholaethau presennol Clwyd South, Clwyd West a Vale of Clwyd yn briodol i'w cyfuno mewn etholaeth gan eu bod yn rhannu nodweddion gwledig, economaidd a chymdeithasol tebyg. Fodd bynnag, nid oes nifer ddigonol o etholwyr yn yr ardaloedd hyn i ffurfio etholaeth. Mae angen felly ymestyn y cynnig i'r de i gynnwys wardiau gogleddol etholaeth bresennol Montgomeryshire. Mae wardiau o etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd wedi'u cynnwys hefyd i alluogi mynediad ffordd digonol i bob rhan o'r etholaeth arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai hwn yw'r newid mwyaf aflonyddgar i drefniadau presennol yr holl etholaethau arfaethedig newydd. Mae'r etholaeth arfaethedig yn fawr yn ddaearyddol yn 2,704 km<sup>2</sup>, gan adlewyrchu poblogaeth brin a natur wledig yr ardal.



- 7.4 Mae ward etholiadol Ponciau yn cynnwys wardiau Aberoer a Phentrebychan yng Nghymuned Esclusham a wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng Nghymuned Rhosllanerchrugog. Mae'r Comisiwn yn cynnig gosod wardiau Gogledd Ponciau, De Ponciau a Rhos yng Nghymuned Rhosllanerchrugog yn etholaeth arfaethedig 'De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn' gyda'r wardiau sy'n weddill o Gymuned Esclusham yn ffurfio rhan o etholaeth arfaethedig 'Wrexham Maelor' (gweler tudalen 25).
- 7.5 Er bod y cynnig hwn yn rhannu ward etholiadol, mae'n galluogi'r Comisiwn i gadw at Reol 2 y ddeddfwriaeth (torri cysylltiadau cymunedol) ond hefyd i roi sylw i ystyriaethau Rheol 5 yn yr etholaeth hon a'r ardaloedd cyfagos.
- 7.6 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cadw llawer o wardiau etholiadol o ardal de Clwyd ac yn cyfuno'n bennaf â wardiau etholiadol gogleddol Sir Drefaldwyn. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu ar yr enw i adlewyrchu'r ardaloedd yn yr etholaeth arfaethedig. Gan roi ystyriaeth i briodweddau ieithyddol y rhan fwyaf o'r ardal dan sylw, mae'r Comisiwn wedi penderfynu rhoi enw swyddogol Cymraeg i'r cynnig ac enw arall Saesneg.
- 7.7 Fel y nodwyd yn mharagraff 2.7 uchod, ystyriodd y Comisiwn nifer o drefniadau gwahanol ar gyfer Gogledd Cymru, yn cynnwys ad-drefnu posibl i etholaethau arfaethedig 'Gogledd Clwyd a Gwynedd' a 'De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn' lle cafodd yr holl wardiau a oedd yn weddill yn ardal prif gyngor Gwynedd eu cynnwys gyda Gogledd Sir Faldwyn mewn un etholaeth, a chyfunwyd yr ardaloedd yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Wrecsam i ffurfio etholaeth arall. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o'r farn, er na fyddai'r etholaethau hyn yn cyfuno gymaint o rannau o brif gynghorau mewn etholaethau gwahanol, efallai na fyddai etholaeth sy'n ymestyn o Benrhyn Llŷn i ffin Lloegr yn dderbyniol i'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.
- 7.8 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Clwyd South** (tudalen 25), **Clwyd West** (tudalennau 15 a 19), **Dwyfor Meirionnydd** (tudalen 15), **Montgomeryshire** (tudalennau 31 a 73) a **Vale of Clwyd** (tudalennau 15 a 21).



De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn (South Clwyd and North Montgomeryshire)



Tudalen wag yn fwriadol



## 8. Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesfedyd a Threfaldwyn)

### 8.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Brecon and Radnorshire CC** presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Sir Powys, sef Aber-craf (1,110), Bugeildy (1,099), Bronllys (957), Llanfair-ym-Muallt (1,809), Bwlch (774), Crucywel (2,202), Cwm-twrch (1,486), Dyserth a Threcoed (1,045), Felin-fâch (1,030), Clas-ar-Wy (1,754), Gwernyfed (1,163), Y Gelli (1,137), Trefyclo (2,221), Llanafanfawr (1,103), Llanbadarn Fawr (861), Gogledd Llandrindod (1,417), Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (892), De Llandrindod (1,562), Llanelwedd (951), Llangatwg (749), Llangors (855), Llangynllo (1,025), Llangynidr (821), Llanwrtyd (1,404), Llanllyr (948), Maescar/Llywel (1,354), Nantmel (1,150), Pencraig (1,292), Llanandras (2,129), Rhaeadr Gwy (1,486), St. David Fewnol (1,210), St. John (2,521), St. Mary (1,852), Talgarth (1,241), Cymuned Talgarth (1,469), Tawe-Uchaf (1,680), Ynyscedwyn (1,686), Yscir (848) ac Ystradgynlais (1,980); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Montgomeryshire CC** presennol a Sir Powys, sef Aberriew (1,064), Caersws (1,712), Yr Ystog (1,214), Dolforwyn (1,587), Ffordun (1,083), Ceri (1,563), Llandinam (1,063), Trefaldwyn (1,059), Canol y Drenewydd (2,103), Dwyrain y Drenewydd (1,391), Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn (1,726), Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn (1,361), De y Drenewydd (1,242) a Rhiwcynon (1,674).

8.2 Byddai gan yr etholaeth hon 72,115 o etholwyr sydd 3.5% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Brecon, Radnor and Montgomery**. Yr enw arall a awgrymir yw **Aberhonddu, Maesfedyd a Threfaldwyn**.


8.3 Nid oes gan etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire nifer ddigonol o etholwyr i fodloni'r amrediad statudol. Rhaid i'r Comisiwn felly ystyried rhannau o'r etholaethau cyfagos er mwyn cynyddu nifer yr etholwyr i gyrraedd yr amrediad statudol yn yr ardal hon. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r ateb mwyaf priodol fyddai cynnwys y mwyafrif o wardiau etholiadol deheuol Montgomeryshire presennol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynnig ar gyfer 'De Clwyd a Gogledd Sir Faldwyn', gydag etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire i greu'r etholaeth newydd. Mae'r etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys wardiau o ardal prif gyngor Powys yn unig. Byddai'r etholaeth hon yn 3,624km<sup>2</sup> a'r fwyaf o'r etholaethau arfaethedig yng Nghymru.

8.4 Am fod y cynnig yn cynnwys etholaeth gyfan bresennol Brecon and Radnorshire a thref hanesyddol Trefaldwyn, mae'r Comisiwn o'r farn y dylai'r enw arfaethedig gynnwys y rhain i gyd.

8.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Montgomeryshire CC** presennol ar dudalennau 28 a 73.



**Brecon, Radnor and Montgomery (Aberhonddu, Maesyfed a Threfaldwyn)**





## 9. Monmouthshire (Sir Fynwy)

9.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys wardiau etholiadol:

1. Y wardiau etholiadol yn **Monmouth** CC presennol a Sir Fynwy, sef Caer-went (1,615), Cantref (1,579), Y Castell (1,507), Croesonnen (1,607), Crucornau Fawr (1,691), Devauden (1,174), Dixton gydag Osbaston (1,793), Drybridge (2,423), Goetre Fawr (1,833), Grofield (1,285), Lansdown (1,540), Larkfield (1,475), Llanbadoc (1,014), Bryn Llanelli (3,014), Llanffwyst Fawr (1,616), Llanybi Fawr (1,439), Llanofor (1,717), Llandeilo Gresynni (1,422), Llanwenarth Tu Draw (1,073), Y Maerdy (1,331), Llanfihangel Troddi (953), Overmonnow (1,509), Porth Sgiwed (1,684), Y Priordy (1,437), Rhaglan (1,510), Drewnewydd Gelli-farch (1,754), St. Arvans (1,253), St. Christopher's (1,762), St. Kingsmark (2,226), St. Mary's (1,414), Thornwell (1,860), Tryleg Unedig (2,122), Brynbuga (1,862), a Wyesham (1,644); a,
2. y rhannau canlynol o **Newport East** CC presennol yn cynnwys:
  - i. Wardiau etholiadol Sir Fynwy sef Castell Caldicot (1,736), Dewstow (1,370), Green Lane (1,363), Mill (2,242), Rogiet (1,303), Hafren (1,269), The Elms (2,408), a West End (1,438); a,
  - ii. wardiau etholiadol Dinas a Sir Casnewydd sef Langstone (3,620) a Llan-wern (2,645).

9.2 Byddai gan yr etholaeth hon 74,532 o etholwyr sydd 0.3% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Monmouthshire**. Yr enw arall a awgrymir yw **Sir Fynwy**.


9.3 Mae'r Comisiwn yn cynnig cynnwys y cyfan o brif gyngor Sir Fynwy yn yr etholaeth newydd. Byddai hyn hefyd yn cadw'r mwyafrif o etholaeth bresennol Monmouth a byddai'n cynnwys wardiau etholiadol de Sir Fynwy sydd yn etholaeth bresennol Newport East ar hyn o bryd.

9.4 Fodd bynnag, os yw ffiniau'r prif gyngor â Thorfaen a Chasnewydd i'w parchu, ni fydd digon o etholwyr yn Sir Fynwy i greu etholaeth sydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Langstone a Llan-wern, wardiau etholiadol Dinas Casnewydd sy'n rhan o etholaeth Newport East ar hyn o bryd, yn yr etholaeth hon. Mae'r wardiau etholiadol hyn wedi'u cysylltu â Sir Fynwy gan yr M4, yr A48 a phrif reilffordd. Mae eu cynnwys yn caniatáu i ni ffurfio'r etholaeth gydlynol arfaethedig ac yn caniatáu hefyd i ni greu etholaethau priodol yn yr ardaloedd cyfagos.

9.5 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynrychioli Sir Fynwy gyfan yn yr etholaeth ac ystyriwyd ei bod yn briodol adlewyrchu hyn yn enw'r etholaeth.

9.6 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Monmouth** a **Newport East** ar dudalennau 37 a 35, yn y drefn honno.

AROLWG 2018 ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL  
**Monmouthshire (Sir Fynwy)**



## 10. Newport (Casnewydd)

10.1 Cynigir creu etholaeth fwrdeistrefol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Newport East** BC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Alway (5,427), Beechwood (5,353), Liswerry (7,897), Ringland (5,732), Sain Silian (5,876), a Victoria (4,280); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Newport West** BC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Allt-yr-yn (6,368), Betws (5,275), Y Gaer (6,084), Malpas (5,939), Maerun (4,554), Pilgwenlli (4,067), Shaftesbury (3,548), Stow Hill (2,794), a Parc Tredegar (2,792).

10.2 Byddai gan yr etholaeth hon 75,986 o etholwyr sydd 1.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Newport**. Yr enw arall a awgrymir yw **Casnewydd**.


10.3 Mae'r etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys pob un ond pump o wardiau etholiadol Dinas a Sir Casnewydd. Mae etholaeth arfaethedig Newport yn cynnwys wardiau etholiadol â chysylltiad da, sydd â chymeriad a natur debyg iawn, ac yn galluogi ffurfio etholaethau yn yr ardaloedd cyfagos.

10.4 Gan fod yr etholaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn Dinas a Sir Casnewydd, ystyrir ei bod yn briodol mai Newport ddylai'r enw dewisedig fod.

10.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Newport East** (tudalen 33) a **Newport West** (tudalennau 37 a 43).



Newport (Casnewydd)



1. Parc Tredegar (2,792)
2. Stow Hill (2,794)
3. Victoria (4,280)
4. Shaftesbury (3,548)
5. Sain Silian (5,876)

0 4  
kilomedrau  
Graddfa: 1:76,620

## 11. Torfaen

### 11.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Torfaen** CC presennol a wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Abersychan (5,002), Blaenafon (4,193), Bryn-wern (1,243), Coed Efa (1,792), Cwmynisgoi (979), Fairwater (3,839), Greenmeadow (2,649), Llantarnam (4,099), New Inn (4,773), Panteg (5,585), Pontnewydd (4,370), Pontnewynydd (1,030), Pont-y-pŵl (1,329), St. Cadocs a Phen-y-garn (1,170), Llanfihangel Llantarnam (2,684), Snatchwood (1,535), Trefddyn (2,300), Two Locks (4,525), Cwmbrân (3,739) a Waunfelin (1,726);
2. y wardiau etholiadol yn **Monmouth** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Torfaen, sef Gogledd Croesyceiliog (2,580), De Croesyceiliog (1,420), Gogledd Llanyrafon (1,492), De Llanyrafon (2,099); a,
3. y ward etholiadol yn **Newport West** CC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Caerllion (6,214).

11.2 Byddai gan yr etholaeth hon 72,367 o etholwyr sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Torfaen**. Gan fod Torfaen yn enw a ddefnyddir yn y Gymraeg a'r Saesneg, nid oes enw arall swyddogol wedi'i awgrymu ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon.


11.3 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sy'n cynnwys holl wardiau etholiadol prif gyngor Torfaen. Fodd bynnag, nid yw'r wardiau hyn yn ddigonol ar eu pennau'u hunain i greu etholaeth sydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r ward etholiadol fwyaf priodol i'w chynnwys yn y cynnig hwn yw Caerllion.

11.4 Byddai'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys y cyfan o ardal prif gyngor Torfaen, ac felly mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r enw a awgrymir yn adlewyrchu'r cynnig.

11.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Monmouth** (tudalen 33) a **Newport West** (tudalennau 35 a 43).



AROLWG 2018 ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL  
**Torfaen**



## 12. Blaenau Gwent

### 12.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Blaenau Gwent** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, sef Abertyleri (3,095), Badminton (2,428), Beaufort (2,768), Y Blaenau (3,351), Bryn-mawr (3,826), Cwm (3,168), Cwmtyleri (3,358), Gogledd Glynebwy (3,249), De Glynebwy (2,905), Georgetown (2,942), Llanhilleth (3,324), Nant-y-glo (3,187), Rasa (2,386), Sirhowi (4,125), Six Bells (1,702) a Canol a Gorllewin Tredegar (3,847); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Islwyn** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Argoed (1,910), Y Coed Duon (5,947), Cefn Fforest (2,765), Crymlyn (4,195), Trecelyn (4,611), Pengam (2,571) a Penmaen (4,004).

12.2 Byddai gan yr etholaeth hon 75,664 o etholwyr sydd 1.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Blaenau Gwent**. Gan fod Blaenau Gwent yn enw a ddefnyddir yn y Gymraeg a'r Saesneg, nid oes enw arall swyddogol wedi'i awgrymu ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon.


12.3 Nid yw etholaeth bresennol Blaenau Gwent yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Felly, mae'n angenrheidiol cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r etholaethau cyfagos yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae wardiau etholiadol gogleddol etholaeth bresennol Islwyn wedi'u cysylltu â Blaenau Gwent gan yr A467 a'r A4048 ac maent yn barhad naturiol o'r cymoedd yn yr ardal hon. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r wardiau hyn yn darparu cyswllt naturiol i etholaeth bresennol Blaenau Gwent a'u bod yn fwy priodol na chysylltu ardaloedd i'r gogledd ym Mhowys, i'r dwyrain yn Sir Fynwy neu i'r gorllewin ar draws y cymoedd.

12.4 Gan fod etholaeth bresennol Blaenau Gwent wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr etholaeth, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol parhau i ddefnyddio hynny fel yr enw arfaethedig.

12.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Islwyn** presennol ar dudalennau 41 a 43.



AROLWG 2018 ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL  
**Blaenau Gwent**



### 13. Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni)

#### 13.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Merthyr Tydfil and Rhymney** CC presennol yn cynnwys:
  - i. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Darran (1,760), Moriah (3,031), Tredegar Newydd (3,233), Pontlotyn (1,405), a Twyn Carno (1,655); a,
  - ii. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sef Bedlinog (2,649), Cyfarthfa (4,961), Dowlais (4,736), Gurnos (3,309), Bro Merthyr (2,663), Y Parc (3,176), Penydarren (3,678), Plymouth (3,855), Y Dref (5,580), Treharris (4,831) ac Y Faenor (2,644);
2. y wardiau etholiadol yn **Caerphilly** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Bargoed (4,277), Gilfach (1,481), Hengoed (3,617), Nelson (3,374), St. Cattwg (5,400) ac Ystrad Mynach (3,935): a,
3. y ward etholiadol yn **Islwyn** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Aberbargoed (2,520).

13.2 Byddai gan yr etholaeth hon 77,770 o etholwyr sydd 4% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Merthyr Tydfil and Rhymney**. Yr enw arall a awgrymir yw **Merthyr Tudful a Rhymni**.


13.3 Nid yw etholaeth bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Felly, mae'n angenrheidiol cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r etholaethau cyfagos yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Ystyriwyd bod y wardiau etholiadol yng ngogledd etholaeth bresennol Caerphilly (ac Aberbargoed o etholaeth bresennol Islwyn) yn addas am eu bod wedi'u cysylltu â chwm Rhymni a Merthyr Tudful gan ffyrdd yr A469 a'r A472 ac maent yn barhad naturiol o'r cymoedd yn yr ardal hon. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r wardiau etholiadol hyn yn darparu estyniad naturiol i'r etholaeth bresennol, a'u bod yn fwy priodol na chysylltu ardaloedd i'r gogledd ym Mhowys, neu ar draws y cymoedd i'r dwyrain neu i'r gorllewin.

13.4 Ystyriodd y Comisiwn amryw o enwau ar gyfer yr etholaeth arfaethedig, ond am fod gan bob un o'r wardiau etholiadol ychwanegol sydd i'w cynnwys gysylltiadau cryf â chwm Rhymni, penderfynodd y Comisiwn barhau i ddefnyddio enw'r etholaeth bresennol.

13.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Caerphilly** (tudalen 43) ac **Islwyn** (tudalennau 39 a 43).



**Merthyr Tydfil and Rhymney (Merthyr Tudful a Rhymni)**



## 14. Caerphilly (Caerffili)

### 14.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Caerphilly** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Cwm Aber (4,478), Bedwas, Trethomas a Machen (7,456), Llanbradach (3,133), Morgan Jones (5,153), Penyrheol (8,525), St. James (4,126), a St. Martins (6,203);
2. y wardiau etholiadol yn **Islwyn** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Caerffili, sef Abercarn (3,884), Crosskeys (2,344), Maesycwmmmer (1,607), Pontllanfraith (5,976), Dwyrain Rhisga (4,468), Gorllewin Rhisga (3,795), ac Ynysddu (2,709); a,
3. y wardiau etholiadol yn **Newport West** CC presennol a Dinas a Sir Casnewydd, sef Y Graig (4,723), a Tŷ-du (7,743).

14.2 Byddai gan yr etholaeth hon 76,323 o etholwyr sydd 2.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Caerphilly**. Yr enw arall a awgrymir yw **Caerffili**.


14.3 Nid yw wardiau etholiadol etholaeth bresennol Caerphilly nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynigion ar gyfer 'Merthyr Tydfil and Rhymney' yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Felly, mae'n angenrheidiol cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r etholaethau cyfagos yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae pob un o'r wardiau etholiadol i'r de o etholaeth bresennol Islwyn o fewn prif gyngor Caerffili, a byddent yn wardiau priodol i'w cyfuno gyda wardiau Caerffili. Fodd bynnag, ni fyddai'r ychwanegion yma yn cyrraedd y nifer etholwyr gofynnol o hyd i fodloni'r gofynion statudol. Ystyriwyd y byddai cynnwys dwy ward Y Graig a Ty-du yng ngogledd ddwyrain etholaeth bresennol Newport West yn galluogi'r cynnig i fodloni'r amrediad statudol. Mae'r ddwy ward hon ar ochr ogleddol traffordd yr M4 ac yn cydweddu â'r etholaeth arfaethedig hon, yn adeiladu ar gysylltiadau lleol presennol ac yn defnyddio llawer o'r cysylltiadau cyfathrebu da trwy gydol y cynnig.

14.4 Gan fod y dref a mwyafrif y wardiau yn yr etholaeth arfaethedig ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, penderfynodd y Comisiwn barhau i ddefnyddio'r enw hwnnw fel yr enw arfaethedig i'r etholaeth.

14.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Caerphilly** (tudalen 41), **Islwyn** (tudalennau 39 a 41) a **Newport West** (tudalennau 35 a 37).



Caerphilly (Caerffili)





## 15. Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd)

### 15.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. y cyfan o **Cynon Valley** CC presennol a wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Gogledd Aberaman (3,571), De Aberaman (3,261), Abercynon (4,288), Dwyrain Aberdâr (4,772), Gorllewin Aberdâr/Llwyd-coed (7,036), Cilfynydd (1,998), Cwmbach (3,467), Glyncoch (2,039), Hirwaun (3,076), Dwyrain Aberpennar (2,086), Gorllewin Aberpennar (3,046), Penrhiw-ceibr (4,013), Pen-y-waun (1,993), Y Rhigos (1,337) ac Ynysybwl (3,422); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Pontypridd** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Pentre'r Eglwys (3,469), Graig (1,455), Y Ddraenen Wen (2,869), Llanilltud Faerdre (4,593), Tref Pontypridd (2,141), Rhondda (3,364), Canol Rhydfelen/ Ilan (2,924), Ton-Teg (3,170), Trallwng (2,770) a Trefforest (1,845).


15.2 Byddai gan yr etholaeth hon 78,005 o etholwyr sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Cynon Valley and Pontypridd**. Yr enw arall a awgrymir yw **Cwm Cynon a Phontypridd**.

15.3 Nid yw etholaeth bresennol Cynon Valley yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Felly, mae'n angenrheidiol cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r etholaethau cyfagos yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae wardiau etholiadol dwyreiniol etholaeth bresennol Pontypridd wedi'u cysylltu â chwm Cynon gan yr A470 a'r A4059 ac maent yn barhad naturiol o'r cymoedd yn yr ardal hon. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r wardiau hyn yn darparu ychwanegion addas i'r etholaeth bresennol yng nghwm Cynon, ac maent yn fwy priodol na chysylltu ardaloedd ym Mhowys i'r gogledd neu ar draws y cymoedd i'r dwyrain neu'r gorllewin.

15.4 Byddai'r etholaeth arfaethedig yn cadw etholaeth bresennol Cynon Valley a byddent wedyn yn ymestyn i'r de i Pontypridd a'r wardiau etholiadol cyfagos eraill. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r enw arfaethedig yn adlewyrchu etholaeth bresennol Cynon Valley yn ogystal â chynrychioli'r ardal sydd wedi'i chyfuno i gyflawni'r amrediad statudol.

15.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Pontypridd** presennol ar dudalennau 47 a 51.

**Cynon Valley and Pontypridd (Cwm Cynon a Phontypridd)**





## 16. Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant)

### 16.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Rhondda** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Cwm Clydach (1,975), Cymer (3,905), Glyn Rhedyn (3,040), Llwyn-y-pia (1,644), Y Maerdy (2,244), Pentre (3,722), Pen-y-graig (3,879), Y Porth (4,280), Tonypandy (2,618), Trealaw (2,803), Treherbert (4,035), Treorci (5,545), Tylorstown (2,895), Ynyshir (2,372) ac Ystrad (4,204); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Pontypridd** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Beddau (3,090), Tref Llantrisant (3,590), Pont-y-clun (5,888), Tonysguboriau (1,936), Dwyrain Tonyrefail (4,215), Gorllewin Tonyrefail (4,620) a Tyn-y-nant (2,465).


16.2 Byddai gan yr etholaeth hon 74,965 o etholwyr sydd 0.3% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Rhondda and Llantrisant**. Yr enw arall a awgrymir yw **Rhondda a Llantrisant**.

16.3 Nid yw etholaeth bresennol Rhondda yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Felly, mae'n angenrheidiol cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r etholaethau cyfagos yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae wardiau etholiadol gorllewinol etholaeth bresennol Pontypridd wedi'u cysylltu â'r Rhondda gan yr A4119, ac maent yn barhad naturiol o'r cymoedd yn yr ardal hon gan eu bod yn rhannu cymeriad a demograffeg. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r wardiau hyn yn darparu ychwanegion addas i'r etholaeth bresennol Rhondda, ac maent yn fwy priodol na chysylltu ardaloedd i'r gogledd ym Mhowys neu ar draws y cymoedd i'r dwyrain neu'r gorllewin.

16.4 Byddai'r etholaeth arfaethedig yn cadw etholaeth bresennol Rhondda ac yn ymestyn i'r de-orllewin i Lantrisant a'i wardiau etholiadol cyfagos eraill. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r enw arfaethedig yn adlewyrchu etholaeth bresennol Rhondda yn ogystal â chynrychioli'r ardal sydd wedi'i chyfuno i gyflawni'r amrediad statudol.

16.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Pontypridd** presennol ar dudalennau 45 a 51.

AROLWG 2018 ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL  
**Rhondda and Llantrisant (Rhondda a Llantrisant)**



1. Llwyn-y-pia (1,644)
2. Beddau (3,090)
3. Tyn-y-nant (2,465)



**17. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)**

17.1 Cynigir creu etholaeth fwrdeistrefol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Cardiff West** BC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Dinas a Sir Caerdydd, sef Caerau (7,480), Treganna (10,371), Creigiau/Sain Ffagan (3,888), Trelai (9,449), Y Tyllgoed (9,338), Llandaf (6,828), Pentyrch (2,752), Radyr (5,146) a Riverside (8,640); a,
2. y ward etholiadol yn **Cardiff South and Penarth** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Grangetown (11,671).

17.2 Byddai gan yr etholaeth hon 75,563 o etholwyr sydd 1.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Cardiff West**. Yr enw arall a awgrymir yw **Gorllewin Caerdydd**.


17.3 Er mwyn cael y nifer ofynnol o etholwyr i fodloni'r amrediad etholwyr statudol, mae'r Comisiwn yn cynnig ychwanegu un ward etholiadol ar etholaeth bresennol Cardiff West. Mae'r Comisiwn o'r farn mai Grangetown yw'r ward etholiadol fwyaf priodol i'w hychwanegu at yr etholaeth gan ei bod hefyd yn rhan o Ddinas a Sir Caerdydd ac o gymeriad tebyg. Mae ganddi gysylltiadau da â'r wardiau etholiadol cyfagos, a bydd yn creu etholaeth yng Nghaerdydd sy'n gyfan gwbl i'r de a'r gorllewin o Afon Taf. Byddai'r cynnig yn creu etholaeth gydlynol.

17.4 Gan fod etholaeth bresennol Cardiff West wedi'i chynnwys yn y cynnig hwn a bod ward etholiadol Grangetown hefyd i'r gorllewin o Afon Taf, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i barhau i ddefnyddio'r enw Cardiff West.

17.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Cardiff South and Penarth** presennol ar dudalennau 53 a 55.



AROLWG 2018 ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL  
Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)





## 18. Cardiff North (Gogledd Caerdydd)

18.1 Cynigir creu etholaeth fwrdeistrefol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Cardiff Central** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Cyncoed (8,139) a Pentwyn (10,435);
2. y wardiau etholiadol yn **Cardiff North** BC presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Gabalfa (4,045), Y Mynydd Bychan (9,326), Llysfaen (2,871), Ystum Taf (5,722), Llanisien (12,916), Rhiwbeina (9,129), Yr Eglwys Newydd a Tongwynlais (12,673)); a,
3. y ward etholiadol yn **Pontypridd** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Ffynnon Taf (2,758).

18.2 Byddai gan yr etholaeth hon 78,014 o etholwyr sydd 4.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Cardiff North**. Yr enw arall yw **Gogledd Caerdydd**.


18.3 Mae'r Comisiwn o'r farn fod y wardiau etholiadol hynny sydd yn rhannau o'r etholaethau presennol Cardiff North a Cardiff Central ar hyn o bryd yn creu cydweddiad priodol pan gânt eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon. Fodd bynnag, nid yw'r wardiau hyn ar eu pennau'u hunain yn darparu digon o etholwyr i ffurfio etholaeth o fewn yr amrediad etholwyr statudol, felly mae'r Comisiwn yn cynnig cynnwys ward etholiadol arall o etholaeth bresennol Pontypridd, Ffynnon Taf, sydd union gerllaw ward Yr Eglwys Newydd a Tongwynlais yng Nghaerdydd ac sydd â chysylltiadau cyfathrebu da â gogledd Caerdydd gan gefnffordd yr A470 a rheilffordd y Cymoedd.

18.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys nifer fawr o wardiau etholiadol o Cardiff North presennol, a Ffynnon Taf sydd i'r gogledd o'r etholaeth honno. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai Cardiff North yn dal yn enw priodol ar gyfer yr etholaeth newydd hon.

18.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Cardiff Central** (tudalen 53), **Cardiff North** (tudalen 53) a **Pontypridd** (tudalennau 45 a 47).



Cardiff North (Gogledd Caerdydd)





## 19. Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd)

19.1 Cynigir creu etholaeth fwrdeistrefol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Cardiff Central BC** presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Adamsdown (5,044), Cathays (7,176), Penylan (9,188), Plasnewydd (9,421);
2. y ward etholiadol yn **Cardiff North BC** presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Pontprennau/Yr Hen Laneirwg (6,976); a,
3. y wardiau etholiadol yn **Cardiff South and Penarth BC** presennol a Dinas a Sir Caerdydd, sef Butetown (6,524), Llanrhymni (7,387), Tredelerch (6,304), Y Sblot (8,454) a Trowbridge (10,585).

19.2 Byddai gan yr etholaeth hon 77,059 o etholwyr sydd 3.1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Cardiff South and East**. Yr enw arall a awgrymir yw **De a Dwyrain Caerdydd**.


19.3 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth newydd o rannau o etholaethau presennol Cardiff Central, Cardiff North, a Cardiff South and Penarth. Ystyriwyd bod hyn yn briodol er mwyn cyflawni'r amrediad statudol gan fod pob un o'r wardiau etholiadol sy'n ffurfio cynnig cydlynol wedi'u cynnwys ym mhrif gyngor Dinas a Sir Caerdydd, maent yn debyg o ran demograffeg ac maent o'r un cymeriad â chysylltiadau da.

19.4 Er bod hyn yn wriad sylweddol o'r etholaethau presennol yn y rhan hon o Gaerdydd, mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn darparu trefniant priodol ar gyfer yr etholaeth hon a'r etholaethau yn yr ardal gyfagos.

19.5 Mae'r enw y mae'r Comisiwn wedi'i ddewis yn adlewyrchu ehangder daearyddol y cynnig, ac yn cyfateb i'r enwau ar gyfer y ddwy etholaeth arall yng Nghaerdydd.

19.6 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Cardiff Central** (tudalen 51), **Cardiff North** (tudalen 51) a **Cardiff South and Penarth** (tudalen 55).

# Cardiff South and East (De a Dwyrain Caerdydd)





## 20. Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg)

20.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Cardiff South and Penarth** BC presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Cornerswell (3,885), Llandochau (1,454), Plymouth (4,419), St. Augustine's (4,913), Stanwell (3,178) Y Sili (3,531); a,
2. Y wardiau etholiadol yn **Vale of Glamorgan** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Baruc (4,636), Buttrills (4,175), Cadoc (6,842), Castleland (3,096), Y Cwrt (3,031), Y Bont-faen (4,997), Dinas Powys (6,139), Dyfan (3,983), Gibbonsdown (3,646), Illtyd (5,951), Llanbedr-y-fro (1,828), Y Rhws (5,158), a Gwenfô (2,122).

20.2 Byddai gan yr etholaeth hon 76,984 o etholwyr sydd 3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Vale of Glamorgan East**. Yr enw arall yw **Dwyrain Bro Morgannwg**.


20.3 Mae etholaeth bresennol Vale of Glamorgan yn etholaeth yng Nghymru y mae nifer bresennol ei hetholwyr gerllaw'r amrediad statudol. Fodd bynnag, er mwyn creu etholaethau yn Ne Cymru sy'n gydlynol, ac sydd, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn cadw etholaethau nad ydynt yn croesi ffiniau prif gynghorau lle nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd, neu'n creu etholaethau â nodweddion daearyddol sylweddol a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn rhwystr rhag creu etholaeth, mae'r Comisiwn yn cynnig rhannu Vale of Glamorgan. Er y byddai'r trefniant hwn yn gweld etholaeth bresennol Vale of Glamorgan yn cael ei rhannu'n ddau, byddai'r etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys wardiau etholiadol y mae pob un ohonynt yn rhan o brif gyngor Bro Morgannwg.

20.4 Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai manteision yr etholaeth arfaethedig yn gorbwysu'r buddion o gadw etholaethau presennol Vale of Glamorgan a Cardiff South and Penarth. Un o'r prif resymau dros hyn yw y bydd etholaethau arfaethedig Caerdydd yn cael eu cadw o fewn prif awdurdod Caerdydd yn awr. Mae hyn, yn ei dro, yn galluogi ffurfio etholaethau eraill yng Nghymoedd De Cymru i redeg mewn cyfeiriad gogledd-deheuol naturiol, yn hytrach na chreu etholaethau sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, gan groesi'r cymoedd. Byddai'r trefniant arfaethedig hwn hefyd yn gweld tair prif ganolfan poblogaeth Bro Morgannwg yn cael eu cadw o fewn rhaniad dwyreiniol etholaeth bresennol Vale of Glamorgan.

20.5 Byddai'r cynnig yn gweld etholaeth Vale of Glamorgan yn cael ei rhannu yn ddwy, gyda'r wardiau etholiadol i'r dwyrain o'r rhaniad wedi'u cyfuno fel un etholaeth, ac felly mae'r Comisiwn o'r farn fod hwn yn awgrym priodol i adlewyrchu hynny.

20.6 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Cardiff South and Penarth** a **Vale of Glamorgan** presennol ar dudalennau 53 a 57, yn y drefn honno.

Vale of Glamorgan East (Dwyrain Bro Morgannwg)





## 21. Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg)

### 21.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Bridgend** CC presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Bracla (7,934), Bryntirion, Trelaes a Merthyr Mawr (6,305), Cefn Glas (1,237), Coety (1,708), Corneli (5,101), Llangrallo Isaf (1,131), Litchard (1,715), Llangewydd and Brynhyfryd (1,831), Morfa (3,080), Y Castellnewydd (4,010), Newton (2,901), Notais (2,750), Yr Hengastell (3,530), Pendre (1,321), Pen-y-fai (1,828), Canol Dwyrain Porthcawl (2,518), Canol Gorllewin Porthcawl (2,775), Y Pil (5,331) Rest Bay (1,926); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Vale of Glamorgan CC** presennol a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef Llandw/Ewenni (2,061), Llanilltud Fawr (7,502), Sain Tathan (2,412) a Saint-y-Brid (2,097).

21.2 Byddai gan yr etholaeth hon 73,004 o etholwyr sydd 2.4% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Bridgend and Vale of Glamorgan West**. Yr enw arall a awgrymir yw **Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg**.


21.3 Nid yw etholaeth bresennol Bridgend yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Felly, mae'n angenrheidiol cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r etholaethau cyfagos yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae etholaeth bresennol Bridgend yn cynnwys prif ardal tref Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â'r cyrchfan twristiaid, Porthcawl. Ceir elfen dwristiaeth debyg yng ngorllewin y Fro hefyd, ac felly mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno Bridgend gyda gorllewin Vale of Glamorgan i gyrraedd yr amrediad statudol.

21.4 Fel y nodwyd uchod, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai manteision yr etholaeth arfaethedig yn gorbwysu'r buddion o gadw etholaeth bresennol Vale of Glamorgan. Un o'r prif resymau dros hyn yw y bydd etholaethau arfaethedig Caerdydd yn cael eu cadw o fewn prif awdurdod Caerdydd yn awr. Mae hyn, yn ei dro, yn galluogi ffurfio etholaethau eraill yng Nghymoedd De Cymru i redeg mewn cyfeiriad gogledd-deheuol naturiol, yn hytrach na chreu etholaethau sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, gan groesi'r cymoedd.


21.5 Gan fod y cyfan o etholaeth bresennol Bridgend wedi'i chynnwys yn y cynnig, roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cadw'r enw hwnnw ac ychwanegu'r rhan honno o Vale of Glamorgan i'r gorllewin o'r sir at yr enw a awgrymir.

21.6 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaeth bresennol **Vale of Glamorgan** ar dudalen 55.

**Bridgend and Vale of Glamorgan West (Pen-y-bont a Gorllewin Bro Morgannwg)**



1. Bryntrion, Trelaes a Merthyr Mawr (6,305)
2. Y Castellnewydd (4,010)
3. Langewydd and Brynhyfyd (1,831)
4. Cefn Glas (1,237)
5. Pendre (1,321)
6. Morfa (3,080)





## 22. Ogmored and Port Talbot (Ogwr a Phort Talbot)

22.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Ogmore** CC presennol yn cynnwys:

- i. Wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sef Abercynffig (1,692), Betws (1,536), Melin Ifan Du (1,870), Blaengarw (1,260), Bryncethin (995), Bryncoch (1,652), Caerau (4,593), Cefn Cribwr (1,088), Felindre (2,046), Hendre (2,985), Llangeinor (846), Llangynwyd (2,330), Dwyrain Maesteg (3,536), Gorllewin Maesteg (4,185), Nant-y-Moel (1,657), Bro Ogwr (2,193), Penprysg (2,337), Pontycymer (1,648), Sarn (1,748) ac Ynysawdre (2,555); a
- ii. wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Brynna (3,264), Gilfach Goch (2,411) Llanharan (2,610) a Llanhari (2,940); a,

2. y wardiau etholiadol yn **Aberavon** CC presennol a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Bryn a Chwmafan (5,018), Y Cymer (2,015), Glyncorwg (792), Gwynfi (895), Margam (2,197), Port Talbot (4,052), a Thai-bach (3,557).


22.2 Byddai gan yr etholaeth hon 72,503 o etholwyr sydd 3% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Ogmore and Port Talbot**. Yr enw arall a awgrymir yw **Ogwr a Phort Talbot**.

22.3 Byddai angen nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol ar etholaeth bresennol Ogmored i ffurfio etholaeth o fewn yr amrediad statudol. Ystyriodd y Comisiwn sawl opsiwn a phenderfynodd ei bod yn fwyaf briodol i gyfuno etholaeth Ogmored gyda wardiau etholiadol dwyreiniol etholaeth bresennol Aberavon. Roedd hwn i weld yn gyfuniad priodol am y byddai etholaeth bresennol Bridgend yn ffurfio etholaeth synhwyrol yng ngorllewin Bro Morgannwg a wardiau etholiadol eraill Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gan alluogi'r ddwy ardal i ffurfio etholaethau cydlynol.

22.4 Byddai'r etholaeth arfaethedig yn cadw etholaeth bresennol Ogmored a byddai wedyn yn ymestyn i'r gorllewin i Port Talbot a'i wardiau etholiadol cyfagos. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r enw arfaethedig yn adlewyrchu etholaeth bresennol Ogmored yn ogystal â chynnwys yr ardal sydd wedi'i chyfuno i gyflawni'r amrediad statudol.

22.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Aberavon** presennol ar dudalennau 61 a 63.

Ogmore and Port Talbot (Ogwr a Phort Talbot)





## 23. Neath and Aberavon (Castell-nedd ac Aberafon)

### 23.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Aberavon CC** presennol a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef of Aberafan (3,887), Baglan (5,128), Dwyrain Llansawel (2,119), Gorllewin Llansawel (1,977), Dwyrain Sandfields (4,850) Gorllewin Sandfields (4,745); a,
2. y cyfan o **Neath CC** presennol yn cynnwys wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Aberdulais (1,662), Yr Allt-wen (1,903), Blaen-gwrach (1,458), Gogledd Bryn-côch (1,762), De Bryn-côch (4,409), Llangatwg (1,353), Cimla (3,043), Y Creunant (1,500), Cwmllynfell (894), Dyffryn (2,354), Glyn-nedd (2,578), Godre'r graig (1,452), Gwauncaegurwen (2,171), Brynaman Isaf (1,014), Dwyrain Castell-nedd (4,298), Gogledd Castell-nedd (2,872), De Castell-nedd (3,513), Onllwyn (900), Pelenna (863), Pontardawe (3,936), Resolfen (2,323), Rhos (1,940), Blaendulais (1,527), Tonna (1,885), Trebannws (1,016) ac Ystalyfera (2,065).


23.2 Byddai gan yr etholaeth hon 77,397 o etholwyr sydd 3.5% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Neath and Aberavon**. Yr enw arall a awgrymir yw **Castell-nedd ac Aberafon**.

23.3 Nid yw etholaeth bresennol Neath yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Felly, mae'n angenrheidiol cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r etholaethau cyfagos yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn ystyried byddai'r wardiau etholiadol yn etholaeth bresennol Aberavon, yn cynnwys ardaloedd Aberafon, Baglan, Llansawel a Sandfields yn briodol i gyrraedd yr amrediad statudol heb groesi ffin prif gyngor. Mae'r ardaloedd yn debyg o ran cymeriad a demograffeg i'r rheiny sydd wedi'u cynnwys yn barod, ac, fel rhan o ardal drefol Castell-nedd Port Talbot, mae ganddynt gysylltiadau da ac maent yn ffurfio etholaeth gydlynol.

23.4 Mae'r cynnig yn cynnwys y cyfan o etholaeth bresennol Neath ynghyd â thref Aberavon sydd yn enw'r etholaeth ar hyn o bryd. Roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynnwys y ddau enw hyn yn yr etholaeth arfaethedig.

23.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol **Aberavon** presennol ar dudalennau 59 a 63.

AROLWG 2018 ADRODDIAD CYNIGION CYCHWYNNOL  
**Neath and Aberavon (Castell-nedd ac Aberafon)**



## 24. Swansea East (Dwyrain Abertawe)

### 24.1 Cynigir creu etholaeth fwrdeistrefol yn cynnwys:

1. Y cyfan o **Swansea East BC** presennol a wardiau etholiadol Dinas a Sir Abertawe, sef Bôn-y-maen (4,697), Cwmbwrla (5,337), Glandwr (4,472), Llansamlet (10,408), Treforys (11,532), Mynydd-bach (6,429), Penderi (7,146) St. Thomas (5,020);
2. y wardiau etholiadol yn **Aberavon CC** presennol a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef Coed-ffranc Ganol (2,733), Gogledd Coed-ffranc (1,752), a Gorllewin Coed-ffranc (2,629);
3. y ward etholiadol yn **Gower CC** presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Clydach (5,525); a,
4. y ward etholiadol yn **Swansea West BC** presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Y Castell (8,834).

24.2 Byddai gan yr etholaeth hon 76,514 o etholwyr sydd 2.3% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Swansea East**. Yr enw arall a awgrymir yw **Dwyrain Abertawe**.


24.3 Mae etholaeth bresennol Swansea East yn disgyn o dan isafswm yr amrediad statudol. Er mwyn ffurfio etholaeth a fyddai'n bodloni meini prawf eraill, yn yr etholaeth arfaethedig ac mewn ardaloedd cyfagos, mae angen edrych ar wardiau etholiadol o etholaethau cyfagos. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai ychwanegu wardiau Y Castell a Clydach yn Ninas Abertawe yn briodol i ffurfio etholaeth gydlynol mewn ardal drefol â chysylltiadau da, sydd â chysylltiadau cymunedol agos. Yn ogystal, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai ychwanegu tair ward Coed-ffranc o Aberavon yn briodol am ei fod yn cynnwys rhannau o'r campws newydd ar gyfer Prifysgol Abertawe a gynhwysir yn Swansea East. Mae'r etholaeth arfaethedig wedi'i chysylltu gan gysylltiadau ffordd a rheilffordd helaeth.

24.4 Mae'r cynnig yn cynnwys y cyfan o etholaeth bresennol Swansea East a bydd yn parhau i adlewyrchu hyn hyd yn oed gydag ychwanegu'r wardiau pellach. Ystyriwyd felly ei bod yn briodol cadw'r enw hwn.

24.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Aberavon** (tudalennau 59 a 61), **Gower** (tudalennau 65 a 67) a **Swansea West** (tudalen 65).



Swansea East (Dwyrain Abertawe)



1. Mynydd-bach (6,429)
2. Cwmbwria (5,337)
3. Glandwr (4,472)



**25. Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)**

25.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y wardiau etholiadol yn **Gower CC** presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Llandeilo Ferwallt (2,610), Fairwood (2,218), Gŵyr (2,828), Tre-gŵyr (3,862), Pontybrenin (3,299), Llwchwr Isaf (1,734), Newton (2,687), Ystumllwynarth (3,151), Penclawdd (2,852), Pennard (2,175), Llwchwr Uchaf (2,092), West Cross (5,023); a,
2. y wardiau etholiadol yn **Swansea West** BC presennol a Dinas a Sir Abertawe, sef Cocyd (10,125) Dynfant (3,353) Gogledd Cilâ (1,892), De Cilâ (1,846), Mayals (2,060), Sgeti (10,294) Townhill (5,617) ac Uplands (8,155).

25.2 Byddai gan yr etholaeth hon 77,873 o etholwyr sydd 4.2% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Gower and Swansea West**. Yr enw arall a awgrymir yw **Gŵyr a Gorllewin Abertawe**.


25.3 Nid yw etholaeth bresennol Swansea West yn bodloni'r gofynion statudol o ran nifer yr etholwyr. Mae trosglwyddo ward Y Castell i'r cynnig ar gyfer 'Swansea East' yn gwaethygu'r sefyllfa. Felly, mae'n angenrheidiol cynnwys nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r etholaethau cyfagos yn yr etholaeth newydd arfaethedig. Mae cysylltiadau da rhwng y wardiau etholiadol i'r de o etholaeth bresennol Gower â Swansea West, ac maent yn barhad naturiol o etholaeth yn yr ardal hon.

25.4 Mae gan yr etholaeth newydd hon y fantais ei bod yn cynnwys wardiau etholiadol â chysylltiadau da yn gyfan gwbl, ac mae pob un ohonynt yn rhan o brif gyngor Dinas a Sir Abertawe. Hefyd, mae hyn yn cael gwared â'r anghysondeb yn yr etholaethau presennol, lle'r oedd Cymuned Y Mwmbwls wedi'i rhannu gyda Newtown, Ystumllwynarth a West Cross yn etholaeth Gower a ward etholiadol Mayals yn Swansea West. Daw'r cynnig newydd hwn â Chymuned Y Mwmbwls at ei gilydd mewn un etholaeth gydlynol.

25.5 Mae'r mwyafrif o etholaeth bresennol Swansea West wedi'i chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon ac mae'n ymestyn allan i benrhyn Gŵyr. Ystyriwyd felly ei bod yn briodol i enwi'r etholaeth gan adlewyrchu'r elfennau hyn.

25.6 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol yr etholaethau presennol ar y tudalennau canlynol: **Gower** (tudalennau 63 a 67) a **Swansea West** (tudalen 63).

Gower and Swansea West (Gŵyr a Gorllewin Abertawe)



## 26. Llanelli and Lliw (Llanelli a Lliw)

### 26.1 Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

1. Y cyfan o etholaeth bresennol **Llanelli** CC yn cynnwys wardiau etholiadol Sir Gaerfyrddin, sef Bigyn (4,439), Porth Tywyn (3,200), Y Bynie (2,985), Dafen (2,368), Elli (2,216), Felinfoel (1,343), Glanymor (3,833), Glyn (1,630), Yr Hendy (2,381), Hengoed (2,798), Cydweli (2,705), Llangennech (3,699), Llannon (3,817), Lliedi (3,625), Llwynhendy (2,974), Pembre (3,232), Pontyberem (2,074), Swiss Valley (2,041), Trimsaran (1,828), Tycroes (1,756) Tyisha (2,258); a,
